

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

10/06/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Rôl 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi](#)
[Statement: The Role of 'Vibrant and Viable Places' in Addressing the Tackling Poverty Agenda](#)

[Datganiad: Trechu Tlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni](#)
[Statement: Tackling Fuel Poverty through Energy Efficiency](#)

[Datganiad: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol](#)
[Statement: A National Model of Professional Learning](#)

[Gwella Iechyd Meddwl](#)
[Improving Mental Health](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Dirprwy Lywydd
(David Melding) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Deputy Presiding
Officer (David Melding) in the Chair.*

13:30 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Trefn. Order.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

The National Assembly is in session.

Dyma ddechrau trafodion y Cynulliad Cenedlaethol

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Cynnal y Gymraeg fel Iaith Fyw

Sustaining Welsh as a Living Language

13:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
*1. Pa gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i
gynnal y Gymraeg fel iaith fyw yng ngorllewin Cymru?
OAQ(4)1712(FM)*

*1. What support is the Welsh Government providing to
sustain Welsh as a living language in west Wales?
OAQ(4)1712(FM)*

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

13:30 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu ystod o
weithgarwch i gynnal y defnydd o'r Gymraeg yn siroedd y
gorllewin a mannau eraill. Byddaf yn cyflwyno datganiad
polisi i'r Cynulliad yn y dyfodol agos, a fydd yn cynnig sail
gweithredu cadarn dros y cyfnod nesaf.

The Welsh Government undertakes a wide range of
activities to sustain the use of Welsh in west Wales and
elsewhere. I will present a policy statement to the National
Assembly in the near future that will offer a firm foundation
for activity in the period ahead.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

- 13:30 **Elin Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Brif Weinidog, roedd adroddiad Rhodri Llwyd Morgan i chi yn nodi pwysigrwydd canolfannau twf i gryfhau'r economi yn yr ardaloedd Cymraeg yn y gorllewin, ac yn nodi Caerfyrddin, Aberystwyth a Chaernarfon-Bangor fel y tair ardal hynny. Mae rhai o'r ardaloedd yma wedi derbyn rhaglenni o fuddsoddiad gan Lywodraeth yn y gorffennol ac mae'r rhaglenni hynny wedi dod i ben erbyn hyn. Sut ydych yn bwriadu ymateb i syniad Rhodri Llwyd Morgan, ac a ydych yn cytuno â mi ei bod yn bryd 'nawr rhoi rhaglen o fuddsoddiad economaidd ar waith ar gyfer hybu tair canolfan twf fel y rhain, er lles yr economi yn y gorllewin, ac er lles tymor hir bywyd yr iaith Gymraeg?
- First Minister, the report by Rhodri Llwyd Morgan to you noted the importance of growth areas to strengthen the economy in Welsh-speaking areas in the west, and noted Carmarthen, Aberystwyth and Caernarfon-Bangor as those three areas. Some of these areas have seen investment by the Government in the past, but those programmes of investment have now come to an end. How do you intend to respond to Rhodri Llwyd Morgan's idea, and do you agree with me that it is now time to put a programme of investment in place to promote three growth centres such as these, for the benefit of the economy in west Wales and for the long-term good of the Welsh language?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae'r syniad yn un diddorol ac yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Fodd bynnag, fel y dywedais yn gynharach wrth yr Aelod, bydd datganiad polisi yn y dyfodol agos iawn. Nod y datganiad hwnnw yw sicrhau bod y datganiad yn un sydd â chig ar yr asgwrn.
- It is an interesting idea and we are considering it at the moment. However, as I told the Member earlier, there will be a policy statement in the very near future. The aim of that statement is to ensure that the statement has meat on the bones.
- 13:31 **Rebecca Evans** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Sut mae Llywodraeth Cymru yn helpu oedolion sydd eisiau dysgu Cymraeg yng ngorllewin Cymru?
- How is the Welsh Government helping adults who want to learn Welsh in west Wales?
- 13:31 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Rydym yn ariannu datblygiad y ddarpariaeth Gymraeg i oedolion drwy Gymru. Rydym wedi buddsoddi £9 miliwn yn flynyddol ar gyfer y ddarpariaeth Gymraeg i oedolion, ac mae tua 18,000 o ddysgwyr yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion bob blwyddyn yng Nghymru.
- We fund the development of provision of Welsh for adults throughout Wales. We have invested £9 million annually for the provision of Welsh for adults and about 18,000 adults attend Welsh language classes each year across Wales.
- 13:32 **Paul Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yn adroddiad Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd ar fentrau iaith, un o'r argymhellion oedd sicrhau, drwy gyfrwng safonau'r iaith Gymraeg, fod yr awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r mentrau. Yn yr amgylchiadau, a allwch ddweud wrthym, Brif Weinidog, sut rydych chi fel Llywodraeth yn sicrhau hyn, a sut fyddwch yn parhau i wneud hyn os bydd ffiniau'r siroedd yn newid yn y dyfodol?
- In the report by the School of Welsh at Cardiff University on the 'mentrau iaith', one of the recommendations was to ensure, through the Welsh language standards, that the local authorities work in partnership with the 'mentrau iaith'. Given the circumstances, can you tell us, First Minister, how you as a Government are ensuring that this happens, and how will you continue to do this if the county boundaries change in future?
- 13:32 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Mae hyn yn rhywbeth sydd wedi cael ei ystyried yn ystod edrych ar y datganiad polisi. Beth sy'n bwysig dros ben i'w sicrhau yw nad yw awdurdodau lleol yn meddwl mai dim ond y mentrau iaith sy'n gyfrifol am yr iaith Gymraeg yn eu hardaloedd nhw. Mae'n bwysig dros ben eu bod nhw yn sylweddoli bod dyletswyddau arnyn nhw hefyd i hybu'r iaith yn eu hardaloedd nhw, ac felly bydd hyn yn dod yn fwy clir yn ystod y datganiad polisi.
- This is something that has been considered while looking at the policy statement. It is very important to ensure that local authorities do not think that it is only the 'mentrau iaith' that are responsible for the Welsh language in their areas. It is very important that they realise that they have a duty as well to boost the language in their areas, and this will become clearer during the policy statement.

Gwasanaethau Llyfrgell

Library Services

- 13:32 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
2. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am wasanaethau llyfrgell ar draws Cymru? OAQ(4)1700(FM) 2. Will the First Minister make a statement on library services across Wales? OAQ(4)1700(FM)
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Our libraries inspire the people of Wales to enjoy reading, to develop their knowledge and skills, and of course to enrich their quality of life. Mae ein llyfrgelloedd yn ysbrydoli pobl Cymru i fwynhau darllen, i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau ac, wrth gwrs, i gyfoethogi ansawdd eu bywydau.
- 13:33 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am very grateful for that answer, First Minister. You may be aware that Rhondda Cynon Taf County Borough Council closed Rhydyfelin library in my region 10 days ago, and that campaigners won the right last week to seek a judicial review of the decision, which I congratulate them for. That comes hot on the heels of another community-brought judicial review, which found that the authority's cuts to nursery provision were unlawful. Given what you have just said, would you agree that it is high time that RCT council stopped spending public money fighting its own communities through the courts, started listening to public opinion on the importance of libraries, and backed down on a decision that is harmful to the community and to the literacy and digital exclusion policies that your own Government supports? Rwy'n ddiolchgar iawn am yr ateb yna, Brif Weinidog. Efallai eich bod yn ymwybodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi cau llyfrgell Rhydyfelin yn fy rhanbarth i 10 diwrnod yn ôl, a bod ymgyrchwyr wedi ennill yr hawl yr wythnos diwethaf i geisio adolygiad barnwrol o'r penderfyniad, ac yr wyf yn eu llongyfarch ar hyn. Daw hynny'n dynn ar sodlau adolygiad barnwrol arall a fynnwyd gan y gymuned, a ganfu bod toriadau'r awdurdod i'r ddarpariaeth feithrin yn anghyfreithlon. O ystyried yr hyn yr ydych chi newydd ei ddweud, a fyddech chi'n cytuno ei bod yn hen bryd i gyngor Rhondda Cynon Taf roi'r gorau i wario arian cyhoeddus yn ymladd ei gymunedau ei hun yn y llysoedd a dechrau gwrandao ar farn y cyhoedd am bwysigrwydd llyfrgelloedd, ac i ildio ar benderfyniad sy'n niweidiol i'r gymuned ac i'r polisïau llythrennedd ac allgau digidol y mae eich Llywodraeth eich hun yn eu cefnogi?
- 13:33 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Member will know that there is a judicial review hearing that will take place on 18 June and, therefore, it is unwise for me to comment further. Bydd yr Aelod yn gwybod bod gwrandawriad adolygiad barnwrol a fydd yn cael ei gynnal ar 18 Mehefin ac, felly, nid yw'n ddoeth i mi wneud unrhyw sylwadau pellach.
- 13:33 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I have been a library member for a long, long time, since I was a child, and I still greatly value the fantastic services that they provide. On Saturday, at Holywell library, I was able to borrow my books, buy a hand-painted silk scarf as a gift, a birthday card made by a local craftsman and a local photographer's work for myself. I am delighted that Flintshire is one of the first authorities where children between eight and nine will automatically be given a library card. First Minister, do you agree with me that this will give children enormous pleasure as they enter the world of books and reading, as well as giving literacy skills a boost, and that their older siblings and parents will probably find something to please them if the whole family visit? Rwyf wedi bod yn aelod o lyfrgell ers amser maith iawn, ers i mi fod yn blentyn, ac rwy'n dal i werthfawrogi'n fawr y gwasanaethau ardderchog maen nhw'n eu cynnig. Ddydd Sadwrn, yn llyfrgell Treffynnon, roeddwn i'n gallu benthyc fy llyfrau, prynu sgarff sidan a beintiwyd â llaw fel anrheg, cerdyn pen-blwydd a wnaed gan grefftwr lleol a gwaith ffotograffydd lleol i mi fy hun. Rwyf yn falch iawn mai Sir y Fflint yw un o'r awdurdodau cyntaf lle y bydd plant rhwng wyth a naw oed yn cael cerdyn llyfrgell yn awtomatig. Brif Weinidog, a ydych chi'n cytuno â mi y bydd hyn yn rhoi pleser enfawr i blant wrth iddyn nhw ymuno â byd llyfrau a darllen, yn ogystal â rhoi hwb i sgiliau llythrennedd, a'i bod yn debygol y bydd eu brodyr a'u chwiorydd hŷn a'u rhieni yn dod o hyd i rywbeth i'w plesio hwythau os bydd y teulu cyfan yn ymweld?

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is a fine example of diversification. Libraries have changed over the years. They were once places where there were just books on loan, with reading rooms for newspapers, if I remember when I was little, certainly in Bridgend. They have, of course, moved on to be facilities, for example, where people are able to access electronic media—often, of course, people who could not access electronic media otherwise. It is a tribute to all those involved in libraries over the years that they have, as it were, moved with the times; they have kept their core, which is, of course, the physical lending of books, while at the same time they have been able to offer many more services.

Mae honna'n enghraifft wych o arallgyfeirio. Mae llyfrgelloedd wedi newid dros y blynyddoedd. Ar un adeg roedden nhw'n lleoedd lle'r oedd dim ond llyfrau i'w benthyg, gydag ystafelloedd darllen ar gyfer papurau newydd, os cofiaf, pan oeddwn i'n fach, yn sicr ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Maen nhw, wrth gwrs, wedi symud ymlaen i fod yn gyfleusterau, er enghraifft, lle y gall pobl ddefnyddio cyfryngau electronig—yn aml, wrth gwrs, pobl na fyddai'n gallu cael gafael ar gyfryngau electronig fel arall. Mae'n deyrnged i bawb sydd wedi ymwneud â llyfrgelloedd dros y blynyddoedd eu bod wedi, fel petai, symud gyda'r oes; maen nhw wedi cadw eu gwasanaeth craidd, sef, wrth gwrs, benthyca llyfrau'n ffisegol, tra eu bod, ar yr un pryd, wedi gallu cynnig llawer mwy o wasanaethau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, you may well get a silk scarf if you accompany Sandy Mewies to a Flintshire library, but if you come to Monmouthshire, with me, you will have access to a two-year pilot scheme, which is called the access to research programme. This is a unique collaboration between libraries and publishers in Monmouthshire—which I am sure that you are aware of—which will allow my constituents to access many of the leading academic papers on science, technology, medicine, and other areas, from, as you just mentioned, library computers. That is one way that libraries are diversifying. Some of this material is available for the first time. This is cutting edge freedom of information. Will your Government now work with the Publishers Licensing Society to develop this pilot scheme, with a view to a wider Wales roll-out?

Brif Weinidog, efallai'n wir y cewch chi sgarff sidan os ewch chi gyda Sandy Mewies i lyfrgell yn Sir y Fflint, ond os dewch chi i Sir Fynwy, gyda mi, cewch fynediad at gynllun arbrofol dwy flynedd, a elwir y rhaglen mynediad at ymchwil. Cydweithrediad unigryw yw hwn rhwng llyfrgelloedd a chyhoeddwr yn sir Fynwy—yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol ohono—a fydd yn galluogi fy etholwyr i gael mynediad at lawer o'r papurau academiaidd blaenllaw ar wyddoniaeth, technoleg, meddygaeth a meysydd eraill, oddi ar, fel yr ydych chi newydd ei grybwyll, cyfrifiaduron llyfrgell. Dyna un ffordd y mae llyfrgelloedd yn arallgyfeirio. Mae rhywfaint o'r deunydd hwn ar gael am y tro cyntaf. Mae hyn yn arloesol o ran rhyddid gwybodaeth. A wnaiff eich Llywodraeth weithio nawr gyda Chymdeithas Trwyddedu'r Cyhoeddwr i ddatblygu'r cynllun arbrofol hwn, gyda'r bwriad o'i gyflwyno'n ehangach yng Nghymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:35

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is an interesting project, of course, and I am sure that the Minister will look at the results of that project, in order to see whether it can be rolled out across Wales. However, it is an example, once again, of libraries offering the services that people need in the twenty-first century, and ensuring that they provide the research capabilities that would be available elsewhere.

Mae'n brosiect diddorol, wrth gwrs, ac rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn edrych ar ganlyniadau'r prosiect hwnnw, er mwyn gweld a ellir ei gyflwyno ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n enghraifft, unwaith eto, o lyfrgelloedd yn cynnig y gwasanaethau sydd eu hangen ar bobl yn yr unfed ganrif ar hugain, a sicrhau eu bod yn darparu'r galluoedd ymchwil a fyddai ar gael mewn mannau eraill.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:36

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Brif Weinidog, rwy'n falch iawn i'ch clywed i'ch cydnabod y gwasanaeth cynhwysfawr, erbyn hyn, y mae llyfrgelloedd yn ei gynnig i gymunedau—eu bod nhw'n ysbrydoliaeth, yn eich geiriau chi, a'u bod hefyd yn cynnig mynediad hollbwysig i dechnoleg gwybodaeth, sy'n gyfrwng hanfodol i lawer iawn o deuluoedd am nad ydynt yn gallu cael mynediad at hynny yn eu cartrefi. A ydych chi'n cydnabod, o dderbyn y wasgfa ariannol sydd—ac mae'r cwestiynau heddiw wedi cadarnhau hynny—bod rôl yn y fan hon i Lywodraeth Cymru gydweithio â llywodraeth leol i sicrhau bod y gwasanaethau hanfodol hyn yn parhau yng Nghymru, ac, yn wir, eu bod yn cael eu hehangu o ran y gallu i'w defnyddio nhw?

First Minister, I was very pleased to hear you acknowledging the comprehensive services that libraries provide these days for communities—that they are an inspiration, in your own words, and that they also offer very important access to information technology, which is crucial to many families as they cannot access that at home. Do you acknowledge, given the financial pressures that exist—and the questions today have confirmed that—that there is a role here for the Welsh Government to work with local government to ensure that these crucially important services are sustained in Wales, and, indeed, that they are expanded in terms of the ability to access them?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)

Rwy'n siŵr y bydd Aelodau yn gwybod am lyfrgelloedd newydd sydd wedi cael eu hadeiladu yn eu hardaloedd nhw—mae sawl un yn fy ardal i a rhai eraill hefyd, wrth gwrs. Mae'n bwysig dros ben bod llyfrgelloedd yn cael eu hystyried fel adeiladau i'r ganrif hon, ac wrth gwrs pethau fel y ffaith ei bod yn bosibl yn awr i fenthyca llyfrau electronig. Rydym yn gwybod, wrth gwrs, bod mwy a mwy o bobl yn defnyddio offer electronig i ddarllen llyfrau, ac mae'n bwysig, felly, bod y llyfrgelloedd yn gallu rhoi gwasanaeth i'r bobl hynny hefyd. Mae'n braf gweld bod hynny'n digwydd ar draws Cymru.

I am sure that Members know about the new libraries that have been built in their areas—there are several in my area and others as well, of course. It is very important that libraries are considered as buildings for this century, and of course things like the fact that it is possible now to borrow e-books. We know, of course, that more and more people use electronic equipment to read books and it is important, therefore, that libraries can provide a service to those people as well. It is good to see that that is happening across Wales.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:37 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I will now call the party leaders to question the First Minister, starting this week with the leader of the opposition, Andrew R. T. Davies.

Galwaf nawr ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog, gan ddechrau yr wythnos hon gydag arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:37 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition [Fideo](#) [Video](#)

First Minister, this morning, Members would have received a statement from you in relation to the letter that has been sent by my colleague Antoinette Sandbach over the conduct of the Minister for Natural Resources and Food, and whether there has been a breach of the ministerial code. Could you confirm whether your advice was sought, as the ministerial code sets out, by the Minister, before he engaged in contact with Natural Resources Wales on this specific matter?

Brif Weinidog, y bore yma, mae'r Aelodau wedi derbyn datganiad gennych chi yn ymwneud â'r llythyr a anfonwyd gan fy nghydweithiwr Antoinette Sandbach ynglŷn ag ymddygiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, a pha un a fu diffyg cydymffurfiad â'r cod gweinidogol. A allech chi gadarnhau pa un a ofynnwyd am eich cyngor, fel y mae'r cod gweinidogol yn ei nodi, gan y Gweinidog, cyn iddo ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar y mater penodol hwn?

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister [Fideo](#) [Video](#)

No, but also the ministerial code, section 4.4 thereof, also says that that applies particularly to a decision-taking Minister. He is not the decision-taking Minister in this instance. Nevertheless, as the leader of the opposition will know, I have asked the Permanent Secretary to produce a report for me on all the circumstances surrounding this issue.

Naddo, ond hefyd mae'r cod gweinidogol, yn adran 4.4, hefyd yn dweud bod hynny'n berthnasol yn benodol i Weinidog sy'n gwneud penderfyniad. Nid ef yw'r Gweinidog sy'n gwneud y penderfyniad yn yr achos hwn. Serch hynny, fel y bydd arweinydd yr wrthblaid yn gwybod, rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol gyflwyno adroddiad i mi ar yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud â'r mater hwn.

13:38 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am grateful for that very specific answer about no advice being sought. I had thought that that in itself was a breach of the code. I do note that, obviously, you have adopted a different tack this time round, in that, when the former Minister for Education and Skills was removed from his post, because of a supposed breach of the ministerial code, you made the decision yourself. This time, you have introduced the Permanent Secretary into the process. Can you tell me what the difference is between this supposed accusation or breach of the code that has been put to you, and the last one, when the Minister did have to resign for breaching the code?

Rwy'n ddiolchgar am yr ateb penodol iawn yna am y ffaith na ofynnwyd am unrhyw gyngor. Roeddwn i wedi meddwl bod hynny ynddo'i hun yn ddiffyg cydymffurfiad â'r cod. Rwy'n nodi, yn amlwg, eich bod wedi mabwysiadu dull gwahanol y tro hwn, o'r safbwynt, pan symudwyd y cyn-Weinidog Addysg a Sgiliau o'i swydd, oherwydd diffyg cydymffurfiad tybiedig â'r cod gweinidogol, chi wnaeth y penderfyniad eich hun. Y tro hwn, rydych chi wedi cyflwyno'r Ysgrifennydd Parhaol i'r broses. A allwch chi ddweud wrthyf beth yw'r gwahaniaeth rhwng y cyhuddiad neu'r diffyg cydymffurfiad tybiedig hwn y'ch hysbyswyd amdano, a'r un diwethaf, pan fu'n rhaid i'r Gweinidog ymddiswyddo am fethu â chydymffurfio â'r cod?

13:39	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>On this occasion, I felt that it was useful to obtain an objective report before taking a final decision.</p>			<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Given that the letter that you sent out about the ministerial code, on 4 July 2011, is quite clear and says that the code applies to all Ministers, Deputy Ministers, and the Counsel General, and that you expect all to adhere to it, if it is the case that the Permanent Secretary feels that the code has been breached, do you believe that it is a resigning matter for the Minister? A simple 'yes' or 'no' will do in this instance.</p>		<p>O ystyried bod y llythyr a anfonwyd allan gennych chi am y cod gweinidogol, ar 4 Gorffennaf 2011, yn gwbl eglur ac yn dweud bod y cod yn berthnasol i bob Gweinidog, Dirprwy Weinidog, a'r Cwnsler Cyffredinol, a'ch bod yn disgwyl i bawb gydymffurfio ag ef, ac os yw'n wir bod yr Ysgrifennydd Parhaol yn teimlo y bu diffyg cydymffurfiaid â'r cod, a ydych chi'n credu ei fod yn fater o ymddiswyddo i'r Gweinidog? Byddai 'ydw' neu 'nac ydw' syml yn gwneud y tro y tro hwn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am not prepared to prejudice the issue. I have asked the Permanent Secretary to provide me with a report on the facts. It is for me to decide what I then do, as would be the case, of course, with the ministerial code that applies at Westminster.</p>		<p>Nid wyf yn barod i ragfarnu'r mater. Rwyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ddarparu adroddiad i mi ar y ffeithiau. Mater i mi yw penderfynu ar yr hyn y byddaf yn ei wneud wedyn, fel y byddai'n digwydd, wrth gwrs, gyda'r cod gweinidogol sy'n berthnasol yn San Steffan.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I now call the leader of Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>		<p>Galwaf nawr ar arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:39	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i></p> <p>The chair of the Government's ICT panel yesterday said, and I quote:</p> <p>'If the Welsh economy continues to grow on track, then there will be demand for 18,000 more jobs in ICT. People will come over the bridge to take those jobs.'</p> <p>Does the First Minister dispute those concerns?</p>		<p>Dywedodd cadeirydd panel TGCh y Llywodraeth ddoe, ac rwy'n dyfynnu:</p> <p>Os bydd economi Cymru yn parhau i dyfu fel y disgwylir, yna bydd galw am 18,000 yn fwy o swyddi mewn TGCh. Bydd pobl yn dod dros y bont i gymryd y swyddi hynny.</p> <p>A yw'r Prif Weinidog yn gwadu'r pryderon hynny?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:40	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is inevitable, when jobs are created, that people will move across the UK to fill those jobs; that much is true. However, a lot of work is being done in further education colleges and, indeed, in higher education, to make sure that any potential skills gap in the future is addressed.</p>		<p>Mae'n anochel, pan fydd swyddi'n cael eu creu, y bydd pobl yn symud ar draws y DU i lenwi'r swyddi hynny; mae cymaint â hynny'n wir. Fodd bynnag, mae llawer o waith yn cael ei wneud mewn colegau addysg bellach ac, yn wir, mewn addysg uwch, i sicrhau y rhoddir sylw i unrhyw fwlch sgiliau posibl yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:40	<p>Leanne Wood Bywgraffiad Biography</p> <p>This is not the first time that recommendations have been made to strengthen ICT in education. Last September, the ICT steering group's report to the Welsh Government said that ICT in schools needs to be,</p> <p>'re-branded, re-engineered and made relevant to now and the future'.</p>		<p>Nid dyma'r tro cyntaf i argymhellion gael eu gwneud i gryfhau TGCh mewn addysg. Fis Medi diwethaf, dywedodd adroddiad y grŵp llywio TGCh i Lywodraeth Cymru bod angen i TGCh mewn ysgolion gael ei,</p> <p>'hailfrandio a'i hailwampio ac mae angen sicrhau ei bod yn berthnasol ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol.'</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Plaid Cymru supports those recommendations. When can we expect the Welsh Government to deliver on those recommendations?

Mae Plaid Cymru yn cefnogi'r argymhellion hynny. Pryd allwn ni ddisgwyl i Lywodraeth Cymru gyflawni ar yr argymhellion hynny?

13:40 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

We are delivering on those recommendations. I am slightly concerned at the suggestion that we are trying to prevent people from coming to Wales to take jobs. That is the kind of language that needs to be dealt with very carefully.

Rydym yn cyflawni ar yr argymhellion hynny. Rwy'n poeni braidd am yr awgrym ein bod ni'n ceisio atal pobl rhag dod i Gymru i gymryd swyddi. Dyna'r math o iaith y mae angen ymdrin â hi'n ofalus iawn.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, I would have thought better of you than to try to twist my words in that manner.

Brif Weinidog, byddwn wedi disgwyl gwell gennych na ceisio troi fy ngeiriau fel yna.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is what you said.

Dyna'r hyn a ddywedasoch.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Leanne Wood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That is not what I said. I would, however, welcome the First Minister's broad support for strengthening ICT skills in education. Plaid Cymru believes that getting these skills right could provide this country with the basis for economic and social renewal, and we are very keen to see such progress being made. Given the importance of this issue, will the First Minister now distance himself from the backbench Member for the Rhondda who, last week, described such proposals as 'stupid'?

Nid dyna ddywedais i. Byddwn, fodd bynnag, yn croesawu cefnogaeth eang y Prif Weinidog i gryfhau sgiliau TGCh mewn addysg. Mae Plaid Cymru o'r farn y gallai cael y sgiliau hyn yn iawn gynnog sail ar gyfer adnewyddu economaidd a chymdeithasol i'r wlad hon, ac rydym ni'n awyddus iawn i weld cynnydd o'r fath yn cael ei wneud. O ystyried pwysigrwydd y mater hwn, a wnaiff y Prif Weinidog ymbellhau ei hun nawr oddi wrth Aelod y meinciau cefn dros y Rhondda a ddywedodd yr wythnos diwethaf bod cynigion o'r fath yn wirion?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:41 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, I see that First Minister's questions is, once again, a constituency question session regarding the Rhondda. The Record will show what the leader of Plaid Cymru said. I will say no more other than to say that it is exceptionally important to be careful in the use of language. I do not believe that as much care as possible was used on that occasion. We, as a party and as a Government, are ensuring that people have the skills they need, whether through Jobs Growth Wales or the apprenticeship schemes that are open to all ages. We are working with FE and HE colleges to make sure that opportunities are available to those who live in Wales to take jobs in Wales and also, of course, to make sure that, where expertise comes in to Wales from outside, we welcome that.

Wel, rwy'n gweld bod cwestiynau i'r Prif Weinidog, unwaith eto, yn sesiwn holi etholaethol ynghylch y Rhondda. Bydd Cofnod yn dangos yr hyn a ddywedodd arweinydd Plaid Cymru. Ni ddywedaf ddim mwy na dweud ei bod hynod bwysig i fod yn ofalus wrth ddefnyddio iaith. Nid wyf yn credu y cymerwyd cymaint o ofal â phosibl y tro yna. Rydym ni, fel plaid ac fel Llywodraeth, yn sicrhau bod gan bobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt, boed hynny trwy Dwf Swyddi Cymru neu'r cynlluniau prentisiaeth sydd yn agored i bob oedran. Rydym ni'n gweithio gyda cholegau Addysg Bellach ac Addysg Uwch i wneud yn siŵr bod cyfleoedd ar gael i'r rhai sy'n byw yng Nghymru gymryd swyddi yng Nghymru a hefyd, wrth gwrs, i wneud yn siŵr, pan fo arbenigedd yn dod i mewn i Gymru o'r tu allan, ein bod yn croesawu hynny.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats
 First Minister, given that your office did not approve the contents of the letter written by the Assembly Member for Blaenau Gwent to Natural Resources Wales, expressing clear personal opinions about the planning application for the Circuit of Wales, when did you become aware of the existence of that letter?
 Brif Weinidog, o gofio na chymeradwyodd eich swyddfa gynnwys y llythyr a ysgrifennwyd gan yr Aelod Cynulliad dros Flaenau Gwent i Gyfoeth Naturiol Cymru, yn mynegi safbwyntiau personol eglur ynghylch y cais cynllunio ar gyfer Cylchffordd Cymru, pryd y daethoch chi'n ymwybodol o fodolaeth y llythyr hwnnw gyntaf?
- 13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 I think that it was last week.
 Yr wythnos diwethaf oedd hi rwy'n meddwl.
- 13:42 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 Thank you, First Minister. I am concerned by your answer, because, as you will remember, I wrote to you in August last year asking what safeguards were in place to identify matters that could potentially represent a conflict of interest for a Minister when acting in his or her capacity as an Assembly Member. In reply to my letter, a month later, you told me that Ministers' private offices and relevant AM support staff are all well aware of the need to identify matters that could potentially represent a conflict of interest and, if necessary, refer the matter to a senior official or to your office for resolution. Did the Minister for Natural Resources and Food refer himself to a senior official or to your office to seek advice on this potential conflict of interest?
 Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Mae eich ateb yn fy mhryderu, oherwydd, fel y byddwch yn cofio, ysgrifennais atoch ym mis Awst y llynedd yn gofyn pa drefniadau diogelu oedd ar waith i nodi materion a allai, o bosibl, gynrychioli gwrthdaro buddiannau i Weinidog wrth weithredu yn rhinwedd ei swydd fel Aelod o'r Cynulliad. Wrth ateb fy llythyr, fis yn ddiweddarach, fe'm hysbyswyd gennyhch bod swyddfeydd preifat Gweinidogion ac aelodau staff cymorth AC perthnasol yn gwbl ymwybodol o'r angen i nodi materion a allai, o bosibl, gynrychioli gwrthdaro buddiannau ac, os oes angen, cyfeirio'r mater at uwch swyddog neu eich swyddfa chi i ddatrys y mater. A wnaeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bywd atgyfeirio ei hun at uwch swyddog neu at eich swyddfa chi i ofyn am gyngor ar y gwrthdaro buddiannau posibl hwn?
- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
 No, but I come back to the point that I made earlier, which is that section 4.4 of the ministerial code deals with that issue in the context of a Minister who might be asked to take a particular decision. Therefore, it is unclear. On that basis, that is why I have asked the Permanent Secretary to provide me with a report in order that I may have all the facts that I need to assess the situation properly.
 Naddo, ond rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach, sef bod adran 4.4 y cod gweinidogol yn ymdrin â'r mater hwnnw yng nghyd-destun Gweinidog y gellid gofyn iddo wneud penderfyniad penodol. Felly, nid yw'n eglur. Ar y sail honno, dyna pam yr wyf wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ddarparu adroddiad i mi er mwyn i mi gael yr holl ffeithiau sydd eu hangen arnaf i asesu'r sefyllfa yn iawn.
- 13:44 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
 First Minister, in your letter to me of 2 September, you clearly make the distinction between a situation where a Minister has to take a decision—and there is no question here that the Minister for natural resources does not have to take a decision—and where, potentially, there is a conflict between a Minister and their responsibilities as an Assembly Member. You clearly make the distinction in your letter and you clearly set out what you say are your expectations. Given that the investigation that you have asked the Permanent Secretary to carry out potentially involves you and your office, and the question of whether you took the action that you assured me in your letter would be taken in these circumstances, is it not now time to admit that we need independent scrutiny of the ministerial code? You, First Minister, will be the sole decider on whether you and your Ministers have stuck to the rules. How is the public ever expected to have faith when you play the role of judge, jury and, potentially, executioner?
 Brif Weinidog, yn eich llythyr ataf ar 2 Medi, rydych chi'n nodi'n eglur y gwahaniaeth rhwng sefyllfa lle mae'n rhaid i Weinidog wneud penderfyniad—ac nid oes amheuaeth yma nad oes rhaid i'r Gweinidog cyfoeth naturiol wneud penderfyniad—a phan, o bosibl, y ceir gwrthdaro rhwng Gweinidog a'u cyfrifoldebau fel Aelod o'r Cynulliad. Rydych chi'n nodi'r gwahaniaeth yn eglur yn eich llythyr ac rydych chi'n nodi'n eglur yr hyn a ddywedwch yw eich disgwyliadau. O ystyried bod yr ymchwiliad yr ydych chi wedi gofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol ei gynnal o bosibl yn eich cynnwys chi a'ch swyddfa, a'r cwestiwn o ba una wnaethoch chi gymryd y cam y gwnaethoch chi fy sicrhau yn eich llythyr y byddai'n cael ei gymryd dan yr amgylchiadau hyn, onid yw hi'n bryd cyfaddef erbyn hyn bod arnom angen craffu annibynnol ar y cod gweinidogol? Chi, Brif Weinidog, fydd yr unig un a fydd yn penderfynu pa un a ydych chi a'ch Gweinidogion wedi cadw at y rheolau. Sut y gellid disgwyl i'r cyhoedd fyth fod â ffydd pan eich bod chi'n cyflawni swyddogaethau barnwr, rheithgor ac, o bosibl, dienyddiwr?

13:45

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, that is the exact system that exists in Westminster and, indeed, in the rest of the UK as far as I am aware. [Interruption.] It is true. In Westminster—we looked at this this morning—the final arbiter is the Prime Minister. That is it. That is what the ministerial code says. I have the ability to appoint or, indeed, to remove Ministers. It is my responsibility to ensure that the ministerial code is adhered to. Nevertheless, I take the view that, in these circumstances, it is important that there is an independent and objective presentation of the facts to me in order for me to take that decision. Then, of course, it is for me to decide what happens next. Then I am answerable, ultimately, to the people of Wales. That is exactly the same situation that exists at Westminster; the Prime Minister is the final arbiter.

Wel, dyna'r union system sy'n bodoli yn San Steffan ac, yn wir, yng ngweddill y DU cyn belled ag y gwn i. [Torri ar draws.] Mae'n wir. Yn San Steffan—buom yn edrych ar hyn y bore yma—Prif Weinidog y DU sydd â'r penderfyniad terfynol. Dyna ni. Dyna'r hyn y mae'r cod gweinidogol yn ei ddweud. Mae gennyf y gallu i benodi neu, yn wir, i gael gwared ar Weinidogion. Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau y cydymffurfir â'r cod gweinidogol. Serch hynny, rwyf o'r farn, dan yr amgylchiadau hyn, ei bod yn bwysig bod yna gyflwyniad annibynnol a gwrthrychol o'r ffeithiau yn fy nghyrraedd i er mwyn i mi wneud y penderfyniad hwnnw. Wedyn, wrth gwrs, mater i mi yw penderfynu beth sy'n digwydd nesaf. Yna rwy'n atebol, yn y pen draw, i bobl Cymru. Dyna'n union yr un sefyllfa sy'n bodoli yn San Steffan; Prif Weinidog y DU sydd â'r penderfyniad terfynol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Bil Cymru

Wales Bill

13:46

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

3. Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â Bil Cymru? OAQ(4)1705(FM)

3. What recent discussions has the First Minister had with the UK Government regarding the Wales Bill? OAQ(4)1705(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I have regular discussions with UK Government Ministers on a range of matters, including the financial reform agenda that forms a major part of the Wales Bill.

Rwy'n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys yr agenda diwygio ariannol sy'n rhan bwysig o Fil Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for that response, First Minister. Although I welcome moves in the Wales Bill to put us on a more equal footing with other devolved legislatures, I cannot understand why the Welsh Government would still be left with less control over borrowing and reserves than unitary authorities. Does the First Minister share my frustration and has he raised this with the Welsh Secretary?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Er fy mod i'n croesawu'r camau ym Mil Cymru i'n rhoi ni ar sail fwy cyfartal â deddfwrfeydd datganoledig eraill, ni allaf ddeall pam y byddai Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei gadael gyda llai o reolaeth dros fenthg a chronfeydd wrth gefn nag awdurdodau unedol. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy rhwystredigaeth ac a yw wedi codi hyn gydag Ysgrifennydd Cymru?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, yes, there is no reason at all why that should be the case. Members, of course, will have the ability to raise questions with the Secretary of State tomorrow to see whether, in his own words, he continues to receive 'an easy ride'. [Laughter.]

Wel, ydw, nid oes unrhyw reswm o gwbl pam y dylai hynny fod yn wir. Bydd gan yr Aelodau, wrth gwrs, y gallu i godi cwestiynau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol yfory i weld a fydd, yn ei eiriau ei hun, yn parhau i'w chael hi'n rhwydd. [Chwerthin.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:46

Suzy Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, the Wales Bill, once enacted, will be transferring full control of business rates to you. What are you going to do with those powers that are different from the current regime?

Brif Weinidog, ar ôl ei ddeddfu, bydd Bil Cymru yn trosglwyddo rheolaeth lawn dros ardrethi busnes i chi. Beth ydych chi'n mynd i'w wneud gyda'r pwerau hynny sy'n wahanol i'r drefn bresennol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:47	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>That gives us full flexibility. The Minister has already put actions in place in order to see how we might use those powers. Members will be aware of the reviews that have taken place, particularly with Professor Brian Morgan—if I remember—and others. Once those powers are devolved, of course, it will be possible for us to use them as flexibly as possible.</p>	<p>Mae hynny'n rhoi hyblygrwydd llawn i ni. Mae'r Gweinidog eisoes wedi rhoi camau ar waith er mwyn gweld sut y gallem ni ddefnyddio'r pwerau hynny. Bydd yr Aelodau'n ymwybodol o'r adolygiadau sydd wedi eu cynnal, yn enwedig gyda'r Athro Brian Morgan—os rwy'n cofio—ac eraill. Unwaith y bydd y pwerau hynny wedi'u datganoli, wrth gwrs, bydd yn bosibl i ni eu defnyddio mor hyblyg â phosibl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Jocelyn Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, I am sure that you would agree that a strong, resilient Wales needs a strong Assembly. Do you think that this Wales Bill settles the devolution question or do you think that we will need more Wales Bills in the future?</p>	<p>Brif Weinidog, rwy'n siŵr y byddech chi'n cytuno bod Cymru gref, wydn angen Cynulliad cryf. Ydych chi'n meddwl bod y Bil Cymru hwn yn setlo'r cwestiwn datganoli neu a ydych chi'n meddwl y bydd angen mwy o Filiau Cymru arnom yn y dyfodol?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>This current Wales Bill—no, clearly not. There will need to be a further Wales Bill after the next general election in order to deal with the matters that were raised by the second part of the Silk commission's report.</p>	<p>Y Bil Cymru cyfredol hwn—nac ydy, yn amlwg. Bydd angen Bil Cymru arall ar ôl yr etholiad cyffredinol nesaf er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd gan ail ran adroddiad comisiwn Silk.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:47	<p>Peter Black Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, further to Suzy Davies's question, can you outline what preparations the Welsh Government is making to take on the new tax raising powers that will be devolved to us and how they will be implemented?</p>	<p>Brif Weinidog, yn dilyn ymlaen o gwestiwn Suzy Davies, a allwch chi amlinellu pa baratodau mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud i ymgymryd â'r pwerau trethu newydd a fydd yn cael eu datganoli i ni, a sut y byddant yn cael eu gweithredu?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Work is in hand for the creation of a Welsh treasury. There will need to be a treasury function that we exercise. The Minister has already put in train all the work that needs to be done so that, when the powers do arrive here, they can be taken on and used as quickly as possible.</p>	<p>Mae gwaith ar y gweill ar gyfer creu trysorlys Cymru. Bydd angen swyddogaeth trysorlys y byddwn ni'n ei chyflawni. Mae'r Gweinidog eisoes wedi dechrau ar yr holl waith y mae angen ei wneud fel, pan fydd y pwerau'n cyrraedd yma, y gellir eu mabwysiadu a'u defnyddio cyn gynted â phosibl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Gwahaniaethu ar Sail Oed		Age Discrimination	
13:48	<p>Janet Finch-Saunders Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gamau gweithredu Llywodraeth Cymru o ran mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed yng Nghymru?</i> OAQ(4)1716(FM)</p>	<p><i>4. Will the First Minister make a statement on Welsh Government action to tackle age discrimination in Wales?</i> OAQ(4)1716(FM)</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:48	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. We have a long history of supporting older people through our strategy for older people. Of course, we were the first country in the UK to recognise age-related hate crime as a significant issue.</p>	<p>Gwnaf. Mae gennym hanes hir o gefnogi pobl hŷn trwy ein strategaeth ar gyfer pobl hŷn. Wrth gwrs, ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i gydnabod troseddau casineb sy'n gysylltiedig ag oedran fel problem sylweddol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:48 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Thank you, First Minister. Last week, the charity the Prince's Initiative for Mature Enterprise Cymru warned that unemployed older people in Wales are potentially discriminated against in their search for work, with 214,000 jobless persons between the age of 50 and the state retirement age, compared to 62,000 younger persons without employment. While we welcome the progress that Jobs Growth Wales has had in creating some job opportunities for young people, I ask what actions your Government is taking to help those over 50 back into gainful employment.
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Yr wythnos diwethaf, rhybuddiodd yr elusen Menter y Tywysog ar gyfer Menter Pobl Hŷn Cymru ei bod yn bosibl y gwahaniaethir yn erbyn pobl hŷn di-waith yng Nghymru wrth iddynt chwilio am waith, a cheir 214,000 o bobl ddi-waith rhwng 50 oed ac oedran ymdddeol y wladwriaeth, o'i gymharu â 62,000 o bobl iau sydd heb waith. Er ein bod yn croesawu'r cynnydd y mae Twf Swyddi Cymru wedi ei wneud o ran creu rhai cyfleoedd gwaith i bobl ifanc, gofynnaf pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd i helpu'r rhai dros 50 oed yn ôl i mewn i waith cyflogedig.
- 13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I can say, for example, that we expanded apprenticeships into an all-age programme over a decade ago. Apprenticeship frameworks offer a wide range of skills whatever the age of the apprentice. The level 3 apprenticeships, for example, are particularly attuned to the upskilling needs of adults as they require management skills, something that, generally, lends itself to a more experienced and mature person. I can also say that higher apprenticeships are often better suited to those aged over 25. They are a new offer within the programme as well. So, yes, Jobs Growth Wales is aimed at a particular age group but, nevertheless, there are other schemes that are deliberately aimed at those of any age.
- Gallaf ddweud, er enghraifft, ein bod wedi ehangu prentisiaethau i raglen ar gyfer pob oed dros ddegawd yn ôl. Mae fframweithiau prentisiaeth yn cynnig amrywiaeth eang o sgiliau beth bynnag yw oedran y prentis. Mae'r prentisiaethau lefel 3, er enghraifft, yn arbennig o addas ar gyfer anghenion uwchsgilio oedolion gan fod angen sgiliau rheoli arnynt, rhywbeth, yn gyffredinol, sy'n fwy priodol i unigolyn mwy profiadol ac aeddfed. Gallaf hefyd ddweud bod prentisiaethau uwch yn aml yn fwy addas i rai sydd dros 25 oed. Maen nhw'n gynnig newydd o fewn y rhaglen hefyd. Felly, ydy, mae Twf Swyddi Cymru wedi ei amcanu at grŵp oedran penodol ond, serch hynny, ceir cynlluniau eraill sydd wedi eu hanelu'n fwriadol at rai o unrhyw oedran.
- 13:50 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am sure that the First Minister is aware that ethnic minority elders are even more likely to suffer discrimination in accessing services and in gaining employment, and suffer from isolation. Would he agree that the minority ethnic elders advocacy project, which is due to be launched tomorrow in Cardiff, is an excellent way to try to not only help older people, but also to combat the discrimination that exists, particularly against ethnic minority older people?
- Rwy'n siŵr bod y Prif Weinidog yn ymwybodol bod pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig hyd yn oed yn fwy tebygol o ddioddef gwahaniaethu o ran cael mynediad at wasanaethau a chael gwaith, a dioddef o arwahanrwydd. A fyddai'n cytuno bod y prosiect eiriolaeth pobl hŷn lleiafrifoedd ethnig, y disgwylir iddo gael ei lansio yfory yng Nghaerdydd, yn ffordd wych o geisio helpu pobl hŷn, yn ogystal â mynd i'r afael â'r gwahaniaethu sy'n bodoli, yn enwedig yn erbyn pobl hŷn o leiafrifoedd ethnig?
- 13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes. Older people from ethnic minority communities can face barriers because of their age, and also because of their background. The project meets a real need, and I am pleased that Race Equality First, in partnership with three other equality councils, will be taking forward this national Big Lottery-funded project.
- Byddwn. Gall pobl hŷn o gymunedau lleiafrifoedd ethnig wynebu rhwystrau oherwydd eu hoedran, ac oherwydd eu cefndir hefyd. Mae'r prosiect yn diwallu angen go iawn, ac rwy'n falch y bydd Race Equality First, mewn partneriaeth â thri chyngor cydraddoldeb arall, yn bwrw ymlaen â'r prosiect cenedlaethol hwn a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr.
- 13:50 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- The beauty of being third is that all of your questions are asked before. How active is the Welsh Government in ensuring job advertisements do not restrict employment opportunities for older people?
- Y peth gwych am fod yn drydydd yw y gofynnir pob un o'ch cwestiynau yn gynharach. Pa mor weithgar yw Llywodraeth Cymru o ran sicrhau nad yw hysbysebion swyddi yn cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth i bobl hŷn?

13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am not going to say to the Member that I refer him to the answer that I gave some moments ago; I will try to answer the question. There are legal requirements with regard to age discrimination in job adverts, and we would expect all job adverts in Wales to meet the fundamental requirements of the law.</p>	<p>Nid wyf yn mynd i ddweud wrth yr Aelod fy mod yn ei gyfeirio at yr ateb a roddais rai munudau yn ôl; byddaf yn ceisio ateb y cwestiwn. Ceir gofynion cyfreithiol o ran gwahaniaethu ar sail oedran mewn hysbysebion swyddi, a byddem yn disgwyl i bob hysbyseb swydd yng Nghymru fodloni gofynion sylfaenol y gyfraith.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Digwyddiadau Chwaraeon Mawr		Major Sporting Events	
13:51	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd sy'n deillio o ddigwyddiadau chwaraeon mawr?</i> OAQ(4)1704(FM)</p>	<p><i>5. Will the First Minister make a statement on how the Welsh Government maximises opportunities resulting from major sporting events? OAQ(4)1704(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. Our major events and sector business teams work closely with event organisers to identify and exploit opportunities for encouraging new investment and business, and to encourage commercial opportunities.</p>	<p>Gwnaf. Mae ein timau busnes digwyddiadau mawr a sector yn gweithio'n agos gyda threfnwyr digwyddiadau i nodi a manteisio ar gyfleoedd i annog buddsoddiad a busnes newydd, ac i annog cyfleoedd masnachol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:51	<p>Ann Jones Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much for that. During those discussions, what opportunities are there to talk to the train company, Arriva Trains Wales, to ensure that it has services available to people from north Wales to attend the rugby in particular, which has a good following, and also football? When the Welsh football team plays down in south Wales, many north Wales fans are unable to attend, especially if it is an evening meeting, due to the fact that they cannot get back for the sake of a 10 minute or quarter hour delay on the trains. Can the Welsh Government talk to the train companies as we approach the next season of the rugby and the football? Should Wales ever qualify for a World Cup, I for one would like to be able to come down to Cardiff and go back in a day to support my home nation.</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am hynna. Yn ystod y trafodaethau hynny, pa gyfleoedd sydd ar gael i siarad â'r cwmni trenau, Trenau Arriva Cymru, i sicrhau bod gwasanaethau ar gael ganddo i bobl o ogledd Cymru fynd i weld y rygbi yn arbennig, sydd â chefnogaeth dda, a phêl-droed hefyd? Pan fydd tîm pêl-droed Cymru yn chwarae i lawr yn y de, ni all llawer o gefnogwyr o ogledd Cymru fod yn bresennol, yn enwedig os yw'n gêm gyda'r nos, oherwydd y ffaith na allant ddychwelyd adref oherwydd oedi o ryw 10 munud neu chwarter awr ar y trenau. A all Llywodraeth Cymru siarad â'r cwmnïau trenau wrth i ni nesáu at dymor nesaf y rygbi a phêl-droed? Pe na byddai Cymru byth yn cyrraedd Cwpan y Byd, byddwn i, yn un, yn hoffi gallu dod i lawr i Gaerdydd a mynd yn ôl mewn diwrnod i gefnogi fy mamwlad.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:52	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>If we do qualify for the World Cup, I suspect we will not be playing the finals in Cardiff, but nevertheless we can be ambitious about these things. However, I take the point—it is an important point. It is an issue not just for those in the north but across the whole of Wales. Some of it is down to the fact that occasionally games are played on Sundays, sometimes late on a Friday night, and that causes problems in terms of transport back. However, I can say that officials continue to encourage regular liaison between the rail companies and the Millennium stadium on transport arrangements, and that includes the involvement of the rail companies servicing the mid and north of our country. That is dealt with through a standing schedule of regular meetings that are hosted at the stadium itself.</p>	<p>Os byddwn ni yn llwyddo i gyrraedd Cwpan y Byd, rwy'n amau na fyddwn ni'n chwarae'r rowndiau terfynol yng Nghaerdydd, ond serch hynny gallwn fod yn uchelgeisiol am y pethau hyn. Fodd bynnag, rwy'n derbyn y pwynt—mae'n bwynt pwysig. Mae'n broblem nid yn unig i'r rhai yn y gogledd, ond ar draws Cymru gyfan. Mae rhywfaint ohono oherwydd y ffaith fod gemau weithiau'n cael eu chwarae ar y Sul, weithiau'n hwyr ar nos Wener, ac mae hynny'n peri problemau o ran cludiant i fynd yn ôl adref. Fodd bynnag, gallaf ddweud bod swyddogion yn parhau i annog cyswllt rheolaidd rhwng y cwmnïau rheilffordd a stadiwm y Mileniwm ar drefniadau cludiant, ac mae hynny'n cynnwys y cwmnïau rheilffordd sy'n gwasanaethu canolbarth a gogledd ein gwlad. Ymdrinnir â hynny trwy amserlen sefydlog o gyfarfodydd rheolaidd a gynhelir yn y stadiwm ei hun.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 13:53 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, there are some excellent facilities in north Wales, two of which are in my constituency, which are prime examples of places which could host international sporting events: Parc Eirias, which you have visited and the Welsh Government has invested in, and the Llandegla forest, which is something of a mountain biking centre and attraction. What work will you do to ensure that those locations receive the maximum opportunity to market themselves to the international community for major sporting events to be attracted to my constituency?
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I think they have been successful already. Parc Eirias, for example, is now the natural home of the Wales under-20s rugby team, and well supported when the team plays there. It hosted the senior international between Japan and Russia recently. It is a fine facility; it is an excellent facility in terms of spectators, but also an excellent facility in terms of the gym that is there and the facilities for the development of players. I very much welcome the fact that, with Parc Eirias, there is now a proper facility for rugby in the north that can be used. We are also fortunate in Wales to have places such as Llandegla, Coed y Brenin and Glynccorwg, which are now world centres for mountain biking, and, increasingly, we are being seen as a mountain biking centre. That is something, of course, that we will continue to encourage.
- 13:54 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, on the subject of major sporting events, you will be aware that, for the second year running, Pontypridd Rugby Football Club has done the double. Will the First Minister join me in congratulating Pontypridd RFC on its achievement, and will you be going home tonight humming the tune to the words 'Olé, olé, olé, Ponty, Ponty'? [Laughter.]
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I do congratulate Pontypridd RFC; it is a marvellous achievement. It has been consistently at the top of Welsh premiership rugby for a few years now. That is a tribute to those who are involved with the club and the players. I will not mention the fact that the first time that Pontypridd appeared in the Welsh cup final, it lost to a team called Bridgend [Laughter.]
- 13:55 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wrth gwrs, fe fydd cylch rasio Cymru, o'i wireddu, yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau chwaraeon o sylwedd yng Nghymru. Ar 8 Hydref, fe ddywedoch wrthyf eich bod yn hyderus o annibyniaeth Cyfoeth Naturiol Cymru oddi wrth Weinidogion eich Llywodraeth pan mae'n dod at benderfyniadau sy'n ymwneud â'r drefn gynllunio. A yw'r ymchwiliad rydych chi wedi'i gyhoeddi'r bore yma yn awgrymu efallai nad ydych chi mor siŵr erbyn hyn?

13:55	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Order. That is not relevant to this questioning. I have allowed a lot of leeway for the leaders to question on this.</p>	<p>Trefn. Nid yw hynny'n berthnasol i'r holi hwn. Rwyf wedi caniatáu llawer o hyblygrwydd i'r arweinwyr ofyn cwestiynau am hyn.</p>
	Gwella Cludiant	Improving Transport
13:55	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>6. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella cludiant yng Nghymru dros y deuddeg mis nesaf? OAQ(4)1703(FM)</p>	<p>6. Will the First Minister outline the Welsh Government's priorities for improving transport in Wales in the next twelve months? OAQ(4)1703(FM)</p>
13:55	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. The Minister outlined her priorities in her written statement of July of last year.</p>	<p>Gwnaf. Amlinellodd y Gweinidog ei blaenoriaethau yn ei datganiad ysgrifenedig ym mis Gorffennaf y llynedd.</p>
13:56	Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Thank you very much, First Minister. It was reported in January this year that the Welsh Government has plans to fund improvements to the Ebbw Vale railway line. In the last administration, your colleague, the Deputy First Minister, promised to put the Newport and Ebbw Vale link in place well before the Ryder Cup, which has not happened to this day. Will the First Minister advise whether these plans include linking Newport to Ebbw Vale by railway line, which would provide significant economic benefits both to Newport and the Gwent valleys?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog. Adroddwyd ym mis Ionawr eleni bod gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i ariannu gwelliannau i reilffordd Glynwby. Yn y weinyddiaeth ddiwethaf, addawodd eich cydweithiwr, y Dirprwy Brif Weinidog, i roi'r cyswllt rhwng Casnewydd a Glynwby ar waith ymhell cyn Cwpan Ryder, ac nid yw hynny wedi digwydd hyd heddiw. A wnaiff y Prif Weinidog roi gwybod a yw'r cynlluniau hyn yn cynnwys cysylltu Casnewydd â Glynwby trwy reilffordd, a fyddai'n cynnig manteision economaidd sylweddol i Gasnewydd ac i gymoedd Gwent?</p>
13:56	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Well I can say that Pye Corner station is due to open in December this year; that will improve access to Newport and we are also funding track works that will provide a capability to operate additional services, which could operate to either Newport or Cardiff, and those works will be completed in 2016.</p>	<p>Wel gallaf ddweud y disgwylir i orsaf Pye Corner agor ym mis Rhagfyr eleni; bydd hynny'n gwella mynediad i Gasnewydd, ac rydym ni hefyd yn ariannu gwaith ar y trac a fydd yn darparu gallu i weithredu gwasanaethau ychwanegol, a allai weithredu i naill ai Casnewydd neu Caerdydd, a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gwblhau yn 2016.</p>
13:56	Rhun ap Iorwerth Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Y flaenoriaeth yn y gogledd-orllewin yn aml iawn yw sicrhau llif traffig cyson ar hyd yr A55. Dros yr ŵyl y banc yn ddiweddar, byddwch chi'n gwybod bod llifogydd wedi cau'r A55 am gyfnod, er i £3 miliwn gael ei wario ar y darn hwnnw o'r ffordd i atal llifogydd dwy flynedd yn ôl. Mae goblygiadau economaidd difrifol ac awgrym clir bod traferth wedi bod o ran cludo pobl i ysbytai hefyd. A wnewch chi roi ymrwymiad i sicrhau na fydd problemau fel hyn yn codi eto a darparu manylion ynglŷn â pha gam yn union mae'r Llywodraeth yn bwriadu cymryd i atal hyn rhag digwydd eto?</p>	<p>The priority in north-west Wales very often is ensuring consistent traffic flow along the A55. Over the recent bank holiday, you will be aware that flooding closed the A55 for a period, although £3 million was spent on that section of road to prevent flooding just two years ago. There are serious economic implications to this and there is a clear suggestion that there have been difficulties in getting people to hospital, too. Will you give a commitment to ensuring that problems such as this do not arise again and provide details on what steps exactly the Welsh Government intends to take to prevent this from happening again?</p>

- 13:57 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Wrth gwrs, cyn belled ag y gall rywun ei weld, ni fyddwn yn erfyn hwn i ddigwydd eto. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni ystyried bod patrwm y tywydd yn y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anarferol iawn, ac, o achos hynny, mae wedi bod yn her i sicrhau bod llifogydd, yn enwedig, yn cael eu datrys mor gynted ag sy'n bosibl. Gofynnaf i'r Gweinidog i ysgrifennu atoch chi gyda mwy o fanylion.
- Of course, as far as anyone can see, I would not expect this to happen again. However, we have to consider that the weather patterns over the last few years have been very unusual, and, as a result, it has been a challenge to ensure that flooding, in particular, is resolved as soon as possible. I will ask the Minister to write to you with more details.
- 13:58 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
One key component of transport policy, and, indeed, traffic management, that is sometimes overlooked is the capacity, First Minister, to deal with major events. In that context, it was my pleasure, on Sunday, to attend for the third time the Bob Jones memorial air show at Welshpool airport. It was a superb event, which was a great credit to the organisers, but one thing that did threaten to mar it was the extreme difficulty with traffic management. In that context, First Minister, what steps would the Welsh Government be prepared to take to ensure that best practice in this important area around major events, as is already evident with the Royal Welsh Show, the Green Man Festival and other major sporting events, is rolled out to mitigate this problem in future?
- Un elfen allweddol o bolisi trafndiaeth, ac, yn wir, rheoli traffig, sy'n cael ei anwybyddu weithiau yw'r gallu, Brif Weinidog, i ymdopi â digwyddiadau mawr. Yn y cyd-destun hwnnw, roedd yn bleser gennyf, ddydd Sul, i fod yn bresennol am y trydydd tro yn sioe awyr goffa Bob Jones ym maes awyr y Trallwng. Roedd yn ddigwyddiad gwych, a oedd yn glod mawr i'r trefnwyr, ond un peth a wnaeth fygwth ei ddifetha oedd yr anhawster eithriadol o ran rheoli traffig. Yn y cyd-destun hwnnw, Brif Weinidog, pa gamau fyddai Llywodraeth Cymru yn barod i'w cymryd i sicrhau bod arfer gorau yn y maes pwysig hwn sy'n gysylltiedig â digwyddiadau mawr, fel sydd eisoes yn amlwg gyda Sioe Frenhinol Cymru, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a digwyddiadau chwaraeon mawr eraill, yn cael ei gyflwyno i liniaru'r broblem hon yn y dyfodol?
- 13:58 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It would be a matter to be dealt with, I would suspect, by early meetings between Welsh Government on the trunk road, Powys County Council and Dyfed-Powys Police. The Royal Welsh Show, of course, is a long-established event and so the authorities have had a lot of practice, if I can put it that way, in making sure that traffic flow works properly. I encourage early engagement, particularly with the highways authorities and the police to make sure that the traffic flows as seamlessly as possible.
- Byddai'n fater i ymdrin ag ef, byddwn yn tybio, trwy gyfarfodydd cynnar rhwng Llywodraeth Cymru ar y gefnffordd, Cyngor Sir Powys a Heddlu Dyfed-Powys. Mae Sioe Frenhinol Cymru, wrth gwrs, yn ddigwyddiad hirhoedlog ac felly mae'r awdurdodau wedi cael llawer o ymarfer, os caf ei roi felly, i wneud yn siŵr bod llif y traffig yn gweithio'n iawn. Rwy'n annog ymgysylltiad cynnar, yn enwedig gyda'r awdurdodau priffyrdd a'r heddlu i wneud yn siŵr bod y traffig yn llifo mor ddi-dor â phosibl.
- 13:59 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Brif Weinidog, rwyf eisiau mynd yn ôl at yr A55, achos rydych chi wedi dweud eich bod yn gobeithio nad yw hyn yn mynd i ddigwydd eto ond, wrth gwrs, fe ddigwyddodd eto ar 23 Mai. Yr hyn rwyf yn gobeithio y gallwch ei ddweud y prynhawn yma ydy, os ydy'r ymchwiliad hwn yn dweud bod y gwaith sydd wedi'i gwblhau'n annigonol, a fydd arian o fewn goffrau Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith hwnnw. Mae sylw yn y gogledd bod trafodaethau ynglŷn â'r M4 yn creu sefyllfa ble fydd yr arian yn cael ei wario yn y de yn hytrach nag ar welliannau yn y gogledd ar un pryd.
- First Minister, I want to return to the issue of the A55, because you have said that you hope that this will not happen again, but, of course, it did happen again on 23 May. What I hope that you can tell us this afternoon is, if this inquiry does say that the work that has been completed is inadequate, whether there will be funding available within Welsh Government funds to do that work. There is talk in north Wales that discussions on the M4 are creating a situation in which the funds will be spent in south Wales rather than on making improvements simultaneously in north Wales too.
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Wel, na, mae'r gwelliant yn y de ynglŷn â'r hyn sy'n digwydd rownd Casnewydd. Mae hynny'n wahanol achos y ffaith bod eisiau benthg y arian i wneud hynny. Fodd bynnag, cawn ystyried beth mae'r adroddiad yn ei ddweud cyn ystyried unwaith eto beth fydd eisiau ei wneud er mwyn cryfhau'r A55 o ran y broblem o lifogydd.
- Well, no, the improvements in the south are around Newport. That is very different because we would need to borrow money to do that. However, we will consider what the report says before considering again what will need to be done in order to bolster the A55 in terms of flooding.

Sector y Diwydiannau Creadigol

The Creative Industries Sector

- 14:00 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
7. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru i sector y diwydiannau creadigol? OAQ(4)1708(FM)
- 14:00 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- 14:00 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 14:01 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- 14:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is one of our fastest-growing sectors. We also, of course, had the news that Pinewood was coming to Wales, and the fact that the BBC has taken a decision today with regard to a new headquarters. We have awarded more than £9 million of funding to the sector in the last year, helping to create or safeguard over 1,400 jobs.

Thank you for that answer, First Minister, and, as you may know, 'Da Vinci's Demons' is about to start filming its third series on the old Ford site in my constituency. Many people think that it is in Swansea, but it is actually in Neath Port Talbot. The decision to return to the studios clearly reflects the great support provided by Neath Port Talbot council and the Welsh Government and, I will also add, the University of Wales Trinity Saint David, which has provided support. However, to encourage more productions to come to Wales, it is important to develop a greater workforce with the necessary skills in all aspects of the creative industry. So, how is the Welsh Government working with education providers to ensure that these skills are developed in Wales to provide that workforce?

I can say that officials from the economy, science and transport creative sector team and the Department for Education and Skills are working with the providers and with the industry in order to address the issue of skills. We already have many skilled professionals in tv and film production, and so work is already ongoing with the education providers to make sure that that skills gap, should it arise in the future, is addressed.

I call on Mark Isherwood.

7. Will the First Minister make a statement on Welsh Government support for the creative industries sector? OAQ(4)1708(FM)

Mae'n un o'n sectorau sy'n tyfu gyflymaf. Rydym hefyd, wrth gwrs, wedi cael y newyddion bod Pinewood yn dod i Gymru, a'r ffaith fod y BBC wedi gwneud penderfyniad ynglŷn â phencadlys newydd heddiw. Rydym wedi rhoi mwy na £9 miliwn o gyllid i'r sector yn y flwyddyn ddiwethaf, gan helpu i greu neu ddiogelu dros 1,400 o swyddi.

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, ac, fel y gwyddoch, mae 'Da Vinci's Demons' ar fin dechrau ffilmio ei drydedd gyfres ar hen safle Ford yn fy etholaeth i. Mae llawer o bobl yn credu ei fod yn Abertawe, ond yng Nghastell-nedd Port Talbot y mae mewn gwirionedd. Mae'r penderfyniad i ddychwelyd i'r stiwdios yn adlewyrchu'r gefnogaeth wych a ddarparwyd gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot a Llywodraeth Cymru a, byddwn yn ychwanegu hefyd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sydd wedi darparu cefnogaeth. Fodd bynnag, er mwyn annog mwy o gynrychiadau i ddod i Gymru, mae'n bwysig datblygu gweithlu mwy sydd â'r sgiliau angenrheidiol ym mhob agwedd ar y diwydiant creadigol. Felly, sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda darparwyr addysg i sicrhau bod y sgiliau hyn yn cael eu datblygu yng Nghymru i ddarparu'r gweithlu hwnnw?

Gallaf ddweud bod swyddogion o dîm sector creadigol yr economi, gwyddoniaeth a thrafnidiaeth thîm sector a'r Adran Addysg a Sgiliau yn gweithio gyda darparwyr a chyda'r diwydiant er mwyn mynd i'r afael â'r mater o sgiliau. Mae gennym nifer o weithwyr proffesiynol medrus ym maes cynhyrchu teledu a ffilm eisoes, ac felly mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo gyda darparwyr addysg i wneud yn siŵr bod y bwch sgiliau hwnnw, pe byddai'n ymddangos yn y dyfodol, yn cael sylw.

Galwaf ar Mark Isherwood.

14:01	Mark Isherwood Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>In fact, interest in filming in north Wales is increasingly evident: the Emmeline Pankhurst story in Ruthin, intended Pinewood ventures into Anglesey, 'Tarzan' starting filming in Llanberis and Film Wales scouting locations for a national lottery tv campaign involving hundreds and thousands of pounds of investment. This is at the same time as a creative sector brain drain from the north to the south. Would you, therefore, as First Minister, support properly worked-up business proposals for the development of a film studio and sound stage in north Wales that could service the opportunity for film and media production and create much-needed local jobs?</p>	<p>Mewn gwirionedd, mae diddordeb mewn ffilmio yng ngogledd Cymru yn fwyfwy amlwg: stori Emmeline Pankhurst yn Rhuthun, bwriad Pinewood i weithio ar Ynys Môn, 'Tarzan' yn dechrau ffilmio yn Llanberis a Ffilm Cymru yn chwilio am leoliadau ar gyfer ymgyrch deledu y loteri genedlaethol sy'n cynnwys cannoedd a miloedd o bunnau o fuddsoddiad. Mae hyn yn digwydd ar yr un pryd â cholli sgiliau creadigol o'r gogledd i'r de. A fydddech chi, felly, fel Prif Weinidog, yn cefnogi cynigion busnes sydd wedi eu paratoi'n briodol ar gyfer datblygu stiwdio ffilm a llwyfan sain yng ngogledd Cymru a allai wasanaethu'r cyfle ar gyfer cynhyrchu ffilm a chyfryngau a chreu swyddi lleol y mae wir hangen?</p>
14:02	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We will, of course, examine carefully any potential investment in any part of Wales. We know, when it comes to the creative industries, that Caernarfon, for example, has developed as a hub, and there is potential to grow further there as well. We know that there are many locations in the north that have great potential when it comes to filming, but the suggestion that the Member makes is one that we would examine with interest, if there was such a proposal.</p>	<p>Byddwn, wrth gwrs, yn archwilio'n ofalus unrhyw fuddsoddiad posibl mewn unrhyw ran o Gymru. Rydym yn gwybod, wrth ystyried y diwydiannau creadigol, bod Caernarfon, er enghraifft, wedi datblygu fel canolfan, ac mae potensial i dyfu ymhellach yno hefyd. Rydym yn gwybod bod llawer o leoliadau yn y gogledd sydd â photensial mawr pan ddaw i ffilmio, ond mae'r awgrym y mae'r Aelod yn ei wneud yn un y byddem yn edrych arno gyda diddordeb, pe byddai cynnig o'r fath ar gael.</p>
14:02	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>I call on Alun Ffred Jones.</p>	<p>Galwaf ar Alun Ffred Jones</p>
14:02	Alun Ffred Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>Y cymorth uniongyrchol amlycaf i'r diwydiannau creadigol yw cronfa diwydiannau creadigol y Llywodraeth. Fel Cyllid Cymru, arian cyhoeddus yw hwnnw sydd yn cael ei fuddsoddi mewn mentrau neu brosiectau preifat. A wnewch chi ryddhau'r manylion ynglŷn â'r gronfa hon, os gwelwch yn dda, megis faint o fuddsoddiadau sydd wedi cael eu gwneud a faint o ad-daliadau sydd wedi dod yn ôl i'r Llywodraeth, er mwyn trylwyredd a llywodraeth agored?</p>	<p>The most prominent form of direct support for the creative industries is the Government's creative industries fund. Like Finance Wales, that is public money that is invested in initiatives or private projects. Will you give us some details on this fund, please, such as how many investments have been made and how many repayments have been received by Government, for the sake of transparency and open government?</p>
14:03	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>[Anhyglyw.] Fe ofynnaf i'r Gweinidog i ysgrifennu â mwy o fanylion.</p>	<p>[Inaudible.] I will ask the Minister to write with more details.</p>
	Cyflenwi Ynni	Energy Supply
14:03	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p>8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gyflenwi ynni yng Nghymru? OAQ(4)1713(FM)</p>	<p>8. Will the First Minister make a statement on energy supply in Wales? OAQ(4)1713(FM)</p>
14:03	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography	Senedd.tv Fideo Video
	<p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wales meets a significant proportion of UK energy needs through electricity generation, liquefied natural gas imports and fuel refining capabilities, which are also exceptionally important to the UK economy. We continue to lead the transition to a low-carbon energy system.</p>	<p>Mae Cymru yn diwallu cyfran sylweddol o anghenion ynni'r DU trwy gynhyrchu trydan, mewnforion nwy naturiol hylifedig a galluoedd puro tanwydd, sydd hefyd yn eithriadol o bwysig i economi'r DU. Rydym yn parhau i arwain y newid i system ynni carbon isel.</p>

14:03	Rebecca Evans Bywgraffiad Biography You have repeatedly raised warnings about the spiralling costs of energy and the danger that that presents to the energy-intensive industries in Wales. Such companies continue to struggle with the costs of energy, and that, obviously, has an impact on their competitiveness. On a scale of nought to 10, how responsive has the UK Government been to heeding your warnings and what action, if any, has it taken to reduce the cost to Welsh business?	Rydych chi wedi rhybuddio am gostau cynyddol ynni a'r perygl y mae hynny'n ei achosi i'r diwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru dro ar ôl tro. Mae cwmnïau o'r fath yn parhau i gael trafferth gyda chostau ynni, ac mae hynny, yn amlwg, yn cael effaith ar eu gallu i gystadlu. Ar raddfa o ddim i 10, pa mor ymatebol y bu Llywodraeth y DU o ran cymryd sylw o'ch rhybuddion a pha gamau, os o gwbl, a gymerwyd i leihau'r gost i fusnesau Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:04	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> I cannot give it zero, because it has sought to address this issue, but I would not give it more than about three. The reason is that although we had the words in the budget, there has been no real action as yet. I do have concerns that unless we see action soon from the UK Government, we will start to see job losses in energy-intensive industries in Wales. We cannot do anything about this as a devolved Government. There is a duty on the UK Government to follow through its words now with actions, otherwise we are going to start seeing problems in some of the most important manufacturing industries.	Ni allaf roi sero iddi, oherwydd ei bod wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn, ond ni fyddwn yn rhoi mwy na thua tri iddi. Y rheswm yw er i ni gael y geiriau yn y gyllideb, ni fu unrhyw weithredu go iawn hyd yn hyn. Oni bai ein bod ni'n gweld Llywodraeth y DU yn gweithredu'n fuan, mae gen i bryderon y byddwn yn dechrau gweld swyddi'n cael eu colli mewn diwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru. Ni allwn wneud unrhyw beth ynglŷn â hyn fel Llywodraeth ddatganoledig. Mae dyletswydd ar Lywodraeth y DU i ddilyn ei geiriau gyda gweithredoedd nawr, neu fel arall rydym ni'n mynd i ddechrau gweld problemau yn rhai o'r diwydiannau gweithgynhyrchu pwysicaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:04	Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call on Russell George.	Galwaf ar Russell George.	Senedd.tv Fideo Video
14:04	Russell George Bywgraffiad Biography Given the recent allegations regarding Welsh Ministers putting undue pressure on Natural Resources Wales, can the First Minister confirm that there has been no undue pressure put on Natural Resources Wales by the Welsh Government, by the Ministers, or officials, regarding the evidence that they presented to the mid Wales conjoined windfarm public inquiry?	O ystyried yr honiadau diweddar ynghylch Gweinidogion Cymru yn rhoi gormod o bwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru, a all y Prif Weinidog gadarnhau na roddwyd unrhyw bwysau gormodol ar Gyfoeth Naturiol Cymru gan Lywodraeth Cymru, gan y Gweinidogion, neu gan y swyddogion, o ran y dystiolaeth a gyflwynwyd ganddynt i ymchwiliad cyhoeddus fferm wynt gyswllt canolbarth Cymru?	Senedd.tv Fideo Video
14:05	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> No.	Na allaf.	Senedd.tv Fideo Video
14:05	Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography Mae Cymru, wrth gwrs, yn allforiwr net o drydan ac yn cynhyrchu dwywaith yn fwy nag yr ydym yn ei ddefnyddio. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl Cymru yn cael y budd gorau posibl mas o'r trydan ychwanegol hwnnw?	Wales, of course, is a net exporter of electricity, and we produce twice as much as we use. What is the Welsh Government doing to ensure that the people of Wales get the maximum benefit possible from that additional energy?	Senedd.tv Fideo Video

14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae cronfa fudd-daliadau, yn y lle cyntaf, a hefyd rydym wedi creu cofrestr o fuddiannau sy'n dod o dan ddatblygu gwynt ar y tir. Felly, rhaid inni ystyried, yn enwedig yn y dyfodol, os oes mwy o ddatblygu o ran adnoddau Cymru, bod ffyrdd o sicrhau bod mwy o arian yn dod yn ôl i bobl Cymru. Er enghraifft, gyda Bil Cymru, bydd posibilrwydd o greu trethi newydd, felly os byddai unrhyw fath o adnodd newydd yn cael ei ddatblygu yng Nghymru, dyna fyddai'r amser i ystyried a ddylai fod yna dreth ar yr adnodd hwnnw er mwyn codi mwy o arian i bobl Cymru. Felly, mae'r gofrestr yn ddechreuad da, ond mae yna bosibiliadau yn y dyfodol hefyd.</p>	<p>There is the benefit fund, for starters, and we have created a register of benefits that come under onshore wind development. Therefore, we have to consider, particularly in the future, if there is more development in terms of Wales's natural resources, that there are ways of ensuring that more money goes back to the people of Wales. For example, with the Wales Bill, it will be possible to create new taxes, so if any new kind of resource could be developed in Wales, that would be the time to decide whether we need a tax on that resource in order to raise more money for the people of Wales. So, the register is a good start, but there are also possibilities in the future.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg		Provision through the Medium of Welsh	
14:06	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography <i>9. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y gwasanaethau gofal sylfaenol? OAQ(4)1711(FM)</i></p>	<p><i>9. Will the First Minister make a statement regarding provision through the medium of Welsh in primary care services? OAQ(4)1711(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n fframwaith gwasanaethau Cymraeg 'Mwy na geiriau...' yn amlinellu'r gwaith sy'n cael ei ddatblygu gyda chyrrff y gwasanaeth iechyd i ddiwallu yn well anghenion iaith y rheini sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol.</p>	<p>Our Welsh language framework 'More than just words...' sets out the work being taken forward with NHS bodies to better meet the Welsh language needs of those accessing primary care services.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:06	<p>Simon Thomas Bywgraffiad Biography Mae adroddiad Comisiynydd y Gymraeg a gyhoeddwyd heddiw ynglŷn â'r Gymraeg yn y gwasanaeth iechyd yn canfod fod y strategaeth honno wedi methu. Yn ôl ei geiriau hi, mae wedi'i brawychu o glywed rhai o brofiadau dirdynol siaradwyr Cymraeg ac mae hi'n argymhell yn gryf iawn y dylai'r Llywodraeth arwain a chynllunio gweithlu dwyieithog cenedlaethol ar gyfer y gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ar y cyd â chyrrff iechyd a darparwyr addysg. A wnaiff y Llywodraeth ymateb yn bositif i'r argymhelliad hwnnw?</p>	<p>The Welsh Language Commissioner's report published today on the Welsh language in the health service finds that that strategy has failed. According to her words, she has been shocked to hear some of the heart-rending experience of Welsh speakers and she strongly suggests that the Welsh Government should lead and plan a national bilingual workforce for the health service in Wales, in collaboration with health bodies and education providers. Will the Government respond positively to that recommendation?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Wrth gwrs, mae'r adroddiad wedi cael ei gyhoeddi heddiw. Byddwn yn ystyried yn fanwl yr hyn y mae'r adroddiad yn ei ddweud er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu'n well o ran anghenion siaradwyr Cymraeg.</p>	<p>The report was published today. We will consider in detail what the report says in order to ensure that we do operate better in terms of the needs of Welsh speakers.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:07	<p>Keith Davies Bywgraffiad Biography Rwyf newydd ddarllen crynodeb o adroddiad Comisiynydd y Gymraeg, ac mae'n fy atgoffa o rywbeth. Yn dilyn twf ardaloedd Dechrau'n Deg yng Nghymru, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno â ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod digon o ymwelwyr iechyd ar gael sy'n rhugl yn y Gymraeg i weithio gyda theuluoedd sydd â Chymraeg yn iaith y cartref ond lle mae'r plant bach, efallai, yn brin o ran eu Saesneg?</p>	<p>I have just read a summary of the Welsh Language Commissioner's report, and it reminds me of something. Given the growth of Flying Start areas in Wales, does the First Minister agree that it is important to ensure that there are enough health visitors available who are fluent Welsh speakers to work with families, where Welsh is the language spoken at home and where the youngest children, perhaps, do not speak much English?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Mae hynny'n bwysig. Rhaid inni gofio, wrth gwrs—ac fe welais hyn yn fy nheulu i—pan fo pobl yn cael strôc neu'n dioddef o ddementia, maent yn gallu colli eu Saesneg, ac yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg yn unig. Felly, mae her i fyrddau iechyd i sicrhau bod ganddynt staff ar gael sy'n gallu cyfathrebu â phobl sydd mewn ysbytai, mewn cartrefi neu yn eu cartrefi hwy eu hunain. Dylent sicrhau bod y gwasanaeth hwnnw ar gael i bobl.
That is important. We must remember, of course—and I saw this in my family—that when people have a stroke or suffer from dementia, they can lose their English language skills and can communicate in Welsh only. Therefore, there is a challenge for health boards to ensure that they have staff available who can communicate with people who are in hospitals, in care homes or in their own homes. They need to ensure that that service is available to people.

14:08 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Hoffwn sôn am yr hyn y mae Keith Davies wedi'i ddweud. Ychydig wythnosau yn ôl cawsom wythnos ymwybyddiaeth dementia, a sonioch am y rhai sy'n colli iaith ac yn mynd yn ôl i iaith eu plentyndod. Wythnos diwethaf, trafodwyd integreiddio gofal sylfaenol cymunedol a gofal cymdeithasol. Gan ystyried geiriau cyffredinol y comisiynydd heddiw, sut mae eich polisi yn cefnogi'r rhai sy'n derbyn eu gofal meddygol fel gwasanaeth cynradd ond sydd angen lefel uwch o ymyrraeth o ran gofal cymdeithasol, er enghraifft o ran eu hanghenion cyfathrebu?
I would like to pick up on Keith Davies's point. A few weeks ago we had the dementia awareness week, and you mentioned those people who lose their language skills and return to the language of their childhood. Last week, the integration of primary, community and social care was discussed. Given the general comments of the commissioner today, how does your policy support those who receive their medical care as primary care, but require a higher level of intervention in terms of social services, for example in terms of their communication needs?

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Soniais am 'Mwy na geiriau...' yn gynharach, a bydd yr adroddiad hwn yn gallu rhoi mwy o fanylion inni o ran ble y gallwn ddatblygu pethau ymhellach na'r hyn sydd wedi'i wneud erbyn hyn. Felly, rwy'n croesawu'r adroddiad ei hunan. Wrth gwrs, bydd gwaith yn cael ei wneud nawr er mwyn gweld ym mha ffordd y gallwn adeiladu ar yr adroddiad hwnnw.
I mentioned 'More than just words...' earlier, and this report can give us more details about where we can develop things further than what has currently been done. So, I welcome the report itself. Obviously, work will be undertaken now to see how we can build on that report.

Rhagfarn Hiliol Hunan-gofnodedig

Self-reported Racial Prejudice

14:09 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
10. Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o ganlyniadau diweddar y British Social Attitudes Survey yng nghyswllt rhagfarn hiliol hunan-gofnodedig yng Nghymru? OAQ(4)1701(FM)
10. What assessment has the First Minister made of the recent British Social Attitudes Survey results on self-reported racial prejudice in Wales? OAQ(4)1701(FM)

14:09 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It is obviously disappointing, but the Member should bear in mind that the sample size was just over 100 people. Normally, that would be far too small to have a proper idea; 1,000 is the minimum, normally, for any opinion polls, as we all know in the Chamber. We will, of course, consider the results in terms of their implications, but I am not convinced that the sample size was big enough to give us a proper picture.
Mae'n amlwg yn siomedig, ond dylai'r Aelod gadw mewn cof mai ychydig dros 100 o bobl oedd maint y sampl. Fel rheol, byddai hynny'n llawer rhy fach i gael syniad iawn; 1,000 yw'r isafswm, fel rheol, ar gyfer unrhyw bolau piniwn, fel y gwyddom i gyd yn y Siambr. Byddwn, wrth gwrs, yn ystyried y canlyniadau o ran eu goblygiadau, ond nid wyf wedi fy argyhoeddi bod maint y sampl yn ddigon mawr i roi darlun cywir i ni.

- 14:10 **Byron Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Accepting that, First Minister, it nevertheless shows a rise of 14 percentage points since 2000 based on figures from, as I said, the British Social Attitudes survey. It is a worrying factor, as I hope you will agree. What action can your Government now take, do you think, to tackle this growing prejudice here in Wales?
- Gan dderbyn hynny, Brif Weinidog, mae'n dangos er hynny cynnydd o 14 pwynt canran ers 2000 yn seiliedig ar ffigurau o, fel y dywedais, arolwg Agweddau Cymdeithasol Prydain. Mae'n ffactor sy'n peri pryder, fel y byddwch yn cytuno gobeithio. Pa gamau all eich Llywodraeth eu cymryd nawr, yn eich barn chi, i fynd i'r afael â'r rhagfarn gynyddol hon yma yng Nghymru?
- 14:10 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- We have supported, of course, many organisations that seek to reduce or eliminate any kind of prejudice, whether it is racial prejudice or prejudice in terms of religion. I have taken a role, for example, in the faith communities forum, and that forum has played an enormous role in encouraging interfaith working. It also played a very important role at the time of the riots in England and in the work that was done in order to avoid the same situation happening in Wales. Sometimes, I think that we can mislead ourselves into thinking that we are in some way more free of racism than other countries; that clearly is not the case, and we must guard against that at all times. I remind people that, ultimately, though it is an obvious thing to say, people should be judged, as Martin Luther King put it, by the content of their character and not by the colour of their skin. It is nevertheless disappointing to see the figures that we saw a few weeks ago, despite the flaws that may be there in terms of the methodology.
- Rydym ni wedi cefnogi, wrth gwrs, llawer o sefydliadau sy'n ceisio lleihau neu ddileu unrhyw fath o ragfarn, boed yn rhagfarn hiliol neu'n rhagfarn o ran crefydd. Rwyf wedi cymryd rhan, er enghraifft, yn y fforwm cymunedau ffydd, ac mae'r fforwm hwnnw wedi chwarae rhan fawr iawn o ran annog gweithio rhyng-ffydd. Cyflawnodd swyddogaeth bwysig hefyd ar adeg y terfysgoedd yn Lloegr ac yn y gwaith a wnaethpwyd er mwyn atal yr un sefyllfa rhag digwydd yng Nghymru. Weithiau, rwy'n meddwl y gallwn ni gamarwain ein hunain i feddwl ein bod mewn rhyw ffordd yn fwy rhydd o hiliaeth na gwledydd eraill; sy'n amlwg ddim yn wir, ac mae'n rhaid i ni fod yn wylidwros o hynny bob amser. Rwy'n atgoffa pobl, yn y pen draw, er ei fod yn beth amlwg i'w ddweud, y dylai pobl gael eu barnu, fel y dywedodd Martin Luther King, ar sail cynnwys eu cymeriad ac nid ar sail lliw eu croen. Serch hynny, mae'n siomedig gweld y ffigurau a welsom ychydig wythnosau yn ôl, er gwaethaf y diffygion a allai fodoli o ran y fethodoleg.
- 14:11 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I accept everything you say: it is a small sample, but it is a worrying trend, those people identifying as being racially prejudiced against other people, and I think that we really do need to take this seriously, especially when you consider that Wales is perhaps one of the most racially homogenous parts of the UK. To what extent do you think media coverage plays a part in this, especially some of the right-wing tabloid newspapers that we get from London? I do not think that they really reflect the reality of everyday life here in Wales.
- Brif Weinidog, rwy'n derbyn popeth yr ydych chi'n ei ddweud: sampl fechan oedd hon, ond mae'n duedd sy'n peri pryder, y bobl hynny sy'n dweud bod ganddynt ragfarnau hiliol yn erbyn pobl eraill, ac rwy'n meddwl bod wir angen i ni gymryd hyn o ddifrif, yn enwedig pan ystyriwch chi mai Cymru efallai yw un o rannau mwyaf unfurf y DU o ran hil. I ba raddau ydych chi'n credu bod sylw yn y cyfryngau yn chwarae rhan yn hyn, yn enwedig rhai o'r papurau newydd tabloid adain dde yr ydym ni'n eu cael o Lundain? Nid wyf yn credu eu bod wir yn adlewyrchu gwirionedd bywyd beunyddiol yma yng Nghymru.
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- [Inaudible.]—an enormous part. What troubles me is that it has become almost respectable to express a kind of mild racism, if I can put it that way, in a way that would not have been acceptable 10 years ago, and that troubles me because it leads on to far worse things. It is a problem across Europe, and the irony is that the vote that we saw in the European elections was a reflection of a European trend. I think that it is an issue for all those who are strongly opposed to racism across the whole of this continent. When countries start to look in on themselves and start looking for others to blame, it is a sure sign that that country is in decline, and I am afraid that the UK is on the edge of being in that position, as indeed are other countries in Europe as well, and that is something that I greatly regret.
- [Anghlywadwy.]—rhan enfawr. Yr hyn sy'n fy mhoeni i yw ei bod bron wedi dod yn barchus i fynegi rhyw fath o hiliaeth ysgafn, os caf ei roi felly, mewn ffordd na fyddai wedi bod yn dderbyniol 10 mlynedd yn ôl, ac mae hynny'n fy mhoeni oherwydd ei fod yn arwain at bethau llawer gwaeth. Mae'n broblem ar draws Ewrop, a'r eironi yw bod y bleidlais a welsom yn yr etholiadau Ewropeaidd yn adlewyrchiad o duedd Ewropeaidd. Credaf ei fod yn fater i bawb â gwrthwynebiad cryf i hiliaeth ar draws y cyfandir hwn. Pan fydd gwledydd yn dechrau edrych i mewn ar eu hunain ac yn dechrau chwilio am bobl eraill i'w beio, mae'n arwydd sicr bod y wlad honno'n dirywio, ac mae gen i ofn bod y DU yn agos at fod yn y sefyllfa honno, fel yn wir y mae gwledydd eraill yn Ewrop hefyd, ac mae hynny'n rhywbeth rwy'n ei resynu'n fawr.

Pynciau STEM

STEM Subjects

- 14:12 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- 11. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella'r modd y mae pynciau STEM yn cael eu haddysgu? OAQ(4)1702(FM)*
- 11. Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to improve the teaching of STEM subjects? OAQ(4)1702(FM)*
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Yes. It is an important priority for us. We are committed, of course, to supporting teachers of science, technology, engineering and mathematics subjects across Wales through new approaches to professional development and through schemes such as Engineering Education Scheme Wales, much work is being done in order to engage the interest of young people in studying STEM subjects beyond key stage three and then, beyond that, at university.
- Gwnaf. Mae'n flaenoriaeth bwysig i ni. Rydym ni wedi ymrwymo, wrth gwrs, i gefnogi athrawon pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg ledled Cymru trwy ddulliau newydd o ddatblygiad proffesiynol a, thrwy gynlluniau fel Cynllun Addysg Peirianeg Cymru, mae llawer o waith yn cael ei wneud er mwyn ennyn diddordeb pobl ifanc mewn astudio pynciau STEM y tu hwnt i gyfnod allweddol tri ac yna, y tu hwnt i hynny, yn y brifysgol.
- 14:13 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am glad that you mentioned young people in that answer, First Minister, because, in evidence given to the Enterprise and Business Committee during the spring, CITB Cymru said that primary schools are unaccountable and are not subject to the same scrutiny with regard to STEM subjects. Now, Engineering Education Scheme Wales has a very good F1 scheme that goes in to primary schools. What are you doing to encourage primary schools to take advantage of that scheme, particularly to involve girls, across Wales?
- Rwy'n falch eich bod wedi sôn am bobl ifanc yn yr ateb yna, Brif Weinidog, oherwydd, mewn tystiolaeth a roddwyd i'r Pwyllgor Menter a Busnes yn ystod y gwanwyn, dywedodd CITB Cymru bod ysgolion cynradd yn anatebol ac nad ydynt yn destun yr un craffu o ran pynciau STEM. Nawr, mae gan Gynllun Addysg Beirianeg Cymru gynllun F1 da iawn sy'n mynd i mewn i ysgolion cynradd. Beth ydych chi'n ei wneud i annog ysgolion cynradd i fanteisio ar y cynllun hwnnw, yn enwedig i gynnwys merched, ledled Cymru?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I very much agree; the F1 challenge is exceptionally important. The work that has been done in the comprehensives, with sixth formers, is equally important, as is the work they had done themselves to regard to getting girls into science. I have to declare an interest here, in that my father works for them. He has a very small role, but he has been involved for some years, and therefore I can ensure the Member that the lobbying on behalf of STEM subjects in my family is very strong.
- Rwy'n cytuno'n llwyr; mae'r her F1 yn eithriadol o bwysig. Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn yr ysgolion cyfun, gyda disgyblion chweched dosbarth, yr un mor bwysig, fel y mae gwaith yr oedden nhw wedi ei wneud eu hunain o ran cael merched i mewn i wyddoniaeth. Mae'n rhaid i mi ddatgan buddiant yma, gan fod fy nhad yn gweithio iddyn nhw. Swyddogaeth fechan iawn sydd ganddo, ond mae wedi cymryd rhan ers rhai blynyddoedd, ac felly gallaf sicrhau'r Aelod bod y lobio ar ran pynciau STEM yn gryf iawn yn fy nheulu i.
- 14:14 **Leighton Andrews** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, as a backbencher, I completely support the report of the task and finish group on computing in the curriculum, which I commissioned when I was the Minister. Does the First Minister agree with me that it is particularly stupid for leaders of opposition parties to make pronouncements on the primary school curriculum when they clearly do not have a clue about what is already feasible within it? Would you please congratulate Cwmclydach Primary School in my constituency, which is pioneering the teaching of coding to children from year 2 upwards and is building latent construction and engineering skills based on methodologies such as 3-D printing?
- Brif Weinidog, fel aelod o'r meinciau cefn, rwy'n cefnogi'n llwyr adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfrifiadura yn y cwricwlwm, a gomisiynais pan mai fi oedd y Gweinidog. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno â mi ei bod yn arbennig o wirion i arweinwyr y gwrthbleidiau wneud datganiadau ar y cwricwlwm ysgol gynradd pan ei bod yn amlwg nad oes ganddynt unrhyw syniad am yr hyn sydd eisoes yn ymarferol oddi mewn iddo? A wnewch chi longyfarch, os gwelwch yn dda, Ysgol Gynradd Cwmclydach yn fy etholaeth i, sydd yn arloesi addysgu codio i blant o flwyddyn 2 ymlaen ac sy'n datblygu sgiliau adeiladu a pheirianeg cudd yn seiliedig ar fethodolegau fel argraffu 3-D?

14:15	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I very much congratulate Cwmclydach Primary School on the work that it is doing and, of course, I am delighted to hear of the strong support that my friend and colleague has given to ICT, both now and in the past, and, indeed, will give in the future.</p>	<p>Rwy'n llongyfarch Ysgol Gynradd Cwmclydach yn fawr iawn ar y gwaith y mae'n ei wneud ac, wrth gwrs, rwyf wrth fy modd o glywed am y gefnogaeth gref y mae fy ffrind a'm cydweithiwr wedi ei rhoi i TGCh, nawr ac yn y gorffennol, ac, yn wir, y bydd yn ei rhoi yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Ysbytai Dwyrain De Cymru		South Wales East Hospitals	
14:15	<p>William Graham Bywgraffiad Biography <i>12. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am nifer y gwelyau gofal critigol sydd ar gael yn ysbytai Dwyrain De Cymru? OAQ(4)1709(FM)</i></p>	<p><i>12. Will the First Minister make a statement on critical care bed capacity in South Wales East hospitals? OAQ(4)1709(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. Our delivery plan for the critically ill sets out our expectations for the NHS in Wales. We will be publishing our first annual report on progress and the capacity review on 22 July.</p>	<p>Gwnaf. Mae ein cynllun cyflawni ar gyfer y difrifol wael yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer y GIG yng Nghymru. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol cyntaf ar gynydd a'r adolygiad o gapasiti ar 22 Gorffennaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>William Graham Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you very much for your answer, Minister. You will know that issues remain concerning the impact of delayed transfers of care in south Wales and in South Wales East particularly. What steps do you intend to take to address this matter and what timescale do you envisage?</p>	<p>Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Weinidog. Byddwch yn gwybod bod problemau yn parhau o ran effaith achosion oedi wrth drosglwyddo gofal yn ne Cymru ac yn Nwyrain De Cymru yn arbennig. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â'r mater hwn a pha amserlen ydych chi'n ei rhagweld?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:15	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Of course, we know that delayed transfers of care are reducing in Wales. It is also the case, of course, that the number of beds per patient in Wales is, for example, higher than it is in England and we expect that good progress in terms of delayed transfers of care to continue.</p>	<p>Wrth gwrs, rydym yn gwybod bod achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn lleihau yng Nghymru. Mae hefyd yn wir, wrth gwrs, bod y nifer y gwelyau fesul claf yng Nghymru, er enghraifft, yn uwch nag ydyw yn Lloegr, ac rydym yn disgwyl i'r gwelliant da hwnnw o ran oedi wrth drosglwyddo gofal barhau.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, First Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Datganiad a Chyhoeddiad Busnes</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister for Local Government and Business, Lesley Griffiths.</p>	<p>Business Statement and Announcement</p> <p>Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes, Lesley Griffiths.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>

14:16 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

Thank you, Deputy Presiding Officer. I have one change to report to this week's business. The time allocated to tomorrow's questions to the Counsel General has been reduced in line with the number of questions tabled. Business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers, which are available to Members electronically.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:16 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I request a statement regarding the categorisation or mapping of Welsh moorland. I have had more and more farmers raising this issue with me and I have to agree with their sentiments that the current situation is simply unobjective and unfair. One of my constituents who farms near Adfa has said,

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

'On areas where my neighbours and I farm, that 1992 map was completely inaccurate, but we had no idea that the mapping was taking place and there were certainly no offer of an appeal against the incorrect categorisation of our land. In any case, the moorland scheme was voluntary and there was no suggestion that more than 20 years later the map would be used to cut our payments by 90%.'

Weinidog, gofynnaf am ddatganiad ynglŷn â chategoreiddio neu fapio rhostir Cymru. Rwyf wedi cael mwy a mwy o ffermwyr yn codi'r mater hwn gyda mi ac mae'n rhaid i mi gytuno gyda'u teimladau bod y sefyllfa bresennol yn anwrthrychol ac yn annheg. Mae un o'm hetholwyr sy'n ffermio ger Adfa wedi dweud,

O ran ardaloedd lle mae fy nghymdogion a minnau'n ffermio, roedd y map 1992 yna yn hollol anghywir, ond nid oedd gennym unrhyw syniad bod y mapio'n digwydd ac yn sicr nid oedd unrhyw gynnig o apêl yn erbyn categoreiddiad anghywir ein tir. Beth bynnag, roedd y cynllun rhostir yn wirfoddol ac nid oedd unrhyw awgrym y byddai'r map yn cael ei ddefnyddio mwy na 20 mlynedd yn ddiweddarach i wneud toriad o 90% i'n taliadau.

Minister, it is clearly important that we have both an objective definition of moorland and an appeals process that allows land to be removed from the map if it does not meet that definition. I know that Members would be grateful to hear further details from the Minister for natural resources on this and on how he is progressing this issue, because all I can see, if the current issue is upheld, is lengthy legal proceedings that will only benefit lawyers and not Welsh farmers.

Weinidog, mae'n amlwg yn bwysig bod gennym ddiffiniad gwrthrychol o rostir yn ogystal â phroses apelio sy'n caniatáu i dir gael ei dynnu oddi ar y map os nad yw'n bodloni'r diffiniad hwnnw. Gwn y byddai'r Aelodau'n ddiolchgar o gael clywed mwy o fanylion gan y Gweinidog cyfoeth naturiol ar hyn ac ar sut y mae'n symud y mater hwn ymlaen, oherwydd y cyfan y gallaf i ei weld, os bydd y mater presennol yn cael ei gadarnhau, yw achosion cyfreithiol hirfaith a fydd o fudd i gyfreithwyr yn unig, ac nid i ffermwyr Cymru.

14:17 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. The decisions taken by the Minister for Natural Resources and Food on this issue followed an extensive consultation exercise. It is absolutely vital that the system is as fair as possible across the board, but the Minister will update Members before the summer recess.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Diolch. Roedd y penderfyniadau a wnaed gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y mater hwn yn dilyn ymarfer ymgynghori helaeth. Mae'n gwbl hanfodol bod y system mor deg â phosibl i bawb, ond bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau cyn toriad yr haf.

14:18 **Christine Chapman** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, could we have a statement from the Minister for Natural Resources and Food on the Welsh Government's approach to encouraging recycling in Wales? In particular, could we explore the support and guidance that is given to public sector bodies regarding the recycling and reusing of ICT equipment? I recently met with a business in my constituency that carries out this specialist work and it told me that, in the light of legislative changes, there could be an issue regarding the appropriate disposal of such items and the data that they contain. I would be keen to know how the Welsh Government not only ensures that this is not the case, but can best exploit the opportunities that the recycling of ICT equipment can provide, both to the Welsh economy and to our wider society.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Weinidog, a allwn ni gael datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar ddull Llywodraeth Cymru o annog ailgylchu yng Nghymru? Yn benodol, a allem ni archwilio'r gefnogaeth a'r canllawiau a roddir i gyrff sector cyhoeddus o ran ailgylchu ac aildefnyddio offer TGCh? Cefais gyfarfod yn ddiweddar â busnes yn fy etholaeth i sy'n gwneud y gwaith arbenigol hwn a dywedodd wrthyf, yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol, y gallai fod problem o ran cael gwared ar eitemau o'r fath a'r data sydd ynddynt yn briodol. Byddwn yn awyddus i wybod sut mae Llywodraeth Cymru nid yn unig yn sicrhau mai nad dyma'r gwirionedd, ond sut y gall fanteisio orau ar y cyfleoedd y gall ailgylchu offer TGCh eu cynnig, i economi Cymru ac i'n cymdeithas ehangach.

- 14:18 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes, thank you. I think that it is important that all opportunities are explored, and the Minister for Natural Resources and Food will, again, update Members.
- Cewch, diolch. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig archwilio pob cyfle, a bydd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, unwaith eto, yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau.
- 14:19 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- A gaf i fynd â chi yn ôl, Weiniog, i'r wythnos diwethaf pan fuom yn trafod y rhaglen lywodraethu. Dywedodd y Prif Weiniog bryd hynny ei fod yn disgwyl cyhoeddiad yn fuan iawn—un cynhwysfawr—ar bolisiau'r Llywodraeth ar y Gymraeg. Rydych newydd gyhoeddi'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf, sy'n mynd i mewn i fis Gorffennaf, ac nid oes sôn am y cyhoeddiad hwnnw. A wnewch chi gadarnhau bod y cyhoeddiad yn dod yn y tymor hwn, cyn yr Eisteddfod Genedlaethol, er enghraifft, a, gorau oll, a allwch chi roi dyddiad y cyhoeddiad hwnnw inni heddiw? Yn gysylltiedig â hynny, fel y codais gyda'r Gweinidog heddiw, mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi ei hadroddiad ar y Gymraeg ym maes iechyd. Mae'n adroddiad swmpus iawn ac mae hi'n disgwyl ymateb gan y Llywodraeth mewn chwe mis. Mae hwn yn adroddiad i'r Gweinidogion yn benodol. Mae hyn mor bwysig fel ei bod yn briodol inni gael trafodaeth ar yr adroddiad rhywbryd yn y Cynulliad, a gorau oll fyddai i hynny beidio â digwydd yn ystod amser y gwrthbleidiau, ond iddi fod yn drafodaeth eang ac yn drafodaeth nodi sy'n digwydd o dan nawdd y Llywodraeth. A oes modd ichi drefnu hynny hefyd, os gwelwch yn dda?
- May I take you back to last week, Minister, when we discussed the programme for government? The First Minister said at that time that he expected an announcement very soon—a comprehensive statement—on the Government's policies on the Welsh language. You have just published the timetable for the next three weeks, which takes us into July, and there is no mention of that statement. Can you confirm that the statement is in the pipeline for this term, before the National Eisteddfod, for example, and, best of all, can you give us a date today as to when that statement will be made? Further to that, as I raised with the Minister earlier today, the Welsh Language Commissioner has published her report on the Welsh language in primary care. It is a very comprehensive report to which she expects a response from the Government within six months. This is a report specifically for Ministers. This is such an important issue that it is appropriate that we should have a debate on this report at some point in the Assembly, and best of all would be for that to not take place during opposition time but in Government time as a wide-ranging debate that asks us to note the report. Therefore, could you arrange that, too, please?
- 14:20 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I cannot give you a date today, but it is certainly in my pipeline of ensuring that all statements that have been promised before the end of this term will be done. You will have heard the First Minister's comments in questions to the First Minister regarding the report that was published today.
- Ni allaf roi dyddiad i chi heddiw, ond mae'n sicr yn rhan o'm bwriad o sicrhau y bydd yr holl ddatganiadau a addawyd cyn diwedd y tymor hwn yn cael eu gwneud. Byddwch wedi clywed sylwadau'r Prif Weiniog yn ystod y cwestiynau i'r Prif Weiniog ynghylch yr adroddiad a gyhoeddwyd heddiw.
- 14:20 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, could I ask for a written statement from the Minister for Natural Resources and Food with regard to the operation of the Glastir advanced scheme? Farmers are entering into contracts running from 1 January. As of yesterday, a constituent that has undertaken work as part of that scheme was unable to claim back money under that scheme because of forms not being made available by Welsh Government. She has been told by the very helpful staff at Llandrindod that the forms are currently being stress-tested by the Government. However, given that the scheme began on 1 January, and we are now in June, I am just wondering when my constituents will be able to receive forms from Welsh Government to claim back moneys that they are entitled to under the contract that they have signed with the Welsh Government.
- Weiniog, a gaf i ofyn am ddatganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar weithrediad cynllun datblygedig Glastir? Mae ffermwyr yn cytuno ar gontractau sy'n rhedeg o 1 Ionawr. Ddoe, nid oedd etholwr sydd wedi gwneud gwaith yn rhan o'r cynllun hwnnw yn gallu hawlio arian yn ôl dan y cynllun hwnnw gan nad oedd ffurflenni wedi cael eu rhoi ar gael gan Lywodraeth Cymru. Fe'i hysbyswyd gan yr aelodau staff a oedd yn barod iawn i helpu yn Llandrindod bod profion pwyslais yn cael eu cynnal gan y Llywodraeth ar y ffurflenni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, o gofio bod y cynllun wedi dechrau ar 1 Ionawr, a'n bod ni bellach ym mis Mehefin, rwy'n meddwl tybed pryd y bydd fy etholwyr yn gallu derbyn ffurflenni gan Lywodraeth Cymru i hawlio arian yn ôl y mae ganddynt hawl iddo dan y contract y maen nhw wedi ei lofnodi gyda Llywodraeth Cymru.
- 14:21 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- There is, on the business statement, an oral statement scheduled for next Tuesday, 17 June, by the Minister for Natural Resources and Food, on Glastir.
- Ar y datganiad busnes, mae datganiad llafar wedi ei drefnu ar gyfer dydd Mawrth nesaf, 17 Mehefin, gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ar Glastir.

14:21

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I had the pleasure of addressing a Disability Wales Disability in Pembrokeshire event last Friday, where I spoke about the framework for action on independent living. At that event I heard some stories about what seemed to be some pretty unfair practices on the part of some taxi firms in terms of the service that they provide for disabled people. With that in mind, please could I ask for a statement updating us on the work that the Welsh Government is doing with the Law Commission and with the UK Government to implement a new regulatory regime for taxis and private hire vehicles, which would seek to raise standards across the industry?

Cefais y pleser o annerch digwyddiad Anabledd yn Sir Benfro Anabledd Cymru ddydd Gwener diwethaf, pryd y siaradais am y fframwaith ar gyfer gweithredu ar fyw'n annibynnol. Yn y digwyddiad hwnnw, clywais straeon am yr hyn a oedd yn ymddangos yn arferion braidd yn annheg gan rai cwmnïau taci o ran y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu i bobl anabl. Gyda hynny mewn golwg, a gaf i ofyn os gwelwch yn dda am ddatganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud gyda Chomisiwn y Gyfraith a Llywodraeth y DU i sefydlu trefn reoleiddio newydd ar gyfer tacsis a cherbydau hurio preifat, a fyddai'n ceisio codi safonau ar draws y diwydiant?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Government is aware of the report published by the Law Commission and is reviewing the proposals that the Law Commission has put forward. Obviously, we will consider those recommendations in the context of our findings and report in due course.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gyfraith ac mae'n adolygu'r cynigion a wnaed gan Gomisiwn y Gyfraith. Yn amlwg, byddwn yn ystyried yr argymhellion hynny yng nghydestun ein canfyddiadau ac yn adrodd maes o law.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:22

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Could I call for two statements, with the first on north Wales GP services? This was raised in debate last week, but the response gave us figures applying to south Wales rather than north Wales. The British Medical Association, under the North Wales Local Medical Committee, has warned of a looming GP crisis that could bring the system to collapse in three years. That is coming from very learned bodies—the people on the front line. Two in three practices in the region have vacancies; patient-GP ratios have now risen to about 3,800:1, which is double the safety rate normally recognised by the Government and health providers; training places in north Wales are frequently unfilled; the GP workforce is ageing and leaving; and even the minimum practice income guarantee changes affect north Wales predominantly, with 24 of the 30 practices worse affected in the region. As one GP told me after last week's debate, pointing out that 90% of total patient care in the NHS was provided by GPs, if this falls it will further add to the clogging up of out-of-hours and accident-and-emergency systems, ambulance queues and poorer health outcomes for patients, leading to a false healthcare economy where, of course, patient contacts and the secondary care generated would be more expensive. I hope that this will be given detailed and considered consideration because of the gravity of the warnings coming from the learned bodies and front-line medical practitioners concerned.

A gaf i alw am ddau ddatganiad, y cyntaf ar wasanaethau meddygon teulu gogledd Cymru? Codwyd hyn yn y ddadl yr wythnos diwethaf, ond rhoddodd yr ymateb ffigurau i ni sy'n berthnasol i dde Cymru yn hytrach na gogledd Cymru. Mae Cymdeithas Feddygol Prydain, dan Bwyllgor Meddygol Lleol Gogledd Cymru, wedi rhybuddio am argyfwng meddygon teulu ar y gorwel a allai arwain at chwalu'r system mewn tair blynedd. Daw hynny gan gyrrff dysgedig iawn—y bobl ar y rheng flaen. Ceir swyddi gwag yn nwy o bob tair meddygfa yn y rhanbarth; mae cymarebau cleifion-meddygon teulu bellach wedi codi i tua 3,800:1, sy'n ddwbl y gyfradd ddiogel a gydnabyddir gan y Llywodraeth a darparwyr iechyd fel rheol; yn aml, nid yw lleoedd hyfforddi yng ngogledd Cymru yn cael eu llenwi; mae'r gweithlu meddygon teulu yn heneiddio ac yn gadael; ac mae hyd yn oed y newidiadau i'r warrant incwm ofynnol i feddygfeydd yn effeithio ar ogledd Cymru yn bennaf – mae 24 o'r 30 practis sy'n cael eu heffeithio waethaf yn y rhanbarth. Fel y dywedodd un meddyg teulu wrthyf ar ôl dadl yr wythnos diwethaf, gan nodi bod 90% o'r holl ofal i gleifion yn y GIG yn cael ei ddarparu gan feddygon teulu, os bydd hyn yn gostwng, bydd yn ychwanegu ymhellach at orlenwi'r systemau y tu allan i oriau arferol, a damweiniau ac achosion brys, ciwiau ambiwlans a chanlyniadau iechyd salach i gleifion, gan arwain at economi gofal iechyd ffug lle, wrth gwrs, y byddai'r cysylltiadau cleifion a'r gofal eilaidd a gynhyrchir yn ddrutach. Gobeithiaf y bydd hyn yn cael ystyriaeth fanwl a gofalus oherwydd difrifoldeb y rhybuddion sy'n dod oddi wrth y cyrff dysgedig a'r ymarferwyr meddygol rheng flaen dan sylw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly and finally, could I call for a statement on the inspection of care homes providing care for older people? This follows a case that was publicised in the media of the Reverend Raymond Lewis Edwards, who died in great pain in a nursing home overlooking the Menai straits. At their request, I met his family and they showed me photographs of dementia patients with food in front of them not eating, bed sores, people with dehydration, and mice in the kitchen. They told me about a father being left without pain control validated by an on-call GP, and much more. They told me also that CSSIW and the local authority had been giving the home good inspections prior to the complaint because they had not been sufficiently patient focused. However, after the complaint, CSSIW and POVA inspectors told them that they had learnt a lot from the family over the previous 12 months. I therefore call on the Welsh Government to give a statement on how it might look at delivering a new complaints investigation process with robust advocacy and general inspection, separately focused on safeguarding the people who look to us to protect them.

Yn ail ac yn olaf, a gaf i alw am ddatganiad ar arolygu cartrefi gofal sy'n darparu gofal i bobl hŷn? Mae hyn yn dilyn achos a gafodd gyhoedduswydd yn y cyfryngau am y Parchedig Raymond Lewis Edwards, a fu farw mewn poen dirfawr mewn cartref nyrsio yn edrych dros y Fenai. Yn unol â'u cais, cefais gyfarfod â'i deulu a dangoswyd lluniau i mi ganddynt o gleifion dementia â bwyd o'u blaenau ddim yn bwyta, briwiau pwyso, pobl â diffyg hylif, a llygod yn y gegin. Dywedasant wrthyf am dad yn cael ei adael heb fesurau rheoli poen wedi eu dilysu gan feddyg teulu ar-alwad, a llawer mwy. Dywedasant wrthyf hefyd bod AGGCC a'r awdurdod lleol wedi bod yn rhoi arolygiadau da i'r cartref cyn y gŵyn gan nad oeddent wedi canolbwyntio'n ddigonol ar y cleifion. Fodd bynnag, ar ôl y gŵyn, fe'u hysbyswyd gan arolygwyr AGGCC a POVA eu bod wedi dysgu llawer gan y teulu dros y 12 mis blaenorol. Felly, rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud datganiad ar sut y gallai ystyried cyflwyno proses ymchwilio i gwynion newydd ag eiriolaeth gadarn ac arolygu cyffredinol, yn canolbwyntio ar wahân ar ddiogelu'r bobl sy'n disgwyl i ni eu cadw'n ddiogel.

14:25 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for that speech—vaguely.

Diolch i chi am yr araith yna—yn fras.

In relation to GP services, you raise a relevant point about ensuring that there are enough general practitioners for the population. It is a matter for local health boards to ensure that that is the case. I know in north Wales specifically that Betsi Calwaladr University Local Health Board is looking to recruit salaried GPs to ensure that there is sufficient cover across north Wales.

O ran gwasanaethau meddygon teulu, rydych chi'n codi pwynt perthnasol am sicrhau bod digon o feddygon teulu ar gael ar gyfer y boblogaeth. Mater i fyrdau iechyd lleol yw sicrhau bod hynny'n digwydd. Rwy'n gwybod yng ngogledd Cymru'n benodol bod Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr eisiau recriwtio meddygon teulu cyflogedig i sicrhau bod digon o ddarpariaeth ar draws gogledd Cymru.

In the case of your question regarding care homes, inspection of care homes is done under very strict criteria by both CSSIW and local authorities.

O ran eich cwestiwn am gartrefi gofal, arolygir cartrefi gofal yn unol â meini prawf llym iawn gan AGGCC ac awdurdodau lleol.

14:26 **Bethan Jenkins** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, I wonder whether we could have a debate in Government time on the importance of financial education not just to the economy but in relation to health. I am asking about this today because you may have seen that the Samaritans issued a press release today saying that the charity has had over 160,000 people contacting it because of issues to do with rising levels of debt and the huge worries that exist with people facing financial problems. I believe that the trickle-up benefit of having financial education as early as possible in our schools could relieve the tensions among adults, who would be more competent in their financial education.

Weinidog, rwy'n meddwl tybed a allem ni gael dadl yn amser y Llywodraeth ar bwysigrwydd addysg ariannol nid yn unig i'r economi ond o ran iechyd. Rwy'n gofyn am hyn heddiw oherwydd efallai eich bod wedi gweld bod y Samariaid wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg heddiw yn dweud bod dros 160,000 o bobl wedi cysylltu â'r elusen oherwydd materion yn ymwneud â lefelau cynyddol o ddyled a'r pryderon enfawr sy'n bodoli ymhlith pobl sy'n wynebu problemau ariannol. Rwy'n credu y gallai'r budd weithio ei ffordd i fyny wrth gael addysg ariannol cyn gynted â phosibl yn ein hysgolion gan leddfu'r tensiynau ymhlith oedolion, a fyddai'n fwy cymwys o ran eu haddysg ariannol.

On the second statement I request today, you may have heard that the company Ford has come to a settlement with former Visteon pensioners with regard to the pensions that were lost. Of course, Unite—[Interruption.]—I am not sure why people are heckling me on this. Unite, the trade union, was ready to take a legal battle to court because those pensions were being lost, but we have managed to reach a settlement for that campaign. I believe that all the pensioners in my region would welcome the congratulations that they deserve on such a hard-fought campaign on this most important issue.

Ar yr ail ddatganiad rwy'n gofyn amdano heddiw, efallai eich bod wedi clywed bod cwmni Ford wedi dod i gytundeb gyda chyn-bensiynwyr Visteon o ran pensiynau a gollwyd. Wrth gwrs, roedd Unite—[Torri ar draws.]—nid wyf yn siŵr pam mae pobl yn fy ngheryddu am hyn. Roedd Unite, yr undeb llafur, yn barod i fynd â brwydr gyfreithiol i'r llys oherwydd bod y pensiynau hynny'n cael eu colli, ond rydym ni wedi llwyddo i ddod i gytundeb ar gyfer yr ymgyrch honno. Rwy'n credu y byddai'r holl pensiynwyr yn fy rhanbarth i yn croesawu'r llongyfarchiadau y maent yn eu haeddu ar ymgyrch galed o'r fath ar y mater pwysig hwn.

- 14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- You raise an important point on financial education. It is something that I will speak to the Minister for Education and Skills about, and it might be something that could be looked at within the review of the curriculum that Professor Donaldson is currently undertaking for the Minister.
- Rydych chi'n codi pwynt pwysig ar addysg ariannol. Mae'n rhywbeth y byddaf yn siarad â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau amdano, a gallai fod yn rhywbeth y gellid ei ystyried yn yr adolygiad o'r cwricwlwm y mae'r Athro Donaldson wrthi'n ei gynnal ar ran y Gweinidog.
- In relation to the Ford Visteon pensioners, I am sure that everybody would welcome the point that you have just made.
- O ran pensïynwyr Visteon Ford, rwy'n siŵr y byddai pawb yn croesawu'r pwynt yr ydych chi newydd ei wneud.
- 14:28 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I am requesting that the Minister for Culture and Sport brings forward a statement on his response to, and how he will take account of, the announcement in the Queen's Speech that the UK Government proposes to introduce an element of direct election for national parks in England as part of the wider review into governance in national parks. Those of us who have long campaigned for greater transparency in the management of the natural environment have always regarded direct elections as an important way forward. It would be unfortunate if Wales were left in the slow lane in this regard.
- Rwy'n gwneud cais i'r Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon wneud datganiad ar ei ymateb i'r cyhoeddiad yn Araith y Frenhines bod Llywodraeth y DU yn bwriadu cyflwyno elfen o ethol uniongyrchol ar gyfer parciau cenedlaethol yn Lloegr yn rhan o'r adolygiad ehangach i lywodraethu mewn parciau cenedlaethol, a sut y bydd yn cymryd hynny i ystyriaeth. Mae'r rhai ohonom sydd wedi ymgyrchu ers amser maith am fwy o dryloywder yn y gwaith o reoli'r amgylchedd naturiol wedi ystyried etholiadau uniongyrchol fel ffordd bwysig ymlaen erioed. Byddai'n anffodus pe byddai Cymru'n cael ei gadael yn y lôn araf yn hyn o beth.
- 14:28 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- We actually debated national parks in this Chamber last week, so I do not think it appropriate to have another statement in Government time.
- Trafodwyd parciau cenedlaethol gennym yn y Siambr hon yr wythnos diwethaf, felly nid wyf yn credu ei bod yn briodol cael datganiad arall yn amser y Llywodraeth.
- 14:28 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, I would like to call for a statement from the Minister for Health and Social Services on patients travelling abroad for treatment in EU countries. I believe that there is an EU directive that applies to Wales that says that patients on Welsh waiting lists can opt to receive their treatment in other EU member states at a cost to the Welsh NHS if they cannot have the same treatment on the NHS within a medically acceptable period. Rather than sending patients out of the UK, with the associated costs of travel abroad and travel for family members to support them and so on, would it not make more sense to open up the option of being treated in English hospitals, which would help shorten waiting times and therefore make compliance within the medically acceptable period more likely? I would be grateful if the Minister could provide a statement to see whether that is an option.
- Weinidog, hoffwn alw am ddatganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gleifion sy'n teithio dramor i gael triniaeth yng ngwledydd yr UE. Rwy'n credu bod cyfarwydddeb yr UE sy'n berthnasol i Gymru sy'n dweud y caiff cleifion ar restrau aros Cymru ddewis derbyn eu triniaeth mewn aelod-wladwriaethau eraill yr UE ar draul y GIG yng Nghymru os na allant gael yr un driniaeth ar y GIG o fewn cyfnod sy'n dderbyniol yn feddygol. Yn hytrach nag anfon cleifion allan o'r DU, gyda'r costau cysylltiedig o deithio dramor a theithio i aelodau'r teulu eu cefnogi ac ati, oni fyddai'n gwneud mwy o synnwyr i gynnig y dewis o gael eu trin mewn ysbytai yn Lloegr, a fyddai'n helpu i leihau amseroedd aros, ac felly gwneud cydymffurfriad o fewn y cyfnod sy'n dderbyniol yn feddygol yn fwy tebygol? Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Gweinidog yn darparu datganiad i weld a yw hyn yn ddewis posibl.
- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I really do not understand that question, as I can name three people from my constituency who had treatment in England just last week. Nonsense.
- Nid wyf yn deall y cwestiwn yna, gan fy mod i'n gallu enwi tri o bobl o'm hetholaeth i a gafodd driniaeth yn Lloegr dim ond yr wythnos diwethaf. Lol.
- 14:30 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Penderfynodd Llywodraeth Cymru eleni i ddefnyddio'r arian cyfatebol o San Steffan ar gyfer prydau am ddim i ariannu cynllun busnesau treth. A gaf ofyn i chi, wrth ystyried sefyllfa ariannol nifer o'n hysgolion ni, a fydd y Llywodraeth yn barod i wneud datganiad ynglŷn â'i fwriad o ran yr arian—rhyw £36.5 miliwn—sydd ar gael gan Lywodraeth San Steffan ar gyfer 2015-16?
- The Welsh Government decided this year to use the match funding from Westminster for free school meals to fund its business tax plan. May I ask you, given the financial situation of many of our schools, will the Government be prepared to make a statement about its intentions in terms of the money—approximately £36.5 million—provided by the Westminster Government for 2015-16?

14:30

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

As a Government, we will take a decision collectively on how we spend that funding.

Fel Llywodraeth, byddwn yn gwneud penderfyniad ar y cyd o ran sut y byddwn yn gwario'r arian hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:30

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Can we have two statements? Can we have a statement first from the Minister for Economy, Science and Transport in relation to the comments made by senior management at the Celtic Manor Resort to the House of Commons Select Committee? Some very strong observations, I believe, were put forward by them over the branding and the promotion of Wales abroad and, in particular, the ability to work with organisations in Wales that are Government sponsored, namely Cardiff Airport, to promote it as an attractive gateway into Wales. When such senior individuals make such, I would suggest, measured comments, given their experience of working with the Government and with organisations here in Wales to promote Wales, and they have such reservations, I believe that, rather than seeing a Government spokesperson's quotation in the media, a more thoughtful response from the Government would be better, in a statement to Members, so that we can understand exactly how the Government is dealing with these comments that were made by the senior management team at Celtic Manor.

A allwn ni gael dau ddatganiad? A allwn ni gael datganiad yn gyntaf gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y sylwadau a wnaed gan uwch reolwyr yng Ngwesty'r Celtic Manor i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin? Gwnaed rhai sylwadau cryf iawn, rwy'n credu, ganddyn nhw ynghylch brandio a hyrwyddo Cymru dramor ac, yn enwedig, y gallu i weithio gyda sefydliadau yng Nghymru a noddir gan y Llywodraeth, sef Maes Awyr Caerdydd, i'w hyrwyddo fel porth deniadol i mewn i Gymru. Pan fydd unigolion uwch o'r fath yn gwneud sylwadau mor bwyllog, byddwn yn awgrymu, o ystyried eu profiad o weithio gyda'r Llywodraeth a chyda sefydliadau yma yng Nghymru i hyrwyddo Cymru, a bod ganddyn nhw amheuan o'r fath, rwy'n credu, yn hytrach na gweld dyfyniad llefydd y Llywodraeth yn y cyfryngau, y byddai ymateb mwy meddylgar gan y Llywodraeth yn well, mewn datganiad i'r Aelodau, fel y gallwn ddeall yn union sut y mae'r Llywodraeth yn ymdrin â'r sylwadau hyn a wnaed gan yr uwch dim rheoli yn y Celtic Manor.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Secondly, is it possible to have a statement from the Minister for Health and Social Services in relation to maternity services, and in particular, the provision of maternity services in the community? Only about a month ago, we celebrated International Day of the Midwife here in the Assembly, and the good practice that there is out there. However, there is concern about provision within the community, namely the number of community-based midwives and the ability of expectant mothers and fathers together to make the choice as to where they would choose to have their baby, whether it be a home birth or a hospital-based birth under the guidance of a midwife within that hospital. If we could have a statement from the Minister for Health and Social Services on that provision, around all of the health boards in Wales, it would greatly help people to understand what is out there and what choices can be made.

Yn ail, a yw'n bosibl cael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar wasanaethau mamolaeth, ac yn arbennig, y ddarpariaeth o wasanaethau mamolaeth yn y gymuned? Dim ond tua mis yn ôl, dathlwyd Diwrnod Rhyngwladol y Fydwaig gennym yma yn y Cynulliad, a'r arfer da sydd i'w weld. Fodd bynnag, ceir pryder ynglŷn â'r ddarpariaeth yn y gymuned, sef nifer y bydwagedd cymunedol a gallu mamau a thadau beichiog i wneud y dewis gyda'i gilydd ynghylch ble y byddent yn dewis cael eu babi, boed yn enedigaeth gartref neu'n enedigaeth mewn ysbyty dan arweiniad bydwaig yn yr ysbyty hwnnw. Pe gallem ni gael datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y ddarpariaeth honno, o gwmpas yr holl fyrdau iechyd yng Nghymru, byddai hynny o gymorth mawr i bobl ddeall yr hyn sydd ar gael a pha ddewisiadau y gellir eu gwneud.

14:32

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to your first question about the Welsh Government promoting Wales, the work that has gone on around Cardiff Airport is very apparent. Certainly, this Government has absolutely increased its presence abroad, to ensure that we are making the most of all opportunities in that respect. In relation to maternity services, we have many debates and statements in this Chamber on health. Clearly, it is a matter for health boards to ensure that they have the relevant number of midwives available, so that people, if they want a home birth or a hospital birth, can have that option.

O ran eich cwestiwn cyntaf am Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo Cymru, mae'r gwaith sydd wedi ei wneud o gwmpas Maes Awyr Caerdydd yn amlwg iawn. Yn sicr, mae'r Llywodraeth hon yn bendant wedi cynyddu ei phresenoldeb dramor, er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar yr holl gyfleoedd yn hynny o beth. O ran gwasanaethau mamolaeth, rydym ni'n cael llawer o ddadleuon a datganiadau yn y Siambr hon ar iechyd. Yn amlwg, mater i fyrdau iechyd yw sicrhau bod y nifer berthnasol o fydwagedd ar gael ganddynt, fel y gall pobl, os ydynt yn dymuno cael genedigaeth gartref neu mewn ysbyty, yn cael y dewis hwnnw.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

14:33

Mohammad Asghar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, a couple of weeks ago, this newsletter that I am holding was distributed in Newport East. On the front page, there are five community centres—Lliswerry, Ringland, Alway, Somerton and Old Barn, which is in my Newport east constituency. On the top of the leaflet, the words 'Welsh Government' are written, so it is definitely being paid for by Welsh Government funding. There are 15 colourful pages in it showing different activities. First of all, I would like to ask what the purpose of this newsletter is and why it is not bilingual. Also, there is only one photograph of a politician in it, on page 7—Jessica Morden, who is a Labour MP. Presumably, the funding is coming from a Communities First project, Minister. How much is it going to cost from the Wales perspective and is it good value for money? I would like to know whether you have already started your campaign with this sort of literature in my patch. I would like to know what is also going on around the country.

Weinidog, wythnos neu ddwy yn ôl, dosbarthwyd y cylchlythyr hwn yr wyf yn ei ddal yn Nwyrain Casnewydd. Ar y dudalen flaen, ceir pum canolfan gymunedol—Llyswerry, Ringland, Alway, Somerton ac Old Barn, sydd yn fy etholaeth dwyrain Casnewydd i. Ar frig y daflen, mae'r geiriau 'Llywodraeth Cymru' wedi eu hysgrifennu, felly mae'n sicr yn cael ei dalu amdano gydag arian Llywodraeth Cymru. Ceir 15 tudalen liwgar ynddo yn dangos gwahanol weithgareddau. Yn gyntaf oll, hoffwn ofyn beth yw pwrpas y cylchlythyr hwn a pham nad yw'n ddwyieithog. Hefyd, dim ond un llun o wleidydd sydd ynddo, ar dudalen 7—Jessica Morden, sy'n AS Llafur. Yn ôl pob tebyg, mae'r cyllid yn dod o brosiect Cymunedau yn Gyntaf, Weinidog. Faint mae'n mynd i gostio o safbwynt Cymru ac a yw'n cynnig gwerth da am arian? Hoffwn wybod a ydych chi eisoes wedi dechrau eich ymgyrch gyda'r math hwn o lenyddiaeth yn fy ardal i. Hoffwn wybod beth sy'n digwydd o gwmpas y wlad hefyd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:34

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Deputy Presiding Officer, I am really not sure what the piece of paper is that the Member is waving. My understanding is that my friend John Griffiths is the constituency Assembly Member for Newport East. I really do not understand why that question is being asked during the business statement, but if the Member would like to write to me about that document, I will certainly look into his question.

Ddirprwy Lywydd, nid wyf yn siŵr beth yw'r darn o bapur y mae'r Aelod yn ei chwifio. Fy nealltwriaeth i yw mai fy ffrind John Griffiths yw Aelod Cynulliad etholaeth Dwyrain Casnewydd. Nid wyf yn deall o gwbl pam mae'r cwestiwn yna'n cael ei ofyn yn ystod y datganiad busnes, ond os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf am y ddogfen yna, byddaf yn sicr yn ymchwilio i'w gwestiwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth Sandy Mewies i'r Gadair am 14:34.

Sandy Mewies took the Chair at 14:34.

14:35

Datganiad: Rôl 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' wrth Fynd i'r Afael â'r Agenda Trechu Tlodi

Regeneration

Members, I would like to make a statement on how my investments in regeneration are helping to tackle poverty.

'Vibrant and Viable Places' is our framework for regeneration. The aim of regeneration activity is to stem the decline in areas where market forces on their own will not do this without support from Government. We have a vision of creating well-connected, vibrant and viable places, and sustainable communities with a strong local economy and good quality of life. Regeneration activity can thus make a different and significant contribution to this Government's aims to tackle poverty. In this statement, I will lay out some examples of how the projects that we are funding tackle poverty in all its aspects. I will also show how we are putting in place arrangements to monitor and report on our impact.

Statement: The Role of 'Vibrant and Viable Places' in Addressing the Tackling Poverty Agenda

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and

Aelodau, hoffwn wneud datganiad am sut y mae fy muddsodiadau mewn adfywio'n helpu i drechu tlodi.

'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yw ein fframwaith ar gyfer adfywio. Nod y gweithgareddau adfywio yw atal y dirywiad mewn ardaloedd lle na fydd grymoedd y farchnad ar eu pen eu hunain yn gwneud hyn heb gymorth gan y Llywodraeth. Mae gennym weledigaeth o greu lleoedd llewyrchus, llawn addewid â chysylltiadau da, a chymunedau cynaliadwy a chanddynt economi leol gref ac ansawdd bywyd da. Felly, gall gweithgareddau adfywio gyfrannu mewn modd gwahanol ac arwyddocaol at amcanion y Llywodraeth hon i drechu tlodi. Yn y datganiad hwn, byddaf yn amlinellu rhai enghreifftiau o sut y mae'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu'n ceisio trechu pob math o dlodi. Byddaf hefyd yn dangos sut yr ydym yn rhoi trefniadau ar waith i fonitro ein heffaith ac adrodd arni.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

'Vibrant and Viable Places' recognises that regeneration should not only be about changing the physical fabric of particular places, it is also about people—providing homes, turning homes into communities, providing work opportunities, stimulating private sector investment, and improving our towns, so that they are places that people enjoy visiting. Too many of the people in the settlements that we are targeting are in poverty. This Government firmly believes that work is the best route out of poverty, and expanding employment opportunities is a key objective of the projects that we will be supporting under this programme.

For example, in Neath Port Talbot, we will refurbish a former fire station in Port Talbot to develop the site as an employment and advice centre. It will provide skills training and opportunities for personal development, complementing other Welsh Government programmes in the area, such as Lift. In Wrexham, we will be converting two council-owned buildings into flagship childcare settings. Not only will the provision of childcare help parents to access work, but the settings themselves will provide training, apprenticeships and volunteering opportunities. In Merthyr, we will buy a traditional house in a poor state of repair, and use its refurbishment as the opportunity to provide construction training skills, especially traditional skills, which are in poor supply. Once completed, they intend to sell the house, and use the proceeds to buy another, in order to continue the training provision ongoing.

Projects can also facilitate space for small businesses. In Anglesey, this will create an integrated package of support for small and medium-sized enterprises in Holyhead, supporting investment in new and better premises. They will give priority to schemes that will create jobs and improve the vibrancy of towns. In Pontypridd, the YMCA building will be redesigned to provide office and working space for social enterprises. Many more of the projects that we are supporting will deliver homes, and improved homes. A secure and decent home is a starting point for tackling poverty, but our regeneration work will go further.

Many people are facing fuel poverty. Local authorities are rising to the challenge in planning their regeneration work. Several of them will undertake energy-efficiency-based refurbishment work on the homes in target areas. They will draw in funding from ECO obligations where possible, complementing the funding from the Minister for Natural Resources and Food, and delivering to the same high standards.

The impact of welfare reform is well recognised. The bedroom tax is, of course, increasing demand for smaller properties. In Deeside, Port Talbot, Pontypridd and Swansea, 'Vibrant and Viable Places' will deliver new homes above retail premises—meeting the need for one or two-bedroomed properties, and improving the vibrancy of the town centre.

Mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn cydnabod bod adfywio'n ymwneud â mwy na dim ond newid gwead ffisegol lleoedd penodol; mae hefyd yn ymwneud â phobl—darparu cartrefi, troi cartrefi'n gymunedau, darparu cyfleoedd gwaith, ysgogi buddsoddiad gan y sector preifat, a gwella ein trefi, er mwyn iddynt fod yn lleoedd y mae pobl yn mwynhau ymweld â hwy. Mae gormod o'r bobl yn yr aneddiadau yr ydym yn eu targedu mewn tldi. Mae'r Llywodraeth hon yn credu'n gryf mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dldi, ac mae ehangu cyfleoedd cyflogaeth yn un o amcanion allweddol y prosiectau y byddwn yn eu cefnogi o dan y rhaglen hon.

Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot, byddwn yn ailwampio hen orsaf dân ym Mhort Talbot i ddatblygu'r safle fel canolfan cyflogaeth a chynghori. Bydd yn darparu hyfforddiant sgiliau a chyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, a fydd yn cyd-fynd â rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru yn yr ardal, megis Esgyn. Yn Wrecsam, byddwn yn addasu dau adeilad sy'n eiddo i'r Cyngor yn lleoliadau gofal plant blaenllaw. Bydd y ddarpariaeth gofal plant yn helpu rhieni i gael gwaith, a bydd y lleoliadau eu hunain hefyd yn darparu hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd gwirfoddoli. Ym Merthyr, byddwn yn prynu tŷ traddodiadol mewn cyflwr gwael, ac yn ei adnewyddu er mwyn cynnig cyfle i ddarparu hyfforddiant sgiliau adeiladu, yn enwedig sgiliau traddodiadol, sy'n brin. Ar ôl ei gwblhau, y bwriad yw gwerthu'r tŷ, a defnyddio'r elw i brynu un arall, er mwyn parhau i ddarparu'r hyfforddiant.

Gall prosiectau hefyd hwyluso lle i fusnesau bach. Ar Ynys Môn, bydd hyn yn creu pecyn integredig o gymorth i fentrau bach a chanolig yng Nghaerdybi, gan gefnogi buddsoddi mewn adeiladau newydd, gwell. Byddant yn rhoi blaenoriaeth i gynlluniau a fydd yn creu swyddi ac yn gwneud trefi'n fwy llewyrchus. Ym Mhontypridd, caiff adeilad y YMCA ei ailgynllunio i ddarparu swyddfeydd a manau gweithio i fentrau cymdeithasol. Bydd llawer mwy o'r prosiectau yr ydym yn eu cefnogi'n darparu cartrefi, a chartrefi gwell. Mae cartref diogel a phriodol yn fan cychwyn o ran trechu tldi, ond bydd ein gwaith adfywio'n mynd ymhellach.

Mae llawer o bobl yn wynebu tldi tanwydd. Mae awdurdodau lleol yn ymateb i'r her wrth gynllunio eu gwaith adfywio. Bydd nifer ohonynt yn gwneud gwaith adnewyddu sy'n seiliedig ar effeithlonrwydd ynni ar y cartrefi mewn ardaloedd a dargedir. Byddant yn denu arian o rwymedigaeth y cwmnïau ynni lle y bo modd, i ategu'r arian gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd, ac yn cyflawni'n unol â'r un safonau uchel.

Gwyddom yn iawn am effaith diwygio lles. Mae'r dreth ystafell wely, wrth gwrs, yn golygu bod mwy o alw am eiddo llai. Yng Nglannau Dyfrdwy, Port Talbot, Pontypridd ac Abertawe, bydd 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn darparu cartrefi newydd uwchben safleoedd manwerthu—gan ddiwallu'r angen am eiddo un neu ddwy ystafell wely, a gwneud canol y trefi'n fwy llewyrchus.

So far, the examples that I have spoken about are funded from allocations to 11 authorities that I announced in January, totalling £100 million over three years. However, I have also announced an additional £7 million for a specific tackling poverty fund that will be available to seven settlements—Tredegar, Rhymney, Grangetown, Llanelli, Rhyl, Caernarfon and Barry. I will issue guidance this week on the targeting of this fund, and will consult with the local authorities concerned on how they can bring forward proposals. Engagement with wider Welsh Government community-based initiatives will be central to this, and it must add value to Lift, Communities First, the Communities Capital Programme, Flying Start, Families First and sustainable development.

In fact, I am determined to make those links in relation to all our regeneration work. We want communities to be involved too. Every local authority has proposals to deliver its programme through a local partnership that my officials will attend and observe. We will ensure that community, third sector and other interest groups including children and young people are fully engaged in the programme as this is rolled out.

We will also give clear messages to our local government partners that we expect the best possible community benefit outcomes for procured contracts. We must lever in training and apprenticeship opportunities, local jobs and a fair chance for small businesses to contribute. We want to capture and measure what is happening—so, for contracts in excess of £2 million, I expect local authorities to use the communities benefits measurement tool to capture added-value outcomes from procurement.

On every project, we will also be collecting data on indicators such as numbers of jobs created, numbers of people supported into work and numbers of traineeships and apprenticeships. I will be receiving reports on a regular basis and will keep the Chamber updated.

My team is also putting in place the foundations for a long-term evaluation of 'Vibrant and Viable Places'. At the end of the programme, I will report to you on the outcomes that have been achieved, the impact on the lives of people in our communities and any lessons that we have learned during the delivery process.

So, to conclude, tackling poverty is a priority for this Welsh Government and it is my priority for regeneration policy. The £100 million 'Vibrant and Viable Places' grant, together with the £7 million tackling poverty fund will lever in investment to create jobs, homes and training opportunities, and improve the quality of lives in many of our towns. I will monitor progress and keep Members informed.

Hyd yma, mae'r enghreifftiau yr wyf wedi sôn amdanynt yn cael eu hariannu o ddyraniadau i 11 o awdurdodau a gyhoeddais ym mis Ionawr, cyfanswm o £100 miliwn dros dair blynedd. Fodd bynnag, rwyf hefyd wedi cyhoeddi £7 miliwn yn ychwanegol ar gyfer cronfa benodol i drechu tlodi a fydd ar gael i saith o aneddiadau—Tredegar, Rhymni, Grangetown, Llanelli, y Rhyl, Caernarfon a'r Barri. Byddaf yn cyhoeddi canllawiau yr wythnos hon ar dargedu'r gronfa hon, a byddaf yn ymgynghori â'r awdurdodau lleol dan sylw ynghylch sut y gallant gyflwyno cynigion. Bydd ymgysylltu â mentrau cymunedol ehangach Llywodraeth Cymru'n ganolog i hyn, a rhaid ychwanegu gwerth i Esgyn, Cymunedau yn Gyntaf, y Rhaglen Cyfalaf Cymunedau, Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a datblygu cynaliadwy.

Yn wir, rwyf yn benderfynol o wneud y cysylltiadau hynny o ran ein holl waith adfywio. Rydym am i gymunedau fod yn rhan o hyn hefyd. Mae gan bob awdurdod lleol gynigion i gyflawni ei raglen drwy bartneriaeth leol y bydd fy swyddogion yn bresennol ynnddi ac yn arsylwi arni. Byddwn yn sicrhau bod grwpiau cymunedol, grwpiau trydydd sector a grwpiau eraill â diddordeb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, yn ymgysylltu'n llawn â'r rhaglen wrth inni gyflwyno hyn.

Byddwn hefyd yn rhoi negeseuon clir i'n partneriaid mewn llywodraeth leol ein bod yn disgwyl y canlyniadau gorau posibl o ran budd cymunedol ar gyfer contractau wedi'u caffael. Rhaid inni ysgogi cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau, swyddi lleol a chyfle teg i fusnesau bach i gyfrannu. Mae arnom eisiau cofnodi a mesur yr hyn sy'n digwydd—felly, ar gyfer contractau gwerth dros £2 filiwn, rwyf yn disgwyl i awdurdodau lleol ddefnyddio'r offeryn mesur budd cymunedol i gofnodi canlyniadau gwerth ychwanegol sy'n deillio o gaffael.

Ar bob prosiect, byddwn hefyd yn casglu data ar ddangosyddion megis nifer y swyddi a grëwyd, nifer y bobl sy'n cael cymorth i gael gwaith a nifer y swyddi dan hyfforddiant a'r prentisiaethau. Byddaf yn derbyn adroddiadau rheolaidd a rhoddaf y wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambr.

Mae fy nhim hefyd wrthi'n gosod y sylfeini ar gyfer gwerthusiad hirdymor o 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Ar ddiwedd y rhaglen, rhoddaf adroddiad ichi am y canlyniadau a gyflawnwyd, yr effaith ar fywydau pobl yn ein cymunedau ac unrhyw wersi yr ydym wedi'u dysgu yn ystod y broses o roi hyn ar waith.

Felly, i gloi, mae trechu tlodi'n flaenoriaeth i'r Llywodraeth hon yng Nghymru a dyna yw fy mlaenoriaeth ar gyfer polisi adfywio. Bydd y grant 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' o £100 miliwn, ynghyd â'r gronfa trechu tlodi o £7 miliwn, yn ysgogi buddsoddiadau i greu swyddi, cartrefi a chyfleoedd hyfforddi, ac i wella ansawdd bywyd mewn llawer o'n trefi. Byddaf yn monitro'r cynnydd ac yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau.

14:41

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call the Conservative spokesperson, Mark Isherwood.

Diolch, Weinidog. Galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr, Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Clearly, the measure of the investment will be the outcomes from it, and I know that all Members will wish to see those outcomes achieving the goals that you set out in your statement. As you say, it is not about the physical fabric of particular places—it is about people. Changing the physical fabric—including housing-led regeneration—is about improving lives and a person-centred approach.

You state that the Welsh Government believes that work is the best route out of poverty. In terms of the programmes that you outline, what engagement will you have with the work that is ongoing with work programme providers and universal credit, which is being piloted in your local constituency, to ensure that the tools that are available are fully utilised to mutual benefit?

You reference fuel poverty. I welcome the reference, and I know that we will be hearing more in the subsequent statement about drawing in funding from energy company obligations, where possible, alongside Welsh Government funding for the Nest and Arbed schemes. Where the housing referred to is not actually owned by local authorities, how will you ensure that work is done with the relevant landlords to, among other things, raise tenant awareness and take-up, including in the private rented sector but also with shared ownership, because a number of properties are owned jointly by home owners and housing associations on a shared basis and both ECO and Nest are now available to those properties as well as others.

You refer to delivering new homes above retail premises and improving the vibrancy of town centres. I warmly applaud the goal; it is certainly in line with what the Royal Institution of Chartered Surveyors has been calling for. However, how would you propose that the engagement with owners of those properties should occur? Do you agree that, initially, it should be carrot rather than stick? As with the normal work of empty homes officers, it is about identifying the fact that there is usually a story behind each property and only using the big stick if the owner fails to respond positively.

You refer to the tackling poverty fund, engagement with wider Welsh Government community-based initiatives and, of course, local authority targeting. How will you ensure that the call from the Wales Council for Voluntary Action and Community Development Cymru to enable communities to move beyond programmes and establish their own community organisations to enable the community-owned dimension to grow is addressed? It is so often sought but so seldom achieved.

Wrth gwrs, dylid mesur y buddsoddiad yn ôl ei ganlyniadau, a gwn y bydd pob un o'r Aelodau am weld y canlyniadau hynny'n cyflawni'r nodau a nodwyd gennych yn eich datganiad. Fel y dywedwch, nid gwead ffisegol lleoedd penodol sy'n bwysig yma, ond pobl. Diben newid y gwead ffisegol—gan gynnwys gwaith adfywio a arweinir gan dai—yw gwella bywydau a defnyddio ymagwedd sy'n canolbwyntio ar unigolion.

Rydych yn dweud bod Llywodraeth Cymru'n credu mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi. O ran y rhaglenni a amlinellwch, sut y byddwch yn ymgysylltu â'r gwaith sy'n mynd rhagddo gyda darparwyr rhaglenni gwaith a chredyd cynhwysol, sy'n cael ei dreialu yn eich etholaeth leol, er mwyn sicrhau bod yr offer sydd ar gael yn cael eu defnyddio'n llawn fel bod pawb yn elwa?

Rydych yn cyfeirio at dlodi tanwydd. Croesawaf y cyfeiriad, a gwn y cawn glywed mwy yn y datganiad dilynol am ddenu cyllid o rwymedigaeth y cwmnïau ynni, lle y bo'n bosibl, ochr yn ochr â chyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau Nyth ac Arbed. Pan nad yw'r tai y cyfeirir atynt mewn gwirionedd yn eiddo i awdurdodau lleol, sut y byddwch yn sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud gyda'r landlordiaid perthnasol, ymhlith pethau eraill, i godi ymwybyddiaeth tenantiaid a chynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar hyn, gan gynnwys yn y sector rhentu preifat ond hefyd gyda pherchnogaeth a rennir, gan fod llawer o eiddo'n berchen i berchnogion tai a chymdeithasau tai ar y cyd a bod rhwymedigaeth y cwmnïau ynni a Nyth yn awr ar gael i'r eiddo hynny yn ogystal ag eraill.

Rydych yn cyfeirio at ddarparu cartrefi newydd uwchben safleoedd manwerthu a gwneud canol y trefi'n fwy llewyrchus. Rwyf yn cymeradwyo'r nod yn gynnes; mae'n sicr yn cyd-fynd â'r hyn y mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig wedi bod yn galw amdano. Fodd bynnag, sut y bydddech yn cynnig y dylid ymgysylltu â pherchnogion yr eiddo hynny? A ydych yn cytuno, yn y lle cyntaf, y dylid defnyddio abwyd yn hytrach na ffon? Fel gyda gwaith arferol swyddogion cartrefi gwag, rhaid nodi'r ffaith bod stori y tu ôl i bob eiddo fel arfer, ac na ddylid defnyddio'r ffon fawr oni bai bod y perchennog yn methu ag ymateb yn gadarnhaol.

Cyfeiriwch at y gronfa trechu tlodi, ymgysylltu â mentrau cymunedol ehangach Llywodraeth Cymru ac, wrth gwrs, targedu awdurdodau lleol. Sut y byddwch yn sicrhau y rhoddir sylw i'r alwad gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Datblygu Cymunedol Cymru i alluogi cymunedau i symud y tu hwnt i raglenni a sefydlu eu sefydliadau cymunedol eu hunain er mwyn i'r dimensiwn sy'n eiddo i'r gymuned dyfu? Ceisir hyn mor aml, ond anaml y caiff ei gyflawni.

You talked, thankfully, about community, third sector and other interested group involvement, including children and young people, and, obviously, referred to encouraging partnership working with the private sector—at least, that is on the Welsh Government's website. How, if at all, do you intend to incorporate the goals of this project, or programme, with co-production? That is something that your colleagues, particularly the Minister for Health and Social Services, increasingly refer to. You will be aware that the WCVA has said that citizen-directed support,

'begins with the person, not the service; providing voice, control and independence, through safe, sustainable and economically viable responses to support planning. It is about people being in control of the support they need to live the life they choose.'

That is so that these developments are done with the people, rather than to or for them.

You say that, in every project, you will be collecting data on indicators, and we welcome that. Will those be reported back to the Assembly, or will we only hear a response in relation to long-term evaluations? I am sure that Members across the Chamber would welcome information on progress, because every good plan is one that is open to review and change, as appropriate.

In terms of the housing projects that you referred to and the Welsh housing quality standard, will you be looking to ensure that the Value Wales community benefit tool and the Chartered Institute of Housing's i2i toolkit are embraced, whether through voluntary transfer or local authority stock retention? In that context, in Flintshire, I note that there is money for the Welsh housing quality standard plus for physical and community regeneration in the area. How does that square with the fact that similar funding was not provided when other local authorities were being required to consider how they would achieve WHQS?

Do you agree that we need to see more partnership working as we move forward, between registered social landlords and stock transfer associations, to ensure maximum benefit for tenants?

In terms of Wrexham, I note that you refer quite a lot to private rented sector improvements. My question is similar to a previous question: how do you envisage that being achieved, working with the sector, and only tackling bad landlords when they fail to engage? In terms of the social letting agency, established under the expertise and best practice within the council's housing department, how would you respond to the call from the private rented sector, made years ago to committee, that we build on the good practice in Cefni Lettings in Dolgellau, which services north-west Wales, as a genuine private social enterprise, a Government initiative, which can deliver more for less at a lower cost and with better outcomes, for all tenants, but especially for the most vulnerable tenants who have the greatest support needs?

Soniasoch, diolch byth, am gyfranogiad y gymuned, y trydydd sector a grwpiau eraill â diddordeb, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ac, wrth gwrs, cyfeiriasoch at annog gweithio mewn partneriaeth â'r sector preifat—o leiaf, mae hynny ar wefan Llywodraeth Cymru. Sut, os o gwbl, yr ydych yn bwriadu ymgorffori nodau'r prosiect hwn, neu'r rhaglen hon, â chydgyhyrchu? Mae hynny'n rhywbeth y mae eich cydweithwyr, yn enwedig y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn cyfeirio ato fwyfwy. Byddwch yn ymwybodol bod WCVA wedi dweud bod cymorth a gyfarwyddir gan ddinasyddion,

yn dechrau â'r unigolyn, nid y gwasanaeth; yn darparu llais, rheolaeth ac annibyniaeth, drwy gyfrwng ymatebion diogel, cynaliadwy ac economaidd ddichonadwy i gefnogi gwaith cynllunio. Y bwriad yw bod pobl yn rheoli'r cymorth sydd ei angen arnynt i fyw'r bywyd y maent yn ei ddechrau.

Mae hynny er mwyn i'r datblygiadau hyn gael eu gwneud gyda'r bobl, yn hytrach nag iddynt neu drostynt.

Rydych yn dweud y byddwch, ym mhob prosiect, yn casglu data ar ddangosyddion, ac rydym yn croesawu hynny. A gaiff y rheini eu hadrodd yn ôl i'r Cynulliad, ynteu ai dim ond ymateb i werthusiadau tymor hir a glywn? Rwyf yn siŵr y byddai'n dda gan Aelodau ar draws y Siambr gael gwybodaeth am y cynnydd, oherwydd mae pob cynllun da'n un sy'n agored i gael ei adolygu a'i newid, fel y bo'n briodol.

O ran y prosiectau tai y cyfeiriasoch atynt a safon ansawdd tai Cymru, a fyddwch yn ceisio sicrhau bod offeryn budd cymunedol Gwerth Cymru a phecneg cymorth i2i y Sefydliad Tai Siartredig yn cael eu cofleidio, boed drwy drosglwyddiad gwirfoddol neu drwy gadw stoc awdurdodau lleol? Yn y cyd-destun hwnnw, yn Sir y Fflint, sylwaf fod arian ar gael ar gyfer safon ansawdd tai Cymru ac ar gyfer adfywio ffisegol a chymunedol yn yr ardal. Sut y mae hynny'n cyd-fynd â'r ffaith na chafodd cyllid tebyg ei ddarparu pan oedd gofyn i awdurdodau lleol eraill ystyried sut y byddent yn cyflawni SATC?

A ydych yn cytuno bod angen inni weld mwy o weithio mewn partneriaeth wrth inni symud ymlaen, rhwng landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a chymdeithasau trosglwyddo stoc, er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i denantiaid?

O ran Wrecsam, sylwaf eich bod yn cyfeirio gryn dipyn at welliannau yn y sector rhentu preifat. Mae fy nghwestiwn yn debyg i gwestiwn blaenorol: sut ydych chi'n rhagweld y caiff hynny ei gyflawni, drwy weithio gyda'r sector, a dim ond ymdrin â landlordiaid gwael pan fyddant yn methu ag ymgysylltu? O ran yr asiantaeth gosod tai cymdeithasol, a sefydlwyd yn unol ag arbenigedd ac arfer gorau adran dai'r cyngor, sut y byddech yn ymateb i'r alwad gan y sector rhentu preifat, a wnaed flynyddoedd yn ôl i'r pwyllgor, inni adeiladu ar arfer da Gosodiadau Cefni yn Nolgellau, sy'n gwasanaethu'r gogledd-orllewin, fel menter gymdeithasol breifat wirioneddol, menter gan y Llywodraeth, a all ddarparu mwy am lai am gost is a chyda chanlyniadau gwell, i'r holl denantiaid, ond yn enwedig i'r tenantiaid mwyaf agored i niwed sydd â'r anghenion mwyaf o ran cymorth?

Let me start with the issue around the private rented sector. I am really up for having a fair relationship with the private rented sector, but it works both ways. It is about ensuring that it provides good-quality stock, and we will work with the sector. Let me be clear that there are already some very good private landlords working in the sector, but there are also some who are not so good, who we will tackle through the PRS system, which I know the Member opposes.

As for how we engage with this process, local authorities already have business plans to work through how they will spend this £100 million-worth of funding from Welsh Government in their communities. It will be transformational. It is about making sure that we have good engagement, and I am more than happy to give regular updates to the Chamber on progress across the regeneration areas.

I was encouraged by the Member's reference to the Value Wales toolkit. This is something that I will be very supportive of, and I will encourage RSLs and local authorities to work with Value Wales to adopt this policy of outcomes and how we can do that. We have a team working with the Minister for Finance currently on how that can be better implemented.

In relation to the tackling poverty agenda, while this is only a small part of my portfolio in terms of 'Vibrant and Viable Places', the whole issue of tackling poverty runs right the way through my portfolio as, indeed, it does through those of every Government Minister. It is driven forward by the Deputy Minister Vaughan Gething, in terms of how we make sure that all our interventions consider what we can do to have the best impact across the communities that 'Vibrant and Viable Places' and the tackling poverty funding specifically relate to.

You mentioned the tackling poverty funding, particularly in relation to new organisations. Let me be clear: I do not expect the creation of new organisations in the seven communities where £1 million will be drawn down. I expect transformational activity on the ground in our communities. It is not about creating structures around that to create new organisations. This is about working in collaboration with local authorities and working with the private sector. Indeed, many of the activities that already go on in our communities, such as Communities First, Families First and Flying Start, all have a direct impact on the community. These programmes will complement that and make sure that we can tackle the very issues that we all seek to address.

Finally, I do not mind scrutiny from opposition Members at all, but I find it quite ironic that we get criticised by opposition Members from the Conservative group when they are removing £1.8 billion from the Welsh economy in terms of regeneration opportunities and then they talk to us about job opportunities. Jobs Growth Wales is the most effective jobs programme in the whole of Europe. Yet, they criticise us. I will take no lessons from the Conservative group on regenerating our communities.

Gadewch imi ddechrau â'r sector rhentu preifat. Rwyf yn gryf o blaid cael perthynas deg â'r sector rhentu preifat, ond mae'n gweithio'r ddwy ffordd. Mae angen sicrhau ei fod yn darparu stoc o ansawdd da, a byddwn yn gweithio gyda'r sector. Gadewch imi fod yn glir bod rhai landlordiaid preifat da iawn eisoes yn gweithio yn y sector, ond mae rhai hefyd nad ydynt cystal, a byddwn yn ymdrin â hwy drwy'r system PRS, er fy mod yn gwybod bod yr Aelod yn ei gwrthwynebu.

O ran y ffordd yr ydym yn ymgysylltu â'r broses hon, mae gan awdurdodau lleol eisoes gynlluniau busnes i benderfynu sut y byddant yn gwario'r £100 miliwn hwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru yn eu cymunedau. Bydd yn drawsnewidiol. Mae angen sicrhau bod yr ymgysylltu'n dda, ac rwyf yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Siambwr yn rheolaidd am gynnydd ar draws yr ardaloedd adfywio.

Cefais fy nghalonogi gan gyfeiriad yr Aelod at becyn cymorth Gwerth Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn ei gefnogi'n gryf, a byddaf yn annog Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac awdurdodau lleol i weithio gyda Gwerth Cymru i fabwysiadu'r polisi canlyniadau hwn a sut y gallwn wneud hynny. Mae gennym dîm sy'n gweithio gyda'r Gweinidog Cyllid ar hyn o bryd i weld sut y gellir rhoi hynny ar waith yn well.

O ran yr agenda trechu tlodi, er mai dim ond rhan fach o'm portffolio yw hyn o ran 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid', mae trechu tlodi'n berthnasol i'm portffolio cyfan fel, yn wir, y mae i bortffolios pob un o Weinidogion y Llywodraeth. Mae'n cael ei sbarduno ymlaen gan y Dirprwy Weinidog Vaughan Gething, o ran y ffordd yr ydym yn gwneud yn siŵr bod ein holl ymyriadau'n ystyried yr hyn y gallwn ei wneud i gael yr effaith orau ar draws y cymunedau y mae 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' a'r cyllid trechu tlodi'n benodol berthnasol iddynt.

Soniasoch am y cyllid trechu tlodi, yn enwedig o ran sefydliadau newydd. Gadewch imi fod yn glir: nid wyf yn disgwyl y caiff sefydliadau newydd eu creu yn y saith cymuned lle caiff £1 miliwn ei dynnu i lawr. Rwyf yn disgwyl gweithgarwch trawsnewidiol ar lawr gwlad yn ein cymunedau. Nid yw'n fater o greu strwythurau o amgylch hynny i greu sefydliadau newydd. Mae hyn yn fater o gydweithio ag awdurdodau lleol a gweithio gyda'r sector preifat. Yn wir, mae llawer o'r gweithgareddau sydd eisoes yn digwydd yn ein cymunedau, megis Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, i gyd yn effeithio'n uniongyrchol ar y gymuned. Bydd y rhaglenni hyn yn ategu hynny ac yn gwneud yn siŵr y gallwn fynd i'r afael â'r union faterion yr ydym oll yn ceisio ymdrin â hwy.

Yn olaf, mae craffu gan Aelodau'r gwrthbleidiau'n gwbl dderbyniol imi, ond mae'n eithaf eironig ein bod yn cael ein beirniadu gan Aelodau o'r grŵp Ceidwadol a hwythau'n tynnu £1.8 biliwn oddi wrth economi Cymru o ran cyfleoedd adfywio, ac yna'n siarad â ni am gyfleoedd swyddi. Twf Swyddi Cymru yw'r rhaglen swyddi fwyaf effeithiol yn Ewrop gyfan. Ac eto, maent yn ein beirniadu. Ni chymeraf ddim gwersi gan y grŵp Ceidwadol am adfywio ein cymunedau.

14:51 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad Biography](#)
I call Rhodri Glyn Thomas, the Plaid Cymru spokesperson.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar Rhodri Glyn Thomas, llefarydd Plaid Cymru.

14:51 **Rhodri Glyn Thomas** [Bywgraffiad Biography](#)
Weinidog, mae'n anodd iawn canfod unrhyw beth yn y datganiad hwn i anghytuno ag ef. Mae'n ddatganiad sy'n cyfeirio at lawer iawn o bethau sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Nghymru, ond mae'r un mor anodd, Weinidog, i ddarganfod unrhyw beth newydd ynddo fe. Mae'n ymddangos i mi mai'r hyn yr ydych wedi ei wneud yw ailadrodd pethau sydd eisoes yn bodoli. Felly, a gaf ond codi dau beth gyda chi yn gyflym iawn ynglŷn â'r datganiad hwn? Yn gyntaf oll, sut ydych yn ymateb i'r feirniadaeth bod y modd yr ydych yn targedu ardaloedd 'nawr yn ymddangos yn ddigyswllt iawn? Hynny yw, mae prosiectau yma a thraw yng Nghymru, ond beth sy'n digwydd i gydlynu'r prosiectau hyn â'i gilydd ac i sicrhau dilyniant iddynt er mwyn mynd i'r afael mewn gwirionedd â thlodi yng Nghymru? A oes gennych unrhyw hyder mewn gwirionedd bod y prosiectau unigol hyn yn mynd i fynd i'r afael â phroblemau tlodi yn gyffredinol a phroblemau tlodi plant a phobl ifanc yn arbennig?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Minister, it is very difficult to find anything in this statement to disagree with. It is a statement that refers to a lot of things that are happening at present in Wales, but it is equally difficult, Minister, to discover anything new in it. It appears to me that what you have done is to repeat things that are already in existence. Therefore, may I raise just two points with you, very quickly, in terms of this statement? First of all, how do you respond to the criticism that the way in which you target areas now appears to be very disjointed? That is, there are projects here and there across Wales, but what is being done to co-ordinate those projects and to secure continuity in order to tackle poverty in Wales? Do you have any confidence, in all honesty, that the individual projects are going to tackle poverty problems generally and problems related to poverty among children and young people in particular?

Yr ail beth y byddwn yn ei godi â chi yw'r ffaith bod gennych strategaeth flaenorol oedd yn canolbwyntio ar ganol trefi a chymunedau arfordirol, ond nid oes dim yn y datganiad heddiw sy'n ymddangos fel petai'n ddatblygiad o'r strategaeth honno. A ydy'r strategaeth honno yn awr wedi cael ei gosod o'r neilltu neu a ydy'r strategaeth honno'n bodoli o hyd? Sut mae eich datganiad heddiw yn adeiladu ar y strategaeth flaenorol honno? Fel yr wyf yn ei ddweud, Weinidog, nid oes gennych feirniadaeth o'r hyn sydd gennych i'w ddweud ac eithrio'r ffaith nad wyf yn gweld unrhyw beth newydd yn eich datganiad. Hwyrach, y gallech fy nghyfeirio at ryw beth newydd.

The second thing that I would raise with you is the fact that you have a previous strategy that focused on town centres and coastal communities, but there is nothing in today's statement that appears as though it is a development of that strategy. Has that strategy now been set aside or does that strategy still exist? How does your statement today build on that previous strategy? As I say, Minister, I have no criticism of what you have to say except for the fact that I do not see anything new in your statement. Maybe you could refer me to something new.

14:53 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad Biography](#)
I am very grateful for the Member's very positive comments in terms of this statement. Of course, £100 million has been announced in terms of the overarching programme. This has the details and the breakdown for authorities and some of their projects that I alluded to. I am sure if the Member would like to write to me about his particular area, I will provide him with much more detail on the regeneration programme relating to the particular region that he represents.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwyf yn ddiolchgar iawn am sylwadau cadarnhaol iawn yr Aelod am y datganiad hwn. Wrth gwrs, mae £100 miliwn wedi ei gyhoeddi o ran y rhaglen gyffredinol. Mae hyn yn rhoi'r manylion a'r dadansoddiad ar gyfer yr awdurdodau a rhai o'u prosiectau y cyfeiriais atynt. Rwyf yn siŵr, os hoffai'r Aelod ysgrifennu ataf am ei ardal benodol, y rhoddaf fwy o fanylion o lawer iddo am y rhaglen adfywio sy'n berthnasol i'r rhanbarth penodol y mae'n ei gynrychioli.

The Members raises an important approach to this programme though. He raises the issue of joining up the programme across Wales and making sure that we tackle this whole agenda around poverty. This is no easy fix. Tackling poverty is not a switch that we can just turn on and off. It is making sure that all our interventions across Government tackle these very issues. Again, I refer to the Minister earlier taking a very hard line with us, as Ministers, making sure that our interventions reach out to the most difficult of our communities.

Fodd bynnag, mae'r Aelod yn sôn am ymagwedd bwysig at y rhaglen hon. Mae'n sôn am gydgyssylltu'r rhaglen ledled Cymru a gwneud yn siŵr ein bod yn ymdrin â'r holl agenda hon ynghylch tlodi. Nid ateb hawdd mo hwn. Nid yw trechu tlodi'n fotwm y gallwn ei gynnau a'i ddiffodd. Mae angen gwneud yn siŵr bod ein holl ymyriadau ar draws y Llywodraeth yn ymdrin â'r union faterion hyn. Unwaith eto, cyfeiraf at y ffaith bod y Gweinidog yn gynharach wedi bod yn ddi-dderbyn-wyneb iawn, a'n bod ni fel Gweinidogion, yn gwneud yn siŵr bod ein hymyriadau'n cyrraedd ein cymunedau anoddaf.

The Member raises a question about how the programmes are designed. These business plans were created and delivered by local authorities, not by Welsh Government. This is what the local needs assessment was. It was delivered by authorities—some better than others. That is why 11 authorities were selected for the 'Vibrant and Viable Places' programme.

Finally, the Member alludes to, again, joining up the programme and exactly where coastal towns fit in. 'Vibrant and Viable Places' was based around coastal towns. That was part of the criteria. Town centre regeneration was part of those criteria. So, just to remind the Member, while he is not overwhelmed by the content of this statement today, this is delivering £100 million into our communities and will make a huge transformational difference to the communities that he and I represent across Wales.

14:55

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Liberal Democrat spokesperson, Peter Black.

Mae'r Aelod yn codi cwestiwn am sut y caiff y rhaglenni eu cynllunio. Yr awdurdodau lleol, nid Llywodraeth Cymru, a greodd ac a gyflwynodd y cynlluniau busnes. Dyna oedd yr aseciad o anghenion lleol. Yr awdurdodau oedd yn ei gyflwyno—rhai'n well nag eraill. Dyna pam y dewiswyd 11 awdurdod ar gyfer y rhaglen 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'.

Yn olaf, mae'r Aelod yn cyfeirio, unwaith eto, at gydgyssylltu'r rhaglen a ble yn union y mae lle trefi arfordirol yn hyn. Roedd 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid' yn seiliedig ar drefi arfordirol. Roedd hynny'n rhan o'r meini prawf. Roedd adfywio canol trefi'n rhan o'r meini prawf hynny. Felly, ac atgoffa'r Aelod, er nad yw wrth ei fodd â chynnwys y datganiad hwn heddiw, mae hyn yn darparu £100 miliwn i'n cymunedau a bydd yn gwneud gwahaniaeth trawsnewidiol aruthrol i'r cymunedau y mae ef a minnau'n eu cynrychioli ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol, Peter Black.

14:55

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I also welcome the statement. I think that £100 million is a significant contribution, albeit that this is the second time that you have announced it, Minister. I accept that you are giving us more detail as to how it is costing more than that, and giving some more details about how it is being spent. I have a few questions around this.

Rwyf finnau hefyd yn croesawu'r datganiad. Credaf fod £100 miliwn yn gyfraniad sylweddol, er mai dyma'r ail dro i chi ei gyhoeddi, Weinidog. Rwyf yn derbyn eich bod yn rhoi mwy o fanylion inni am sut y mae'n costio mwy na hynny, ac yn rhoi ychydig yn fwy o fanylion am sut y caiff ei wario. Mae gennyf rai cwestiynau am hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Every Member in the Chamber is very keen to see public money being used in the most effective and efficient way, particularly to lever in additional resources into communities. May I ask you, therefore, whether there are any conditions attached to the money going to local authorities, whether they have to use it try to lever in additional private sector money in terms of the regeneration opportunities that they will be utilising as part of that resource?

Mae pob Aelod yn y Siambr yn awyddus iawn i weld arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithlon, yn arbennig er mwyn ysgogi adnoddau ychwanegol i gymunedau. A gaf fi ofyn ichi, felly, a oes unrhyw amodau ynghlwm wrth roi'r arian i awdurdodau lleol; a oes rhaid iddynt ei ddefnyddio i geisio ysgogi mwy o arian o'r sector preifat o ran y cyfleoedd adfywio y byddant yn eu rhoi ar waith yn rhan o'r adnodd hwnnw?

Secondly, in terms of the impact that this money is going to have, you describe it as 'transformational'. How will you be measuring the impact of this £100 million on those communities? Have you set any targets or measures that need to be looked at, that we can scrutinise to determine whether the investment of £100 million has been a success and has met the aims that you have set out for us in this statement?

Yn ail, o ran yr effaith a gaiff yr arian hwn, rydych yn dweud y bydd yn 'drawsnewidiol'. Sut y byddwch yn mesur effaith y £100 miliwn hwn ar y cymunedau hynny? A ydych wedi gosod unrhyw dargedau neu fesurau y bydd angen edrych arnynt, y gallwn graffu arnynt i benderfynu a yw'r buddsoddiad o £100 miliwn wedi bod yn llwyddiant ac wedi bodloni'r nodau yr ydych wedi'u nodi inni yn y datganiad hwn?

Finally, Minister, in relation to your statement you say that engagement with wider Welsh Government community-based initiatives will be central to this, and that it must add value to the Lift programme, Communities First, the communities capital programme, Families First, Flying Start and sustainable development, et cetera. Clearly, the ambition is to join up all the investment in our communities to try to get the most effective bang for our buck from that investment. May I ask you, therefore, how this links with the £20 million-odd that you are currently sitting on from the regional investment fund for Wales, and whether that money will be thrown into the mix once it becomes available?

Yn olaf, Weinidog, o ran eich datganiad rydych yn dweud y bydd ymgysylltu â mentrau cymunedol ehangach Llywodraeth Cymru'n ganolog i hyn, a bod rhaid ychwanegu gwerth at y rhaglen Esgyn, Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen cyfalaf cymunedau, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a datblygu cynaliadwy, ac ati. Yn amlwg, yr uchelgais yw cydgyssylltu'r holl fuddsoddi yn ein cymunedau i geisio cael y gwerth mwyaf posibl o'r buddsoddiad hwnnw. A gaf fi ofyn ichi, felly, beth yw'r cysylltiad rhwng hyn a'r oddeutu £20 miliwn yr ydych ar hyn o bryd yn eistedd arno o gronfa buddsoddi rhanbarthol Cymru, ac a gaiff yr arian hwnnw ei ychwanegu at y cymysgedd cyn gynted ag y bydd ar gael?

14:57

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for his questions today. I am sure that he, again, welcomes this contribution of £100 million to our communities. I just mentioned it once again, I think. He is absolutely right: it is about maximising the amount of funding available for communities through the private sector, European leverage, local authorities and the third sector, all of which took part in the process of creating the business plan, which was part of the assessment of how much leverage we could bring into the programme. It is also about the issue that the Member quite rightly raises as to how we measure the outputs and outcomes for communities; that was part of the bidding process as well. I will give Members more detail on that when we have finalised the full details with each authority in terms of how and when the spend profile will pan out over three years and exactly how that will be delivered. Members will, I am sure, be able to scrutinise at that appropriate point, but we have built that into the system upfront, as opposed to asking for it at the end—that is, what we expect it to deliver and how we can evidence that.

Diolch i'r Aelod am ei gwestiynau heddiw. Rwyf yn siŵr ei fod, unwaith eto, yn croesawu'r cyfraniad hwn o £100 miliwn i'n cymunedau. Rwyf newydd ei grybwyll unwaith eto, rwyf yn meddwl. Mae'n hollol gywir: mae'n fater o sicrhau bod cymaint â phosibl o arian ar gael i gymunedau drwy'r sector preifat, cymorth Ewropeaidd, awdurdodau lleol a'r trydydd sector; bu pob un o'r rhain yn rhan o'r broses o greu'r cynllun busnes, a oedd yn rhan o'r asesiad o faint o drosoledd y gallem ei gyflwyno i'r rhaglen. Mae hefyd yn ymwneud â'r mater y mae'r Aelod yn ei godi'n gwbl briodol ynghylch sut y byddwn yn mesur yr allbynnau a'r canlyniadau i gymunedau; roedd hynny'n rhan o'r broses gynnig hefyd. Rhoddaf fwy o fanylion i'r Aelodau am hynny pan fyddwn wedi cwblhau'r manylion llawn gyda phob awdurdod o ran sut a phryd y bydd y proffil gwariant yn datblygu dros dair blynedd a sut yn union y caiff hynny ei gyflawni. Bydd yr Aelodau, rwyf yn siŵr, yn gallu craffu ar yr adeg briodol honno, ond rydym wedi cynnwys hynny yn y system ymlaen llaw, yn hytrach na gofyn amdano ar y diwedd—hynny yw, yr hyn yr ydym yn disgwyl iddo ei gyflawni a sut y gallwn roi tystiolaeth o hynny.

In terms of the final point that the Member raises with regard to the RIFW funding, that is still under investigation, and when I have concluded that I will consider what we do with the final finances remaining in that financial pot.

O ran y pwynt olaf y mae'r Aelod yn ei godi o ran cyllid Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, mae hynny'n dal i fod yn destun ymchwiliad, a phan fyddaf wedi cwblhau hynny, byddaf yn ystyried beth a wnawn â'r arian terfynol sydd ar ôl yn y pot ariannol hwnnw.

14:58

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I have three more speakers. I have to ask each of them to come directly to their questions. I call Mike Hedges.

Mae gennyf dri siaradwr arall. Rhaid imi ofyn i bob un ohonynt fynd yn syth at eu cwestiynau. Galwaf ar Mike Hedges.

14:58

Mike Hedges [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the statement. I am very pleased that Swansea, a vibrant and viable place, will bring into use flats above retail units, especially one and two-bedroomed flats. We have a very good record in Swansea of bringing people to live in the city centre. That has been done over many years. Does the Minister think that it is a retrograde step, however, that the bedroom tax is forcing families out of houses into flats? Will district retail areas, such as Port Tennant Road and Woodfield Street in my constituency, also be eligible?

Rwyf yn croesawu'r datganiad. Rwyf yn falch iawn y bydd Abertawe, lle llewyrchus llawn addewid, yn defnyddio fflatiau uwchben unedau manwerthu, yn enwedig fflatiau un a dwy ystafell wely. Mae gennym hanes da iawn yn Abertawe o ddod â phobl i fyw i ganol y ddinas. Mae hynny wedi digwydd dros lawer o flynyddoedd. A yw'r Gweinidog yn meddwl ei bod yn gam yn ôl, fodd bynnag, fod y dreth ystafell wely'n gorfodi teuluoedd allan o dai ac i mewn i fflatiau? A fydd canolfannau manwerthu ardal, megis Ffordd Port Tennant a Stryd Woodfield yn fy etholaeth i, hefyd yn gymwys?

14:59

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member will have to forgive me in terms of the detail of his constituency, but I will write to the Member if it helpful in terms of the specifics of the streets that he refers to. It will be of no surprise to him that I fully agree with him on the bedroom tax issue. We believe that the bedroom tax should be scrapped, not tinkered with, as it is having an effect on our communities. The Member is right that our small, but meaningful investment in communities such as his will transform homes above shops, bringing people into the retail arena, which will create more footfall and more spend in that particular area, making it a more vibrant place to be. I am grateful to the Member for his kind words in welcoming this funding for his community today.

Bydd yn rhaid i'r Aelod faddau imi o ran manylion ei etholaeth, ond ysgrifennaf at yr Aelod os yw hynny'n ddefnyddiol o ran manylion y strydoedd y mae'n cyfeirio atynt. Ni fydd yn syndod iddo fy mod yn cytuno'n llwyr ag ef am y dreth ystafell wely. Rydym yn credu y dylid dileu'r dreth ystafell wely, nid ei haddasu, gan ei bod yn effeithio ar ein cymunedau. Mae'r Aelod yn gywir y bydd ein buddsoddiad bach, ond arwyddocaol mewn cymunedau fel ei un ef yn trawsnewid cartrefi uwchben siopau, gan ddod â phobl i mewn i'r arena manwerthu, a fydd yn denu mwy o ymwelwyr a mwy o wariant yn yr ardal benodol honno, a'i gwneud yn lle mwy llewyrchus. Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei eiriau caredig wrth groesawu'r cyllid hwn i'w gymuned heddiw.

15:00

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Minister, may I thank you for your statement? I was very pleased to see in the announcement, although you have not referred to it in your oral statement today, the investment of over £12 million into Colwyn Bay as part of the 'Vibrant and Viable Places' framework. I am very pleased indeed to see that. I am pleased also that it is not just focused on housing, although a large element of it is. Some of it is also going into investment in the Colwyn Bay waterfront in order to attract tourists back to that very important town.

Weinidog, a gaf fi ddiolch ichi am eich datganiad? Roeddwn yn falch iawn o weld yn y cyhoeddiad, er nad ydych wedi cyfeirio ato yn eich datganiad llafar heddiw, y buddsoddiad o dros £12 miliwn ym Mae Colwyn fel rhan o'r fframwaith 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'. Rwyf yn wirioneddol falch o weld hynny. Rwyf yn falch hefyd nad yw'n canolbwyntio ar dai yn unig, er bod hynny'n elfen fawr ohono. Mae rhywfaint ohono hefyd yn mynd i fuddsoddi yng nglannau Bae Colwyn er mwyn denu twristiaid yn ôl i'r dref bwysig iawn honno.

Minister, you will be aware of the very poor state of repair of the Colwyn Bay Victoria pier. Today, I met representatives from Colwyn Victoria Pier Trust, which has been newly formed to try to move and inch a project forward that could see that particular piece of the heritage of Colwyn Bay restored. What opportunities might lie within the cash that has been awarded, particularly in terms of the community grants scheme, for the trust to be able to take advantage of that in order to support a business plan and the development of a business plan for the regeneration of the pier in Colwyn Bay?

Weinidog, byddwch yn ymwybodol o gyflwr gwael iawn pier Victoria ym Mae Colwyn. Heddiw, cyfarfûm â chynrychiolwyr o Ymddiriedolaeth Pier Victoria Colwyn, sydd newydd ei ffurfio i geisio symud yn ei flaen yn araf brosiect a allai arwain at adfer y darn penodol hwnnw o dreftadaeth Bae Colwyn. Pa gyfleoedd allai fod ynghlwm â'r arian sydd wedi ei ddyfarnu, yn enwedig o ran y cynllun grantiau cymunedol, i'r ymddiriedolaeth allu manteisio ar hynny er mwyn cefnogi cynllun busnes a datblygu cynllun busnes i adfywio'r pier ym Mae Colwyn?

15:01

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I am very grateful for the Member's very precise questions. I launched this scheme in north Wales, in Colwyn Bay actually, with £36 million for north Wales, which was very positively welcomed in the area. Colwyn Bay, particularly, has gained a great advantage from regeneration already. The waterfront along there is fantastic, or, as we say in the north, 'gog-tastic'. It is something of which Colwyn Bay should be very proud.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am gwestiynau manwl iawn yr Aelod. Lansiais y cynllun hwn yn y gogledd, ym Mae Colwyn a dweud y gwir, gyda £36 miliwn i'r gogledd, a chafodd hynny groeso cadarnhaol iawn yn yr ardal. Mae Bae Colwyn, yn enwedig, eisoes wedi elwa'n fawr iawn o adfywio. Mae'r glannau yno'n wych, neu, fel yr ydym yn ei ddweud yn y gogledd, yn 'gog-tastic'. Mae'n rhywbeth y dylai Bae Colwyn fod yn falch iawn ohono.

With regard to the pier, this is certainly a matter for the local authority, which you would need to take up with it, but there are opportunities within regeneration to ensure and enhance your local community. I am not sure about the pier, per se, with regard to this fund, but it is something that I would advise the Member to take up directly with the local authority.

O ran y pier, mater i'r awdurdod lleol yw hynny yn sicr, a byddai angen ichi godi'r mater gyda hwy, ond mae cyfleoedd yn gysylltiedig ag adfywio i ddiogelu a gwella eich cymuned leol. Nid wyf yn siŵr am y pier, fel y cyfryw, o ran y gronfa hon, ond y mae'n rhywbeth y byddwn yn cynghori'r Aelod i'w drafod yn uniongyrchol â'r awdurdod lleol.

15:02

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Your statement outlines lots of excellent schemes that I am sure we would all enthusiastically applaud. However, redevelopment does not always lead to progress. The Adamsdown community in my constituency is still very angry, three or four years on, that it has had a one-way system imposed on its shopping street, which has suppressed the numbers of people who use that shopping area. However, that was under a previous administration and we are still hoping to be able to get something more rational to sort that out.

Mae eich datganiad yn amlinellu llawer o gynlluniau rhagorol yr wyf yn siŵr y byddem oll yn eu cymeradwyo'n frwd. Fodd bynnag, nid yw ailddatblygu bob amser yn arwain at gynnydd. Mae cymuned Adamsdown yn fy etholaeth i yn dal i fod yn ddiog iawn, dair neu bedair blynedd yn ddiweddarach, fod system unffordd wedi ei gosod ar ei stryd siopa, sydd wedi lleihau nifer y bobl sy'n defnyddio'r ardal siopa honno. Fodd bynnag, roedd hynny o dan weinyddiaeth flaenorol ac rydym yn dal i obeithio y gallwn gael rhywbeth mwy rhesymol i ddatrys hynny.

In another area of my constituency, in Llanedeyrn, I am still waiting for the announcement of a redevelopment of the local shopping area, with which I think the Minister is familiar. I have yet to have any assurances that local fresh food outlets will be assured a place in the new scheme if and when it goes ahead, as happened at Loudon Square. I just wonder what consideration you have given to strengthening the planning system to ensure that vibrant and viable places are the outcome of redevelopment.

Mewn ardal arall yn fy etholaeth i, yn Llanedern, rwyf yn dal i aros am gyhoeddiad ynghylch ailddatblygu'r ardal siopa leol; rwyf yn meddwl bod y Gweinidog yn gyfarwydd â hi. Nid wyf eto wedi cael sicrwydd y bydd siopau bwyd ffres lleol yn sicr o gael lle yn y cynllun newydd os a phan y bydd yn digwydd, fel a ddigwyddodd yn Sgwâr Loudon. Tybed pa ystyriaeth yr ydych wedi'i rhoi i gryfhau'r system gynllunio i sicrhau y cawn leoedd llewyrchus llawn addewid o ganlyniad i ailddatblygu?

15:03

Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I thank the Member for her questions. Again, I suppose it is the 'be careful what you wish for' scenario, is it not? People talk to me about pedestrianisation sometimes. As soon as that happens in an area, it stops dead the community and the operation around the shopping centre. So, it is about ensuring that we get the right planning system in place in advance of change to ensure that we know what the effects may or may not be.

Diolch i'r Aelod am ei chwestiynau. Unwaith eto, mater o fod yn ofalus o ran yr hyn yr ydych yn ei ddymuno yw hyn, onid e? Mae pobl yn siarad â mi am greu parthau cerddwyr weithiau. Cyn gynted ag y bydd hynny'n digwydd mewn ardal, mae'n dod â'r gymuned a gweithgarwch o amgylch y ganolfan siopa i stop. Felly, mae angen sicrhau bod y system gynllunio iawn ar waith gennym cyn gwneud newidiadau i sicrhau ein bod yn gwybod beth yw'r effeithiau posibl.

I did visit the shopping centre in Llanedeyrn with the Member and we had an enjoyable afternoon there, actually, out and about meeting her constituents. It is a very important part of the process, ensuring continuity of business. I would like to look at that in more detail in terms of how current owners would move into a new complex, albeit that is part of the private sector mix and something that we would not have direct involvement in. However, the Member raises a fair point that the planning conditions around such developments should be considered at the planning stage, which is, of course, with the local authority.

Bûm yn ymweld â'r ganolfan siopa yn Llanedern gyda'r Aelod a chawsom brynhawn dymunol yno, a dweud y gwir, allan yn cyfarfod â'i hetholwyr. Mae'n rhan bwysig iawn o'r broses, ac yn sicrhau parhad busnes. Hoffwn edrych ar hynny'n fanylach o ran sut y byddai perchnogion presennol yn symud i mewn i ganolfan newydd, er bod hynny'n ymwneud â'r sector preifat ac nad yw'n rhywbeth y byddem yn ymwneud yn uniongyrchol ag ef. Fodd bynnag, mae'r Aelod yn codi pwynt teg y dylid ystyried amodau cynllunio datblygiadau o'r fath ar y cam cynllunio, sef, wrth gwrs, gyda'r awdurdod lleol.

15:04

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

15:04

Datganiad: Trechu Tlodi Tanwydd drwy Effeithlonrwydd Ynni

Statement: Tackling Fuel Poverty through Energy Efficiency

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd / The Minister for Natural Resources and Food

In December last year I issued a written statement on our energy-efficiency programme, describing how the Nest scheme and Arbed project are supporting people in Wales at a time of increasing energy prices and helping to tackle fuel poverty. Today, I want to update Members on the benefits that our programme has delivered in 2013-14 and on the action that I will be taking over the next 12 months to ensure that it continues to be effective in tackling fuel poverty.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig am ein rhaglen effeithlonrwydd ynni, yn disgrifio sut y mae'r cynllun Nyth a'r prosiect Arbed yn cynorthwyo pobl yng Nghymru ar adeg pan fo prisiau ynni'n codi ac yn helpu i drechu tlodi tanwydd. Heddiw, hoffwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y buddion y mae ein rhaglen wedi'u sicrhau yn 2013-14 ac am y camau y byddaf yn eu cymryd yn ystod y 12 mis nesaf i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn effeithiol o ran trechu tlodi tanwydd.

In our fuel poverty strategy, we said that the most effective way in which the Welsh Government could tackle fuel poverty was to invest in improving the energy efficiency of the homes of low-income households. Since we published the strategy, we have not just maintained our investment, but increased it significantly, underlining our commitment to achieving our statutory obligation to do everything that we reasonably can do to eradicate fuel poverty by 2018.

Yn ein strategaeth tlodi tanwydd, dywedasom mai'r peth mwyaf effeithiol y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i drechu tlodi tanwydd fyddai buddsoddi i wella effeithlonrwydd ynni aelwydydd ag incwm isel. Ers inni gyhoeddi'r strategaeth, rydym wedi gwneud mwy na chynnal ein buddsoddiad; rydym wedi ei gynyddu'n sylweddol, sy'n tanlinellu ein hymrwymiad i gyflawni ein rhwymedigaeth statudol i wneud popeth a allwn o fewn rheswm i ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018.

In 2013-14, our Nest scheme improved over 4,900 homes, with 95% of these taken out of an energy performance certificate rating of F or G. This brings the total number of low-income homes improved by Nest since 2011 to over 13,400. The energy improvements made are estimated to have delivered average bill savings of over £470 per household per year, making a real difference to low-income households. The Welsh Government invested over £16 million in Nest in the last year, and, through that investment, we have leveraged in over £3.5 million of additional funding from the energy company obligation, enabling our funding to be used to help more households in fuel poverty. In addition to providing home energy improvements, Nest helped 79 householders to secure a warm homes discount rebate of £135—a total value of over £10,600. We also helped over 350 householders to secure new or additional benefits that increased their income by an average of over £2,470 per year.

The households that we are targeting under Nest are some of the hardest to reach, and, to help us identify and support these households, the scheme manager has put in place a network of partner development managers, who are working proactively in communities across Wales, including Communities First areas. Our area-based energy-efficiency programme, Arbed 2 ERDF, has, over the last year, improved over 2,500 homes in the most deprived communities across Wales and is projected to improve over 4,800 homes in the three years of its operation.

As I reported in my December statement, our energy-efficiency programme is doing more than just improving the energy efficiency of Welsh homes; it is also driving green growth by helping to develop the energy-efficiency market in Wales, creating new opportunities and jobs. Since 2012, Arbed 2 ERDF alone has created 471 new jobs and delivered over 40,000 hours of training. Through the Value Wales community benefit tool, Arbed has been able to demonstrate a £2 return to the local communities for every £1 invested. All of the Arbed 2 ERDF schemes are being delivered by local companies or by those with bases in Wales, the majority of which are small and medium-sized enterprises. I am particularly pleased that one of the contractors, the Bridgend-based company Gibson Specialist Technical Services, recently won the Welsh national procurement award for tendering collaboration as a direct result of its involvement in the scheme.

I was also pleased, on Friday, to attend a celebration event for Get into Engineering, a programme led by The Prince's Trust and supported by Nest, to help unemployed 18 to 24-year-olds to get a nationally recognised qualification and work experience. As a direct result of this programme, at least half of the young people involved have been offered apprenticeships with Nest SMEs.

Yn 2013-14, llwyddodd ein cynllun Nest i wella dros 4,900 o gartrefi, a chafodd 95% ohonynt eu symud o sgôr tystysgrif perfformiad ynni F neu G. Mae hyn yn golygu bod cyfanswm o dros 13,400 o gartrefi incwm isel bellach wedi eu gwella gan Nyth ers 2011. Amcangyfrifir bod y gwelliannau ynni a wnaethpwyd wedi sicrhau arbedion cyfartalog o dros £470 ar fil pob aelwyd bob flwyddyn, gan wneud gwahaniaeth gwirioneddol i aelwydydd incwm isel. Buddsoddodd Llywodraeth Cymru dros £16 miliwn yn Nyth dros y flwyddyn ddiwethaf, a thrwy'r buddsoddiad hwnnw, rydym wedi ysgogi dros £3.5 miliwn o gyllid ychwanegol rhwymedig aeth y cwmnïau ynni, sy'n golygu y gellir defnyddio ein cyllid i helpu mwy o gartrefi mewn tlddi tanwydd. Yn ogystal â darparu gwelliannau ynni yn y cartref, helpodd Nyth 79 o ddeiliaid tai i sicrhau ad-daliad gostyngiad cartrefi cynnes o £135—cyfanswm o dros £10,600. Llwyddasom hefyd i helpu dros 350 o ddeiliaid tai i sicrhau budd-daliadau newydd neu ychwanegol a gynyddodd eu hincwm ar gyfartaledd dros £2,470 y flwyddyn.

Mae'r aelwydydd yr ydym yn eu targedu o dan Nyth ymysg y rhai mwyaf anodd eu cyrraedd ac, i'n helpu i ddod o hyd i'r aelwydydd hyn a'u cynorthwyo, mae rheolwr y cynllun wedi sefydlu rhwydwaith o reolwyr datblygu partneriaethau, sy'n gweithio'n rhagweithiol mewn cymunedau ledled Cymru, gan gynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae ein rhaglen effeithlonrwydd ynni seiliedig ar ardal, Arbed 2 ERDF, dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi gwella dros 2,500 o gartrefi yn y cymunedau mwyaf difreintiedig ledled Cymru a disgwylir iddi wella dros 4,800 o gartrefi yn ystod tair blynedd ei hoes.

Fel y nodais yn fy natganiad ym mis Rhagfyr, mae ein rhaglen effeithlonrwydd ynni'n gwneud mwy na dim ond gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru; mae hefyd yn sbarduno twf gwyrdd drwy helpu i ddatblygu'r farchnad effeithlonrwydd ynni yng Nghymru, a chreu cyfleoedd a swyddi newydd. Ers 2012, mae Arbed 2 ERDF ar ei phen ei hun wedi creu 471 o swyddi newydd ac wedi darparu dros 40,000 o oriau o hyfforddiant. Drwy offeryn budd cymunedol Gwerth Cymru, mae Arbed wedi gallu dangos elw o £2 i'r cymunedau lleol am bob £1 a fuddsoddir. Mae pob un o'r cynlluniau Arbed 2 ERDF yn cael ei ddarparu gan gwmnïau lleol neu gan gwmnïau sydd â chanolfannau yng Nghymru, a busnesau bach a chanolig yw'r rhan fwyaf ohonynt. Rwyf yn arbennig o falch bod un o'r contractwyr, cwmni Gwasanaethau Technegol Arbenigol Gibson o Ben-y-bont ar Ogwr, yn ddiweddar wedi ennill gwobr gaffael genedlaethol Cymru am gydweithio wrth dendro o ganlyniad uniongyrchol i gymryd rhan yn y cynllun.

Roeddwn hefyd yn falch, ddydd Gwener, o fod yn bresennol mewn dathliad ar gyfer Ewch i mewn i Beirianneg, rhaglen dan arweiniad Ymddiriedolaeth y Tywysog a gefnogir gan Nyth, i helpu pobl ifanc ddi-waith rhwng 18 a 24 mlwydd oed i gael cymhwyster a gydabyddir yn genedlaethol a phrofiad gwaith. O ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen hon, mae o leiaf hanner y bobl ifanc dan sylw wedi cael cynnig prentisiaethau gyda busnesau bach a chanolig Nyth.

In 2013-14, we invested over £6.7 million of capital and nearly £0.5 million of revenue funding to support local authorities in attracting the new energy company obligation into Wales. Our investment improved the energy efficiency of over 1,700 homes and provided continuity of employment for Wales-based companies during a time when other investment in the sector fell due to uncertainty around the UK Government's changes to the ECO.

Over the next 12 months, I want to initiate a debate on how we can further improve our energy-efficiency programme. My intention is that, when the current Arbed 2 ERDF project ends in 2015 and the Nest scheme ends in 2016, we will have new schemes that are tightly focused on helping the most vulnerable of low-income households and the most disadvantaged communities. I also want these schemes to be even more innovative in the ways in which they seek to improve the energy efficiency of homes across Wales.

To help shape our thinking on a future fuel poverty scheme I have requested an independent evaluation of the Nest scheme, which will report to me by the end of this calendar year. I have also asked the Nest scheme manager to look at the potential for developing pilot projects within Nest to tackle the particular challenges for the off-the-gas-grid, hard-to-treat homes.

To help inform our thinking on which low-income households are the most vulnerable and most in need of support for our home energy efficiency schemes, I will also be consulting with the tackling poverty external advisory group and others on how we can define and target those households.

Yn 2013-14, buddsoddwyd dros £6.7 miliwn o gyfalaf gennym a bron i £0.5 miliwn o gyllid refeniw i gefnogi awdurdodau lleol i ddenu'r rhwymedigaeth cwmniau ynni newydd i Gymru. Mae ein buddsoddiad wedi gwella effeithlonrwydd ynni dros 1,700 o gartrefi ac wedi darparu cyfogaeth barhaus i gwmniau yng Nghymru yn ystod cyfnod pan fu llai o fuddsoddi fel arall yn y sector oherwydd ansicrwydd ynghylch newidiadau Llywodraeth y DU i rwymedigaeth y cwmniau ynni.

Dros y 12 mis nesaf, rwyf yn awyddus i gychwyn dadl ar sut y gallwn wella ein rhaglen effeithlonrwydd ynni ymhellach. Fy mwriad, pan ddaw'r prosiect Arbed 2 ERDF presennol i ben yn 2015 a phan ddaw cynllun Nyth i ben yn 2016, yw y bydd gennym gynlluniau newydd sy'n canolbwyntio'n gryf ar helpu'r aelwydydd incwm isel swydd fwyaf agored i niwed a'r cymunedau mwyaf difreintiedig. Rwyf hefyd am i'r cynlluniau hyn fod hyd yn oed yn fwy arloesol yn y ffyrdd y maent yn ceisio gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi ledled Cymru.

I helpu i lywio ein ffordd o feddwl am gynllun tlodi tanwydd yn y dyfodol, rwyf wedi gofyn am werthusiad annibynnol o gynllun Nyth, a chaf adroddiad ar hynny erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon. Rwyf hefyd wedi gofyn i reolwr cynllun Nyth edrych ar bosibilrwydd datblygu prosiectau pilot o fewn Nyth i ymdrin â'r heriau penodol i'r cartrefi anodd eu trin sydd oddi ar y grid nwy.

Er mwyn helpu i lywio'r ffordd yr ydym yn penderfynu pa aelwydydd incwm isel yw'r rhai mwyaf agored i niwed ac y mae angen cymorth ein cynlluniau effeithlonrwydd ynni cartref fwyaf arnynt, byddaf hefyd yn ymgynghori â'r grŵp cynghori allanol ar drechu tlodi ac eraill ynghylch sut y gallwn ddiffinio a thargedu'r aelwydydd hynny.

15:10 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I have a number of speakers, including spokespeople, on this statement, so could I ask everyone, including spokespeople, to keep their questions succinct so that we can get as many in as possible? First, I call the Conservative spokesperson, Mark Isherwood.

Diolch, Weinidog. Mae gennyf nifer o siaradwyr, gan gynnwys llefarwyr, ar y datganiad hwn, felly a gaf fi ofyn i bawb, gan gynnwys y llefarwyr, gadw eu cwestiynau'n gryno fel y gallwn gael cynifer ohonynt â phosibl? Yn gyntaf, galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr, Mark Isherwood.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:11 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for your statement. In 2004—10 years ago—198,000 households in Wales were in fuel poverty. By 2008, the Welsh Government's own Living in Wales survey reported 332,000 such households. It is now estimated to be 386,000, or almost one in three, households that are living in fuel poverty. How do you respond to the first recommendation in the UK Fuel Poverty Monitor 2013-2014, applying to Wales? As you know, this praises schemes in all UK nations and criticises schemes in all UK nations neutrally. The first recommendation is:

'There is currently no action plan for eradicating fuel poverty in Wales. The Welsh Government should evaluate the lessons learnt from the failure to make progress against its interim targets and outline how it intends to prioritise vulnerable households and those in social housing.'

Diolch am eich datganiad. Yn 2004—10 mlynedd yn ôl—roedd 198,000 o gartrefi yng Nghymru mewn tlodi tanwydd. Erbyn 2008, roedd arolwg Byw yng Nghymru Llywodraeth Cymru ei hun yn nodi bod 332,000 o'r aelwydydd hynny. Amcangyfrifir bellach fod 386,000, neu bron i un o bob tri, o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd. Sut ydych chi'n ymateb i argymhelliad cyntaf Monitor Tlodi Tanwydd y DU 2013-2014, sy'n berthnasol i Gymru? Fel y gwyddoch, mae'n canmol cynlluniau yn holl wledydd y DU ac yn beirniadu cynlluniau yn holl wledydd y DU yn niwtral. Dyma'r argymhelliad cyntaf:

Nid oes cynllun gweithredu ar gyfer dileu tlodi tanwydd yng Nghymru ar hyn o bryd. Dylai Llywodraeth Cymru werthuso'r gwersi a ddysgwyd o'r methiant i symud ymlaen o ran ei thargedau interim ac amlinellu sut y mae'n bwriadu blaenoriaethu aelwydydd agored i niwed a'r rhai mewn tai cymdeithasol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Clearly, the objective is to work with the Welsh Government, not to criticise it, and certainly not to party-politicise this. I hasten to add that I also chair the cross-party group and will try to avoid any partisan comments in my contribution.

We heard at last week's cross-party group meeting from the Energy Saving Trust, which delivers the Nest programme for the Welsh Government, that funding for its call centre and advice services, which run alongside the energy-efficiency improvements within the Nest programme, has come to an end, and that it is currently unable to provide that call centre service and broader advice. Could you comment on that and advise whether that funding is likely to be restored, and, if so, when, where programmes such as Arbed and Nest alone do not comprise a strategy? Will you give further consideration to the lessons learned from the rural fuel poverty adviser programme that was piloted in Wales by National Energy Action Cymru and Calor Gas? How are you engaging with the Health Through Warmth programme, which provides a partnership between the third and private sectors, providing energy-efficiency improvements for people who are unwell and who may not otherwise be eligible under the eligibility criteria for the Welsh Government's own schemes, and similarly engaging with energy companies over their own home heat helpline for the roll-out of their schemes?

Given the limited impact of Nest and Arbed—I think that you identify 7,500 households against nearly 400,000 in fuel poverty—on fuel poverty levels, will you investigate the potential of using the Welsh Government's new borrowing powers to provide the additional resources needed for energy-efficiency programmes? Since the target to eradicate fuel poverty by 2018 is unachievable, will you consider consulting with stakeholders to replace the target with minimum energy-efficiency standards to improve the energy efficiency of Welsh homes? What plans do you have to independently review and monitor—

Wrth gwrs, y nod yw gweithio gyda Llywodraeth Cymru, nid ei beirniadu, ac yn sicr nid troi hwn yn bwnc pleidiol. Hoffwn ychwanegu fy mod hefyd yn cadeirio'r grŵp trawsbleidiol a cheisiaf osgoi unrhyw sylwadau pleidiol yn fy nghyfraniad.

Clywsom yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol yr wythnos ddiwethaf gan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni, sy'n darparu rhaglen Nyth ar gyfer Llywodraeth Cymru, fod yr arian ar gyfer ei chanolfan alwadau a'i gwasanaeth cyngori, sy'n rhedeg ochr yn ochr â'r gwelliannau effeithlonrwydd ynni o fewn rhaglen Nyth, wedi dod i ben, ac nad yw'n gallu darparu gwasanaeth y ganolfan alwadau a'r gwasanaeth cyngori ehangach ar hyn o bryd. A allech sôn am hynny a dweud a yw'r cyllid yn debygol o gael ei adfer, ac, os ydyw, pryd y bydd hynny, lle nad yw rhaglenni fel Arbed a Nyth ynddynt eu hunain yn gwneud strategaeth? A roddwch ystyriaeth bellach i'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen ymgynghorwyr tldi tanwydd gwledig a dreialwyd yng Nghymru gan National Energy Action Cymru a Calor Gas? Sut ydych chi'n ymgysylltu â'r rhaglen Iechyd Trwy Gynhesrwydd, sy'n darparu partneriaeth rhwng y trydydd sector a'r sector preifat, ac yn darparu gwelliannau effeithlonrwydd ynni i bobl sy'n sâl ac nad ydynt fel arall yn gymwys o reidrwydd o dan y meini prawf cymhwysra ar gyfer cynlluniau Llywodraeth Cymru ei hun, ac yn yr un modd yn ymgysylltu â chwmnïau ynni ynglŷn â'u llinell gymorth cartrefi cynnes eu hunain ar gyfer cyflwyno eu cynlluniau?

Ac ystyried effaith gyfyngedig Nyth ac Arbed—rwyf yn meddwl eich bod yn nodi 7,500 o gartrefi o'u cymharu â bron i 400,000 sydd mewn tldi tanwydd—o ran lefelau tldi tanwydd, a wnewch chi ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio pwerau benthyca newydd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer rhaglenni effeithlonrwydd ynni? Gan nad yw'n bosibl cyrraedd y targed o ddileu tldi tanwydd erbyn 2018, a wnewch chi ystyried ymgynghori â rhanddeiliaid i osod safonau effeithlonrwydd ynni gofynnol yn lle'r targed hwnnw i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi Cymru? Pa gynlluniau sydd gennych i adolygu a monitro'n annibynnol

15:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
May I just remind the spokesperson that I did ask for succinct questions from spokespeople as well? Otherwise, I will not get other Members in.

A gaf fi atgoffa'r llefarydd fy mod wedi gofyn am gwestiynau cryno gan lefarwyr hefyd? Fel arall, ni allaf roi cyfle i Aelodau eraill.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:14 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Okay. I am actually asking questions given to me by key stakeholders.

lawn. A dweud y gwir rwyf yn gofyn cwestiynau a roddwyd imi gan randdeiliaid allweddol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Yes, you have asked a considerable number already. Could you be succinct, please, and carry on?

Ydych, ac rydych wedi gofyn nifer sylweddol yn barod. A wnewch chi fod yn gryno, os gwelwch yn dda, a pharhau?

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15:14 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Okay. What plans do you have to independently review and monitor your energy-efficiency programmes and their effectiveness in delivering reductions in fuel poverty? Finally, how do you respond to the call by the Commissioner for Sustainable Futures previously for the First Minister's Energy Wales strategic delivery group to incorporate progress on fuel poverty as part of its agenda?

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

lawn. Pa gynlluniau sydd gennych i adolygu a monitro'n annibynnol eich rhaglenni effeithlonrwydd ynni a'u heffeithiolrwydd o ran lleihau tlodi tanwydd? Yn olaf, sut ydych chi'n ymateb i'r alwad flaenorol y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar i grŵp cyflawni strategol Ynni Cymru'r Prif Weinidog ymgorffori cynnydd ar dlodi tanwydd fel rhan o'i agenda?

15:14 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Thank you. I now call the Minister.

Diolch. Galwaf y Gweinidog yn awr.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

15:14 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
I must say that I did think that I was answering questions from Members rather than from other people and from other sources. However, there we go. In terms of where we are today, the Conservative spokesperson started his contribution by describing the increases we have being seen in the number of households living in fuel poverty. There are, of course, a number of different reasons for why people living in fuel poverty. The efficiency of their home is one reason, and the welfare system is another, with energy prices as yet another. I will say to the Member that, in all those areas where the United Kingdom Government has responsibility, it has done little or nothing to help people in fuel poverty, and, actually, the direct result of its policies has been to increase the number of people living in fuel poverty and those living in poverty at a total. So, it is a direct consequence of policies being pursued by the United Kingdom Government, and policies that the United Kingdom Government has refused to follow to eradicate and tackle fuel poverty, that we have seen these significant increases in Wales. What we are doing as a Government is to use the powers and resources available to us to increase our focus on tackling fuel poverty, ensuring that we are also able to do so in the future.

Rhaid imi ddweud fy mod yn meddwl mai ateb cwestiynau gan Aelodau yr oeddwn, yn hytrach na gan bobl eraill ac o ffynonellau eraill. Fodd bynnag, dyna ni. O ran ble'r ydym ni heddiw, dechreuodd llfarydd y Ceidwadwyr ei gyfraniad drwy ddisgrifio'r cynnydd yr ydym wedi ei weld o ran nifer yr aelwydydd sy'n byw mewn tlodi tanwydd. Wrth gwrs, mae nifer o wahanol resymau pam y mae pobl yn byw mewn tlodi tanwydd. Mae effeithlonrwydd eu cartref yn un rheswm, ac mae'r system lles yn un arall, a phrisiau ynni'n un arall eto. Dywedaf wrth yr Aelod, yn yr holl feysydd hynny lle mae gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig gyfrifoldeb, nad yw wedi gwneud y nesaf peth i ddim i helpu pobl mewn tlodi tanwydd, ac, a dweud y gwir, mae ei pholisïau wedi arwain yn uniongyrchol at gynyddu nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd a chyfanswm nifer y rheini sy'n byw mewn tlodi. Felly, mae'r cynnydd sylweddol hwn yr ydym wedi'i weld yng Nghymru'n ganlyniad uniongyrchol i bolisïau a weithredir gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, a pholisïau y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gwrthod eu gweithredu i ddileu a threchu tlodi tanwydd. Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud fel Llywodraeth yw defnyddio'r pwerau a'r adnoddau sydd ar gael inni i gynyddu ein pwyslais ar drechu tlodi tanwydd, a sicrhau ein bod hefyd yn gallu gwneud hynny yn y dyfodol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo Video](#)

Members across the Chamber will be aware that the Government is facing significant challenges in terms of our budgets. I have ensured that, in this portfolio, I protect the budgets spent on tackling fuel poverty, and let me say that I will continue to do so. I will ensure that this Government continues to bear down on fuel poverty and continues to ensure that we will have a strategy that addresses fuel poverty wherever we can.

Bydd Aelodau ar draws y Siambr yn gwybod bod y Llywodraeth yn wynebu heriau sylweddol o ran ein cyllidebau. Rwyf wedi sicrhau fy mod, yn y portffolio hwn, yn amddiffyn y cyllidebau sy'n cael eu gwario ar drechu tlodi tanwydd, a gadewch imi ddweud y byddaf yn parhau i wneud hynny. Byddaf yn sicrhau bod y Llywodraeth hon yn parhau i frwydro yn erbyn tlodi tanwydd ac yn parhau i sicrhau y bydd gennym strategaeth sy'n ymdrin â thlodi tanwydd lle bynnag y gallwn.

The Conservatives say that Arbed and Nest do not, in themselves, comprise a strategy. They do comprise a strategy, and they do comprise a programme of help and support for low-income households that require them. In terms of what the Member said about those people who live in rural off-gas properties, let me say this: Nest has improved in the last year over 4,900 homes, over 45% of which are in predominantly rural areas, which is an increase on the 38% achieved in the previous years. We have set a criterion for Arbed 2 to prioritise those areas with high numbers of off-gas or hard-to-treat homes. We are going to continue to ensure that our schemes, our programmes and our strategies are available to people throughout Wales.

Mae'r Ceidwadwyr yn dweud nad yw Arbed a Nyth, ynddynt eu hunain, yn gwneud strategaeth. Maent yn gwneud strategaeth, ac maent yn rhaglen o gymorth a chefnogaeth i aelwydydd incwm isel y mae eu hangen arnynt. O ran yr hyn a ddywedodd yr Aelod am y bobl hynny sy'n byw mewn eiddo gwledig oddi ar y grid nwy, gadewch imi ddweud hyn: mae Nyth wedi gwella dros 4,900 o gartrefi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a thros 45% ohonynt mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, sy'n gynydd o'r 38% a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol. Rydym wedi gosod maen prawf ar gyfer Arbed 2 i flaenoriaethu'r ardaloedd hynny lle ceir niferoedd uchel o gartrefi sy'n anodd eu trin neu sydd oddi ar y grid nwy. Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cynlluniau, ein rhaglenni a'n strategaethau ar gael i bobl ledled Cymru.

May I say this in concluding this answer? I know, and I recognise, that the Member himself has worked hard on many of these issues over a number of years. We have ensured that fuel poverty remains a significant part of our overall work on tackling poverty. It is a tragedy that the Member for North Wales is the only Member on the Conservative benches who takes it seriously.

A gaf fi ddweud hyn i gloi'r ateb hwn? Rwyf yn gwybod, ac yn cydnabod, fod yr Aelod yntau wedi gweithio'n galed ar lawer o'r materion hyn dros nifer o flynyddoedd. Rydym wedi sicrhau bod tloedi tanwydd yn parhau i fod yn rhan sylweddol o'n gwaith cyffredinol ar drechu tloedi. Mae'n drasiedi mai'r Aelod ar gyfer Gogledd Cymru yw'r unig Aelod ar y meinciau Ceidwadol sy'n cymryd y peth o ddifrif.

15:18

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Croesawaf y datganiad, Weinidog. Yn amlwg, rydym ni fel plaid yn gyson wedi croesawu unrhyw fuddsoddiad yn y maes hwn, ac mae'r allbynnau, er nad yw'r rhaglenni'n berffaith, yn gwneud cyfraniad pwysig i'r nod yr ydych wedi ei amlinellu yn eich datganiad.

Mae mesurau effeithlonrwydd ynni yn help, fel yr ydych yn dweud, wrth godi pobl allan o dloedi tanwydd. Maent hefyd yn help i dorri allyriadau carbon, a gallant greu swyddi lleol, a dyna yn union pam y mae Plaid Cymru, ers amser maith, mewn gwirionedd, wedi annog mwy o hyn. Mae canlyniadau gwel o safbwynt iechyd yn ogystal yn dod yn sgîl y math hwn o fuddsoddiad.

Gofynnaf hyn i chi, felly: wrth sôn am edrych ymlaen y tu hwnt i'r rhaglenni presennol, pa fath o 'scale' yr ydych yn ei ragweld y bydd i'r rhaglenni yn y dyfodol, o gymharu â'r hyn sydd gennym nawr, oherwydd nid oes awgrym yn ei gylch yn y datganiad? A fyddwch chi, er enghraifft, yn awyddus i weld targedau uwch a buddsoddi ar lefel uwch? Beth yw eich uchelgais ar gyfer adeiladu ar y llwyddiant yr ydych wedi ei gael hyd yma?

Mae traean o gartrefi Cymru, fel yr ydym wedi clywed, yn byw mewn tloedi tanwydd, ac mae lefel tloedi tanwydd ddwywaith yn uwch mewn ardaloedd gwledig nag ydy mewn ardaloedd trefol, felly, yn amlwg, rydym yn croesawu'n fawr iawn y ffaith eich bod am edrych yn benodol ar ardaloedd sydd oddi ar y grid—mae hynny'n gam positif iawn. Hefyd, mae gennych bwyslais canmoladwy ar dwf gwyrdd—rydym i gyd am weld hynny'n cyfrannu at dorri allyriadau carbon. Mae gwaith WWF Cymru ac eraill wedi dangos, serch hynny, bod angen mwy o uchelgais yn y cyd-destun hwnnw os ydym am gyrraedd y targed o dorri allyriadau 40% erbyn 2020.

Byddai sicrhau bod pob tŷ yn cyrraedd gradd D o ran effeithlonrwydd ynni yn codi 132,000 o dai allan o dloedi tanwydd—byddai'n creu dros 20,000 o swyddi yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol ac yn caniatáu i Gymru gyrraedd y nod o ran torri allyriadau carbon. A gaf fi ofyn, felly, os yw eich Llywodraeth chi o ddifrif am dwf gwyrdd—ac, wrth gwrs, am y lefel o fuddsoddiad yr ydym yn sôn amdano sydd ei angen i wneud gwahaniaeth gwirioneddol pan mae'n dod i nifer o'r agendâu yr wyf wedi cyfeirio atynt—onid ydych yn credu y byddai'n well neilltuo, er enghraifft, peth o'r adnoddau sy'n cael eu cyfeirio atynt yng nghyd-destun adeiladu ychydig gilomedrau newydd o draffordd yr M4 ger Casnewydd at gynlluniau fel y rhain? Pan yr ydym yn sôn am yrru twf gwyrdd, wrth gwrs, byddai gwella effeithlonrwydd ynni tai yn lleihau tloedi tanwydd, yn torri allyriadau carbon ac yn creu swyddi, gan gyflawni nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Dyna, mewn gwirionedd, yw datblygu cynaliadwy go iawn.

I welcome the statement, Minister. Clearly, we as a party have consistently welcomed any investment in this area, and the outcomes, although the programmes are not perfect, make an important contribution to the aim that you have set out in your statement.

Energy efficiency measures are of assistance, as you say, in bringing people out of fuel poverty. They also help to cut carbon emissions, and they can create local jobs, and that is exactly why Plaid Cymru has, for a long time, in fact, encouraged more of this. There are better outcomes in terms of health as well as a result of this kind of investment.

I therefore ask you this: when talking about looking forward beyond the existing programmes, what sort of scale do you anticipate there will be for future programmes, compared to what we currently have, because there is no suggestion of that in the statement? Will you, for example, be eager to see higher targets and a higher level of investment? What is your ambition for building on the success that we have had to date?

A third of Welsh households, as we have heard, are living in fuel poverty, and the level of fuel poverty is twice as high in rural areas than it is in urban areas, so, clearly, we very much welcome the fact that you want to look specifically at areas that are off-grid—that is a very positive step. Also, you have a laudable emphasis on green growth—we all want to see that contributing to cutting carbon emissions. The work of WWF Cymru and others has demonstrated, however, that there is a need for greater ambition in that context if we are to achieve the target of cutting emissions by 40% by 2020.

Ensuring that every house achieves grade D in terms of energy efficiency would take 132,000 houses out of fuel poverty—it would create more than 20,000 jobs directly and indirectly and allow Wales to reach the goal of cutting carbon emissions. May I ask, therefore, if your Government is serious about green growth—and, of course, about the level of investment that we are talking about that is needed to make a real difference when it comes to many of the agendas to which I have referred—do you not think that it would be better to allocate, for example, some of the resources that are referred to in the context of the construction of a few kilometres of new motorway for the M4 near Newport for schemes such as these? When we are talking about driving green growth, of course, improving energy efficiency in houses would reduce fuel poverty, cut carbon emissions and create jobs, achieving environmental, economic and social objectives. That, in reality, is what real sustainable development means.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n cytuno â'ch brawddeg olaf, o leiaf. Rwy'n falch bod yr Aelod—llefarydd Plaid Cymru—wedi cyflwyno dadleuon ynghylch newid hinsawdd. Mae hynny'n gwbl bwysig. Byddwn yn ei gynghori, os ydyw eisiau bod o ddirif am wneud hynny, i beidio â chwarae gormod o gemau gwleidyddol wrth wneud hynny. Mae'r pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud wedi bod yn rhai dilys a phwysig, ac yn rhai y bydd y Llywodraeth a minnau yn cytuno â chi arnynt. Os ydych yn dilyn y nod o gyfeirio at ddileu tlodi a sicrhau ein bod yn wynebu'r her o newid hinsawdd, rwy'n credu y bydd yr awgrymiadau positif yr ydych wedi'u gwneud yn cael mwy o sylw ac yn cael eu cymryd tipyn bach yn fwy o ddirif. Rwy'n derbyn bod y pwyntiau yr ydych wedi'u gwneud yn rhai teg iawn ac rwy'n gobeithio y byddwch yn gwneud hynny ac yn sicrhau bod pobl yn eich cymryd tipyn bach yn fwy o ddirif o ganlyniad i hynny.

Pan fyddwch yn sôn am dargedau uwch, yn amlwg, y targed sydd gennym yw dileu tlodi yn ei gyfanrwydd. Rydym eisiau gweld ein bod yn cyfeirio ar y targedau ac yn sicrhau bod gennym raglenni a fydd yn ein helpu i wneud hynny. Rwy'n croesawu'n fawr iawn y datganiad gan Ed Miliband. Bydd Llywodraeth Lafur nesaf y Deyrnas Unedig yn sicrhau nad oes codiadau mewn costau tanwydd. Bydd hynny yn cael impact ar dlodi tanwydd yng Nghymru ar unwaith, ac rwy'n cymryd y byddwch chi yn croesawu hynny hefyd. Pan fyddwn yn dod i edrych ar y rhaglenni presennol, bydd 'evaluation' o'r rheini ac fe fyddaf yn ei gyhoeddi, felly bydd gennych gyfle i edrych arno. Wedyn, pan fyddwn yn dod i edrych ar raglenni newydd—rydych wedi sôn am ba fath o raglenni y byddant hwy—byddaf yn gwneud y penderfyniadau hynny, siŵr o fod y flwyddyn nesaf. Bydd Nest yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn hon ac rwy'n edrych ymlaen at weld yr adolygiadau yr ydym wedi'u cael o'r rhaglenni presennol ac, ar sail hynny ac ar sail yr ymgynghoriad, byddwn yn cael trafodaeth a deialog am y dyfodol, a byddaf yn gwneud y penderfyniadau am y math o raglenni y byddwn yn eu gweld ar gyfer y dyfodol. Bydd yr ardaloedd gwledig yn rhan hanfodol o hynny ac rwy'n gobeithio, pan ddaw'n amser i gyhoeddi'r rhaglenni newydd, y byddwn hefyd, bryd hynny, yn rhannu'r un fath o weledigaeth.

I agree with your last sentence, at least. I am pleased that the Member—Plaid Cymru's spokesperson—has presented arguments about climate change. That is absolutely important. I would advise him, if it wants to be serious about doing that, not to play too many political games when doing so. The points that you have made have been valid and important ones, and ones on which the Government and I would agree with you. If you want to achieve the objective of eradicating poverty and ensure that we meet the challenge of climate change, I think that the positive suggestions that you have made will receive more attention and be taken more seriously. I accept that the points that you have made are very fair ones and I hope that you will do that and ensure that people take you a little more seriously as a result of that.

When you talk about higher targets, then, evidently, the target that we have is to eradicate poverty in its entirety. We want to see that we are referring to the targets and that we are ensuring that we have programmes that will help us to do that. I very much welcome the statement by Ed Miliband. The next Labour Government of the United Kingdom will ensure that there are no increases in fuel costs. That will have an immediate impact on fuel poverty in Wales, and I take it that you would welcome that as well. When we come to look at the existing programmes, there will be an evaluation of those and I will publish that, so you will have an opportunity to look at those. Then, when we come to look at new programmes—you have mentioned what kind of programmes they will be—I will make those decisions, probably next year. Nest will come to an end at the end of this year and I look forward to seeing the reviews that we have received on current programmes and, on that basis and on the basis of the consultation, we will have a discussion and dialogue about the future, and I will be making the decisions about the kind of programmes that we will see for the future. Rural areas will be a critical part of that and I hope, when it comes to announcing the new programmes, that we will also, at that time, share the same vision.

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Liberal Democrat spokesperson—William Powell.

Galwaf ar lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol—William Powell.

William Powell [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for the statement today.

Fuel poverty, as we all understand, continues to be a significant and growing issue. I share the concerns expressed by the chair of the cross-party group on fuel poverty in terms of the severe messages on those increases, particularly as reflected in the UK fuel poverty monitor to which he referred. Such increases in a time when we have actually been here serve only to highlight the amount of work that we still have to do in this area, but I am glad to see—as is reflected in today's ministerial statement—the successes that have been attributable to the Arbed and Nest programmes. I continue to support such programmes, albeit with their flaws, and I am glad to see that the same fuel monitor report highlights that, without their operation, fuel poverty would have been at least 3% higher than what is reflected in current figures. One of the things that I am most proud of as a member of the Welsh Liberal Democrat group here in the Assembly is the budget deal that we secured, which previously delivered an additional £5 million to support those programmes.

As has already been stated, fuel poverty is particularly acute in the areas of rural Wales where the housing stock tends to be older and less efficient, with solid-wall construction, which is harder and indeed more expensive to retrofit. In that context, Minister, I would ask you to assure us that you maintain a live dialogue with your ministerial colleague the Minister for Culture and Sport in terms of issues around listed buildings, where particular problems are encountered by owners who are seeking to maximise energy efficiency, and indeed those who find themselves living within the boundaries of Wales's national parks. In addition to this, when we talk about energy efficiency, we also need to talk about the ways in which people buy their energy and ensure that they get the best deal possible when doing so. In this regard, and maintaining the rural focus, will you please update us on what work is being carried out to support the Department of Energy and Climate Change's commitment to collective switching for off-grid heating oil and gas supplies?

Returning to Arbed and Nest, I would also be grateful, Minister, if you would give us an undertaking to investigate the potential of using the Welsh Government's new borrowing powers, and additionally, within the context of the rural development plan, to provide the additional resources needed for energy efficiency programmes.

Finally, Minister, I welcome the independent review that you have undertaken to hold into Nest. Will this review investigate why the number of households receiving energy efficiency measures through the Welsh Government's main fuel poverty scheme has in fact dropped from an average 15,000 households a year under the home energy efficiency scheme Wales to fewer than 5,000 households in the second year under Nest for which figures are available?

Mae tlodi tanwydd, fel yr ydym i gyd yn deall, yn parhau i fod yn fater pwysig ac yn fater sydd ar gynydd. Rwyf yn rhannu'r pryderon a leisiodd cadeirydd y grŵp trawsbleidiol ar dlodi tanwydd o ran y negeseuon difrifol ar y cynnydd hwnnw, yn enwedig fel y'u hadlewyrchir ym monitor tlodi tanwydd y DU y cyfeiriodd ato. Mae cynnydd o'r fath yn y cyfnod yr ydym wedi bod yma'n tynnu sylw at yr holl waith sydd gennym i'w wneud o hyd yn y maes hwn, ond rwyf yn falch o weld—fel yr adlewyrchir yn natganiad y gweinidog heddiw—y llwyddiannau a gafwyd yn sgil rhaglenni Arbed a Nyth. Rwyf yn parhau i gefnogi rhaglenni o'r fath, er eu diffygion, ac rwyf yn falch o weld bod yr un adroddiad gan y monitor tanwydd yn dangos y byddai tlodi tanwydd, hebddynt, wedi bod o leiaf 3% yn uwch na'r hyn a adlewyrchir yn y ffigurau presennol. Un o'r pethau yr wyf fwyaf balch ohono fel aelod o grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yma yn y Cynulliad yw'r cytundeb ar y gyllideb a sicrhawyd gennym, sydd eisoes wedi darparu £5 miliwn yn ychwanegol i gefnogi'r rhaglenni hynny.

Fel y dywedwyd eisoes, mae tlodi tanwydd yn arbennig o ddifrifol yn ardaloedd gwledig Cymru lle mae'r stoc dai'n tueddu i fod yn hŷn ac yn llai effeithlon, ac wedi'i hadeiladu â waliau solet, sy'n fwy anodd ac yn wir yn fwy costus i'w hôl-ffitio. Yn y cyd-destun hwnnw, Weinidog, hoffwn ichi ein sicrhau eich bod yn cynnal deialog fyw â'ch cyd Weinidog y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon o ran materion sy'n ymwneud ag adeiladau rhestredig, lle mae problemau penodol yn wynebu perchenogion sy'n ceisio cynyddu effeithlonrwydd ynni i'r eithaf, ac yn wir y rheini sy'n eu cael eu hunain yn byw o fewn ffiniau parciau cenedlaethol Cymru. Yn ogystal â hyn, wrth sôn am effeithlonrwydd ynni, mae angen hefyd inni sôn am y ffyrdd y mae pobl yn prynu eu hynni a sicrhau eu bod yn cael y fargen orau bosibl wrth wneud hynny. Yn hynny o beth, a chan gadw'r pwyslais gwledig, a wneuch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am ba waith sy'n cael ei wneud i gynorthwyo ymrwymiad yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd i newid cyflenwr ar y cyd ar gyfer cyflenwadau gwresogi olew a nwy oddi ar y grid?

A dychwelyd at Arbed a Nyth, byddwn hefyd yn ddiolchgar, Weinidog, pe baech yn ymrwymo i ymchwilio i'r posibilrwydd o ddefnyddio pwerau benthyca newydd Llywodraeth Cymru, a hefyd, o fewn cyd-destun y cynllun datblygu gwledig, i ddarparu'r adnoddau ychwanegol sydd eu hangen ar gyfer rhaglenni effeithlonrwydd ynni.

Yn olaf, Weinidog, rwyf yn croesawu'r adolygiad annibynnol yr ydych wedi ymrwymo i'w gynnal i Nyth. A fydd yr adolygiad hwn yn ymchwilio i pam y mae nifer yr aelwydydd sy'n derbyn mesurau effeithlonrwydd ynni drwy brif gynllun tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru wedi gostwng o gyfartaledd o 15,000 o aelwydydd y flwyddyn o dan gynllun effeithlonrwydd ynni cartref Cymru i lai na 5,000 o gartrefi yn yr ail flwyddyn o dan Nyth y mae ffigurau ar gael ar ei chyfer?

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Welsh Liberal Democrats for what I think was a generally positive response to the programme. When we discuss the RDP I hear two things from the Welsh Liberal Democrats: first of all, opposition to actually creating the largest RDP in our experience; and, secondly, a thousand different ways of spending that money. A level of consistency might be appreciated from those of us who have to listen to those different things.

In terms of the increases in fuel poverty, I have to say that it ill becomes Members to come to the Chamber with their crocodile tears while supporting policies that lead directly to the increases in fuel poverty that you have described. Ed Miliband will be ensuring that there is a moratorium on increases in energy prices and effective regulation of the energy market. That will have an immediate impact on fuel poverty in Wales following the election of a Labour Government next year. It is a tragedy that the current coalition Government has done nothing at all to help people in fuel poverty, and has done nothing at all to help people who have been facing these difficulties. It is an absolute tragedy for the people involved and something that I hope the Liberal Democrats will reflect upon.

In terms of listed buildings, I will speak to my colleague the Minister for Culture and Sport on those matters. I will also ensure that we have conversations—and we will be having conversations—about how any borrowing powers may be used in the future. Clearly, those discussions are at a very early stage at the moment, and I do not think that anybody, on any side of the Chamber, would anticipate there being fully formed policies on that yet. When those powers are granted to this place, there will be opportunities to explore how we use them. Let me say this: tackling fuel poverty is an absolute priority for this Government. We are using the powers available to us. We are using the resources available to us. Within this portfolio, I am prioritising the use of resources at a time of reduced budgets to ensure that we will continue to tackle fuel poverty and provide support for all of those people, wherever they live in Wales, who are facing fuel poverty. That is our commitment as a Government; that is what we have delivered in Government and that is what we will continue to deliver.

Rwyf yn ddiolchgar i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru am yr hyn a oedd, yn fy marn i, yn ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r rhaglen. Pan fyddwn yn trafod y Cynllun Datblygu Gwledig, clywaf ddau beth gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru: yn gyntaf oll, gwrthwynebiad i greu'r Cynllun Datblygu Gwledig mwyaf yn ein profiad; ac, yn ail, mil o wahanol ffyrdd o wario'r arian hwnnw. Byddai'r rheini ohonom sy'n gorfod gwrando ar y pethau gwahanol hynny'n gwerthfawrogi rhywfaint o gysondeb.

O ran y cynnydd mewn tlodi tanwydd, rhaid imi ddweud nad yw'n weddus i Aelodau ddod i'r Siambr â'u dagrau ffug a hwythau o blaid polisiau sy'n arwain yn uniongyrchol at y cynnydd mewn tlodi tanwydd yr ydych wedi'i ddisgrifio. Bydd Ed Miliband yn sicrhau bod moratoriwm ar gynnydd mewn prisiau ynni a bod y farchnad ynni'n cael ei rheoleiddio'n effeithiol. Caiff hynny effaith uniongyrchol ar dlodi tanwydd yng Nghymru ar ôl i Lywodraeth Lafur gael ei hethol y flwyddyn nesaf. Mae'n drasiedi nad yw'r Llywodraeth glymblaid bresennol wedi gwneud dim o gwbl i helpu pobl mewn tlodi tanwydd, ac nad yw wedi gwneud dim o gwbl i helpu pobl sydd wedi bod yn wynebu'r anawsterau hyn. Mae'n drasiedi lwyr i'r bobl y mae hyn yn effeithio arnynt ac yn rhywbeth yr wyf yn gobeithio y gwnaiff y Democratiaid Rhyddfrydol ei ystyried.

O ran adeiladau rhestredig, siaradaf â'm cydweithiwr, y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon, ynghylch y materion hynny. Byddaf hefyd yn sicrhau y cawn sgysia— a byddwn yn cael sgysia—ynghylch sut y gallwn ddefnyddio unrhyw bwerau benthyca yn y dyfodol. Wrth gwrs, megis dechrau y mae'r trafodaethau hynny ar hyn o bryd, ac nid wyf yn credu y byddai neb, ar unrhyw ochr i'r Siambr, yn rhagweld y byddai polisiau llawn wedi'u ffurfio ar hynny eto. Pan roddir y pwerau hynny i'r lle hwn, cawn gyfleoedd i archwilio sut y byddwn yn eu defnyddio. Gadewch imi ddweud hyn: mae trechu tlodi tanwydd yn flaenoriaeth bendant i'r Llywodraeth hon. Rydym yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael inni. Rydym yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael inni. O fewn y portffolio hwn, rwyf yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio adnoddau yn ystod cyfnod pan fo cyllidebau'n crebachu er mwyn sicrhau y byddwn yn parhau i ymdrin â thlodi tanwydd ac yn cynorthwyo'r holl bobl hynny, lle bynnag y maent yn byw yng Nghymru, sy'n wynebu tlodi tanwydd. Dyna ein hymrwymiad fel Llywodraeth; dyna'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni yn y Llywodraeth a dyna'r hyn y byddwn yn parhau i'w gyflawni.

Sandy Mewies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I have four more speakers. I will probably get them in if they will be succinct and come to the point. I am sure that the Minister will do the same. I now call on Julie Morgan.

Diolch, Weinidog. Mae gennyf bedwar siaradwr arall. Mae'n debyg y bydd amser iddynt i gyd os byddant yn gryno ac yn bwrsasol. Rwyf yn siŵr y gwnaiff y Gweinidog yr un modd. Galwaf yn awr ar Julie Morgan.

15:30

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In his statement, the Minister said that the Government is targeting disadvantaged communities and the hardest-to-reach households, which is very welcome. Would the Minister be able to tell us what work is being done to raise awareness among Gypsies and Travellers about NEST and other schemes that are available? As we know, there are major issues about keeping trailers warm and dry, and Gypsies and Travellers often have a lack of choice in buying fuel because they sometimes have to contribute towards big cylinders that are on site, which often means that there has to be quite a large financial outlay. So, is the Minister able to give any views on this?

Yn ei ddatganiad, dywedodd y Gweinidog fod y Llywodraeth yn targedu cymunedau difreintiedig a'r aelwydydd mwyaf anodd eu cyrraedd, sydd i'w groesawu'n fawr. A allai'r Gweinidog ddweud wrthym pa waith sy'n cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth ymhlith Sipsiwn a Theithwyr am Nyth a chynlluniau eraill sydd ar gael? Fel y gwyddom, mae materion o bwys ynghylch cadw cartrefi symudol yn gynnes ac yn sych, ac yn aml mae gan Sipsiwn a Theithwyr ddiffyg dewis wrth brynu tanwydd oherwydd bod yn rhaid iddynt weithiau gyfrannu at silindrau mawr ar y safle, sy'n aml yn golygu gwario cryn dipyn o arian. Felly, a all y Gweinidog roi unrhyw sylwadau am hyn?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:31

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You ask how much work has been done and the honest answer, probably, is 'not enough'. I will give you an undertaking that we will talk more actively to the Gypsy and Traveller community in order to address that deficiency. NEST is available to provide help, support and advice for people, and the community can access that advice through NEST. I understand that you are holding a meeting in this place with community leaders over the coming weeks, and I would be more than happy to attend that meeting and to listen to what people have to say.

Rydych yn gofyn faint o waith sydd wedi'i wneud a'r ateb gonest, yn ôl pob tebyg, yw 'dim digon'. Rhoddaf addewid yr awn ati'n fwy gweithredol i siarad â'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr er mwyn ymdrin â'r diffyg hwnnw. Mae Nyth ar gael i ddarparu cymorth, cefnogaeth a chynngor i bobl, a gall y gymuned gael y cynngor hwnnw drwy Nyth. Rwyf ar ddeall eich bod yn cynnal cyfarfod yn y lle hwn ag arweinwyr cymunedol dros yr wythnosau nesaf, a byddwn yn fwy na pharod i ddod i'r cyfarfod hwnnw a gwrandao ar yr hyn sydd gan bobl i'w ddweud.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:32

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement today, and I am another Conservative Member who takes these issues seriously. I have been a supporter of the Government's community approach to tackling fuel poverty. The only criticism that I have is that the scale of the roll-out does not scratch the surface compared with the level of demand, and I do not know whether that is a scale that will take you anywhere close to meeting your 2018 target. My question is this: is it time for the Welsh Government to admit that the 2018 target of eradicating fuel poverty will not be reached? Secondly and quickly, I have asked in the past how the Welsh Government is looking to lever in additional funds through the Green Deal project to ramp up the scale of delivery of both Arbed and NEST, but I have never received a satisfactory answer. So, I hope that the Minister may be able to provide some more detail on that this afternoon.

Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad heddiw, ac rwyf yn Aelod Ceidwadol arall sy'n cymryd y materion hyn o ddifrif. Rwyf wedi bod yn gefnogol i ymagwedd gymunedol y Llywodraeth at drechu tlodi tanwydd. Yr unig feiriadaeth sydd gennyf yw nad yw graddfa'r hyn a gyflwynwyd yn crafu'r wyneb o'i gymharu â lefel y galw, ac nid wyf yn gwybod a aiff y raddfa honno â chi yn agos at gyrraedd eich targed ar gyfer 2018. Dyma fy nghwestiwn: a yw'n bryd i Lywodraeth Cymru gyfaddef na chyrhaeddir y targed o ddileu tlodi tanwydd erbyn 2018? Yn ail ac yn gyflym, rwyf wedi gofyn yn y gorffennol sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu ysgogi arian ychwanegol drwy brosiect y Fargen Werdd i gynyddu graddfa cyflwyno Arbed a Nyth ill dau, ond nid wyf erioed wedi cael ateb boddhaol. Felly, rwyf yn gobeithio y gall y Gweinidog roi rhagor o fanylion am hynny y prynhawn yma.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:33

Alun Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Perhaps I should apologise to the Member, as I know that he does take these matters very seriously and that his views are deeply held. The Member says that we are scratching the surface in terms of need. I would dispute that we are scratching the surface, but I would certainly not dispute the fact that about a third of households in Wales are facing a level of fuel poverty, some of which are in severe fuel poverty. I clearly acknowledge the scale of the challenge. We do not seek to diminish that or run away from it, or seek to pretend that it does not exist. Clearly, the resources that we have are limited, and we are prioritising the use of our resources to seek to achieve most with those most vulnerable households. That is something that will continue.

Efallai y dylwn ymddiheuro i'r Aelod, gan fy mod yn gwybod ei fod yn cymryd y materion hyn o ddifrif a bod ganddo farn gref amdanynt. Mae'r Aelod yn dweud ein bod yn crafu'r wyneb o ran angen. Byddwn yn anghytuno ein bod yn crafu'r wyneb, ond yn sicr ni fyddwn yn anghytuno â'r ffaith bod tua thraean o gartrefi yng Nghymru'n wynebu rhywfaint o dlodi tanwydd, a rhai ohonynt mewn tlodi tanwydd difrifol. Rwyf yn cydnabod maint yr her yn glir. Nid ydym yn ceisio lleihau hynny na rhedeg i ffwrdd oddi wrthi, nac yn ceisio esgus nad yw'n bodoli. Yn amlwg, mae'r adnoddau sydd gennym yn gyfyngedig, ac rydym yn blaenoriaethu defnyddio ein hadnoddau i geisio cyflawni i'r eithaf gyda'r aelwydydd mwyaf agored i niwed hynny. Mae hynny'n rhywbeth a fydd yn parhau.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Member makes a very good point about how we should be levering in additional money through the Green Deal. We have provided, I hope, significant funding to enable that to happen. I have been disappointed by some of the decisions taken by the UK Government in terms of its approach to these matters, and I am disappointed that it appears to be reducing its support for these programmes, but that is not something that we will do. I am sorry if the Member feels that my answers have been rather inadequate in the past and, certainly, I would be more than happy, if the Member seeks to write to me, to provide more acceptable answers in the future.

Mae'r Aelod yn gwneud pwynt da iawn ynghylch y ffaiith y dylem fod yn ysgogi arian ychwanegol drwy'r Fargen Werdd. Rydym wedi darparu cyllid sylweddol, rwyf yn gobeithio, i alluogi hynny i ddigwydd. Cefais fy siomi gan rai o'r penderfyniadau a wnaeth Llywodraeth y DU o ran ei hymagwedd at y materion hyn, ac rwyf yn siomedig ei bod yn ymddangos ei bod yn lleihau ei chefnogaeth i'r rhaglenni hyn, ond nid yw hynny'n rhywbeth y byddwn ni'n ei wneud. Mae'n ddrwg gennyf os yw'r Aelod yn teimlo bod fy atebion wedi bod braidd yn annigonol yn y gorffennol ac, yn sicr, byddwn yn fwy na pharod, pe bai'r Aelod yn ceisio ysgrifennu ataf, i ddarparu atebion mwy derbyniol yn y dyfodol.

15:34 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the statement and echo the Minister's support for NEST and Arbed and agree that the most effective way to tackle fuel poverty is by improving the energy efficiency of homes in low-income households. As has been said many times, it is very expensive to be poor. Some of the least energy-efficient homes I have visited are in the private rented sector. What more can be done to improve energy efficiency within this sector?

Rwyf yn croesawu'r datganiad ac yn adleisio cefnogaeth y Gweinidog i Nyth ac Arbed ac yn cytuno mai'r ffordd fwyaf effeithiol o drechu tlodi tanwydd yw gwella effeithlonrwydd ynni mewn aelwydydd ag incwm isel. Fel y dywedwyd lawer gwaith, mae'n ddrud iawn bod yn dlawd. Yn y sector rhentu preifat y mae rhai o'r cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yr wyf wedi ymweld â hwy. Beth yn rhagor y gellir ei wneud i wella effeithlonrwydd ynni yn y sector hwn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:35 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful to the Member for his question, and I agree with the points that he has made and with his analysis. In terms of the private rented sector, we are going to be seeking to ensure that everyone, no matter where they live, have access to the help and advice that they require to ensure that their homes are warm. We know—and we know because of the linkages that we have seen between health and wellbeing, and between education—that older people, particularly, and young children who come from homes that are cold and damp suffer illnesses, suffer deficiencies in their own personal wellbeing, and are less able to study and to work during the day. So, we understand the impact on people, and therefore we are not shying away from the problems faced by people in the private rented sector, and we will be ensuring that advice and support is available to them. We do that through Nest, and we will continue to do so in the future.

Rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am ei gwestiwn, ac rwyf yn cytuno â'r pwyntiau a wnaeth ac â'i ddadansoddiad. O ran y sector rhentu preifat, byddwn yn ceisio sicrhau bod pawb, waeth ble y maent yn byw, yn gallu cael y cymorth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt i sicrhau bod eu cartrefi'n gynnes. Rydym yn gwybod—ac rydym yn gwybod oherwydd y cysylltiadau yr ydym wedi'u gweld rhwng iechyd a lles, a rhwng addysg—fod pobl hŷn, yn enwedig, a phlant ifanc sy'n dod o gartrefi sy'n oer ac yn llaith yn dioddef salwch, yn dioddef diffygion yn eu lles personol eu hunain, ac yn llai abl i astudio ac i weithio yn ystod y dydd. Felly, rydym yn deall yr effaith ar bobl, ac felly nid ydym yn gwingo rhag y problemau sy'n wynebu pobl yn y sector rhentu preifat, a byddwn yn sicrhau bod cyngor a chymorth ar gael iddynt. Rydym yn gwneud hynny drwy Nyth, a byddwn yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

15:36 **Jenny Rathbone** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Following on from the Member for Swansea East, I just wondered whether you had considered the recommendation from the Fuel Poverty Coalition Cymru that calls for minimum standards in energy efficiency in private rented homes, and whether you have had any discussions on that with the Minister for Housing and Regeneration.

A dilyn yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, tybed a ydych wedi ystyried yr argymhelliad gan Gynghrair Tlodi Tanwydd Cymru sy'n galw am safonau gofynnol o ran effeithlonrwydd ynni mewn cartrefi rhent preifat, ac a ydych wedi cael unrhyw drafodaethau am hynny â'r Gweinidog Tai ac Adfywio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Secondly, I just wanted to ask you about the future about the ECO scheme. Many of my constituents have benefited from Arbed, particularly around the over-cladding of no-fines construction homes, which are quite difficult to improve the energy efficiency of, because you cannot just inject stuff into cavity walls. However, a local company that has been very successful in tapping into ECO funds has reported to me, and to the local authority, that there will be less ECO money available in the coming year and in future years. I just wondered whether you could comment on that, because it seems very difficult to understand exactly how the ECO levy is levered out of energy companies. I note in your statement that you talk about the nearly £7 million that you have had to spend to attract the ECO money, and I just wondered whether you could tell us what the process is by which this happens.

Yn ail, hoffwn ofyn ichi am y dyfodol o ran cynllun rhwymedigaeth y cwmnïau ynni. Mae llawer o'm hetholwyr wedi elwa o Arbed, yn enwedig o ran defnyddio gormod o gladin mewn cartrefi a adeiladwyd heb ddirwyon, lle mae'n eithaf anodd gwella'r effeithlonrwydd ynni, oherwydd ni allwch chwistrellu pethau i mewn i waliau ceudod. Fodd bynnag, mae cwmni lleol sydd wedi manteisio'n llwyddiannus iawn ar gronfeydd rhwymedigaeth y cwmnïau ynni wedi dweud wrthyf, ac wrth yr awdurdod lleol, y bydd llai o arian rhwymedigaeth y cwmnïau ynni ar gael yn y flwyddyn nesaf ac yn y dyfodol. Tybed a allech roi sylwadau ar hynny, oherwydd mae'n ymddangos yn anodd iawn deali sut yn union y mae ardoll rhwymedigaeth y cwmnïau ynni'n cael ei hysgogi allan o gwmnïau ynni? Sylwaf eich bod yn eich datganiad yn sôn am y bron i £7 miliwn yr ydych wedi gorfod ei wario i ddenu arian rhwymedigaeth y cwmnïau ynni, a tybed a allech ddweud wrthym beth yw'r broses ar gyfer gwneud hyn?

15:37 **Alun Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it may be useful if I were to make a written statement on that matter, in order to provide Members with the totality of the information that the Member for Cardiff Central clearly requires, and which I think would be of interest to other Members. I am still aware of Russell's points about the inadequacy of my answers to some questions, so perhaps if I made a written statement perhaps Members would be more satisfied with that.

Rwyf yn meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol pe bawn yn gwneud datganiad ysgrifenedig am y mater hwnnw, er mwyn rhoi i'r Aelodau'r holl wybodaeth y mae'n amlwg y mae ei hangen ar yr Aelod dros Ganol Caerdydd, ac yr wyf yn meddwl y byddai o ddiddordeb i Aelodau eraill. Rwyf yn dal i fod yn ymwybodol o bwyntiau Russell ynghylch annigonolrwydd fy atebion i rai cwestiynau, felly efallai pe bawn yn gwneud datganiad ysgrifenedig, efallai y byddai'r Aelodau'n fwy bodlon â hynny.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, the situation with ECO is constantly shifting and constantly changing. We probably both disagree, Jenny, with the decisions that have been taken by the UK Government in recent times in terms of what I think is a watering down of that commitment and a watering down of that project. However, we have committed £70 million—£35 million in this year and £35 million in the next year—to ensure that we can lever in funding and support from ECO into the Welsh projects, and I hope that we will be able to do that.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa o ran rhwymedigaeth y cwmnïau ynni yn symud yn gyson ac yn newid yn gyson. Mae'n debyg ein bod ni'n dau'n anghytuno, Jenny, â'r penderfyniadau y mae Llywodraeth y DU wedi eu gwneud yn ddiweddar sydd, yn fy nhyb i, wedi gwanhau'r ymrwymiad hwnnw a gwanhau'r prosiect hwnnw. Fodd bynnag, rydym wedi neilltuo £70 miliwn—£35 miliwn eleni a £35 miliwn yn y flwyddyn nesaf—i sicrhau y gallwn ysgogi arian a chymorth rhwymedigaeth y cwmnïau ynni i mewn i brosiectau Cymru, ac rwyf yn gobeithio y gallwn wneud hynny.

In terms of your issues in the private rented sector, which reflect the points that were made by our good friend, the Member for Swansea East, clearly, in terms of the question itself and in terms of minimum standards within housing in the rented sector, that is a matter for the Minister for Housing and Regeneration. I will say that the Department of Energy and Climate Change in the UK Government is undertaking a review of this at the moment, and that is something that I will discuss with my colleague the Minister for Housing and Regeneration.

O ran y materion yn ymwneud â'r sector rhentu preifat, sy'n adlewyrchu'r pwyntiau a wnaeth ein ffrind da, yr Aelod dros Ddwyrain Abertawe, yn amlwg, o ran y cwestiwn ei hun ac o ran safonau gofynnol mewn tai yn y sector rhentu, mater i'r Gweinidog Tai ac Adfywio yw hynny. Dywedaf fod yr Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd yn Llywodraeth y DU wrthi'n cynnal adolygiad o hyn, ac mae hynny'n rhywbeth y byddaf yn ei drafod â'm cydweithiwr, y Gweinidog Tai ac Adfywio.

15:39 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister.

Diolch, Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Daeth Peter Black i'r Gadair am 15:39.

Peter Black took the Chair at 15:39.

Datganiad: Model Cenedlaethol o Ddysgu Proffesiynol

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Addysg a Sgiliau / The Minister for Education and Skills

As the Minister for Education and Skills, it is my fundamental belief that every child in Wales deserves a world-class education. As a former teacher, I also know that every professional working in our schools wants to do all they can to deliver this entitlement.

However, as the recent Organisation for Economic Co-operation and Development 'Improving Schools in Wales' report clearly demonstrates, we have come to an important fork in the road in our reform journey. While we have many superb teachers and support staff in our schools doing fantastic things every day, the quality and consistency we are driving for is still too patchy and too inconsistent. The OECD was very clear: our ambition of constructing a world-class system will be frustrated if we do not support, in a more structured and coherent way going forward, the individuals at the coalface of our education system. In short, we need a radical step change in how we support the career-long continuum of professional development of those working in Welsh education, from initial training onwards.

Time and again, I visit schools, and the comment coming back from the workforce is clear: 'We love our jobs, but we want to be valued; valued as professionals for the professional job that we do'. I agree. It is time to start raising the status of all professionals working in our schools. That is why we need to take the next step in our reform of Welsh education. We need to raise the profile of teaching in Wales and the status of the staff that provide essential support to teachers and learners.

To achieve this vision, we need to strike a new deal with the workforce—both an entitlement and a challenge to the profession. I want to help them achieve the high status and professional standing they have always wanted and, in return, shape a workforce with the higher level skills that the OECD says we need and which our young people deserve.

The new deal I am proposing, and the national model of professional learning that will support it, is designed to improve the quality of professional practice and build respect for the workforce. It will be shaped by professionals for professionals, and it will be aimed squarely at delivering on our national priorities of improving literacy and numeracy and breaking the link between poverty and educational attainment.

Statement: A National Model of Professional Learning

Credaf yn sylfaenol, a minnau'n Weinidog Addysg a Sgiliau, fod pob plentyn yng Nghymru'n haeddu addysg o'r radd flaenaf. A minnau hefyd yn gyn athro, rwyf hefyd yn gwybod bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio yn ein hysgolion yn awyddus i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau'r hawl hon.

Fodd bynnag, fel y mae adroddiad diweddar y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd 'Improving Schools in Wales' yn dangos yn glir, rydym wedi dod i dro pwysig yn y ffordd yn ein taith ddiwygio. Er bod gennym lawer o athrawon a staff cymorth rhagorol yn ein hysgolion sy'n gwneud pethau gwyb bob dydd, mae'r ansawdd a'r cysondeb yr ydym yn ymdrechu i'w sicrhau yn dal i fod yn rhy dameidiog ac yn rhy anghyson. Roedd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn glir iawn: bydd ein huchelgais o adeiladu system o'r radd flaenaf yn cael ei lesteirio os na chefnogwn, mewn modd mwy strwythuredig a chydlynol yn y dyfodol, yr unigolion ar lawr gwlad yn ein system addysg. Yn y bôn, y mae angen newid sylweddol a radical yn y ffordd yr ydym yn cefnogi continwwm datblygu proffesiynol gydol gyrfa'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg yng Nghymru, o'u hyfforddiant cychwynnol ymlaen.

Dro ar ôl tro, rwyf yn ymweld ag ysgolion, ac mae'r sylwadau sy'n dod yn ôl oddi wrth y gweithlu'n glir: 'Rydym wrth ein bodd â'n swyddi, ond rydym am gael ein gwerthfawrogi; ein gwerthfawrogi fel gweithwyr proffesiynol am y gwaith proffesiynol yr ydym yn ei wneud'. Rwyf yn cytuno. Mae'n bryd dechrau codi statws pob un o'r gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn ein hysgolion. Dyna pam y mae angen inni gymryd y cam nesaf yn y broses o ddiwygio addysg yng Nghymru. Mae angen inni godi proffil addysgu yng Nghymru a statws y staff sy'n darparu cymorth hanfodol i athrawon a dysgwyr.

Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon, mae angen inni daro bargaen newydd â'r gweithlu—hawl a her i'r proffesiwn. Rwyf am eu helpu i gyflawni'r statws uchel a'r enw da proffesiynol y mae arnynt bob amser wedi bod ei eisiau ac, yn gyfnewid, lunio gweithlu sydd â'r sgiliau lefel uwch y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn dweud y mae eu hangen arnom ac y mae ein pobl ifanc yn eu haeddu.

Mae'r fargen newydd yr wyf yn ei chynnig, a'r model cenedlaethol ar gyfer dysgu proffesiynol a fydd yn ei hategu, wedi'i chynllunio i wella ansawdd ymarfer proffesiynol ac i feithrin parch tuag at y gweithlu. Bydd yn cael ei llunio gan weithwyr proffesiynol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, a'i nod yn benodol fydd cyflawni ein blaenoriaethau cenedlaethol o wella llythrennedd a rhifedd a thorri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol.

The offer will be a clear one. It will be a commitment to high-quality professional learning that should be part of the professional experience of every practitioner and will support career-long progression whatever their aspirations. It will offer support grounded on the fundamental principles that now guide every high-status profession across Wales—collaborative learning, sharing good practice and engagement with data and research—promoted within schools, facilitated by regional consortia and with effective support from our universities.

The ask of the workforce will be equally clear. In return for better access to high-quality professional learning and support, we will expect practitioners to take more responsibility for their own development and to share their practice with others—a feature of any high-status profession.

I now want to say something about the tangible actions we will take to make this a reality. We will support practitioners in their development by working with the profession to develop a new online professional learning profile that will make it easier for each member of the workforce to record their professional development journey and which they can draw on to support their career progression. This new profile will be readily accessible and owned by the practitioner to act as the passport by which they can evidence and account for their professional learning.

I will take steps to ensure that, from 2015, all schools will be required to set out in their statutory school development plans how they intend to develop their staff to enable them to address the school's improvement priorities and meet individual professional learning goals. The school development plan will form part of the evidence that Estyn inspectors will consider in assessing the quality of a school's strategic direction and the impact of leadership. Provision does not need to be limited by what a single school can offer, and Estyn has already strengthened this aspect within the common inspection framework so that it encourages and recognises the sharing of best practice between schools.

Estyn does not award an overall judgment of 'excellent' unless sector-leading practice is being shared with other schools. I visited St Joseph's RC High School in Newport this morning and saw at first hand the evidence of where colleagues from a number of schools were coming together to participate in a partnership training programme. This is the kind of approach I wish to see embedded in the experience of all practitioners.

I will be making professional development a priority for regional consortia and holding them to account in the termly challenge and review meetings. There is an urgent need to make further progress, and consortia will be working together to establish consistent provision across Wales from September to support improved teaching, including recognising outstanding practice, and the effective development of middle leaders.

Bydd y cynnig yn un clir. Bydd yn ymrwymiad i ddysgu proffesiynol o ansawdd uchel a ddylai fod yn rhan o brofiad proffesiynol pob ymarferydd ac a fydd yn cefnogi dilyniant gydol eu gyrfa beth bynnag fo'u dyheadau. Bydd yn cynnig cymorth wedi'i seilio ar yr egwyddorion sylfaenol sydd bellach yn llywio pob proffesiwn uchel ei statws ledled Cymru—dysgu ar y cyd, rhannu arfer da ac ymgysylltu â data ac ymchwil—a chaiff ei hyrwyddo o fewn ysgolion, a'i hwyluso gan gonsortia rhanbarthol, gyda chymorth effeithiol gan ein prifysgolion.

Bydd y gofynion ar y gweithlu yr un mor glir. Yn gyfnewid am well cyfleoedd dysgu a chymorth proffesiynol o ansawdd uchel, byddwn yn disgwyl i ymarferwyr gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu datblygiad eu hunain a rhannu eu harfer ag eraill—sy'n nodwedd o unrhyw broffesiwn uchel ei statws.

Rwyf yn awr am ddweud rhywbeth am y camau penodol y byddwn yn eu cymryd i wireddu hyn. Byddwn yn cynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu drwy weithio gyda'r proffesiwn i ddatblygu proffil dysgu proffesiynol ar-lein newydd a fydd yn ei gwneud yn haws i holl aelodau'r gweithlu gofnodi taith eu datblygiad proffesiynol ac y gallant ei ddefnyddio i ddatblygu eu gyrfa. Bydd y proffil newydd hwn ar gael yn rhwydd ac yn eiddo i'r ymarferwyr i'w ddefnyddio fel pasbort i ddangos tystiolaeth a rhoi cyfrif am eu dysgu proffesiynol.

Byddaf yn cymryd camau i sicrhau y bydd yn ofynnol i bob ysgol, o 2015, nodi yn eu cynlluniau datblygu ysgol statudol sut y maent yn bwriadu datblygu eu staff i'w galluogi i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella'r ysgol a chyrraedd targedau dysgu proffesiynol unigol. Bydd y cynllun datblygu ysgol yn rhan o'r dystiolaeth y bydd arolygwyr Estyn yn ei hystyried wrth asesu ansawdd cyfeiriad strategol ysgol ac effaith yr arweinyddiaeth. Nid oes raid i'r ddarpariaeth fod wedi'i chyfyngu o ran yr hyn y gall ysgol unigol ei gynnig, ac mae Estyn eisoes wedi cryfhau'r agwedd hon o fewn y fframwaith arolygu cyffredin er mwyn iddo annog ysgolion i rannu arfer gorau a chydabod hynny.

Nid yw Estyn yn rhoi gradd 'ragorol' gyffredinol onid yw arferion sy'n arwain y sector yn cael eu rhannu ag ysgolion eraill. Bwm yn ymweld ag Ysgol Uwchradd Gatholig St Joseph yng Nghasnewydd y bore yma, a gwelais drosof fy hun gydweithwyr o nifer o ysgolion yn dod at ei gilydd i gymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant partneriaeth. Dyma'r math o ymagwedd yr hoffwn ei gweld yn rhan annatod o brofiad pob ymarferydd.

Byddaf yn gwneud datblygu proffesiynol yn flaenoriaeth i'r consortia rhanbarthol ac yn eu dal i gyfrif yn y cyfarfodydd herio ac adolygu tymhorol. Mae angen gwneud cynnydd pellach ar fyrder, a bydd y consortia'n cydweithio i sefydlu darpariaeth gyson ledled Cymru o fis Medi i gefnogi gwell addysgu, gan gynnwys cydnabod arfer rhagorol, a datblygu arweinwyr canol yn effeithiol.

I will review the current arrangements for statutory induction and the Master's in educational practice to identify opportunities to make the Master's more accessible at any point in a teacher's career.

To support schools, we will look at how we can rationalise the administration of the school effectiveness grant so that we can reduce bureaucracy and free up more resource to support high-quality professional learning. We will ensure that schools are getting best value from this and other available funding, such as the national support programme, the pupil deprivation grant and Schools Challenge Cymru, by directing it at activities that have the greatest impact on professional learning and school improvement.

In recognition of the part that effective leadership plays at all levels, the national leadership development board will identify and endorse a menu of high-quality leadership development opportunities to ensure that, as professionals develop their classroom skills, they are also enhancing their leadership potential. The middle leadership development programmes that I have already referred to will form a key part of this provision.

I will also begin work setting up a new social partnership forum that will involve partners in the development and implementation of our new approach to professional learning. If this is successful, we may then look to extend the work of the social partnership forum to other areas of policy.

The evidence is clear—effective professional learning is crucial in securing a world-class workforce delivering improved learner outcomes. I see this new deal as the important next step in our reform programme.

As Minister, I cannot do this alone. The culture of professional learning that I have talked about will require everyone—individually and collectively—to challenge poor practice and move away from the notion of one-off training days toward the collaborative approaches that I have described.

This is about a lifetime of professional learning, and Members should be under no illusion as to how vital I see this agenda being to the future success of education in Wales.

Byddaf yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer y drefn ymsefydlu statudol a'r cymhwyster Meistr mewn ymarfer addysgol er mwyn nodi cyfleoedd i sicrhau bod y cymhwyster Meistr ar gael ar unrhyw adeg yn ystod gyrfa athrawon.

Er mwyn cefnogi ysgolion, byddwn yn edrych ar sut y gallwn symleiddio gweinyddiaeth y grant effeithiolrwydd ysgolion er mwyn lleihau biwrocratiaeth a rhyddhau mwy o adnoddau i gefnogi dysgu proffesiynol o ansawdd uchel. Byddwn yn sicrhau bod ysgolion yn cael y gwerth gorau o hyn a chyllid arall sydd ar gael, megis y rhaglen gymorth genedlaethol, y grant amddifadedd disgyblion a Her Ysgolion Cymru, trwy ei gyfeirio at weithgareddau sy'n cael yr effaith fwyaf ar ddysgu proffesiynol a gwella ysgolion.

Er mwyn cydnabod y rhan y mae arweinyddiaeth effeithiol yn ei chwarae ar bob lefel, bydd y bwrdd cenedlaethol datblygu arweinyddiaeth yn nodi ac yn cymeradwyo detholiad o gyfleoedd datblygu arweinyddiaeth o ansawdd uchel er mwyn sicrhau, wrth i weithwyr proffesiynol ddatblygu eu sgiliau yn y dosbarth, eu bod hefyd yn hybu eu potensial i arwain. Bydd y rhaglenni datblygu arweinwyr canol yr wyf eisoes wedi cyfeirio atynt yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth hon.

Byddaf hefyd yn dechrau gweithio i sefydlu fforwm partneriaeth gymdeithasol newydd a fydd yn cynnwys partneriaid yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ein hymagwedd newydd at ddysgu proffesiynol. Os bydd hyn yn llwyddiannus, mae'n bosibl y byddwn wedyn yn ceisio estyn gwaith y fforwm partneriaeth gymdeithasol i feysydd polisi eraill.

Mae'r dystiolaeth yn glir—mae dysgu proffesiynol effeithiol yn hollbwysig er mwyn creu gweithlu o'r radd flaenaf sy'n cyflawni canlyniadau gwell i ddysgwyr. Yn fy marn i, y fargen newydd hon yw'r cam pwysig nesaf yn ein rhaglen ddiwygio.

Ni allaf fi, fel Gweinidog, wneud hyn ar fy mhen fy hun. Bydd y diwylliant o ddysgu proffesiynol yr wyf wedi sôn amdano'n golygu y bydd yn rhaid i bawb—yn unigol ac ar y cyd—herio arfer gwael a symud i ffwrdd oddi wrth y syniad o ddiwrnodau hyfforddiant untro tuag at yr ymagweddau cydweithredol yr wyf wedi eu disgrifio.

Mae hyn yn ymwneud ag oes o ddysgu proffesiynol, ac ni ddylai'r Aelodau fod ag unrhyw gamargraff ynglŷn â pha mor hanfodol yw'r agenda hon yn fy marn i i lwyddiant addysg yn y dyfodol yng Nghymru.

15:47

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister. I call the Welsh Conservatives' spokesperson, Suzy Davies.

Diolch ichi, Weinidog. Galwaf ar lefarydd y Ceidwadwyr Cymreig, Suzy Davies.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for your statement, Minister. I do not think that there will be any disagreement about your comments regarding Wales needing a world-class education system or that standards need to rise. I think that we would also, I suppose, agree that motivated, valued, professional and supported staff are part of that—not just teachers, but the various classroom assistants and other educational support staff that would be necessary. I think that, perhaps, the recent Education (Wales) Act 2014 might have been a missed opportunity to secure clarity about oversight of continuing professional development for all relevant staff.

I can see that information technology will go some way to improving the availability of CPD learning. However, teachers and other staff will still need to be encouraged to pursue it. I do not know whether that will be in their spare time or during their working hours—perhaps you could clarify that.

I also think that there is scope for evaluation by the schools and, perhaps, colleges themselves of the relevance and importance of the continuing professional development that individual teachers and staff are undertaking. I do not think that it should be left to Estyn, and I think that you may have something to say in terms of the leadership of individual schools on that, because, while an individual teacher may benefit from personal development, we also need to be looking at the gaps across Wales in our expertise. I have to say that I share your scepticism, a little bit, about how in-service training days are sometimes used. Can you tell me how your new deal will be looking at that, please?

I was also interested in your aim to make the Master's accessible at any point in a teacher's career—I think that that sounds very good—but are you also looking closely at the postgraduate certificate of education itself? There are still important questions, I think, about the level of training that very junior teachers receive about managing behaviour and being, in some cases, a very significant figure in helping a young person to receive the help they need to overcome that particular barrier to getting the best from their school years. Of course, it is not just individual pupils who are affected; sometimes other pupils in their class can end up not attending school because of the behaviour of their classmates. Will the new deal look at this as a training need, because young people from all kinds of socioeconomic backgrounds can encounter this barrier, but it is those from deprived areas who seem to be the most sorely challenged on this particular point?

Diolch ichi am eich datganiad, Weinidog. Nid wyf yn credu y bydd unrhyw anghytuno ynghylch eich sylwadau fod ar Gymru angen system addysg o'r radd flaenaf a bod angen i safonau godi. Mae'n debyg y byddem hefyd yn cytuno bod staff brwdfrydig, proffesiynol sy'n cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn rhan o hynny—nid dim ond athrawon, ond yr holl gynorthwywyr dosbarth a'r staff cymorth addysgol eraill a fyddai'n angenrheidiol. Credaf, efallai, fod y Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ddiweddar wedi bod yn gyfle a gollwyd i sicrhau eglurder ynghylch goruchwyllo datblygu proffesiynol parhaus i'r holl staff perthnasol.

Gallaf weld y bydd technoleg gwybodaeth yn mynd rywfaint o'r ffordd tuag at sicrhau bod mwy o ddysgu DPP ar gael. Fodd bynnag, bydd yn dal i fod angen annog athrawon a staff eraill i fanteisio ar hyn. Ni wn a fydd hynny yn eu hamser hamdden neu yn ystod eu horiau gweithio—efallai y gallech egluro hynny.

Rwyf hefyd yn meddwl bod lle i'r ysgolion ac, efallai, y colegau eu hunain, i werthuso perthnasedd a phwysigrwydd y datblygu proffesiynol parhaus y mae athrawon a staff unigol yn ei ddilyn. Nid wyf yn credu y dylid gadael hynny i Estyn, ac rwyf yn meddwl y gallai fod gennyh rywbeth i'w ddweud o ran arweinyddiaeth ysgolion unigol yn hynny o beth, oherwydd, er y gall athro unigol elwa o ddatblygu personol, mae angen inni hefyd fod yn edrych ar y bylchau yn ein harbenigedd ar draws Cymru. Mae'n rhaid imi ddweud fy mod yn rhannu eich amheuan, ryw ychydig, am y ffordd y caiff diwrnodau hyfforddiant mewn swydd eu defnyddio weithiau. A allwch chi ddweud wrthyf sut y bydd eich bargaen newydd yn edrych ar hynny, os gwelwch yn dda?

Roedd gennyf ddiddordeb hefyd yn eich nod o sicrhau bod y cymhwyster Meistr ar gael ar unrhyw adeg yn ystod gyrfa athrawon—credaf fod hynny'n swnio'n dda iawn—ond a ydych hefyd yn edrych yn ofalus ar y dystysgrif addysg i raddedigion? Mae cwestiynau pwysig i'w gofyn o hyd, yn fy marn i, am lefel yr hyfforddiant y mae athrawon iau iawn yn ei dderbyn o ran rheoli ymddygiad ac, mewn rhai achosion, o ran bod yn ffigwr arwyddocaol iawn wrth helpu pobl ifanc i gael y cymorth sydd ei angen arnynt i oresgyn y rhwystr penodol hwnnw sy'n eu hatal rhag gwneud yn fawr o'u blynyddoedd yn yr ysgol. Wrth gwrs, nid dim ond disgyblion unigol y mae hyn yn effeithio arnynt; weithiau, gall disgyblion eraill yn eu dosbarth beidio â mynd i'r ysgol oherwydd ymddygiad eu cyd-ddisgyblion. A fydd y fargen newydd yn edrych ar hyn fel angen hyfforddiant, oherwydd gall hyn fod yn rhwystr i bobl ifanc o bob math o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol, ond mae hyn fel petai'n cyflwyno'r her fwyaf i'r rhai o ardaloedd difreintiedig?

You talked about sharing best practice, but that should be a given by now, bearing in mind Estyn's comments for many a year. I want to ask you about the regional consortia, which you mentioned. It is still not entirely clear to me how best practice can be shared. I note that you have identified regional consortia as needing professional development to be one of their priorities, but considering that there have been mixed reviews about the performance of consortia so far, how did you reach the conclusion that this very important agenda is safe in their hands? Is this a chance for the consortia across Wales to prove themselves? What happens if it turns out that they are not up to the task, because we cannot afford any more false starts on this?

Finally, with regard to the social partnership forum, you mentioned early on in your statement that you want the new programme to be for professionals and designed by professionals—or words to that effect, anyway. Therefore, with regard to the social partnership forum, who exactly do you envisage being a part of this? I will be very disappointed if there is not a good, solid place on this for the business voice. Educating the future workforce in a way that is relevant to how Wales looks now but with an eye on how it can develop, bearing in mind where we started from, is still proving to be elusive. If you are involving business, it speaks to an education that helps to develop a young person's ability to adapt knowledge and think creatively, which I suspect will improve the outcome for children who are more able and talented as well. Therefore, in aiming to raise all boats, I hope that they will not be overlooked in your aim to make teachers teach smarter.

Soniasoch am rannu arferion gorau, ond dylai hynny fod yn gwbl arferol erbyn hyn, o gofio sylwadau Estyn ers sawl blwyddyn. Rwyf am ofyn ichi am y consortia rhanbarthol, y soniasoch amdanynt. Nid yw'n hollol glir i mi o hyd sut y gellir rhannu arfer gorau. Sylwaf eich bod wedi nodi bod angen i ddatblygu proffesiynol fod yn un o flaenoriaethau'r consortia rhanbarthol, ond o ystyried y bu adolygiadau cymysg am berfformiad y consortia hyd yma, sut y daethoch i'r casgliad fod yr agenda bwysig iawn hon yn ddiogel yn eu dwylo? A yw hwn yn gyfle i'r consortia ledled Cymru i'w profi eu hunain? Beth fydd yn digwydd os na fyddant wedi'r cwbl yn gymwys i wneud y gwaith, oherwydd ni allwn fforddio mwy o ddechreuadau gwag yn hyn o beth?

Yn olaf, o ran y fforwm partneriaeth gymdeithasol, soniasoch yn gynnar yn eich datganiad eich bod am i'r rhaglen newydd fod ar gyfer gweithwyr proffesiynol ac wedi'i chynllunio gan weithwyr proffesiynol—neu eiriau i'r perwyl hwnnw, beth bynnag. Felly, o ran y fforwm partneriaeth gymdeithasol, pwy yn union ydych chi'n rhagweld fydd yn rhan o hyn? Byddaf yn siomedig iawn os nad oes lle da, cadarn yn hyn o beth i lais byd busnes. Mae'n dal i fod yn anodd addysgu gweithlu'r dyfodol mewn modd sy'n berthnasol i'r ffordd y mae Cymru'n edrych yn awr ond â golwg ar sut y gall ddatblygu, a chofio o ble yr ydym yn dechrau. Os ydych yn cynnwys byd busnes, mae hynny'n ymwneud ag addysg sy'n helpu i ddatblygu gallu person ifanc i addasu gwybodaeth ac i feddwl yn greadigol, a fydd efallai'n gwella'r canlyniadau i blant sy'n fwy galluog a thalentog yn ogystal. Felly, wrth geisio codi'r cychod i gyd, rwyf yn gobeithio na fyddant yn cael eu hanwybyddu yn eich nod i wneud i athrawon addysgu'n gallach.

15:52

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Suzy Davies for the insightful questions and comments that she has put. I would say this in response to the first of her points, and agree with her wholeheartedly: where we are at the moment in terms of professional development and how that looks to a teacher is far too inconsistent. It is, in fact, incoherent across Wales. If you are fortunate and are in a school that has good leadership in this regard, you can look forward to good, consistent, high-quality professional development that makes sense in the context of where the school is and where you are as a developing professional. Unfortunately, that is all too often not the situation that teachers find themselves in, and they can be quite isolated, particularly if they are newly qualified.

Diolch i Suzy Davies am y cwestiynau a'r sylwadau treiddgar y mae wedi eu gofyn. Dywedaf hyn wrth ymateb i'w phwyntiau cyntaf, a chytunaf yn llwyr â hi: mae ble'r ydym ar hyn o bryd o ran datblygu proffesiynol a sut y mae hynny'n edrych i athro yn rhy anghyson o lawer. Y mae, mewn gwirionedd, ar chwâl ar draws Cymru. Os ydych yn ffodus ac mewn ysgol sydd ag arweinyddiaeth dda yn hyn o beth, gallwch edrych ymlaen at ddatblygu proffesiynol da, cyson, o ansawdd uchel sy'n gwneud synnwyr yng nghyd-destun ble mae'r ysgol a ble'r ydych chi fel gweithiwr proffesiynol sy'n datblygu. Yn anffodus, yn rhy aml o lawer, nid dyna yw'r sefyllfa y mae'r athrawon ynddi, a gallant fod yn eithaf ynysig, yn enwedig os ydynt newydd gymhwyso.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

The point that I would put is that we are already putting enormous time, effort and resource into that current system. My challenge to the professionals involved is that we now, within that envelope of resource in terms of time and money, and so on, take ourselves through a complete culture change in how we approach these issues. We begin with the school development plan and the leadership of those schools, and the onus is on headteachers in particular here to describe within that plan how they balance the professional learning needs of the school itself alongside those of individuals as they develop as professionals. Then, Estyn, as I said, would have oversight of that to ensure that we do not have the gaps that Suzy Davies was describing there. The gaps exist at the moment. These school development plans, established and demanded through legislation, come the autumn, will be a new departure in terms of schools having to step up to the challenge of filling those gaps.

Of course, when it comes to the links with the PGCE and initial teacher training—and this is a very important point—we are not where we need to be in this regard, either. There is a challenge here for the universities, in particular, also to step up to this agenda. Suzy Davies will be aware that John Furlong's work in terms of advising me on developments within initial teacher training in particular will be received by me very soon. There will be, of course, announcements to follow as a result of John Furlong's very thorough work in that regard.

The consortia will have a key role and that will be carried through by the consortium challenge advisers, who will work closely with schools to ensure that practitioners undertake effective professional development and to also ensure that we are talking about school-to-school working. An individual school working in isolation, working alone, is a feature of the system that must stop and we must have collaborative working across schools, with schools learning from each other—both emerging schools and lead practitioner schools.

Turning to the social partnership forum, social partnerships are well described, historically speaking. I would initially envisage that the social partnership would involve the Welsh Government, employers—that is local authorities and, of course, the consortia, through which they organise themselves—and representatives of the workforce. I do not see any reason why other partners should not be drawn into the partnership forum as and when that is required. Of course, the voice of business, she is quite right, would be important, although it is not the only voice that needs to be heeded in this regard.

Y pwynt y byddwn yn ei wneud yw ein bod eisoes yn rhoi amser, ymdrech ac adnoddau aruthrol i mewn i'r system bresennol. Fy her i'r gweithwyr proffesiynol perthnasol yw ein bod yn awr, o fewn yr amlen adnoddau o ran amser ac arian, ac yn y blaen, yn newid diwylliant yn llwyr yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â'r materion hyn. Dechreuwn â'r cynllun datblygu ysgol ac arweinyddiaeth yr ysgolion hynny, a chyfrifoldeb y penaethiaid yn benodol yma yw disgrifio yn y cynllun sut y maent yn cydbwysu anghenion dysgu proffesiynol yr ysgol ei hun ag anghenion unigolion wrth iddynt ddatblygu fel gweithwyr proffesiynol. Yna, byddai Estyn, fel y dywedais, yn goruchwyllo hynny er mwyn sicrhau nad oes gennym y bylchau yr oedd Suzy Davies yn eu disgrifio. Mae'r bylchau yno ar hyn o bryd. Bydd cynlluniau datblygu ysgol, a sefydlwyd ac a fynnyd drwy ddeddfwriaeth, pan ddaw'r hydref, yn ddechrau cyfnod newydd oherwydd bydd yn rhaid i'r ysgolion wynebu'r her o lenwi'r bylchau hynny.

Wrth gwrs, o ran y cysylltiadau â'r TAR a hyfforddiant cychwynnol athrawon—ac mae hwn yn bwynt pwysig iawn—nid ydym lle y mae angen inni fod yn hyn o beth, chwaith. Mae her yma hefyd i'r prifysgolion, yn benodol, i gyflawni'r agenda hon. Bydd Suzy Davies yn ymwybodol y bydd gwaith John Furlong o ran fy nghyngori ar y datblygiadau o fewn hyfforddiant cychwynnol athrawon yn benodol yn dod i law'n fuan iawn. Bydd cyhoeddiadau, wrth gwrs, yn dilyn yn sgil gwaith trylwyr iawn John Furlong yn hynny o beth.

Bydd rôl allweddol i'r consortia, a fydd yn cael ei chyflawni gan gynghorwyr her y consortiwm, a fydd yn cydweithio'n agos ag ysgolion i sicrhau bod ymarferwyr yn manteisio'n ddatblygu proffesiynol effeithiol a hefyd i sicrhau ein bod yn sôn am weithio o ysgol i ysgol. Mae ysgol unigol sy'n gweithio ar wahân, yn gweithio ar ei phen ei hun, yn nodwedd o'r system y mae'n rhaid iddi ddo i ben a rhaid inni sicrhau bod cydweithio rhwng ysgolion, a bod yr ysgolion yn dysgu oddi wrth ei gilydd—ysgolion sy'n dod i'r amlwg ac ysgolion sy'n ymarferwyr arweiniol.

A throi at y fforwm partneriaeth gymdeithasol, mae partneriaethau cymdeithasol wedi'u disgrifio'n dda, yn hanesyddol. Byddwn ar y dechrau'n disgwyl y byddai'r bartneriaeth gymdeithasol yn cynnwys Llywodraeth Cymru, cyflogwyr—hynny yw awdurdodau lleol ac, wrth gwrs, y consortia, y maent yn eu trefnu eu hunain drwyddynt—a chynrychiolwyr y gweithlu. Ni welaf ddim rheswm pam na ddylai partneriaid eraill gael eu tynnu i mewn i'r fforwm partneriaeth pan fydd angen hynny. Wrth gwrs, mae yn llygad ei lle, byddai llais busnes yn bwysig, er nad dyna'r unig lais y mae angen gwranddo arno yn hyn o beth.

15:56

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Plaid Cymru spokesperson, Simon Thomas.

Galwaf ar lefarydd Plaid Cymru, Simon Thomas.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Nid oes dim byd i anghytuno ag ef yn y datganiad hwn. Y drafferth yw ein bod wedi ei glywed o'r blaen ac rydym wedi bod yn ei glywed yn gyson am dair blynedd, ers i'r Gweinidog blaenorol osod ei gynllun 20 pwynt gerbron ym mis Chwefror 2011, pan soniodd am yr union welliannau yn y system y mae'r Gweinidog wedi sôn amdanynt heddiw. Ers hynny, wrth gwrs, rydym wedi cael adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd ac adolygiad cynhwysfawr gan yr Athro Tabberer ar y materion hyn. Rydym yn cyrraedd heddiw dal ddim yn glir beth yw'r camau y mae'r Gweinidog am eu cymryd i gyflawni'r holl bethau y mae'n dymuno eu gweld.

Rwy'n gweld yn y datganiad hwn nifer o bethau ar y lefel uwch, sef y weledigaeth a'r ddelfrydiaeth, os liciwch chi, ac ar y lefel fân, leol. Ond, beth sydd ar goll yw'r camau ymarferol, cenedlaethol a rhanbarthol, i gyflawni hyn. Gofynnaf, felly, yn benodol i'r Gweinidog heddiw: ble mae'r addewid a'r weledigaeth i sicrhau bod pob athro sy'n cymhwyso yng Nghymru yn gwneud hynny ar sail cyrraedd lefel Meistr? Rwy'n derbyn bod gennych lwybr at lefel Meistr ond mae'r OECD—ac mae Plaid Cymru'n cytuno â'r OECD yn hyn o beth—yn glir iawn y dylai fod llwybr Meistr ar gyfer pob athro sy'n cymhwyso o hyn ymlaen yng Nghymru. Rydych eisoes ar gofnod yn dweud nad yw'r consortia yn gweithredu'n llawn hyd yn oed heddiw. Sut, felly, y gallant ddarparu'r lefel hon o hyfforddiant parhaus? A oes gennych ffydd a hyder bod y consortia yn abl i wneud hynny? Sut y byddwch yn denu darpar athrawon o'r ansawdd orau i'r proffesiwn—delfryd sydd, eto, yn adroddiad yr OECD?

Yn dilyn rhai o'r cwestiynau sydd wedi cael eu gofyn yn barod, hoffwn ofyn cwestiwn mwy penodol ynglŷn â diwygio cynnwys cyrsiau ymarfer dysgu a hyfforddiant datblygu proffesiynol, yn enwedig i adlewyrchu'r hyn sy'n datblygu o ran y fframwaith llythrennedd a rhifedd a'r hyn sy'n cael ei adlewyrchu yn adroddiad Tabberer, nad yw rhai o'r cyrsiau hyn yn ddigon da ac y dylid adleoli neu adsefydlu rhai o'r niferoedd o gwrs i gwrs i sicrhau'r ansawdd orau.

Sut y byddwch, fel Gweinidog, yn sicrhau bod athrawon cyflenwi hefyd yn elwa o'r broses hon? Canfu adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru bod 10% o wersi yn ein hysgolion yn cael eu dysgu gan athrawon nad ydynt yn athrawon pwnc na dosbarth arferol. Rydym ni ar y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi gweld yn glir nad yw asiantaethau sy'n darparu athrawon cyflenwi yn gwneud nemor ddim o ran hyfforddiant proffesiynol parhaus. Felly, oni ddylid bod yn fwy pendant, er enghraifft, ynglŷn â gwneud yn siŵr nad oes asiantaethau'n cael tendro am waith yng Nghymru oni bai bod ganddynt raglen hyfforddi gyflawn sy'n cwrdd â'r gofynion rydych wedi eu gosod yn eich datganiad heddiw?

There is nothing to disagree with in this statement. The difficulty is that we have heard it before and we have been hearing it regularly for three years, since the previous Minister set his 20-point plan in place in February 2011, when he talked about the exact same improvements to the system that the Minister has outlined today. Since then, of course, we have had the report of the Organisation for Economic Co-operation and Development and the comprehensive review by Professor Tabberer on these issues. We get to this point today still not clear what steps the Minister is going to take to achieve all the things that he wants to see implemented.

I see in this statement a number of things at the higher level—the vision and the ambition—if you like, and at the hyper-local level. However, what is missing are the practical steps, nationally and regionally, to achieve this. I ask the Minister specifically today: where is the promise and vision to ensure that all teachers who qualify in Wales do so on the basis of a Master's qualification? I accept that you have a route to the Master's level, but the OECD—Plaid Cymru agree with the OECD in this regard—is very clear that the Master's route should be available to all teachers who qualify from here on in in Wales. You are already on record as saying that the consortia are not fully operational even today. How, therefore, can they provide this level of continuing training? Do you have confidence that the consortia are able to do so? How will you attract prospective teachers of the highest quality to the profession—a vision that, again, was set out in the OECD report?

Following some of the questions that have been asked already, I would like to ask a more specific question on reforming initial teacher training courses and professional development training, particularly to reflect what is developing in terms of the literacy and numeracy framework and what is reflected in Tabberer that some of these courses are not adequate and that some of the numbers from course to course should be reallocated to ensure the best quality.

How will you, as Minister, ensure that supply teachers also benefit from this process? The Auditor General for Wales report found that 10% of lessons in our schools are taught by teachers who are not subject teachers or the usual class teachers. On the Children, Young People and Education Committee, we have seen clearly that agencies providing supply teachers do little in terms of ongoing professional training. Therefore, should we not have more clarity in terms of ensuring that no agencies can tender for work in Wales unless they have a comprehensive training programme that meets the requirements that you have set out in your statement today?

Beth yw rôl y cyngor gweithlu addysg newydd? Dyma, efallai, rywbeth sydd ar goll yn amlwg iawn o'r datganiad heddiw, gan fod dyletswydd ar hyfforddiant wedi cael ei gosod gan gyfraith Cymru ar y cyngor newydd. Sut y byddwch yn arolygu hyn i gyd? Beth yw rôl Estyn yn y broses? Rydw i a Phlaid Cymru wedi galw yn y gorffennol am adolygiadau yn y fan a'r lle. Mae hwn yn bwnc llosg dros y ffin heddiw, fel mae'n digwydd, ond mae'r cyd-destun yn wahanol iawn yng Nghymru. Mae hawl Estyn i fynd mewn i ysgolion o bryd i'w gilydd pan mae angen heb rybudd yn rhywbeth sydd o bwys i'r ysgol, ond mae hefyd yn rhywbeth sydd o bwys i gyrraedd y safonau uchaf posibl o hyfforddiant proffesiynol.

Buom hefyd yn galw'n gyson am leihau biwrocratiaeth yn y proffesiwn, yn enwedig ymysg prifathrawon. Felly, rwyf yn croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod yr angen i wneud hynny heddiw, ond byddem yn leicio gwybod beth yw'r camau ymarferol rydych am eu cymryd i gyrraedd yno. Rwyf i a Phlaid Cymru, er enghraifft, yn gweld rôl i reolwyr proffesiynol, nid athrawon, mewn rhai ysgolion ac mewn rhai cyd-destunau addysgiadol i ysgwyddo'r baich. A ydych yn gweld fod hwnnw yn ddatblygiad?

Y peth olaf i'w ddweud yw'r hyn sydd yn amlwg ar goll o'r adroddiad a'r datganiad, sef arian i yrru'r broses hon ymlaen. Yr unig dro rydych yn sôn am arian, Weinidog, yw pan rydych yn sôn am y grant amddifadedd disgyblion. Nid yw'n glir i mi a ydych yn newid telerau'r grant wrth sôn am ddefnyddio'r grant ar gyfer hyfforddiant athrawon yn y cyd-destun hwnnw. Gan nad ydych yn rhoi ceiniog ychwanegol o arian newydd, a oes modd i chi alw hon yn fargen newydd? Sut ydych chi'n mynd i ariannu hyn i gyd?

The OECD said very clearly that not all teachers possess the skills and qualities in Wales to address pupils' individual learning needs; that was the central finding of its report. That was as much a flaw of the system as it might have been of any individuals, and the Minister's statement today lacks—for me—the essential detail for us to judge whether his modest proposals are sufficient to achieve his dream of a new deal. I certainly find it difficult to believe that it can be achieved without any new money. I also fear that without addressing agency supply teachers, without specific action to reduce and streamline bureaucracy, without a reformed inspection regime led by Estyn, and without a clear-sighted view of teaching as a Master's profession here in Wales, we will be returning in another three years to hear the same kind of statement once again.

What is the role of the new education workforce council? This is, perhaps, something that is missing from this statement, as there is a duty on training placed by Welsh law on the new council. How will you oversee all of this? What is the role of Estyn in the process? Plaid Cymru and I have called in the past for spot checks. This is currently a major issue across the border, as it happens, but the context is very different in Wales. Estyn's right to enter schools from time to time when the need arises, without giving any forewarning, is something that is important for the school, but it is also important in order to attain the highest possible standards of professional training.

We have also consistently called for a reduction in bureaucracy in the profession, particularly for headteachers. So, I welcome the fact that you recognise the need to do that today, but we would like to know what practical steps you intend to take to achieve that. Plaid Cymru and I, for example, see a role for professional managers, not teachers, in certain schools and in certain contexts in order to shoulder some of the burden. Do you believe that that is a way forward?

The last thing to say is that what is clearly missing from the report and the statement is the funding to drive the process forward. The only time that you mention funding in the statement, Minister, is when you talk about the pupil deprivation grant. It is not clear to me whether you are changing the terms of the grant in talking of using the grant for training teachers in that context. As you are not giving an additional penny in new funding, can you truly call this a new deal? How are you going to fund all of this?

Dyweddod y Sefydliad ar Gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn glir iawn nad oes gan bob athro y sgiliau a'r rhinweddau yng Nghymru i ymdrin ag anghenion dysgu unigol disgyblion; dyna oedd canfyddiad canolog ei adroddiad. Roedd hynny'n gymaint o nam ar y system ag ar unrhyw unigolion o bosibl, ac, i mi, roedd prinder manylion yn natganiad y Gweinidog heddiw—manylion hanfodol inni i farnu a yw ei gynigion cymedrol yn ddigonol i wireddu ei freuddwyd o fargen newydd. Rwyf yn sicr yn ei chael yn anodd credu y gellir ei gwireddu heb arian newydd. Rwyf hefyd yn ofni, heb ymdrin ag athrawon cyflenwi asiantaethau, heb gymryd camau penodol i leihau a symleiddio biwrocratiaeth, heb gyfundrefn arolygu ddiwygiedig dan arweiniad Estyn, a heb syniad clir o addysgu fel proffesiwn Meistr yma yng Nghymru, y byddwn yn dod yn ôl ymhen tair blynedd arall i glywed yr un math o ddatganiad unwaith eto.

Simon Thomas says he has heard this before and that these proposals are modest; my fear is that the Plaid Cymru spokesperson is rapidly turning into a cynic when it comes to these matters. As we all know, if you want anything done, you should never, ever approach a cynic for advice or for action. Of course, you have not heard this before. This is the first time in Welsh educational history that an entitlement has been offered to the entire educational workforce to world-class professional development and training throughout their careers, from the moment that they qualify right through to the day of their retirement. There is a guarantee underwriting this that this will be of the highest quality. It will be underpinned by a new piece of law, and regulations will be brought in during the autumn to ensure that this happens. It will entail a new role for Estyn. It will entail a new role for heads and leadership within our schools. It will entail a new role for consortia, and it will contain within it new initiatives and responsibilities at a national level, at a regional level through consortia, and at the local level too.

I share Simon Thomas's ambitions—he shook off his cynicism just for a second or two to talk in ambitious terms about a Master's-qualified profession. What I have described today is the starting pistol being fired in terms of how we can engineer a system that makes the Master's available to all. At the moment, the Master's in educational practice is available only to newly qualified teachers, and we are learning a great deal from the roll-out of that programme in terms of what we need to be doing next as regards next steps.

This leads on to Simon Thomas's next point, which was a concern about the quality of continuing professional development. I have to say that simply being qualified to Master's level in and of itself does not guarantee, particularly in terms of classroom best practice, the highest level of quality that we might wish to see. There are Master's degrees and there are Master's degrees. The Master's in educational practice—home grown in Wales, learning from the expertise that we know is already out there in the system—is embedded in practicality and in classroom best practice, alongside that vital access to the very best in the latest research and data.

The expertise that we need in order to deliver on continual professional development is already there in the system. I saw it in operation in Newport this morning. It was enough to blow even the most hardened cynic away. It was fantastic to see the enthusiasm and commitment of those teachers at various stages in their careers, sparking ideas and enthusiasm off each other, and realising that those nuggets of best practice, in many cases, were simply a bus ride away down the road in a neighbouring school. That sense of school-to-school, peer-to-peer working is what needs to be embedded in the system in order to make it work. That is why I do not share Simon Thomas's worries around resource.

Dywed Simon Thomas ei fod wedi clywed hyn o'r blaen a bod y cynigion hyn yn gymedrol; mae arnaf ofn fod llfarydd Plaid Cymru'n prysur droi'n sinig o ran y materion hyn. Fel yr ydym i gyd yn gwybod, os ydych am sicrhau bod rhywbeth yn cael ei wneud, ni ddylech byth, byth fynd at sinig am gyngor neu weithredu. Wrth gwrs, nid ydych wedi clywed hyn o'r blaen. Dyma'r tro cyntaf yn hanes addysg Cymru i i'r gweithlu addysgol cyfan gael cynnig hawl i ddatblygu proffesiynol o'r radd flaenaf a hyfforddiant drwy gydol eu gyrfaeodd, o'r adeg y maent yn cymhwyso hyd at ddiwrnod eu hymddeoliad. Mae gwarant ynghlwm â hyn y bydd hyn o'r ansawdd uchaf. Bydd darn newydd o gyfraith yn ei ategu, a bydd rheoliadau'n cael eu cyflwyno yn ystod yr hydref i sicrhau bod hyn yn digwydd. Bydd yn golygu swyddogaeth newydd i Estyn. Bydd yn golygu swyddogaeth newydd i benaethiaid ac arweinwyr yn ein hysgolion. Bydd yn golygu swyddogaeth newydd i'r consortia, a bydd yn cynnwys mentrau a chyfrifoldebau newydd ar lefel genedlaethol, ar lefel ranbarthol drwy gonsortia, ac ar lefel leol hefyd.

Rwyf yn rhannu uchelgeisiau Simon Thomas—cafodd wared ar ei sinigiaeth am eiliad neu ddwy i siarad mewn termau uchelgeisiol am broffesiwn â chymhwyster Meistr. Mae'r hyn yr wyf wedi ei ddisgrifio heddiw'n ddryll cychwyn ar gyfer sut y gallwn lunio system sy'n sicrhau bod y cymhwyster Meistr ar gael i bawb. Ar hyn o bryd, dim ond i athrawon sydd newydd gymhwyso y mae'r cymhwyster Meistr ar gael, ac rydym yn dysgu llawer o'r broses o gyflwyno'r rhaglen honno o safbwynt yr hyn y mae angen inni ei wneud nesaf o ran y camau nesaf.

Mae hyn yn arwain at bwynt nesaf Simon Thomas, sef pryder am ansawdd y datblygu proffesiynol parhaus. Mae'n rhaid imi ddweud nad yw cymhwyso ar lefel Meistr ynddo'i hun yn gwarantu, yn enwedig o ran arfer gorau yn yr ystafell ddosbarth, yr ansawdd gorau y byddem yn dymuno ei weld. Mae graddau Meistr ac mae graddau Meistr. Mae'r radd Meistr mewn ymarfer addysgol—sydd wedi'i chreu yng Nghymru, ac sy'n dysgu oddi wrth yr arbenigedd yr ydym yn gwybod eisoes ei fod ar gael yn y system—wedi'i gwreiddio mewn ymarferoldeb ac mewn arfer gorau yn yr ystafell ddosbarth, ochr yn ochr â'r mynediad hanfodol hwnnw i'r ymchwil a'r data diweddaraf gorau sydd ar gael.

Mae'r arbenigedd sydd ei angen arnom er mwyn sicrhau datblygu proffesiynol parhaus eisoes yno yn y system. Fe'i gwelais ar waith yng Nghasnewydd y bore yma. Roedd yn ddigon i ddarbwyllio hyd yn oed y sinig mwyaf rhonc. Roedd yn wych gweld brwdfrydedd ac ymroddiad yr athrawon hynny ar wahanol gyfnodau yn eu gyrfaeodd, yn sbarduno syniadau a brwdfrydedd oddi ar ei gilydd, ac yn sylweddoli bod y clystyrau hynny o arfer gorau, yn aml iawn, ddim ond taith bws i ffwrdd i lawr y ffordd mewn ysgol gyfagos. Yr hyn y mae angen ei ymgorffori yn y system er mwyn gwneud iddi weithio yw'r ymdeimlad hwnnw o gydweithio rhwng ysgolion a rhwng cymheiriaid. Dyna pam nad wyf yn rhannu pryderon Simon Thomas ynghylch adnoddau.

We do have the schools effectiveness grant—£28 million; we have the pupil deprivation grant—£70 million-odd; and we now have Schools Challenge Cymru, which is another £20 million-odd. However, what we do know is that if we are honest with ourselves and take on board the lessons from the OECD, too often, the funding as regards continuing professional development that is tied up in those grants and those streams of funding is distributed through a scattergun approach. It is not focused, it is not planned for, it is not strategic and it is not built into a development programme for the teacher or for the school, hence the new system.

Simon Thomas does ask some legitimate and important questions regarding the detail of how the social partnership will work. I would say this to him: I have deliberately, in some instances, not set out through ministerial diktat exactly how some aspects of this system should work, for instance, the exact of role of the education workforce council. That is because, as I have made clear in meetings that I have held with the workforce trade unions, I want to do this in partnership with the workforce. A true social partnership is not defined in advance; it is developed as a co-production between Government, employers and trade unions. I do not want to impose this system upon the Welsh teaching workforce. I will leave imposition and that kind of demand that professionals submit to Government diktat to Michael Gove. I do not want the Welsh workforce to comply; I do not want it to submit; I want it to choose this freely and sincerely.

Mae gennym y grant effeithiolrwydd ysgolion—£28 miliwn; mae gennym y grant amddifadedd disgyblion—oddeutu £70 miliwn; a bellach mae gennym Her Ysgolion Cymru, oddeutu £20 miliwn arall. Fodd bynnag, yr hyn yr ydym yn ei wybod yw, os byddwn yn onest â ni ein hunain ac yn derbyn y gwersi a ddysgwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, yn rhy aml, fod y cyllid ar gyfer datblygu proffesiynol parhaus sydd wedi ei glymu yn y grantiau hynny a'r ffrydiau ariannu hynny yn cael ei ddsbarthu mewn modd gwasgaredig. Nid oes pwyslais penodol iddo, ni chynllunnir ar ei gyfer, nid yw'n strategol ac nid yw'n cael ei adeiladu i mewn i raglen ddatblygu ar gyfer yr athro nac ar gyfer yr ysgol, a dyna pam y mae gennym y system newydd.

Mae Simon Thomas yn gofyn rhai cwestiynau dilyn a phwysig ynglŷn â manylion y ffordd y bydd y bartneriaeth gymdeithasol yn gweithio. Byddwn yn dweud hyn wrtho: rwyf yn fwrriadol, mewn rhai achosion, wedi peidio â phennu drwy ddictad gweinidogol yn union sut y dylai rhai agweddau ar y system hon weithio, er enghraifft, union swyddogaeth cyngor y gweithlu addysg. Mae hynny oherwydd fy mod, fel yr wyf wedi ei gwneud yn glir mewn cyfarfodydd rhyngof ac undebau llafur y gweithlu, am wneud hyn mewn partneriaeth â'r gweithlu. Nid yw partneriaeth gymdeithasol go iawn yn cael ei diffinio ymlaen llaw; mae'n datblygu fel cydgynhyrchiad rhwng y Llywodraeth, y cyflogwyr a'r undebau llafur. Nid wyf am orfodi'r system hon ar weithlu addysgu Cymru. Gadawaf yr orfodaeth honno a'r gofyniad hwnnw fod gweithwyr proffesiynol yn ildio i ddictad Llywodraeth i Michael Gove. Nid wyf am i weithlu Cymru gydymffurfio; nid wyf am iddo ildio; rwyf am iddo ddewis hyn yn rhydd ac yn ddiffuant.

16:07 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Welsh Liberal Democrat spokesperson, Aled Roberts.

Galwaf ar lefarydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Aled Roberts.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:07 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Weinidog, fe fydd yn rhaid imi geisio osgoi bod yn sinigaidd hefyd, ond mae'n rhaid imi ddweud, nid ydym wedi bod yn gwrandao ar hyn am dair blynedd, Simon Thomas; rydym wedi bod yn gwrandao ar hyn am tua phedair blynedd. Roedd datganiad eithaf tebyg gan ragflaenydd y Gweinidog presennol ym mis Mehefin 2010, pan soniodd am ddatblygu cymunedau proffesiynol a'r ffaith bod pob ysgol ac awdurdod addysg yn mynd i gael hyfforddiant ar greu rhyw fath o strwythur newydd yng Nghymru.

Minister, I will have to try to avoid being cynical also, but I have to say that we have not been hearing this for three years, Simon Thomas; we have listening to this for about four years. There was quite a similar statement by the current Minister's predecessor in June 2010, when there was mention of developing professional communities and the fact that every school and education authority were going to have training on creating a new sort of structure in Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Rwy'n meddwl, Weinidog, bod nifer helaeth ohonom yn gobeithio y bydd hyn yn digwydd, ond yr hyn sy'n achosi'r pryder yw ein bod wedi cael, nŵan, ers rhyw 15 mlynedd, bargaen newydd ar ôl bargaen newydd ac eto nid yw'r gwendidau o fewn y strwythur yn newid. Felly, rwy'n dymuno'r gorau ichi. Rwy'n credu bod y fargen hon heddiw, lle rydych yn dweud eich bod yn barod i gydweithio â'r undebau a'r awdurdodau lleol, yn fater lle y buaswn yn cefnogi'r ffordd rydych yn bwrw ymlaen â hynny. Fodd bynnag, mae'n rhaid imi ddweud, os ydym yn darganfod ar ôl ychydig o amser nad yw'r strwythur newydd hwn yn gweithio eto, bydd cwestiynau mawr i'w gofyn.

I think, Minister, that a great number of us hope that this is going to happen, but the cause for concern is that we have had now, for around 15 years, new deal after new deal and, still, the weaknesses within the structure have not changed. Therefore, I wish you well. I think that this new deal today, where you say that you are ready to co-operate with the unions and the local authorities, is a matter where I would support the way in which you are going to go forward with this. However, I have to say that if we find, after some time, that the new structure does not work again, there are going to be great questions to be asked.

Rwy'n meddwl mai un o'r gwendidau o fewn y strwythur presennol, fel y dywedodd Simon Thomas, yw nad yw athrawon cyflenwi, sydd ar hyn o bryd yn cynnal rhyw 10% o'r gwersi'n gyffredinol a mwy na hynny o fewn ysgolion uwchradd, yn rhan o'r broses hon. Mae gofyn iddynt dalu am eu datblygiad proffesiynol eu hunain ac, o achos hynny, nid ydynt yn ymwneud â'r system. Felly, a gaf ofyn i chi yn benodol a ydy'r fargen newydd hon yn cynnwys athrawon cyflenwol heblaw am athrawon sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol?

Rwyf hefyd yn gofyn a ydych chi wedi ystyried yr agwedd o ran datblygu proffesiynol ar y we a dysgu gwersi oddi wrth y gwasanaeth iechyd. Mae'r broses honno wedi'i gweithredu gan y gwasanaeth iechyd yng Nghymru dros ddwy neu dair blynedd ac mae problemau mawr ynglŷn â nifer y staff sy'n ymwneud â'r datblygiad proffesiynol hwnnw o fewn y system. Rwyf hefyd yn gofyn i chi a allwch chi ddweud wrthym sut fyddwch chi'n adolygu'r cyflwyno statudol hwn—y 'statutory induction' rydych chi'n sôn amdano—a'r gradd Meistr, a dros ba gyfnod. A ydych yn awyddus i weld newid o ran y penderfyniadau hynny ar hyn o bryd?

Yn olaf, a gaf i ofyn i chi a oes unrhyw asesiad wedi ei wneud o'r diffygion a gafodd eu cyflwyno gan eich Llywodraeth chi ym mis Mehefin 2010? Os ydym yma, ar ôl pedair blynedd a'r holl newid, yn cyfaddef nad oes gwelliant o ran datblygu proffesiynol ymysg athrawon, mae'n rhaid i ni ofyn a ydy eich Llywodraeth chi wedi dysgu gwersi o'r methiannau hynny.

I think that one of the main weaknesses within the current structure, as Simon Thomas said, is that supply teachers, who at the moment teach around 10% of general lessons and more than that in secondary schools, are not part of this process. They have to pay for their own CPD and, because of that, they do not engage with the system. Therefore, may I ask you specifically whether this new deal includes supply teachers, not including those teachers who are employed by the local authorities?

I also ask whether you have considered this aspect in terms of CPD online and learning lessons from the health service. That process has been implemented by the NHS in Wales over two or three years and there are great problems in terms of the number of staff who take part in CPD there within that system. Also, I ask you whether you could tell us how you will review the statutory induction that you talk about and the Master's degree, and over what period of time. Do you want to see change in terms of those decisions at the moment?

Finally, may I ask you if there has been any assessment of the weaknesses and failings that were introduced by your Government in June 2010? If we are here, after four years and all that change, still saying that there have been no improvements in terms of CPD within the teaching workforce, we have to ask whether your Government has learned lessons from those failings.

16:11

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Aled Roberts says that he has been listening to this for four years. It really does lead me to despair that either Aled Roberts has been particularly inattentive in terms of developments across Welsh education, or, again, he is falling into the trap of becoming a cynic in this regard, alongside Simon Thomas, because, of course, that is the most convenient substitute for thought.

I have, as is my wont, as a believer in social partnership working and that method and way of working, met with all the trade unions, those representing teaching staff, those representing heads and those representing the support workforce too. I have described this system to them and, to a man and woman, I think that they would agree on at least one thing: this is a new departure in terms of what is on offer to the professionals involved in supporting our most important citizens—our young people. I can assure you that the trade unions involved do not see this as something that they have heard before, and they are excited by it as something that they would want to work with. If you do not believe me, you can go and ask those trade unions yourself about what they see as being the distinguishing features of this system.

Mae Aled Roberts yn dweud ei fod wedi bod yn gwranddo ar hyn am bedair blynedd. Mae'n gwneud imi anobeithio'n llwyr—naill ai nid yw Aled Roberts wedi cymryd fawr o sylw o ddatblygiadau ym myd addysg yng Nghymru, neu, unwaith eto, mae'n cwmpo i'r fagl o fod yn sinig yn hyn o beth, ochr yn ochr â Simon Thomas, oherwydd, wrth gwrs, dyna esgus cyfleus dros beidio â meddwl.

A minnau'n gredwr mawr mewn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol a'r ffordd honno o weithio, rwyf wedi cwrdd â'r holl undebau llafur, y rhai sy'n cynrychioli staff addysgu, y rhai sy'n cynrychioli penaethiaid a'r rhai sy'n cynrychioli'r gweithlu cymorth hefyd. Rwyf wedi disgrifio'r system hon iddynt a byddai pob un ohonynt, rwyf yn meddwl yn cytuno ynghylch o leiaf un peth: dyma ddechrau cyfnod newydd o ran yr hyn sydd ar gael i'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi ein dinasyddion pwysicaf—ein pobl ifanc. Gallaf eich sicrhau nad yw'r undebau llafur dan sylw yn gweld hyn fel rhywbeth y maent wedi ei glywed o'r blaen, ac maent wedi eu cyffroi gan ei fod yn rhywbeth y byddent yn awyddus i weithio gydag ef. Os nad ydych yn fy nghredu, gallwch holi'r undebau llafur hynny drosoch eich hun am yr hyn y maent yn credu sy'n gwneud y system hon yn wahanol.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Aled Roberts then stands back and says, 'We'll just have a look at this and if it doesn't work, there'll be questions to be answered'. That is another way of saying that the Welsh Liberal Democrats have absolutely nothing to contribute to this debate. 'We'll cross our hands behind our backs and hope that the Minister falls over in two or three years' time, so that we can contribute a chorus of "Nah, nah, nah, nah, nah". This is not the level of debate that we need in order, frankly, to hold me to account in terms of this vital development in Welsh educational practice.

Moving on to those things that did have substance in terms of what Aled Roberts was saying, and this was a point that Simon Thomas made too, in terms of supply teaching, of course, this is a worry for me. This is something that is nagging at my mind, and it is a problem in the system that we have, but we know, as Aled Roberts knows, that supply teachers' terms and conditions are not devolved to me as a Minister. There are many questions that he asked there that need to be addressed to his colleagues in Government in Westminster in terms of the terms and conditions for teachers. His colleagues are busy up there fragmenting the system, bypassing discussions with trade unions, avoiding co-production with the workforce, and seeking only to finger-point at the workforce. That is what the Welsh Liberal Democrats support at a UK level, and that makes it extraordinarily difficult for us at a Welsh level to push forward with a positive agenda around supply teachers. However, I will work with trade unions and employers to try to improve the situation that is facing the supply teachers within our system in a spirit of co-production and social partnership in Wales.

He is right also—[Interruption.] I am not quite sure what the noises off entail apart from the fact that, again, acting Deputy Presiding Officer, I can hear substitutes for thoughts kicking off all over the Chamber this afternoon. Aled Roberts is quite right to point to the importance of online working here, and, although there is no time this afternoon to go into this, that will entail developments in Learning Wales and Hwb. He is quite right also to talk about the need to develop that; it is relatively youthful in terms of the level of resource, quality of resource and the sheer quantity of resource that we have at our disposal. It is something that we need to grow. However, I would encourage Aled Roberts to take a look at the OECD report. It does bear close reading. He will see clearly, I hope, that, within a matter of a few short months, the Welsh Government has risen to many of the challenges that the OECD has set down before us in a way that the Welsh Liberal Democrats plainly have not.

Yna mae Aled Roberts yn sefyll yn ôl ac yn dweud, 'Byddwn yn edrych ar hyn, ac os na fydd yn gweithio, fe fydd cwestiynau i'w hateb'. Dyna ffordd arall o ddweud nad oes gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru ddim i'w gyfrannu at y ddadl hon. 'Byddwn yn croesi ein dwylo y tu ôl i'n cefnau ac yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cwmpo drosodd mewn dwy neu dair blynedd', fel y gallwn gyfrannu corws o "Nah, nah, nah, nah, nah". Nid dyma yw lefel y ddadl sydd ei hangen, a dweud y gwir, er mwyn fynd i i gyfrif o ran y datblygiad hanfodol hwn mewn ymarfer addysgol yng Nghymru.

A symud ymlaen at y pethau hynny yr oedd sylwedd iddynt yn yr hyn yr oedd Aled Roberts yn ei ddweud, ac roedd hyn yn bwynt a wnaeth Simon Thomas hefyd, o ran athrawon cyflenwi, wrth gwrs, mae hyn yn bryder imi. Mae hyn yn rhywbeth sy'n fy mhoeni, ac mae'n broblem yn y system sydd gennym, ond rydym yn gwybod, fel y gwyr Aled Roberts, nad yw telerau ac amodau athrawon cyflenwi wedi'u datganoli i mi fel Gweinidog. Mae llawer o gwestiynau a ofynnwyd ganddo y mae angen eu cyfeirio at ei gydweithwyr yn Llywodraeth San Steffan o ran telerau ac amodau athrawon. Mae ei gydweithwyr yn brysur i fyny yno'n darnio'r system, yn osgoi trafodaethau ag undebau llafur, yn osgoi cydgynhyrchu â'r gweithlu, ac yn gwneud dim ond pwyntio bys at y gweithlu. Dyna'r hyn y mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru'n ei gefnogi ar lefel y DU, ac mae hynny'n ei gwneud yn hynod anodd i ni ar lefel Gymreig fwrw ymlaen ag agenda gadarnhaol o ran athrawon cyflenwi. Fodd bynnag, byddaf yn gweithio gydag undebau llafur a chyflogwyr i geisio gwella'r sefyllfa sy'n wynebu'r athrawon cyflenwi yn ein system mewn ysbryd o gydgynhyrchu a phartneriaeth gymdeithasol yng Nghymru.

Mae'n iawn hefyd—[Torri ar draws.] Nid wyf yn hollol siŵr beth y mae'r sŵn yn y cefndir yn ei olygu ar wahân i'r ffaith, unwaith eto, Ddirprwy Lywydd, y gallaf glywed esgus meddwl yn digwydd ar draws y Siambr y prynhawn yma. Mae Aled Roberts yn llygad ei le wrth dynnu sylw at bwysigrwydd gweithio ar-lein yma, ac, er nad oes amser y prynhawn yma i fynd i fanylu ar hyn, bydd hynny'n golygu datblygiadau i Dysgu Cymru a Hwb. Mae'n hollol iawn hefyd i siarad am yr angen i ddatblygu hynny; mae'n gymharol ifanc o ran lefel yr adnoddau, ansawdd yr adnoddau a swm yr adnoddau sydd ar gael inni. Mae'n rhywbeth y mae angen inni ei dyfu. Fodd bynnag, byddwn yn annog Aled Roberts i edrych ar adroddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Mae'n werth ei ddarllen yn fanwl. Bydd yn gweld yn glir, rwyf yn gobeithio, fod Llywodraeth Cymru o fewn ychydig fisoedd byr, wedi ymateb i lawer o'r heriau y mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd wedi eu cyflwyno inni mewn ffordd nad yw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn amlwg wedi ei wneud.

Ann Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I thank the Minister for the statement? It adds to the number of statements that he makes to show that his commitment is to see that every child in Wales has a world-class education. It is important that we do recognise that, in some schools now, we are seeing the teaching of lessons rated as either adequate or unsatisfactory. While that is not the large percentage of teaching inspection judgments, I think that we should be striving to make sure that every lesson taught can at least boast a judgment of 'good' if not 'excellent' from Estyn. I know that that is something that you want to work towards. However, for me—and I might be being slightly controversial in saying this—the elephant in the room is those teachers who cannot teach to the standard that we expect. I just wanted to know what your thoughts are on how you can encourage headteachers to undertake effective performance management of their teaching staff, particularly those who would need to improve the quality of their teaching to get to that standard, and, linked to that, how you could encourage headteachers to ensure that for all teachers, including those near retirement—because often those near retirement will say, 'This sort of new deal isn't for me. I'll carry on doing what I'm doing'—as well as how we get the headteachers themselves to feel that that is integral to raising standards within the school and raising standards overall.

I suppose that the final thing that I would like you not necessarily to answer today, but to think about, is that, when teachers or headteachers and governing bodies have identified that there are some poor teaching practices, and, despite every best effort through continuing professional development, there comes a time when there is a parting of the ways, how the Welsh Government will support teachers and governing bodies to challenge those and even to support them through the capability route, should that be necessary if the continuing professional development that you are outlining here does not actually work.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad? Mae'n ychwanegu at y nifer o ddatganiadau y mae'n eu gwneud i ddangos mai ei ymrwymiad yw sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru'n cael addysg o'r radd flaenaf. Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod, mewn rhai ysgolion yn awr, ein bod yn gweld addysgu yn y gwersi'n cael gradd naill ai ddigonol neu anfoddhaol. Er nad yw hynny'r ganran fawr o ddyfarniadau arolygu'r addysgu, credaf y dylem fod yn ymdrechu i wneud yn siŵr y gall pob gwrs a addysgir o leiaf gael 'da' os nad 'rhagorol' gan Estyn. Gwn fod hynny'n rhywbeth yr ydych yn awyddus i weithio tuag ato. Fodd bynnag, i mi—ac efallai fy mod yn dweud rhywbeth dadleuol yma—yr eliffant yn yr ystafell yw'r athrawon hynny nad ydynt yn gallu addysgu'n unol â'r safon yr ydym yn ei disgwyl. Hoffwn gael gwybod beth yw eich barn am sut y gallwch annog penaethiaid i gynnal prosesau rheoli perfformiad effeithiol â'u staff addysgu, yn enwedig y rhai y byddai angen gwella ansawdd eu haddysgu i gyrraedd y safon, ac, yn gysylltiedig â hynny, sut y gallech annog penaethiaid i sicrhau hynny ar gyfer yr holl athrawon, gan gynnwys y rhai sy'n agos at ymddeol—oherwydd yn aml bydd y rhai sy'n agos at ymddeol yn dweud, 'Nid yw'r math hwn o fargen newydd yn addas i mi. Rwyf am barhau i wneud yr hyn yr wyf yn ei wneud—yn ogystal â sut y gallwn sicrhau bod y penaethiaid eu hunain yn teimlo bod hynny'n rhan annatod o godi safonau o fewn yr ysgol a chodi safonau yn gyffredinol.

Mae'n debyg mai'r peth olaf yr hoffwn ichi nid o reidrydd ei ateb heddiw, ond meddwl amdano, yw, pan fydd athrawon neu benaethiaid a chyrrff llywodraethu wedi nodi bod rhai arferion addysgu gwael, ac, er gwaethaf pob ymdrech drwy ddatblygu proffesiynol parhaus, fod amser yn dod pan fo llwybrau'n gwahanu, sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi athrawon a chyrrff llywodraethu i herio'r rhain a hyd yn oed i'w cefnogi drwy'r llwybr gallu, pe byddai hynny'n angenrheidiol pe na bai'r datblygu proffesiynol parhaus yr ydych yn ei amlinellu yma'n gweithio.

Huw Lewis [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I extend my thanks to Ann Jones. She is quite right, of course, to point out that the kernel of the issue here is the quality of teaching and learning—what happens in the classroom. The statement that I have made today is entirely and wholly about improving the experience of the student, the pupil, and the teacher and the support staff connected to them, in the classroom. That can only be done by removing the barriers to professional-to-professional learning and development. Politicians cannot inject best practice into a classroom setting, but we can remove the barriers to that happening. It is my sincere belief that we have enough professionalism, expertise and of the very best already operating in classrooms up and down Wales to unleash the true potential of the Welsh teaching and support workforce if we can get this system operating well. Again, I will say this: I saw this happening this morning in the most exciting way possible at St Joseph's high school in Newport. It can be done; it is being done. The problem is that it is not the usual way in which things are done. That is the destination that we have to head for.

Hoffwn ddiolch i Ann Jones. Mae hi'n hollol iawn, wrth gwrs, wrth nodi mai craidd y mater dan sylw yma yw ansawdd y dysgu a'r addysgu—yr hyn sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r datganiad yr wyf wedi'i wneud heddiw'n ymwneud yn llwyr ac yn gyfan gwbl â gwella profiad y myfyriwr, y disgybl, a'r athro neu'r athrawes a'r staff cymorth sy'n gysylltiedig â hwy, yn yr ystafell ddosbarth. Dim ond drwy gael gwared ar y rhwystrau i ddysgu a datblygu rhwng gweithwyr proffesiynol a'i gilydd y gellir gwneud hynny. Ni all gwleidyddion chwistrellu arfer gorau i mewn i ystafell ddosbarth, ond gallwn gael gwared ar y rhwystrau i hynny. Rwyf o'r farn bod gennym ddigon o broffesiynoldeb, arbenigedd a'r staff gorau eisoes mewn ystafelloedd dosbarth ar hyd a lled Cymru i ryddhau gwir botensial gweithlu addysgu a chymorth Cymru os gallwn sicrhau bod y system hon yn gweithio'n dda. Unwaith eto, dywedaf hyn: gwelais hyn yn digwydd y bore yma yn y ffordd fwyaf cyffrous bosibl yn ysgol uwchradd St Joseph yng Nghasnewydd. Mae modd ei wneud; mae'n cael ei wneud. Y broblem yw nad dyma'r ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud fel arfer. Dyna'r nod y mae'n rhaid inni anelu ato.

In terms of performance management, of course, there may be times—Ann Jones is quite right—when support is not enough. I have already spoken with consortium leads and challenge advisers for Schools Challenge Cymru, which is just beginning its work, and local authorities as well, to offer the very best in terms of HR support to schools and school leaders in that regard. We have to continue to make sure that heads in particular are supported in this regard.

However, it is my sincere belief that all the expertise we could ever need is already there in the Welsh schools system; we just need to set it free.

Gwella Iechyd Meddwl

Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1 a 2 yn enw Aled Roberts, gwelliannau 3, 4 a 5 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 6, 7, 8 a 9 yn enw Elin Jones.

O ran rheoli perfformiad, wrth gwrs, gall fod adegau—mae Ann Jones yn llygad ei lle—pan na fydd cymorth yn ddigon. Rwyf eisoes wedi siarad ag arweinwyr consortia a chynghorwyr her Her Ysgolion Cymru, sydd yn awr yn dechrau ar ei waith, ac awdurdodau lleol hefyd, i gynnig y cymorth adnoddau dynol gorau un i ysgolion ac arweinwyr ysgolion yn hynny o beth. Mae'n rhaid inni barhau i wneud yn siŵr bod penaethiaid yn benodol yn cael eu cefnogi yn hyn o beth.

Fodd bynnag, rwyf o'r farn bod yr holl arbenigedd y mae ei angen arnom eisoes yno yn system ysgolion Cymru; dim ond ei ryddhau sydd ei angen.

Improving Mental Health

The following amendments have been selected: amendments 1 and 2 in the name of Aled Roberts, amendments 3, 4 and 5 in the name of Paul Davies, and amendments 6, 7, 8 and 9 in the name of Elin Jones.

16:21

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5521 Lesley Griffiths

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru.

Galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Motion NDM5521 Lesley Griffiths

To propose that the National Assembly for Wales:

Notes Welsh Government action to improve mental health and well-being in Wales.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

16:21

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Cynigiad y cynnig.

Rwy'n falch iawn o gael y cyfle hwn i drafod materion iechyd meddwl. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn i sicrhau amser y Llywodraeth ar gyfer y ddadl hon oherwydd, er gwaethaf ymdrechion gwirioneddol Aelodau ar draws y Siambr hon, nid ydym yn rhoi digon o sylw o hyd i'r rhan hanfodol hon o'r gwasanaeth iechyd. Salwch corfforol, yn enwedig y tamaid ohono y mae ysbytai yn ymateb iddo, sydd yn parhau i hoelio'r sylw yn y ddadl gyhoeddus ac yn adroddiadau'r cyfryngau. Heddiw, mae cyfle i ni i roi rhywfaint o gydbwysedd.

Mae geiriad y cynnig yn canolbwyntio'n fwriadol ar iechyd meddwl a lles meddwl, yn hytrach nag ar salwch meddwl. Dyna yw hanfod y gwaith sydd wedi cael ei ddatblygu yma yn sgîl datganoli. Heddiw, rydym yn cymryd cymaint yn ganiataol, ac felly rydym weithiau mewn perygl o anghofio bod ffyrdd eraill, gwahanol o feddwl a siarad am y materion hyn.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 16:22.

I move the motion.

I am very pleased to have this opportunity to discuss mental health issues. I have been very keen to ensure Government time for this debate because, despite real efforts by Members across the Chamber, we still do not give enough attention to this vital part of the health service. Physical illness, especially the part of it that hospitals respond to, continues to dominate attention in the public debate and in media reports. Today, we have an opportunity to provide some balance.

The wording of the motion deliberately focuses on mental health and mental wellbeing rather than on mental illness. That has been the hallmark of the work developed here in the post-devolution era. Today, we take so much for granted, and, therefore, we are sometimes in danger of forgetting that there are other, competing ways of thinking and talking about these matters.

The Deputy Presiding Officer took the Chair at 16:22.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

It was not for nothing that Kirsty Williams, in a debate just before the half-term recess, singled out as one of the achievements of devolution the development of a distinctive and progressive mental health policy at a time when, elsewhere, the emphasis was far more on the dangers posed by the mentally ill to public safety and the imposition of restrictions on the liberties of those believed to pose such a risk. Here in Wales, many of the initiatives that I will mention, and the progress that I will report, go largely unnoticed by the press and wider public, but change is happening, and it is making a significant and positive difference for those whose lives are affected by mental health problems. The basis for all this is, of course, the Mental Health (Wales) Measure 2010, the Assembly's groundbreaking legislation. The implementation of the Measure, and the 10-year mental health strategy that accompanies it, have been monitored closely. Update reports have been produced that demonstrate that both are producing tangible improvements for service users and innovations in practice across the country. For example, local primary mental health support services are now provided in all areas in Wales as a result of the Measure, and waiting times for assessment and treatment in primary care continue to fall. In the last 10 months alone, over 31,000 people were assessed and supported closer to their homes in local surgeries or other community facilities.

Care and treatment plans for those receiving secondary mental health services are now in place for over 90% of the people who require them, and over 1,100 people have used the new right set out in the Measure to re-refer themselves back to secondary care services. The expanded independent mental health advocacy service, which the Measure established, is widely reported, by both staff and patients alike, as making a positive difference. This difference is being made, in many different ways, in all parts of Wales. Betsi Cadwaladr University Local Health Board, for example, has worked with North Wales Police to secure a dramatic reduction in the number of people being taken into police custody or mental health facilities under section 136 of the Mental Health Act 2007.

Velindre NHS Trust in Cardiff has developed psychological therapy approaches to train staff from right across Wales to support children whose mental wellbeing is affected by a family bereavement caused by cancer. Cwm Taf Local Health Board has used money that it has brought back to Wales to support a supported recovery unit for those with high levels of mental health need, which has allowed people to be treated closer to home and delivers a better service for the money available.

It is important to be clear, however, Dirprwy Lywydd, that the effort to secure mental health and mental wellbeing has to go far beyond statutory services.

Nid er mwyn dim y gwnaeth Kirsty Williams, mewn dadl ychydig cyn y toriad hanner tymor, sôn yn benodol am ddatblygiad polisi iechyd meddwl nodedig a blaengar fel un o lwyddiannau datganoli ar adeg pan roedd y pwyslais, mewn manau eraill, yn llawer mwy ar y peryglon y mae pobl â salwch meddwl yn eu hachosi i ddiogelwch y cyhoedd ac ar osod cyfyngiadau ar raddedd y rhai y credir eu bod yn peri risg o'r fath. Yma yng Nghymru, mae llawer o'r mentrau y byddaf yn sôn amdanynt, a'r datblygiadau y byddaf yn hysbysu amdanynt, yn cael eu hanwybyddu i raddau helaeth gan y wasg a'r cyhoedd yn ehangach, ond mae newid yn digwydd, ac mae'n gwneud gwahaniaeth sylweddol a chadarnhaol i'r rhai y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio ar eu bywydau. Y sail ar gyfer hyn i gyd, wrth gwrs yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, deddfwriaeth arloesol y Cynulliad. Mae gweithrediad y Mesur, a'r strategaeth iechyd meddwl 10 mlynedd sy'n cyd-fynd â hynny, wedi cael eu monitro'n ofalus. Mae adroddiadau diweddar wedi cael eu paratoi sy'n dangos bod y ddau yn cynhyrchu gwelliannau pendant ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a datblygiadau arloesol mewn ymarfer ar draws y wlad. Er enghraifft, mae gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn cael eu darparu yn awr ym mhob ardal yng Nghymru o ganlyniad i'r Mesur, ac mae amseroedd aros am asesiad a thriniaeth mewn gofal sylfaenol yn parhau i leihau. Yn y 10 mis diwethaf yn unig, mae dros 31,000 o bobl wedi cael eu hasesu a'u cefnogi yn agosach at eu cartrefi mewn meddygfeydd lleol neu gyfleusterau cymunedol eraill.

Mae gofal a chynlluniau triniaeth wedi'u sefydlu bellach ym maes gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar gyfer dros 90% o'r bobl sydd eu hangen, ac mae dros 1,100 o bobl wedi defnyddio'r hawl newydd a nodir yn y Mesur i'w hailatgyfeirio eu hunain yn ôl at wasanaethau gofal eilaidd. Mae staff a chleifion fel ei gilydd yn hysbysu'n eang bod y gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol estynedig, a sefydlwyd gan y Mesur, yn rhywbeth sy'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol. Mae'r gwahaniaeth hwn yn cael ei wneud, mewn llawer o wahanol ffyrdd, ym mhob rhan o Gymru. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, er enghraifft, wedi gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau gostyngiad dramatig yn nifer y bobl sy'n cael eu cymryd i ddalfa'r heddlu neu gyfleusterau iechyd meddwl o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 2007.

Mae ymddiriedolaeth GIG Felindre yng Nghaerdydd wedi datblygu dulliau therapi seicolegol i hyfforddi staff o bob cwr o Gymru i gefnogi plant y mae eu lles meddwl yn cael ei effeithio gan brofedigaeth yn y teulu wedi'i achosi gan ganser. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf wedi defnyddio arian y mae wedi dod ag o yn ôl i Gymru i gefnogi uned adferiad â chymorth ar gyfer pobl â lefelau uchel o angen iechyd meddwl. Maw hyn wedi caniatáu i bobl gael eu trin yn nes at eu cartref ac yn darparu gwasanaeth gwell am yr arian sydd ar gael.

Mae'n bwysig bod yn glir, fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, bod yn rhaid i'r ymdrech i sicrhau iechyd meddwl a lles meddwl fynd ymhell tu hwnt i wasanaethau statudol.

16:26

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

- 16:26 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
Of course. Wrth gwrs.
- 16:26 **Simon Thomas** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I am grateful to the Minister. He has just outlined some very innovative practices that have come across because of the Mental Health (Wales) Measure 2010 and I agree with him that those are to be welcomed and are a real feature of what we have developed here in Wales. The obverse, of course, is that there are some areas of Wales that struggle, particularly with mental health primary care access and Welsh-language mental health services, which is a feature of the Welsh Language Commissioner's report today. Will he look at that report to see how we can use the Measure to deliver Welsh-language services and a more even service throughout Wales?
Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog. Mae newydd amlinellu rhai arferion arloesol iawn sydd wedi digwydd oherwydd Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, ac rwy'n cytuno ag ef bod y rhain i'w croesawu ac yn nodwedd go iawn o'r hyn yr ydym wedi'i ddatblygu yma yng Nghymru. Y gwrthwyneb, wrth gwrs, yw bod rhai ardaloedd yng Nghymru yn ei chael yn anodd, yn enwedig o ran cael gafael ar ofal sylfaenol iechyd meddwl a gwasanaethau iechyd meddwl Cymraeg eu hiaith, sy'n nodwedd o adroddiad Comisiynydd y Gymraeg heddiw. A fydd yn edrych ar yr adroddiad hwnnw i weld sut y gallwn ddefnyddio'r Mesur i ddarparu gwasanaethau Cymraeg a gwasanaeth mwy cyson ledled Cymru?
- 16:26 **Mark Drakeford** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I am very pleased to be able to say to Simon Thomas that I discussed exactly that aspect of her report with the commissioner just last week and have been discussing with my officials and the Royal College ways in which we are able to strengthen primary care services for the mentally ill through the Welsh language. It is a very important part of the commissioner's report and a very important part of my agenda for the future of mental health services here in Wales.
Rwy'n falch iawn o allu dweud wrth Simon Thomas fy mod wedi trafod yr union agwedd honno ar ei hadroddiad gyda'r comisiynydd yr wythnos diwethaf ac wedi bod yn trafod gyda'm swyddogion a'r Coleg Brenhinol sut y gallwn gryfhau gwasanaethau gofal sylfaenol ar gyfer salwch meddwl drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'n rhan bwysig iawn o adroddiad y comisiynydd ac yn rhan bwysig iawn o'm hagenda i ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd meddwl yma yng Nghymru.

I was just going to go on to say, Dirprwy Lywydd, that, beyond services themselves, we all have a part to play in creating supportive and compassionate communities where individuals with mental health problems are not stigmatised or subjected to discrimination. The Time to Change Wales campaign, which is run by the third sector in Wales, has been very important in this regard, as is the developing campaign—which I know many Members here have supported—to create dementia-friendly communities across our nation. I want us to take a moment to recognise the vitally important role that our third sector partners play in supporting our mental health agenda. Their reach goes into many places where statutory services would struggle. BAWSO, for example, here in Wales, has delivered one-to-one and group mental health awareness sessions to over 100 women from black and minority ethnic communities with varying mental health needs over the last 12 months.
Yr oeddwn am fynd ymlaen i ddweud, Ddirprwy Lywydd, y tu hwnt i'r gwasanaethau eu hunain, bod gennym i gyd ran i'w chwarae wrth greu cymunedau cefnogol a thosturiol lle nad yw unigolion sydd â phroblemau iechyd meddwl yn cael eu stigmatiddio nac yn dioddef gwahaniaethu. Mae'r ymgyrch Amser i Newid Cymru, sy'n cael ei rhedeg gan y trydydd sector yng Nghymru, wedi bod yn bwysig iawn yn hyn o beth, fel y mae'r ymgyrch sy'n datblygu—rwy'n gwybod bod llawer o Aelodau yma wedi ei chefnogi—i greu cymunedau ystyriol o ddementia ar draws ein gwlad. Rwyf am inni gymryd eiliad i gydnabod cyfraniad hollbwysig ein partneriaid yn y trydydd sector tuag at gefnogi ein hagenda iechyd meddwl. Maent yn cyrraedd nifer o leoedd lle y byddai gwasanaethau statudol yn ei chael yn anodd. Mae BAWSO, er enghraifft, yma yng Nghymru, wedi darparu sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl unigol ac mewn grwpiau i dros 100 o ferched o gymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig â gwahanol anghenion iechyd meddwl yn ystod y 12 mis diwethaf.
- 16:28 **Nick Ramsay** [Bywgraffiad Biography](#) Senedd.tv
[Fideo Video](#)
I hear what you are saying; it is very good in terms of the sounds that you make, but I have spoken to people who have been involved with the voluntary sector in England in terms of mental health services and what you are saying is not happening at all. You need to make sure that people who are coming here from England are going to deliver proper mental health services from the voluntary sector. I do not think that you are. I think that you are just talking the talk but not walking the walk.
Rwy'n clywed yr hyn yr ydych yn ei ddweud; mae'n dda iawn o ran y synau yr ydych yn eu gwneud, ond rwyf wedi siarad â phobl sydd wedi bod yn ymwneud â'r sector gwirfoddol yn Lloegr o ran gwasanaethau iechyd meddwl ac nid yw'r hyn yr ydych yn ei ddweud yn digwydd o gwbl. Mae angen i chi wneud yn siŵr bod pobl sy'n dod yma o Loegr yn mynd i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl priodol o'r sector gwirfoddol. Nid wyf yn meddwl eich bod yn gwneud hynny. Rwy'n meddwl mai dim ond siarad yr ydych chi, ac nid yn gweithredu.

16:29

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am disappointed that Nick Ramsay would think that. I think that we have a vibrant set of third sector organisations in mental health. They will be disappointed to hear what you have said. I think that it is one of the great strengths of the health service here in Wales that we have in mental health, in particular, groups of people, who have often experienced mental health problems themselves, who work very hard to make sure that services are available for others. That happens in many ways across Wales. The Institute of Rural Health, for example, following some points that were raised in the Chamber by Bill Powell and others—

Rwy'n siomedig y byddai Nick Ramsay yn meddwl hynny. Rwy'n meddwl bod gennym set fywiog o sefydliadau trydydd sector ym maes iechyd meddwl. Byddan nhw'n siomedig o glywed yr hyn yr ydych wedi'i ddweud. Rwy'n meddwl ei fod yn un o gryfderau mawr y gwasanaeth iechyd yma yng Nghymru fod gennym ym maes iechyd meddwl, yn arbennig, grwpiau o bobl, sy'n aml wedi cael problemau iechyd meddwl eu hunain, ac sy'n gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod gwasanaethau ar gael i eraill. Mae hynny'n digwydd mewn llawer o ffyrdd ledled Cymru. Mae'r Sefydliad Iechyd Gwledig, er enghraifft, yn dilyn rhai pwyntiau a godwyd yn y Siambr gan Bill Powell ac eraill—

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:29

Nick Ramsay [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have to elaborate on that, in that it is not people who have experienced mental ill health; it is people who have worked with people in England on mental health issues and have come here. They come here to—Lynne Neagle is not here today, but she normally would be—Torfaen and Monmouthshire. People want to come here and support you on mental health collaboration issues, and you are not doing it. You have not done it. You know, because they have been in touch with you. I know they have.

Rhaid imi ymhelaethu ar hynny. Nid pobl sydd wedi profi salwch meddwl yw'r rhai rwy'n sôn amdanynt; pobl ydynt sydd wedi gweithio gyda phobl yn Lloegr ar faterion iechyd meddwl ac wedi dod yma. Maent yn dod yma i—nid yw Lynne Neagle yma heddiw, ond fe fyddai hi fel arfer—Dorfaen a Sir Fynwy. Mae pobl eisiau dod yma a'ch cefnogi ar faterion cydweithredu ym maes iechyd meddwl, ac nid ydych chi'n gwneud hynny. Nid ydych chi wedi gwneud hynny. Rydych yn gwybod, oherwydd eu bod wedi bod mewn cysylltiad â chi. Rwy'n gwybod eu bod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:30

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I hear the point that the Member has made. I am very happy to pursue it directly with him outside the confines of this debate.

I was making the point that Bill Powell and other Members in the Chamber had raised issues of rural mental health, and particularly the impact on farmers and others of difficulties in that industry. The Institute of Rural Health as a result has been conducting highly successful outreach mental health awareness raising and check-ups at livestock markets and other places in rural communities, which I know have been very warmly welcomed by them.
[Interruption.]

Rwy'n clywed y pwynt y mae'r Aelod wedi ei wneud. Rwy'n hapus iawn i ymdrin â hyn yn uniongyrchol gydag ef y tu allan i ffiniau'r ddadl hon.

Roeddwn yn gwneud y pwynt bod Bill Powell ac Aelodau eraill yn y Siambr wedi codi materion o safbwynt iechyd meddwl yng nghefn gwlad, ac yn enwedig effaith anawsterau yn y diwydiant ffermio ar ffermwyr ac eraill. Mae'r Sefydliad Iechyd Gwledig o ganlyniad wedi bod yn gwneud gwaith allgymorth hynod lwyddiannus i gynnal archwiliadau a chodi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl mewn marchnadoedd da byw a mannau eraill mewn cymunedau gwledig. Rwy'n gwybod bod hyn wedi cael croeso cynnes iawn ganddynt. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

16:31

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very grateful to the Minister for taking an intervention. The reality is that many people in rural communities cannot access basic health services, let alone mental health services. While there might be a limited amount of outreach, in fact, getting practical support on the ground is incredibly difficult for those in rural communities.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r Gweinidog am dderbyn ymyriad. Y realiti yw na all llawer o bobl mewn cymunedau gwledig gael gafael ar wasanaethau iechyd sylfaenol, heb sôn am wasanaethau iechyd meddwl. Er y gallai fod rhyw gymaint o allgymorth, mewn gwirionedd, mae'n hynod anodd i bobl mewn cymunedau gwledig cael cymorth ymarferol ar lawr gwlad.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I was recognising some of the particular challenges of rural communities. It does not help people in rural communities to access the services they need not to recognise the things that are and can be achieved there. It is one of the core strengths of our third sector that it is able to capture the strengths and assets of members right across Wales, to use those assets to build resilience and positive mental health, using, for example, the mental health first aid programme, which very successfully treats people in all communities in Wales to recognise the signs and symptoms of mental health, and to provide individuals with the skills needed to help those in crisis. I have been very keen to support the national service user and carers' forum, which is becoming an increasingly powerful voice for service users and carers in mental health in Wales, influencing the shape of our policy and services, sharing information and experience, and making sure that that experience is available in all different parts of our country.

Another way in which mental health services in Wales have changed enormously over time has been through research. When Aneurin Bevan was Minister for health, three years after the NHS was founded, he sent a note to the Medical Research Council, asking it how much money it spent on research in mental health. The answer was that it spent 1% of its budget on mental health, despite the fact that in those days, hundreds and thousands of people were still in long-stay mental health and learning disability hospitals. Things are very different today, and the Welsh NHS is at the forefront of some global research into dementia, for example, which affects increasing numbers in our ageing society. Cardiff University leads international collaborations in this field, and it very recently identified seven previously unknown genes that increase the risk of developing dementia. The MRC now provides £5 million to Cardiff University to develop neurodegenerative disease understanding, while Bangor University has £4 million, again looking to improve the experiences of those people with dementia.

Of course, there are and always will be areas where we can do more: in CAMHS, it is in providing services through the Welsh language, in tackling stigma in the workplace, and beyond. I look forward to hearing today's debate. If time allows, I hope to return to the amendments in closing, but I can indicate to Members at this point that, while the Government is unable to accept amendments 6, 7 and 8 on the order paper, we intend to support all the others.

Roeddwn yn cydnabod rhai o heriau penodol cymunedau gwledig. Nid yw peidio â chydabod yr hyn sy'n cael ei gyflawni ac y gellir ei gyflawni yno yn helpu pobl mewn cymunedau gwledig i fanteisio ar y gwasanaethau y mae arnynt eu hangen. Un o gryfderau craidd ein trydydd sector yw ei fod yn gallu elwa ar gryfderau ac asedau aelodau ar draws Cymru, defnyddio'r asedau hynny i feithrin gwytnwch ac iechyd meddwl cadarnhaol, gan ddefnyddio, er enghraifft, y rhaglen cymorth cyntaf iechyd meddwl, sy'n llwyddiannus iawn o ran trin pobl ym mhob cymuned yng Nghymru i adnabod arwyddion a symptomau iechyd meddwl, ac i roi i unigolion y sgiliau sydd eu hangen i helpu pobl mewn argyfwng. Rwyf wedi bod yn awyddus iawn i gefnogi fforwm cenedlaethol gofawyr a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n dod yn llais fwyfwy grymus ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr ym maes iechyd meddwl yng Nghymru, gan ddylanwadu ar ffurf ein polisi a'n gwasanaethau, rhannu gwybodaeth a phrofiad, a gwneud yn siŵr bod profiad ar gael ym mhob rhan o'n gwlad.

Ffordd arall y mae gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru wedi newid yn sylweddol dros amser yw trwy ymchwil. Pan oedd Aneurin Bevan yn Weinidog iechyd, dair blynedd ar ôl i'r GIG gael ei sefydlu, anfonodd nodyn at y Cyngor Ymchwil Meddygol, yn gofyn faint o arian yr oedd yn ei wario ar ymchwil ym maes iechyd meddwl. Yr ateb oedd ei fod yn gwario 1% o'i gyllideb ar iechyd meddwl, er bod cannoedd ar filoedd o bobl yn y dyddiau hynny yn dal i fod mewn ysbytai iechyd meddwl ac anabledd dysgu tymor hir. Mae pethau'n wahanol iawn heddiw, ac mae'r GIG yng Nghymru ar flaen y gad o ran gwaith ymchwil byd-eang i ddementia, er enghraifft, sef rhywbeth sy'n effeithio ar fwy a mwy o bobl wrth i'n cymdeithas heneiddio. Mae Prifysgol Caerdydd yn arwain mentrau rhyngwladol ar y cyd yn y maes hwn, ac yn ddiweddar iawn nododd saith o enynnau sy'n cynyddu'r risg o ddatblygu dementia, nad oedd neb yn gwybod amdanynt cyn hynny. Mae'r Cyngor Ymchwil Meddygol bellach yn darparu £5 miliwn i Brifysgol Caerdydd i ddatblygu dealltwriaeth o glefydau niwro-ddirwiol, ac mae Prifysgol Bangor yn cael £4 miliwn, unwaith eto â'r nod o wella profiadau pobl â dementia.

Wrth gwrs, fe fydd meysydd bob amser lle y gallwn wneud mwy: o ran gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod, mae'r meysydd hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, a mynd i'r afael â stigma yn y gweithle, a thu hwnt. Edrychaf ymlaen at glywed y ddadl heddiw. Os oes amser, rwy'n gobioethio dychwelyd at y gwelliannau wrth gloi, ond gallaf ddweud wrth yr Aelodau ar y pwynt hwn nad yw'r Llywodraeth yn gallu derbyn gwelliannau 6, 7 ac 8 ar y papur gorchymyn, ond ein bod yn bwriadu cefnogi'r gweddill.

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will be generous to you given the number of interventions you took, but you do have limited time to reply, and we will advise you.

Byddaf yn hael â chi o ystyried eich bod wedi cymryd cynifer o ymyriadau, ond amser cyfyngedig sydd gennych i ymateb, a byddwn yn rhoi cyngor ichi.

There is some feedback in the Chamber. Can people check that whatever mobile device they have brought into the Chamber is switched off? It is quite off-putting. Can you please ensure that any device you have is switched completely off?

I have selected the nine amendments to the motion. I call on Aled Roberts to move amendments 1 and 2, tabled in his name.

Gwelliant 1—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch 2013, wedi canfod bod 'plant a phobl ifanc yn parhau i wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gweithdrefn gadarnach i fyrddau iechyd adrodd ar leoliadau amhriodol ar wardiau iechyd meddwl oedolion.

Gwelliant 2—Aled Roberts

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y cyfnod pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, gan gynnwys system wedi ei symleiddio i rannu gwybodaeth rhwng darparwyr.

Mae rhywfaint o wichian yn y Siambr. A all pobl wneud yn siŵr eu bod yn diffodd unrhyw ddyfais symudol y maent wedi dod â hi i mewn i'r Siambr? Mae'n eithaf annymunol. A allwch chi wneud yn siŵr os gwelwch yn dda eich bod yn diffodd unrhyw ddyfais sydd gennych yn llwyr?

Rwyf wedi dethol y naw gwelliant i'r cynnig. Rwy'n galw ar Aled Roberts i gynnig gwelliannau 1 a 2, a gyflwynwyd yn ei enw.

Amendment 1—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Notes that the Child and Adolescent Mental Health Services: Follow-up Review of Safety Issues 2013, found that 'children and young people continue to be put at risk due to inappropriate admissions to adult mental health wards' and calls on the Welsh Government to establish a firmer procedure for health boards to report on inappropriate placements on adult mental health wards.

Amendment 2—Aled Roberts

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to introduce a national framework to ensure continuity of treatment in the transition between Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Mental Health Services, including a streamlined information sharing system between providers.

16:35

Aled Roberts [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I move amendments 1 and 2.

We do recognise the aspiration behind the Mental Health (Wales) Measure 2010, although in our amendments we are calling on the Welsh Government to establish a firmer procedure for health boards to report, particularly on inappropriate placements of children on adult mental health wards. We do this, once again, because the practice is inappropriate. It puts young people at risk and does nothing to improve their mental health. Using a theme that we have developed this afternoon, if we look back at the report of the children's commissioner in 2005-06, we will see that it stated that CAMHS provision was in crisis across Wales. Almost a decade on, following numerous Welsh Government strategies and initiatives, as well as Assembly committee inquiries and joint inspection reports, we feel that, without the amendments tabled today, the Welsh Government would still have us believe that mental health provision for young people is improving in Wales.

Cynigiad welliannau 1 a 2.

Rydym yn cydnabod y dyhead y tu ôl i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, er ein bod yn ein gwelliannau yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu trefn hysbysu fwy cadarn ar gyfer byrddau iechyd, yn enwedig ar achosion o leoli plant yn amhriodol ar wardiau iechyd meddwl i oedolion. Rydym yn gwneud hyn, unwaith eto, oherwydd bod yr arfer yn amhriodol. Mae'n rhoi pobl ifanc mewn perygl ac nid yw'n gwneud dim i wella eu hiechyd meddwl. Gan ddefnyddio thema yr ydym wedi'i datblygu brynhawn heddiw, os ydym yn edrych yn ôl ar adroddiad y comisiynydd plant yn 2005-06, byddwn yn gweld ei fod yn datgan bod darpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasgoed mewn argyfwng ar draws Cymru. Bron i ddegawd yn ddiweddarach, ar ôl cael nifer o strategaethau a mentrau gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal ag ymchwiliadau pwyllgor y Cynulliad ac adroddiadau arolygu ar y cyd, rydym yn teimlo y byddai Llywodraeth Cymru, heb y gwelliannau a gyflwynwyd heddiw, yn dal i fod eisiau inni gredu bod darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer pobl ifanc yn gwella yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yet, the evidence that we have seen in the Children and Young People Committee during our inquiry will tell you that the picture of health for young people requiring CAMHS treatment is anything but improving. Just weeks ago, headlines warned that child health experts believed that mental health services for children and young people in Wales are in a state of crisis. The number of vulnerable young people in Wales waiting more than 14 weeks to access CAMHS services has almost quadrupled, from 199 in January 2013 to 736 in January 2014.

I make no apologies for raising this issue in the Siambur today. I will raise it again as and when the committee's inquiry is debated, and I will continue to do so until the Welsh Government accepts the situation as it is and starts, more importantly, to do something to put it right.

Yes, we are proud that Wales was the first country in the UK to have a national strategy on child and adolescent mental health in 2001. However, unfortunately, despite all the action plans and frameworks, and even the Measure itself in 2010, there are increasing problems in terms of this service. The joint Healthcare Inspectorate Wales and Wales Audit Office report in 2009 highlighted what we are saying here today, as did the follow-up report in December last year.

It sounds all too familiar and I am concerned about the Government's continued complacency and insistence in trying to ignore the extent of the problem and the fact that young people are still being put at risk. Young people in Wales should receive the support and services they need and deserve. The Children's Commissioner for Wales has been trying to draw this to the Government's attention for years. In his evidence to the committee recently he said that it is not acceptable that young people are routinely being admitted to adult mental health wards.

According to the 2013 review, between July 2011 and June 2012, only eight admissions were reported to the Welsh Government. That compares with 58 identified by the review's analysis of health board data. That is a significant difference in figures. The Minister will no doubt mention the investment that the Welsh Government has made in CAMHS over the past few years. I recognise the significant increase in provision for mental health services generally. However, there is a problem with regard to the structure of those funding streams within individual health boards. In Betsi Cadwaladr, for example, if you check spend, yes, you will see that spend has increased significantly in terms of adult services, but because CAMHS is in children's services rather than mental health services, it has not seen the same proportional increase.

One area that we need to mention is that the 2013 review found that despite CAMHS having funding for additional in-patient beds at Bridgend and Abergele, they had not been provided, even though the Government had provided the money.

Eto i gyd, bydd y dystiolaeth yr ydym wedi'i gweld yn y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn ystod ein hymchwiliad yn dangos ichi nad yw'r darlun ar gyfer pobl ifanc sydd angen triniaeth iechyd meddwl yn sicr yn gwella. Dim ond wythnos yn ôl, rhybuddiodd penawdau fod arbenigwyr iechyd plant yn credu bod gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yng Nghymru mewn argyfwng. Mae nifer y bobl ifanc sy'n agored i niwed yng Nghymru ac sy'n aros mwy na 14 wythnos i dderbyn gwasanaethau iechyd meddwl wedi cynyddu bron bedair gwaith, o 199 ym mis Ionawr 2013 i 736 ym mis Ionawr 2014.

Nid wyf yn ymddiheuro am godi'r mater hwn yn y Siambur heddiw. Byddaf yn ei godi eto pan fydd ymchwiliad y pwyllgor yn cael ei drafod, a byddaf yn parhau i wneud hynny hyd nes y bydd Llywodraeth Cymru'n derbyn y sefyllfa fel y mae ac yn dechrau, yn bwysicach, gwneud rhywbeth i unioni'r sefyllfa.

Ydym, rydym yn falch mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i sefydlu strategaeth genedlaethol ar iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn 2001. Fodd bynnag, yn anffodus, er gwaethaf yr holl gynlluniau gweithredu a fframweithiau, a hyd yn oed y Mesur ei hun yn 2010, mae problemau cynyddol o ran y gwasanaeth hwn. Roedd yr adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn 2009, a'r adroddiad dilynol ym mis Rhagfyr y llynedd, yn tynnu sylw at yr hyn yr ydym yn ei ddweud yma heddiw.

Mae'n swnio'n hynod o gyfarwydd ac rwy'n pryderu am hunanfodlonrwydd y Llywodraeth a'r ffaith ei bod yn parhau i geisio anwybyddu maint y broblem a'r ffaith bod pobl ifanc yn dal i gael eu rhoi mewn perygl. Dylai pobl ifanc yng Nghymru dderbyn y gefnogaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt ac y maent yn eu haeddu. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi bod yn ceisio tynnu sylw'r Llywodraeth at hyn ers blynnyddoedd. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgor yn ddiweddar dywedodd nad yw'n dderbyniol bod pobl ifanc yn cael eu derbyn fel mater o drefn i wardiau iechyd meddwl oedolion.

Yn ôl yr adolygiad yn 2013, rhwng mis Gorffennaf 2011 a mis Mehefin 2012, hysbyswyd Llywodraeth Cymru am wyth derbyniad yn unig. Mae hynny'n cymharu â 58 a nodwyd gan ddadansoddiad yr adolygiad o ddata byrddau iechyd. Dyna wahaniaeth sylweddol mewn ffigurau. Diau y bydd y Gweinidog yn sôn am y cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i fuddsoddi mewn CAMHS dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Rwy'n cydnabod y cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn gyffredinol. Fodd bynnag, ceir problem o ran strwythur y ffrydiau ariannu hynny o fewn byrddau iechyd unigol. Yn Betsi Cadwaladr, er enghraifft, os ydych yn edrych ar y gwariant, iawn, byddwch yn gweld bod gwariant wedi cynyddu'n sylweddol o ran gwasanaethau i oedolion, ond oherwydd bod CAMHS yn y gwasanaethau plant yn hytrach na'r gwasanaethau iechyd meddwl, nid yw wedi gweld yr un cynnydd cyfrannol.

Un maes y mae angen inni ei grybwyll yw bod adolygiad 2013 wedi canfod nad oedd gwelyau cleifion mewnol ychwanegol wedi'u darparu ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Abergele, er bod CAMHS wedi cael cyllid ar eu cyfer, er bod y Llywodraeth wedi darparu'r arian.

Our amendment 2

'Calls on the Welsh Government to introduce a national framework to ensure continuity of treatment in the transition between Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Mental Health Services, including a streamlined information sharing system between providers.'

Care plans must be effective. We need to ensure that services are delivered in a fully integrated and joined-up way to support young people's needs. Far too often, young people lose access to mental health services when they move from CAMHS to adult services. This transition must be prioritised so that we avoid a situation where individuals only re-engage with services several years later when they have again reached crisis point.

Earlier in the year, the young wing of our party tabled a motion to conference calling for action to improve access to mental health services, to reduce waiting times and for a national framework to ensure continuity of treatment for young people. Minister, you are on record as saying that more can be done to improve CAMHS provision in Wales, and I challenge you today to show your commitment, which I know you have, to young people in Wales with mental health problems by supporting our amendments.

Mae ein gwelliant 2

'Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y cyfnod pontio rhwng y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, gan gynnwys system wedi'i symleiddio i rannu gwybodaeth rhwng darparwyr.'

Rhaid i gynlluniau gofal fod yn effeithiol. Mae angen inni sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu mewn ffordd gwbl integredig a chydgyssylltiedig i gefnogi anghenion pobl ifanc. Yn llawer rhy aml, mae pobl ifanc yn colli eu cyswllt â gwasanaethau iechyd meddwl pan fyddant yn symud o CAMHS i wasanaethau oedolion. Rhaid rhoi blaenoriaeth i'r broses bontio hon er mwyn inni osgoi sefyllfa lle nad yw unigolion ond yn ailymgysylltu â gwasanaethau nifer o flynyddoedd yn ddiweddarach pan fyddant wedi cyrraedd argyfwng unwaith eto.

Yn gynharach yn y flwyddyn, cyflwynodd adain ifanc ein plaid gynneg i'r gynhadledd yn galw am weithredu i'w gwneud yn rhwyddach cael gafael ar wasanaethau iechyd meddwl ac i leihau amseroedd aros, ac yn galw am fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth ar gyfer pobl ifanc. Weinidog, rydych wedi dweud ar goedd y gellir gwneud mwy i wella'r ddarpariaeth CAMHS yng Nghymru, ac fe'ch heriaf heddiw i ddangos eich ymroddiad, yr wyf yn gwybod sydd gennych, i bobl ifanc yng Nghymru sydd â phroblemau iechyd meddwl drwy gefnogi ein gwelliannau.

16:40

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Darren Millar to move amendments 3, 4 and 5, tabled in the name of Paul Davies.

Gwelliant 3—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i wella trefniadau pontio ar gyfer y rheiny sy'n symud o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

Gwelliant 4—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i neilltuo gwariant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac yn galw am drefniadau monitro gwell gan fyrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.

Gwelliant 5—Paul Davies

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Galwaf ar Darren Millar i gynneg gwelliannau 3, 4 a 5 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

Amendment 3—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Recognises the need to improve transitional arrangements for those moving from Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Mental Health services.

Amendment 4—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Notes the Welsh Government's commitment to ring-fencing spending on mental health services in Wales and calls for improved monitoring arrangements by local health boards to ensure that this commitment is met.

Amendment 5—Paul Davies

Add as new point at end of motion:

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yn nodi'r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles gwael a ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol anffafriol a ffactorau croes eraill, ac yn galw am gydweithrediad gwell rhwng y GIG ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

Notes the links between poor mental health and well-being and adverse economic, social, environmental and other factors, and calls for improved collaboration between the NHS and local authorities to tackle these.

16:40

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I move amendments 3, 4 and 5.

Cynigiad welliannau 3, 4 a 5.

Notwithstanding the problems that may have been apparent in some parts of Wales, I have to say that my experience of the third sector in my constituency, and in those other parts of Wales where I have seen the third sector operating, has been extremely positive. I want to pay tribute in particular to Mind Cymru, Gofal and Hafal for their work. I think that the Time to Change Wales campaign has been incredibly positive in terms of its impact in Wales. I also want to applaud the work of those people who have been encouraging people to undertake dementia-friendly training and adopt a dementia-friendly approach to workplaces and, indeed, to whole towns and communities.

Er gwaethaf y problemau a allai fod wedi bod yn amlwg mewn rhai rhannau o Gymru, mae'n rhaid i mi ddweud bod fy mhrofiad i o'r trydydd sector yn fy etholaeth, ac yn y rhannau eraill hynny o Gymru lle rwyf wedi gweld y trydydd sector yn gweithredu, wedi bod yn hynod gadarnhaol. Hoffwn dalu teyrnged yn arbennig i Mind Cymru, Gofal a Hafal am eu gwaith. Credaf fod yr ymgyrch Amser i Newid Cymru wedi bod yn hynod o gadarnhaol o ran ei effaith yng Nghymru. Rwyf hefyd am ganmol gwaith y bobl hynny sydd wedi bod yn annog pobl i ymgymryd â hyfforddiant ystyriol o ddementia a mabwysiadu dull gweithredu ystyriol o ddementia i weithleoedd ac, yn wir, i drefi a chymunedau cyfan.

There has been a consensus in the Chamber on mental health in recent years, and I think that that has been a very positive thing. We have seen some innovative approaches from the Government towards transforming—certainly a desire to transform the patient experience with regard to mental health.

Bu consensws yn y Siambr ar iechyd meddwl yn y blynyddoedd diwethaf, ac rwy'n meddwl bod hynny wedi bod yn rhywbeth cadarnhaol iawn. Rydym wedi gweld rhai dulliau arloesol gan y Llywodraeth tuag at weddnewid—yn sicr awydd i weddnewid profiad y claf o ran iechyd meddwl.

However, I think that it is fair to say that there are still problems that need to be addressed. I am sure that we would all share concerns about some aspects of services. One of those, quite rightly, has already been referred to by Aled Roberts, and that is the transition arrangements between child and adolescent mental health services. We know that there have been concerns about the number of children waiting for psychiatric services in Wales. The number of children waiting more than 14 weeks has soared in the past year from just below 200 to over 736.

Fodd bynnag, rwy'n meddwl ei bod yn deg i ddweud bod problemau o hyd y mae angen mynd i'r afael â nhw. Rwy'n siŵr y byddem i gyd yn rhannu pryderon ynghylch rhai agweddau ar wasanaethau. Mae un o'r rheini, yn gwbl briodol, eisoes wedi ei grybwyll gan Aled Roberts, sef y trefniadau pontio rhwng gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Rydym yn gwybod y bu pryderon ynghylch nifer y plant sy'n aros am wasanaethau seiciatrig yng Nghymru. Mae nifer y plant sy'n aros mwy na 14 wythnos wedi cynyddu'n aruthrol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o ychydig o dan 200 i dros 736.

Some general practitioners are choosing whether or not to refer people for talking therapies because of these waits, and I have even heard of GPs who are hesitant to refer because of the waiting times. That clearly is not right; if someone needs a talking therapy or access to an appropriate clinical expert, they should get that in a timely manner. We know that outcomes are affected with regard to mental health the longer that people's needs go unattended.

Mae rhai meddygon teulu yn dewis pa un a ydynt am atgyfeirio pobl at therapïau siarad ai peidio oherwydd yr amseroedd aros hyn, ac rwyf hyd yn oed wedi clywed am feddygon teulu sy'n betrusgar o ran atgyfeirio oherwydd yr amseroedd aros. Mae'n amlwg nad yw hynny'n iawn; os bydd rhywun angen therapi siarad neu fynediad at arbenigwr clinigol priodol, dylent gael hynny mewn modd prydlon. Rydym yn gwybod bod y canlyniadau yn cael eu heffeithio o ran iechyd meddwl po hiraf y mae anghenion pobl yn parhau heb dderbyn sylw.

Gofal recently undertook a survey, and the comments section in that survey was littered with people's discontentment with those waiting times. The number of people waiting for treatment is, of course, a matter of concern that clearly needs to be addressed. You cannot go on allowing people to wait for many months to access services such as counselling and psychotherapy and not expect it to have an impact on individuals. Of course, those people who can afford to pay for private counselling do so, but not everybody is in that position.

Yn ddiweddar, cynhaliodd Gofal arolwg, ac roedd yr adran sylwadau yn yr arolwg hwnnw'n llawn o anffodlonrwydd pobl gyda'r amseroedd aros hynny. Mae nifer y bobl sy'n aros am driniaeth, wrth gwrs, yn fater o bryder y mae angen rhoi sylw iddo yn amlwg. Ni allwch barhau i adael pobl i aros am fisoedd lawer i gael mynediad at wasanaethau megis cwnsela a seicotherapi heb ddisgwyl iddo gael effaith ar unigolion. Wrth gwrs, mae'r bobl hynny sy'n gallu fforddio talu am gwnsela preifat yn gwneud hynny, ond nid yw pawb yn y sefyllfa honno.

I welcomed, of course, the £0.25 million of additional funding that the Welsh Government announced to assist with addressing waiting times, but I do not think that we have yet seen the impact of that on the ground. It appears that it has been gobbled up by health boards in different ways, perhaps, than it was originally intended. That is why we have tabled a very clear amendment to ask the Welsh Government to do more to hold health boards to account for their spending on mental health, and, in particular, on child and adolescent mental health services. Aled Roberts made reference to the fact that that is not ring-fenced within the mental health budget and that it is sometimes incorporated in other budgets in local health boards. I think that it is important that we know precisely what is being spent on these services, so that the Welsh Government's very clear commitment, to be fair to it, to ensuring that there is ring-fencing of mental health spend is being fulfilled.

Concern was also expressed by Healthcare Inspectorate Wales and the Wales Audit Office, in their report in December 2013, regarding children being put at risk because of inappropriate admissions to adult mental health wards, so we know that there is a capacity issue in the system when it comes to in-patient beds that we are not quite on top of. It would be helpful to know, Minister, in your response to the debate, precisely what action you are taking to ensure that there is adequate capacity in Wales for those people who need mental health in-patient beds and who are children or adolescents.

One final point that I want to raise today is that we all, in the Chamber, supported the Mental Health (Wales) Measure 2010. It had some very laudable aims, but I have yet to see it having the sort of impact that we all anticipated it would have on patients and, in particular, Minister—and it would be helpful to hear your response to this—in relation to the opportunity for patients who had been in-patients to self-refer. I am not convinced that the knowledge of that among patient groups is sufficiently widespread for it to have the impact that everyone wanted it to have. I know that you will review the impact of the Mental Health (Wales) Measure 2010, and that is a very positive thing to do, but if someone has had a crisis episode and wants to prevent another, the ability to re-refer themselves is very important.

Rwy'n croesawu, wrth gwrs, y £0.25 miliwn o gyllid ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo i fynd i'r afael ag amseroedd aros, ond nid wyf yn credu ein bod wedi gweld effaith hynny ar lawr gwlad hyd yn hyn. Mae'n ymddangos ei fod wedi cael ei lyncu gan fyrdau iechyd mewn gwahanol ffyrdd, efallai, nag a fwiadwyd yn wreiddiol. Dyna pam yr ydym wedi cyflwyno gwelliant clir iawn i ofyn i Lywodraeth Cymru wneud mwy i ddwyn byrdau iechyd i gyfrif am eu gwariant ar iechyd meddwl, ac, yn benodol, ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Cyfeiriodd Aled Roberts at y ffaith nad wyf hynny wedi'i glustnodi o fewn y gyllideb iechyd meddwl a'i fod yn cael ei ymgorffori weithiau mewn cyllidebau eraill mewn byrdau iechyd lleol. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig ein bod yn gwybod yn union beth sy'n cael ei wario ar y gwasanaethau hyn, fel bod ymrwymiad clir iawn Llywodraeth Cymru, i fod yn deg iddi, yn cael ei chyflawni, drwy sicrhau bod gwariant iechyd meddwl yn cael ei glustnodi.

Mynegwyd pryder hefyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn eu hadroddiad ym mis Rhagfyr 2013, ynghylch plant yn cael eu rhoi mewn perygl oherwydd derbyniadau amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion, felly rydym yn gwybod bod problem o ran bod digon o le yn y system o ran gwelyau cleifion mewnlol nad ydym yn ymdopi'n llawn â hi. Byddai'n ddefnyddiol gwybod, Weinidog, yn eich ymateb i'r ddadl, yn union pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau bod digon o le yng Nghymru ar gyfer y bobl hynny sydd angen gwelyau cleifion mewnlol iechyd meddwl ac sy'n blant neu bobl ifanc.

Un pwynt olaf yr wyf am ei godi heddiw yw ein bod i gyd, yn y Siambr, wedi cefnogi'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Roedd rhai amcanion canmoladwy iawn yn ddo, ond rwyf eto i'w weld yn cael y math o effaith yr oeddem i gyd yn rhagweld y byddai'n ei chael ar gleifion ac, yn benodol, Weinidog—a byddai'n ddefnyddiol i glywed eich ymateb i hyn—ynghylch â'r cyfle i gleifion a oedd wedi bod yn gleifion mewnlol i hunanatgyfeirio. Nid wyf yn argyhoeddedig bod y wybodaeth am hynny ymhlith grwpiau cleifion yn ddigon eang iddo gael yr effaith y mae pawb eisiau iddo ei gael. Gwn y byddwch yn adolygu effaith y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, ac mae hynny'n rhywbeth cadarnhaol iawn i'w wneud, ond os bydd rhywun wedi cael cyfnod o argyfwng ac eisiau atal un arall, mae'r gallu i ailatgyfeirio eu hunain yn bwysig iawn.

16:45

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on Elin Jones to move amendments 6, 7, 8 and 9, tabled in her name.

Gwelliant 6—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi nodi problemau difrifol o ganlyniad i brinder gwelyau mewn wardiau gofal aciwt, ac yn nodi y gallai'r prinder hwn arwain at ddefnyddio celloedd yr heddlu yn amhriodol.

Gwelliant 7—Elin Jones

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Galwaf ar Elin Jones i gynig gwelliannau 6, 7, 8 a 9, a gyflwynwyd yn ei henw.

Amendment 6—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Notes that the Royal College of Psychiatrists have identified serious problems as a result of bed shortages in acute care, and notes that these shortages could result in inappropriate use of police cells.

Amendment 7—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned, ac yn gresynu at y problemau sy'n parhau i godi wrth geisio cael mynediad at y gwasanaethau hyn.

Gwelliant 8—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y ffaith bod amseroedd aros ar gyfer y gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed wedi dirywio'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf.

Gwelliant 9—Elin Jones

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta.

Add as new point at end of motion:

Recognises the importance of community based mental health services, and regrets the continuing problems in accessing these services.

Amendment 8—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Regrets that waiting times for child and adolescent mental health services have deteriorated significantly over the past year.

Amendment 9—Elin Jones

Add as new point at end of motion:

Calls on the Welsh Government to carry out a review of the Eating Disorder Framework.

16:45

Elin Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Ddirprwy Lywydd, rwy'n cynnig gwelliannau 6, 7, 8 a 9, yn enw Plaid Cymru.

Rwyf yn cefnogi y prynhawn yma bob gwelliant gan y pleidiau eraill a'r cynnig gan y Llywodraeth. Mae rhai o'r pwyntiau sydd yn y gwelliannau hynny yn rai pwysig iawn, yn enwedig y mater sydd wedi cael ei gyfeirio ato eisoes yn y ddadl hon, sef sicrhau bod unigolyn yn symud yn esmwyth o wasanaethau iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc i wasanaethau oedolion. Dylid osgoi ar bob cyfrif fod pobl yn cwmpo rhwng dwy stôl a cholli'r dilyniant gwasanaeth a dilyniant triniaeth sydd mor bwysig.

O ran pobl ifanc a phlant, wrth gwrs, mae'n rhaid nodi, fel y mae eraill wedi ei wneud, fod y nifer sy'n aros am driniaethau yn cynyddu, a hynny mewn ffordd weddol o ddramatig. Fel y bu i Aled Roberts gyfeirio ato, mae'r nifer sy'n aros dros 16 wythnos am apwyntiad fel claf allanol wedi treblu dros gyfnod o flwyddyn yn unig. Mae'n siŵr bod hynny'n fater o gonsŷrn i'r Gweinidog, fel y mae i fi. Gobeithiaf y gall y Gweinidog amlinellu'r rheswm am y cynnydd sylweddol hwnnw ac, yn bwysicach na hynny, y camau y mae'n bwriadu eu cymryd i leihau'r amser aros.

Deputy Presiding Officer, I move amendments 6, 7, 8 and 9, in the name of Plaid Cymru.

Today, I will be supporting all amendments tabled by the other parties as well as the Government's motion. Some of the points in those amendments are very important, particularly the issue that has already been referred to in this debate, namely ensuring that an individual can transfer smoothly from child and adolescent mental health services to adult services. We should avoid on all counts people falling between two stools and losing that continuity of service and treatment that is so important.

In terms of young people and children, of course, we must note, as others have already done, that the numbers waiting for treatment are increasing in a relatively dramatic way. As Aled Roberts mentioned, the number of people waiting over 16 weeks for an outpatient appointment has trebled over a period of just 12 months. I am sure that that must be a matter of concern for the Minister, as it is for me. I hope that the Minister can outline the reasons behind that significant increase and, more importantly, the steps that he intends to take to reduce that waiting time.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Hoffwn gyffwrdd ar ofal iechyd meddwl aciwt cyn canolbwyntio ar ofal cymunedol, sydd yn bwysicach, wrth gwrs, wrth atal dirywiad cyflwr unrhyw unigolyn. Ar ofal aciwt, fel mae gwelliant 6 yn sôn, mae cwmp yn nifer y gwelyau aciwt yn gallu arwain at ddefnydd amhriodol o gelloedd yr heddlu. Dangosodd arolwg diweddar gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion fod pryder sylweddol am y cwmp yn nifer y gwelyau aciwt. Os yw'r ddarpariaeth gymunedol yn ddigonol, yna ni ddylai fod problem wrth ostwng nifer y gwelyau aciwt, ond os nad yw'r gofal cymunedol hwnnw yn ofal 24-awr, saith diwrnod yr wythnos, yna mae sefyllfaoedd creisis yn datblygu am 12 o'r gloch ar nos Wener, pan mae angen gwely a chymorth ar unigolyn. Mae'n rhaid i'r gwely hwnnw naill ai fod mewn ysbyty aciwt neu gael ei gomisiynu gan y trydydd sector. Cawsom, yng Ngheredigion, brofiad uniongyrchol o gau ward gyfan o welyau aciwt yn Afallon ym Mronglais ddwy flynedd yn ôl. Erbyn hyn, dwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r bwrdd iechyd yn gorfod derbyn bod yn rhaid darparu gwely creisis o'r math hwn yn y gymuned, oherwydd mae pobl wedi gorfod teithio pellteroedd amhriodol i gael triniaeth dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Yn ddefnyddol, yn y gwasanaeth gofal sylfaenol a chymunedol mae trin pobl gydag anhwylder iechyd meddwl. I wneud hynny'n effeithiol, mae angen sicrhau bod ystod o driniaethau ar gael, nid dim ond meddyginiaeth. Mae'n siomedig sylwi, er enghraifft, fod arolygon gan Gofal yn ddiweddar o'i gleientiaid yn dangos bod tueddiad gormodol gan feddygon teulu i roi unigolion ar feddyginiaeth yn hytrach na chyfeirio unigolyn at therapyddion, ac ar gyfer therapi siarad yn benodol. Mae mynediad at y gwasanaeth hwnnw yn parhau i fod yn annigonol, felly mae'r cam cyntaf o roi cefnogaeth therapi i unigolion yn annigonol. Felly, mae angen gwella'r agwedd honno.

Agwedd arall ar waith iechyd meddwl y mae rhai yn dangos consŷrn cynyddol amdano yw nifer y hunanladdiadau ymysg oedolion. Rydym wedi trafod ar nifer o achosion yn y Cynulliad y gwaith i atal hunanladdiad ymysg ein pobl ifanc, ond mae gwaith wedi cael ei wneud a thystiolaeth benodol wedi cael ei chasglu yn ddiweddar gan Gymdeithas Seicolegol Prydain yng Nghymru yn datgan ei bod yn credu bod angen edrych ar raglen gynhwysfawr i atal hunanladdiad ymysg oedolion. Roedd yn dda o beth clywed y Gweinidog yn sôn am raglen benodol gan y Sefydliad Iechyd Gwledig yng nghyd-destun gweithio gyda'r sector amaethyddol, lle mae consŷrn wedi bod dros nifer o flynyddoedd ynglŷn â nifer fawr o hunanladdiadau.

I would like to touch upon acute mental health care before turning to community health care, which is important, of course, with regard to preventing the decline in any individual's condition. On acute care, as amendment 6 mentions, the fall in the number of acute beds can lead to the inappropriate use of police cells. A recent survey by the Royal College of Psychiatrists shows that there is serious concern about the fall in the number of acute beds. If community provision is adequate, then there should not necessarily be a problem in terms of reducing the number of acute beds, but if the community care is not 24-hours a day, seven days a week care, then crisis situations arise at midnight on a Friday evening, when a bed or assistance is required by an individual. Either that bed has to be in an acute setting, or it has to be commissioned through the third sector. In Ceredigion, we had direct experience of the closure of a whole ward of acute beds at Afallon in Bronglais two years ago. Two years hence, the health board has had to accept that crisis beds of this kind have to be provided in the community, because people have had to travel inappropriate distances just to access treatment over the past two years.

Ideally, it is in the primary healthcare and community healthcare setting that people with mental ill health should be treated. To do that effectively, we need to ensure that there is a range of treatments available, not only drugs. It is disappointing to note that, for example, Gofal's survey recently showed that there is an increasing trend among GPs to prescribe drugs for individuals, rather than referring those individuals to therapists, particularly for talking therapies. Access to this service continues to be inadequate, so that first step of providing therapeutic support for individuals is inadequate. Therefore, we need to make improvements in that area.

Another aspect of mental health work that people are expressing increasing concern about is the number of suicides among adults. We have discussed on a number of occasions in the Assembly the work to prevent suicide among our young people, but work has been done and specific evidence gathered recently by the British Psychological Society in Wales in which it states that it believes that we also need to look at a comprehensive programme to prevent suicide among adults. It was positive to hear the Minister talking about a specific programme by the Institute of Rural Health in the context of its work with the agricultural sector, where concern has been expressed over a number of years about the high number of suicides.

Rwyf am orffen drwy dynnu sylw at anghenion rhan o'r boblogaeth nad ydym, efallai, yn ei thrafod yn aml iawn yn y Cynulliad hwn, sef yr unigolion hynny sydd yn y carchar a'r gwasanaeth iechyd meddwl sydd ar eu cyfer hwy. Mae adroddiadau diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru yn nodi nifer o wendidau'n ymwneud ag iechyd meddwl o fewn carchardai, yn enwedig y cysylltiad rhwng y gwasanaeth iechyd meddwl a'r gwasanaeth sy'n ymwneud â'r camddefnydd o gyffuriau a'r angen i gryfhau hynny, ynghyd â'r angen i gryfhau'r hyfforddiant ar gyfer y bobl hynny sy'n gweithio yn ein carchardai i fedru adnabod yn gynnar unrhyw anhwylder iechyd meddwl ar unigolyn. Felly, byddem yn gobeithio y byddai'r Gweinidog yn gallu cyfeirio at y camau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gwrdd ag anghenion y bobl hynny hefyd.

I want to conclude by highlighting the needs of a sector of the population that we do not, perhaps, discuss very often in this Assembly, namely those individuals who are in prison and the mental health services available to them. A recent report by Public Health Wales and the Welsh Government identified a number of weaknesses relating to mental health provision within prisons, particularly the link between mental health services and the service relating to the misuse of drugs and the need to strengthen it, along with the need to strengthen the training for those who work in our prisons so that they can identify at an early stage any mental health problems affecting individuals. Therefore, we would hope that the Minister would be able to refer to the steps that the Welsh Government is taking to meet the needs of those people also.

16:51

Rebecca Evans [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mental health charities across the board make a really compelling case for parity of esteem between mental ill health and physical ill health. In my mind, they have always had parity, and I think that the Welsh Government actions, through the Measure and the strategy, are driving us on in that direction. The Minister has already spoken of some of the significant steps forward that we should not lose sight of. However, treating people with mental health problems with the same dignity, respect and courtesy as people with physical problems should be a given in all services. Unfortunately, Mind Cymru tells me that this is not always the case. For example, it still witnesses poor standards of cleanliness and maintenance on some mental health in-patient settings compared with physical health settings. I call on health boards to investigate and address this disparity because, quite simply, there is no excuse for it.

Parity does not necessarily exist in the minds of all practitioners yet either. Gofal's study, which was undertaken to evaluate progress on the mental health Measure through the lens of a patient—and other Members have referred to it already—showed that while there is a very welcome increase in the proportion of people who say that their GP is 'very' or 'extremely' understanding and empathetic to mental health issues, it is still concerning that around a fifth of respondents felt that their GP was only 'slightly' or 'not at all' understanding of mental health conditions. The good news is that the Measure is taking us steadily forward in the right direction, but we should build on that momentum. I look forward to next year's survey revealing further progress.

Mae elusennau iechyd meddwl yn gyffredinol yn gwneud achos cryf iawn dros barch cydradd rhwng afiechyd meddwl ac afiechyd corfforol. Yn fy marn i, maent bob amser wedi cael cydraddoldeb, ac rwy'n credu bod camau gweithredu Llywodraeth Cymru, drwy'r Mesur a'r strategaeth, yn ein gyrru ymlaen i'r cyfeiriad hwnnw. Mae'r Gweinidog eisoes wedi sôn am rai o'r camau pwysig ymlaen na ddylem golli golwg arnynt. Fodd bynnag, dylai trin pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gyda'r un urddas, parch a chwarteisi â phobl â phroblemau corfforol ddigwydd yn naturiol yn yr holl wasanaethau. Yn anffodus, mae Mind Cymru yn dweud wrthyf nad yw hyn yn wir bob amser. Er enghraifft, mae'n dal i weld safonau gwael o ran glendia a chynnal a chadw mewn rhai lleoliadau cleifion mewnlol iechyd meddwl o'i gymharu â lleoliadau iechyd corfforol. Galwaf ar fyrdau iechyd i ymchwilio a mynd i'r afael â'r anghydraddoldeb hwn oherwydd, yn gwbl syml, nid oes unrhyw esgus drosto.

Nid yw cydraddoldeb yn bodoli o reidrwydd ym meddyliau'r holl ymarferwyr hyd yn hyn ychwaith. Mae astudiaeth Gofal, a gynhaliwyd i werthuso cynnydd ar y Mesur iechyd meddwl trwy lygaid claf—ac mae Aelodau eraill wedi cyfeirio at hyn eisoes—yn dangos er bod cynnydd calonogol iawn yn y gyfran o bobl sy'n dweud bod eu meddyg teulu yn dangos dealltwriaeth neu empathi 'helaeth' neu 'hynod' i faterion iechyd meddwl, mae'n parhau i fod yn bryder bod tua un rhan o bump o'r ymatebwyr yn teimlo nad oedd eu meddyg teulu ond yn dangos dim ond 'ychydig' o ddealltwriaeth neu 'ddim o gwbl' o gyflyrau iechyd meddwl. Y newyddion da yw bod y Mesur yn mynd â ni ymlaen yn gyson i'r cyfeiriad cywir, ond dylem adeiladu ar y momentwm hwnnw. Edrychaf ymlaen at ddatgelu cynnydd pellach yn arolwg y flyddyn nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I very much welcome the introduction of the care and treatment plans by the Welsh Government because they have the potential to transform the way a person receives care and support in treating them as a whole person. I was delighted to hear the Minister in his opening remarks saying that the target of 90% has now been met, but let us keep going for that final 10 per cent. I would very much like to see an analysis of those care and treatment plans and their delivery in order that we can be satisfied that, in practice, they are as holistic as they are intended to be, with all of the domains completed. I know that there are some concerns among some mental health charities that some aspects of the plans relating more to wellbeing, such as social, cultural or spiritual needs, do not have parity of esteem in the plans with domains such as medication. If that is the case, it must be addressed to avoid undermining the care and treatment plans and their significant potential.

I spoke to Hafal earlier and the charity was keen to impress upon me a further layer of complexity. While mental health does not have parity with physical health, physical ill health caused by mental ill health, such as through the side effects of medication, is often sidelined even further. We cannot ignore this, because we know that people with serious mental illness have a life expectancy that is around 17 years lower than that for the general population.

Parity of esteem between physical and mental health certainly does not exist in the media. I was shocked, when speaking at an event regarding supporting people with dementia in primary care settings, to hear the health Minister saying he could probably count on one hand the number of times he had been asked by journalists about mental health. In some of the London-based media, people with mental ill health are routinely called 'mental patients' and I wince every time I hear that phrase, which should be consigned to history's dustbin back in Victorian times. Physical illnesses are just not subject to the same sneering, cruel language. Who can forget 'The Sun's' '1,200 Killed by Mental Patients' headline last year, suggesting very little editorial progress since its 'Bonkers Bruno Locked Up' story a decade before? If there were parity of esteem among the public and among employers, there would be no need for campaigns such as the Welsh Government-backed 'Time to Change Wales'. When was the last time someone even contemplated turning up to a fancy-dress party dressed as a person with asthma, arthritis or as someone who was hearing impaired? It just does not happen, but still 'fancy dress' is in the top 10 internet searches for the popular term 'mental patient', alongside 'kills', 'jokes' and 'experiments'. That is why it is so important to challenge the stigma and stereotypes, but it will take generational change, which is why I welcome the plans to continue the work of the 'Time to Change Wales' campaign beyond its current funding allocation, and to extend its reach to children and young people, so that we can hopefully reach a situation where parity of esteem between physical and mental health goes without saying.

Croesawaf yn fawr gyflwyno'r cynlluniau gofal a thriniaeth gan Lywodraeth Cymru oherwydd bod ganddynt y potensial i weddnewid y ffordd y mae unigolion yn cael gofal a chymorth wrth eu trin fel pobl gyfan. Roeddwn yn falch iawn o glywed y Gweinidog yn ei sylwadau agoriadol yn dweud bod y targed o 90% bellach wedi ei fodloni, ond gadewch i ni gadw i fynd tuag at y 10 y cant terfynol. Hoffwn yn fawr iawn gweld dadansoddiad o'r cynlluniau gofal a thriniaeth hynny a sut y'i darperir er mwyn i ni fod yn fodlon, yn ymarferol, eu bod mor gyfannol ag y bwriedir iddynt fod, gyda phob un o'r meysydd wedi'i gwblhau. Gwn fod rhai pryderon ymhlith rhai elusennau iechyd meddwl nad yw rhai agweddau ar y cynlluniau yn ymwneud yn fwy â lles, fel anghenion cymdeithasol, diwylliannol neu ysbrydol, yn cael parch cydradd yn y cynlluniau gyda meysydd fel meddyginiaeth. Os yw hynny'n wir, mae'n rhaid rhoi sylw iddo i osgoi tanseilio'r cynlluniau gofal a thriniaeth a'u potensial sylweddol.

Siaradais â Hafal yn gynharach ac roedd yr elusen yn awyddus i bwysleisio wrthyf haen arall o gymhlethdod. Er nad oes gan iechyd meddwl gydraddoldeb ag iechyd corfforol, mae salwch corfforol a achosir gan salwch meddwl, fel a ddigwyddir drwy sgîl-ffeithiau meddyginiaeth, yn aml yn cael ei wthio o'r neilltu hyd yn oed ymhellach. Ni allwn anwybyddu hyn, oherwydd ein bod yn gwybod bod gan bobl gydag afiechyd meddwl difrifol ddisgwyliad oes sydd oddeutu 17 mlynedd yn fyrrach nag ar gyfer y boblogaeth yn gyffredinol.

Mae'n sicr nad yw cydraddoldeb mewn parch rhwng iechyd corfforol a meddyliol yn bodoli yn y cyfryngau. Cefais fy synnu, wrth siarad mewn digwyddiad ynghylch cefnogi pobl â dementia mewn lleoliadau gofal sylfaenol, o glywed y Gweinidog iechyd yn dweud y gallai yn ôl pob tebyg gyfrif ar un llaw y nifer o weithiau ei fod wedi cael cais gan newyddiadurwyr ynglŷn ag iechyd meddwl. Yn rhai o gyfryngau Llundain, mae pobl ag afiechyd meddwl fel arfer yn cael eu galw'n 'gleifion meddyliol' ac rwy'n gwingo bob tro rwy'n clywed yr ymadrodd hwnnw, y dylid bod wedi ei roi ym min sbwriel hanes yn ôl yn y cyfnod Fictoraidd. Nid yw salwch corfforol yn destun yr un iaith wawdlyd, greulon. Pwy all anghofio pennawd 'The Sun', '1,200 Killed by Mental Patients' y llynedd, sy'n awgrymu mai ychydig iawn o gynnydd golygyddol a wnaed ers ei stori 'Bonkers Bruno Locked Up' ddegawd ynghynt? Pe byddai cydraddoldeb parch ymhlith y cyhoedd ac ymhlith cyflogwyr, ni fyddai angen ymgyrchoedd fel 'Amser i Newid Cymru' a gefnogir gan Lywodraeth Cymru. Pryd oedd y tro diwethaf i rywun hyd yn oed ystyried mynd i barti gwisg ffansi wedi gwisgo fel person ag asthma, arthritis neu fel rhywun a oedd â nam ar eu clyw? Nid yw'n digwydd, ond eto mae 'gwisg ffansi' yn y 10 uchaf o chwiliadau ar y rhyngwrwyd ar gyfer yr ymadrodd poblogaidd 'claf meddyliol', ochr yn ochr â 'lladd', 'jôcs' ac 'arbrofion'. Dyna pam mae mor bwysig herio'r stigma a'r stereoteipiau, ond bydd yn golygu newid dros genedlaethau, a dyna pam yr wyf yn croesawu'r cynlluniau i barhau â gwaith yr ymgyrch 'Amser i Newid Cymru' y tu hwnt i'w ddyraniad cyllid presennol, ac ymestyn ei gyrhaeddiad i blant a phobl ifanc, fel y gallwn, gobeithio, gyrraedd sefyllfa lle mae parch cydradd rhwng iechyd corfforol a meddyliol yn cael ei gymryd yn ganiataol.

This time last week, we were debating the integration of primary, community and social care. While Darren Millar raised the issue of GP recruitment and training, which I will come to in a moment, I do not think that anyone spoke about child and adolescent mental health services—CAMHS—at primary care level.

CAMHS is the focus of a number of amendments today, and I note amendment 7. If the Government's aim is to

'shift resources towards multi-disciplinary primary and community care teams, working closely with social care'.

what action, as opposed to plans and frameworks, as Aled Roberts mentioned, has the Government taken on CAMHS within the flagship integration agenda?

Under Part 1 of the Mental Health (Wales) Measure 2010, a local authority or a local health board must, between them, identify necessary mental health treatment, and then take all reasonable steps to secure provision of local primary mental health support services, including primary mental health assessments, in their area. However, the Measure also provides for just one of those partners to be responsible for providing all the local primary mental health support services. You may, Minister, in your review of the Measure, want to examine how your aims for multidisciplinary support are affected when one partner is dominant.

Has this service been very much left to health boards, leading to over-reliance on the medical model, which is under-resourced and not always appropriate for the child or young person? If so, is that because local authorities are under-resourced? The Children, Young People and Education Committee's CAMHS inquiry is not complete yet, but some of the early evidence raises questions about how well this partnership model has functioned.

Yr amser yma'r wythnos diwethaf, roeddem yn trafod integreiddio gofal sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol. Er bod Darren Millar wedi codi'r mater o recriwtio a hyfforddi meddygon teulu, a byddaf yn sôn am hynny mewn eiliad, nid wyf yn credu bod unrhyw un wedi siarad am wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasod—CAMHS—ar lefel gofal sylfaenol.

CAMHS yw pwyslais nifer o welliannau heddiw, a nodaf welliant 7. Os mai nod y Llywodraeth yw,

symud adnoddau tuag at dimau gofal sylfaenol a chymunedol aml-ddisgyblaethol, sy'n gweithio'n agos gyda gofal cymdeithasol,

pa gamau, yn hytrach na chynlluniau a fframweithiau, fel y soniodd Aled Roberts, y mae'r Llywodraeth wedi'u cymryd ar CAMHS o fewn yr agenda integreiddio flaenllaw?

O dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, mae'n rhaid i awdurdod lleol neu fwrdd iechyd lleol, rhyngddynt, nodi triniaeth iechyd meddwl angenrheidiol, ac yna cymryd pob cam rhesymol i sicrhau darparu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol yn lleol, gan gynnwys asesiadau iechyd meddwl sylfaenol, yn eu hardal. Fodd bynnag, mae'r Mesur hefyd yn darparu ar gyfer dim ond un o'r partneriaid hynny i fod yn gyfrifol am ddarparu'r holl wasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol. Efallai y byddwch, Weinidog, yn eich adolygiad o'r Mesur, yn awyddus i edrych ar sut yr effeithir ar eich amcanion ar gyfer cefnogaeth amlddisgyblaethol pan fydd un partner yn dominyddu.

A yw'r gwasanaeth hwn wedi'i adael i raddau helaeth i fyrddau iechyd, gan arwain at orddibyniaeth ar y model meddygol, nad oes ganddo'r adnoddau digonol ac nad yw'n briodol ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc bob amser? Os felly, a yw hynny oherwydd nad oes gan awdurdodau lleol ddigon o adnoddau? Nid yw ymchwiliad CAMHS y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg wedi'i gwblhau eto, ond mae rhywfaint o'r dystiolaeth gynnar yn codi cwestiynau am ba mor dda y mae'r model partneriaeth hwn wedi gweithio.

In 2012, before the Measure was implemented, the majority of referrals to primary CAMHS was made by GPs and paediatricians, and it seems even now that GPs are the main route to a referral. In many cases, it is the result of a worried parent not knowing where else to turn; the local authority is not always on their radar. So, can you tell us, Minister, about GPs' continuous professional development in the treatment and care of children and adolescent mental health in the last 10 years? Rebecca Evans introduced Gofal's research on this. Can you also tell us how the deanery has responded to the greater understanding of attention deficit hyperactivity disorder and autistic spectrum disorders in the last decade or so, bringing with it a significant increase in the number of children coming forward seeking primary mental health assessment and diagnosis? Can you tell us about the increasing requests for GP referrals for primary mental health assessments, the success rate of those referrals and what GPs do next when referrals are unsuccessful? The early evidence received by the committee is far from reassuring on this point.

GPs contact CAMHS seeking—

16:58 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Will you take an intervention?

16:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
By all means.

16:58 **Mark Isherwood** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Would you agree that Asperger's syndrome and autism should not be classed as a mental illness, but rather as a developmental condition where it is not a learning disability and not a mental illness as it is something else entirely?

16:58 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Absolutely, but I am wondering what level of training GPs have in order to help make that distinction.

GPs contact CAMHS seeking a primary mental health assessment, but a family can wait months for a reply. It is not unusual for them then to hear that their referral has been rejected without clear explanation. It is not unusual for a referral to be rejected without CAMHS staff seeing the child or young person. As the Measure obliges support to be given once a need for it is assessed, do you think, Minister, that there is a possibility that CAMHS may be looking for excuses not to take on a case? That is what some parents believe. It is also not unheard of for that rejection to be, shall we say, reconsidered when an articulate and well-researched parent challenges it?

Yn 2012, cyn i'r Mesur gael ei roi ar waith, cafodd y rhan fwyaf o atgyfeiriadau at CAMHS sylfaenol eu gwneud gan feddygon teulu a phediatregwyr, ac mae'n ymddangos hyd yn oed yn awr mai meddygon teulu yw'r prif lwybr i atgyfeiriad. Mewn llawer o achosion, mae'n ganlyniad i riant pryderus ddim yn gwybod ble arall i droi; nid ydynt bob amser yn ystyried yr awdurdod lleol. Felly, a allwch chi ddweud wrthym, Weinidog, am ddatblygiad proffesiynol parhaus meddygon teulu wrth drin a gofalu am iechyd meddwl plant a'r glasod yn y 10 mlynedd diwethaf? Cyflwynodd Rebecca Evans ymchwil Gofal ar hyn. A allwch chi hefyd ddweud wrthym sut mae'r ddeoniaeth wedi ymateb i'r gwell dealltwriaeth o anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd ac anhwylderau'r sbectrwm awtistig yn y degawd diwethaf fwy neu lai, gan ddod â chynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n dod ymlaen i geisio asesiad a diagnosis iechyd meddwl sylfaenol? A allwch chi ddweud wrthym am y ceisiadau cynyddol am atgyfeiriadau gan Feddygon Teulu ar gyfer asesiadau iechyd meddwl sylfaenol, cyfradd llwyddiant yr atgyfeiriadau hynny a'r hyn y mae meddygon teulu yn ei wneud nesaf pan fo atgyfeiriadau yn aflwyddiannus? Mae'r dystiolaeth gynnar a dderbyniwyd gan y pwyllgor yn bell o fod yn galonogol ar y pwynt hwn.

Mae meddygon teulu'n cysylltu â CAMHS gan geisio—

A wnech chi dderbyn ymyriad?

Ar bob cyfrif.

A fydddech chi'n cytuno na ddylid ystyried syndrom Asperger ac awtistiaeth fel salwch meddwl, ond yn hytrach fel cyflwr datblygiadol sy'n golygu nad yw'n anabledd dysgu nac yn salwch meddwl gan ei fod yn rhywbeth arall yn gyfan gwbl?

Yn hollol, ond rwy'n meddwl tybed pa lefel o hyfforddiant y mae meddygon teulu yn ei gael er mwyn helpu i sylweddoli'r gwahaniaeth hwnnw.

Mae meddygon teulu yn cysylltu â CAMHS i geisio asesiad iechyd meddwl sylfaenol, ond gall teulu aros am fisoedd am ateb. Nid yw'n anarferol iddynt glywed wedyn bod eu hatgyfeiriad wedi ei wrthod heb esboniad clir. Nid yw'n anarferol i atgyfeiriad gael ei wrthod heb i staff CAMHS weld y plentyn neu'r person ifanc. Gan fod y Mesur yn mynnu bod cymorth yn cael ei roi pan fydd yr angen amdano wedi ei asesu, a ydych chi'n meddwl, Weinidog, bod posibilrwydd y gallai CAMHS fod yn chwilio am esgusodion i beidio â derbyn achos? Dyna beth mae rhai rhieni yn credu. Nid yw ychwaith yn anarferol i'r gwrthodiad hwnnw gael ei ailystyried, ddywedwn ni, pan fydd riant rhugl sydd wedi gwneud gwaith ymchwil da yn ei herio?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

There can be months between successful referral and an assessment appointment. Committee members have been told that some of the assessments on the day were considered by carers to be peremptory, and, if further intervention was recommended, yet more months were lost until a specialist was available. We also heard about no staff cover during holiday periods or night time, failure to progress unless the young person presented in crisis, and a medical model that struggles to provide early intervention and does not naturally seek to set up support around community and social care.

Not all mental health issues are best dealt with psychiatrically and they are not all behavioural problems—the most common reason for referral requests are due to autism spectrum disorder or attention deficit hyperactivity disorder. Yet the talking therapies and family therapies that Elin Jones referred to are left to third sector organisations, very often, and they are always at risk, because of funding battles. Nevertheless, despite the clear requirement of the Measure on the provision of information to parents and carers, routine signposting to those services is not happening. Many parents are left without guidance and advice of any kind. I think that combined budgets might help on this, Minister, but, you also need to find leaders who will embrace the new balance of power between separate state silos and civil society, and I endorse Darren Millar's comments on the third sector provision in this area.

Gall fod misoedd rhwng atgyfeirio llwyddiannus ac apwyntiad asesu. Dywedwyd wrth aelodau'r Pwyllgor bod rhai o'r asesiadau ar y diwrnod yn cael eu hystyried gan ofalwyr i fod yn derfynol, ac, os oedd ymyrraeth bellach yn cael ei hargymell, roedd mwy o fisoedd eto yn cael eu colli tan fod arbenigwr ar gael. Clywsom hefyd nad oedd staff cyflenwi ar gael yn ystod cyfnodau gwyliau neu yn ystod y nos, methiant i symud ymlaen oni bai bod y person ifanc yn ymddangos i fod mewn argyfwng, a model meddygol sy'n ei chael hi'n anodd i ddarparu ymyrraeth gynnar ac nad yw'n naturiol yn ceisio sefydlu cefnogaeth o amgylch gofal cymunedol a chymdeithasol.

Nid triniaeth seiciatrig yw'r dull gorau ar gyfer pob problem iechyd meddwl yn ac nid ydynt i gyd yn broblemau ymddygiadol—y rheswm mwyaf cyffredin am geisiadau atgyfeirio yw oherwydd anhwylder y sbectrum awtistiaeth neu anhwylder diffyg canolbwytio a gorfywiogrwydd. Eto i gyd mae'r therapïau siarad a'r therapïau teulu y cyfeiriodd Elin Jones atynt yn cael eu gadael i sefydliadau trydydd sector, yn aml iawn, ac maent bob amser mewn perygl, oherwydd brwydrau ariannu. Serch hynny, er gwaethaf gofyniad clir y Mesur ar ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr, nid yw cyfeirio rheolaidd at y gwasanaethau hynny yn digwydd. Mae llawer o rieni yn cael eu gadael heb gyfarwyddyd a chyngor o unrhyw fath. Rwy'n meddwl y gallai cyllidebau cyfunol helpu yn hyn o beth, Weinidog, ond, mae angen hefyd i chi ddod o hyd i arweinwyr a fydd yn cofleidio'r cydbwysedd pŵer newydd rhwng cronfeydd y wladwriaeth a chymdeithas sifil, ac rwy'n ategu sylwadau Darren Millar ar y ddarpariaeth trydydd sector yn y maes hwn.

17:01

Mick Antoniw [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like to welcome the debate as well and look at it from a slightly different angle, because, I am a trustee of Eye to Eye, which is a child pupil counselling service that operates predominantly in Rhondda Cynon Taf. It sees some 4,000 plus pupils every year. It plays a particular role within this, which I would like to develop a little, because I think that it bears directly on CAMHS.

There has been a massive increase in referrals to CAMHS over the last three years. In some ways, it is perhaps a victim of its own success, because the work that is being done in respect of safeguarding awareness and removing stigma, of course, in itself, ends up with increased numbers of referrals to GPs and on to CAMHS; I think that the figures show that, over the last three years or so, there has been something like 103% increase, which, I think, shows the success of the policy, but the counter side is that it creates enormous challenges for what we want to deliver.

The statistics also show that, of those who are then referred, some 55% are seen within 28 days and then, of the further referrals, two thirds are seen within a further 28 days. Of course, we want to ensure that referrals occur as quickly as possible.

Hoffwn innau groesawu'r ddadl hefyd ac edrych arni o ongl ychydig yn wahanol, oherwydd fy mod yn ymddiriedolwr Eye to Eye, sy'n wasanaeth cynghori disgyblion sy'n blant gan weithredu yn bennaf yn Rhondda Cynon Taf. Mae'n gweld tua 4,000 o ddisgyblion bob blwyddyn. Mae'n chwarae rhan arbennig o fewn hyn, y byddwn yn hoffi datblygu ychydig arno, oherwydd credaf ei fod yn cael effaith uniongyrchol ar CAMHS.

Bu cynnydd enfawr yn nifer yr atgyfeiriadau at CAMHS yn ystod y tair blynedd diwethaf. Mewn rhai ffyrdd, efallai ei fod yn dioddef oherwydd ei lwyddiant ei hun, oherwydd bod y gwaith sy'n cael ei wneud o ran diogelu ymwybyddiaeth a chael gwared ar stigma, wrth gwrs, ynddo'i hun, yn diweddu gyda nifer cynyddol o atgyfeiriadau at feddygon teulu ac ymlaen i CAMHS; credaf fod y ffigurau'n dangos, dros y tair blynedd diwethaf, y bu cynnydd o tua 103%, sydd, yn fy marn i, yn dangos llwyddiant y polisi, ond y gwrthwyneb yw ei fod yn creu her enfawr ar gyfer yr hyn yr ydym eisiau ei gyflawni.

Mae'r ystadegau hefyd yn dangos bod tua 55% o'r rhai sydd wedyn yn cael eu hatgyfeirio, yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod, ac yna, o'r atgyfeiriadau pellach, mae dwy ran o dair yn cael eu gweld o fewn 28 diwrnod ar ôl hynny. Wrth gwrs, rydym yn dymuno sicrhau bod atgyfeiriadau yn digwydd cyn gynted ag y bo modd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Where I think that there is scope to look at the whole area of referrals and provision, which is why I am so glad that the committee is holding an inquiry, is that there is a certain degree of isolation and a problem with the accessibility of CAMHS. For example, by the time someone is referred to CAMHS, they already have a problem that has been identified. I know that one of the problems with referrals is that, where there are serious referrals, such as when there is a consideration that there may be suicidal thoughts or self-harm, those are very frequently seen immediately or within a matter of days and, of course, that impacts.

However, what concerns me a little is that the sort of work that Eye to Eye and other services that are around do deals with the early stages when, quite often, what is required by young people is emotional support and, perhaps, early identification, counselling and support. It may be that, because of the fact that bodies such as Eye to Eye cannot refer directly into CAMHS, or because there is not the degree of flexibility and co-ordination between, say, CAMHS and other services, there might be people who are being referred who perhaps do not need to be referred. So, there may be a triage issue there as well. I think that one of the things that the committee might well want to look at very closely is the relationship between those two services, because there is an enormous amount of very important work to be done. We need to understand better why there is such an increase in referrals, the nature of those referrals and whether there is a better way of using the third sector services that exist, to play, I think, a greater, co-ordinated role within CAMHS.

Lle'r wyf yn credu y dylid edrych ar holl faes atgyfeiriadau a darpariaeth, a dyna pam yr wyf mor falch fod y pwyllgor yn cynnal ymchwiliad, yw bod rhywfaint o ymysu a phroblem gyda hygyrchedd CAMHS. Er enghraifft, erbyn yr amser y mae rhywun yn cael ei atgyfeirio i CAMHS, maent eisoes â phroblem sydd wedi cael ei nodi. Rwy'n gwybod mai un o'r problemau gydag atgyfeiriadau yw, pan geir atgyfeiriadau difrifol, megis pan fydd ystyriaeth y gall fod meddyliau am gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed, mae'r rhain yn aml iawn yn cael eu gweld ar unwaith neu o fewn mater o ddyddiau ac, wrth gwrs, mae hynny'n cael effaith.

Fodd bynnag, yr hyn sy'n achosi rhywfaint o bryder i mi yw bod y math o waith y mae Eye to Eye a gwasanaethau eraill sydd o gwmpas yn ei wneud yn ymdrin â'r camau cynnar pan, yn aml iawn, yr hyn mae pobl ifanc ei angen yw cefnogaeth emosiynol ac, efallai, nodi, cwnsela a chefnogaeth yn gynnar. Oherwydd y ffaith na all cyrrff fel Eye to Eye atgyfeirio'n uniongyrchol at CAMHS, neu am nad oes y graddau o hyblygrwydd a chyd-drefnu rhwng, dyweder, CAMHS a gwasanaethau eraill, gall fod pobl sydd yn cael eu hatgyfeirio nad ydynt angen eu hatgyfeirio efallai. Felly, efallai y bydd mater o flaenoriaethu yn bodoli hefyd. Rwy'n credu mai un o'r pethau y gallai'r pwyllgor fod am edrych yn agos iawn arno yw'r berthynas rhwng y ddau wasanaeth, oherwydd mae llawer iawn o waith pwysig iawn i'w wneud. Mae angen i ni ddeall yn well pam mae cynnydd o'r fath yn nifer yr atgyfeiriadau, natur yr atgyfeiriadau hynny a pha un a oes ffordd well o ddefnyddio'r gwasanaethau trydydd sector sy'n bodoli, i chwarae, mi gredaf, mwy o swyddogaeth gydgyssylltiol, o fewn CAMHS.

17:04

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I think that it is really important that we are debating this here today, as one of the AMs who has talked about their own experience. I think that it is important that, when I go to events, the biggest traction that I ever have is when I talk about my own experience—not in a self-indulgent way, so that people feel sorry for me, but so that they can understand, on a human level, what we have to access. It makes them think that politicians are just like them. I think that the most important point for me when I speak to people is how they are talked to and at by health professionals. That first impact of going to a GP, a nurse, or even a teacher, can have a profound effect on someone's life experience through the system. If you get a bad experience, quite often, you could be turned off for ever from wanting to access that service again. I felt a bit like that when I talked to one health professional who, basically, undermined the whole premise of why I was going to him to seek support. That was why I did the Mind video of my experience. For somebody to say, 'I question your intelligence, because you can't cope with these things in your life' is quite disheartening for somebody who is in a very low place. It is difficult to have to deal with. It can make you feel even worse about your personal circumstances than you did when entering that place, thinking that you would be helped by somebody. I have met lots and lots of people who felt the same way.

Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn trafod hyn yma heddiw, fel un o'r ACau sydd wedi siarad am eu profiadau eu hunain. Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig, pan fyddaf yn mynd i ddiwyddiadau, mai'r sylw mwyaf yr wyf yn ei gael bob amser yw pan fyddaf yn sôn am fy mhrofiad fy hun—nid mewn ffordd hunanfaldodus, fel bod pobl yn teimlo'n dosturiol drosod fi, ond fel eu bod yn gallu deall, ar lefel ddynol, yr hyn mae'n rhaid i ni gael mynediad ato. Mae'n gwneud iddyn nhw feddwl bod gwleidyddion yn union fel nhw. Rwy'n credu mai'r pwynt mwyaf pwysig i mi pan fyddaf yn siarad â phobl yw sut y mae gweithwyr iechyd proffesiynol yn siarad gyda nhw ac atyn nhw. Gall y profiad cyntaf o fynd at feddyg teulu, nyrs, neu hyd yn oed athro, gael effaith fawr ar brofiad bywyd rhywun drwy'r system. Os ydych yn cael profiad gwael, yn aml iawn, fe allech chi gael eich digalonni am byth rhag bod eisiau cael mynediad at y gwasanaeth hwnnw eto. Roeddwn i'n teimlo felly i raddau pan siaradais ag un gweithiwr iechyd proffesiynol a oedd, yn y bôn, yn tanseilio'r holl gynsail o pam yr oeddwn yn mynd ato i geisio cymorth. Dyna pam y gwnes i'r fideo Mind am fy mhrofiad. Mae cael rhywun yn dweud, 'Rwy'n cwestiynu eich deallusrwydd, oherwydd nad ydych yn gallu ymdopi â'r pethau hyn yn eich bywyd' yn eithaf digalon i rywun sydd mewn lle isel iawn. Mae'n anodd gorfod ymdrin â hynny. Gall wneud i chi deimlo'n waeth hyd yn oed am eich amgylchiadau personol nag yr oeddech wrth fynd i mewn i'r lle hwnnw, yn meddwl y bydddech yn cael eich helpu gan rywun. Rwyf wedi cyfarfod llawer iawn o bobl a oedd yn teimlo'r un fath.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It comes down not to training, per se, but to having those interactions more often. It is not just for GPs and nurses, it is for people of all professions across the whole swathe of life in Wales, because we will always know somebody or have a friend or family member who has gone through depression, anorexia, or some form of mental illness. Therefore, when we talk to each other, even on a casual basis, we really should be thinking of how we treat other people, just knowing that they may have gone through some personal problems in their lives.

With regard to talking therapies, I just want to make a small point that carries on from what Elin Jones said. I made a freedom of information request to what was Neath Port Talbot health board, now ABMU, years ago when I was first elected and the talking therapies issue was a massive problem. People in our positions can afford private treatment. I can afford to pay somebody to go to talk to them for half an hour and have them listen to my problems. If you do not have the money and you are on a waiting list, you cannot talk to anybody. That may then lead to somebody thinking that they want to commit suicide. That is very worrying for us as politicians to have to deal with. I am not trying to scaremonger; I am trying to say, 'Let's be realistic here'. We need to get those waiting times down so that we can make sure that people are not put in those vulnerable positions and they know that they have somebody to talk to. Of course, Mind, Gofal and the Mental Health Foundation are there to pick up where, perhaps, those services are not working in the statutory sector. They should be commended for the excellent work that they do in helping people through their problems.

People may know that I have been doing a lot of work on eating disorders in Wales. The Minister last week accused me of picking and choosing what I want to say, but I think that one of the good things that the Welsh Government has done is to set up the eating disorders framework. I thank Edwina Hart, the former Minister for health, for doing that. Credit where credit is due. I think that that has led to massive progress for Wales, because in terms of adult access to eating disorders treatment, we have seen much progress, and I welcome the additional investment into eating disorders services for young people. However, I still think that we need to have a review of that service. I was promised a review by Healthcare Inspectorate Wales and that still has not happened. We need to look back to see where things have worked, where people have had the early treatment from GPs in primary care, because we still have those problems at the top end, at tier 4, where people still have to go to access treatment in England and are still very ill, with people dying of eating disorders who should not be dying, because they need that treatment sooner.

Mae'n ymwneud nid â hyfforddiant, fel y cyfryw, ond cael y rhyngweithio hwnnw'n fwy aml. Nid dim ond mater ar gyfer meddygon teulu a nyrsys ydyw, ond ar gyfer pobl o bob proffesiwn ar draws holl ystod bywyd yng Nghymru, oherwydd byddwn bob amser yn adnabod rhywun neu bydd gennym ffrind neu aelod o'r teulu sydd wedi mynd drwy iselder, anorecsia, neu ryw fath o salwch meddwl. Felly, pan fyddwn yn siarad â'n gilydd, hyd yn oed yn achlysurol, dylem yn wir fod yn meddwl am sut yr ydym yn trin pobl eraill, dim ond o wybod y gallant fod wedi mynd drwy rai problemau personol yn eu bywydau.

O ran therapiau siarad, rwyf eisiau gwneud pwynt bach sy'n dilyn yr hyn a ddywedodd Elin Jones. Gwneuthum gais rhyddid gwybodaeth i fwrdd iechyd Castell-nedd Port Talbot fel yr oedd, sydd bellach yn PABM, flynyddoedd yn ôl pan gefais fy ethol gyntaf a phan oedd y mater therapiau siarad yn broblem enfawr. Gall pobl yn ein sefyllfa ni fforddio triniaeth breifat. Gallaf i fforddio i dalu rhywun i gael mynd i siarad â nhw am hanner awr a'u cael i wrando ar fy mhroblemau. Os nad oes gennych yr arian a'ch bod ar restr aros, ni allwch siarad ag unrhyw un. Gall hynny arwain wedyn at rywun yn meddwl eu bod eisiau cyflawni hunanladdiad. Mae hynny'n peri pryder mawr i ni fel gwleidyddion i orfod ymdrin ag ef. Nid wyf yn ceisio codi bwganod; rwy'n ceisio dweud, 'Gadewch i ni fod yn realistig yma'. Mae angen i ni leihau'r amseroedd aros fel y gallwn wneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu rhoi yn y sefyllfaoedd agored i niwed hynny a'u bod yn gwybod bod ganddynt rywun i siarad â nhw. Wrth gwrs, mae Mind, Gofal a'r Sefydliad Iechyd Meddwl yno i gymryd yr awenau pan, efallai, nad yw'r gwasanaethau hynny yn gweithio yn y sector statudol. Dylid eu canmol am y gwaith rhagorol y maent yn ei wneud wrth helpu pobl drwy eu problemau.

Efallai y bydd pobl yn gwybod fy mod wedi bod yn gwneud llawer o waith ar anhwylderau bwyta yng Nghymru. Yr wythnos diwethaf cyhuddodd y Gweinidog fi o ddewis a dethol yr hyn yr wyf am ei ddweud, ond rwy'n meddwl mai un o'r pethau da y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud yw sefydlu fframwaith anhwylderau bwyta. Diolch i Edwina Hart, y cyn Weinidog iechyd, am wneud hynny. Dylid rhoi clod lle mae'n ddyledus. Rwy'n meddwl bod hynny wedi arwain at welliant enfawr i Gymru, oherwydd o ran mynediad ar gyfer oedolion at driniaeth anhwylderau bwyta, rydym wedi gweld llawer o welliant, ac rwy'n croesawu'r buddsoddiad ychwanegol i'r gwasanaethau anhwylderau bwyta ar gyfer pobl ifanc. Fodd bynnag, rwy'n dal i gredu bod angen inni gael adolygiad o'r gwasanaeth hwnnw. Cefais addewid o adolygiad gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac mae hynny'n dal i fod heb ddigwydd. Mae angen i ni edrych yn ôl i weld ble mae pethau wedi gweithio, lle mae pobl wedi cael y driniaeth gynnar gan feddygon teulu mewn gofal sylfaenol, gan ein bod yn dal i gael y problemau hynny yn y pen uchaf, ar haen 4, lle mae pobl yn dal i orfod mynd i gael triniaeth yn Lloegr ac yn dal i fod yn sâl iawn, gyda phobl na ddylent fod yn marw, yn marw o anhwylderau bwyta, oherwydd bod angen y driniaeth arnynt ynghynt.

Again, that is why I have been working with colleagues to secure more support for young people in schools via self-esteem lessons. We know that, if we talk to young people at an earlier stage, as Mick Antoniw said earlier, and nip the problem in the bud at an early age, we will not have the problems that we envisage now with young people feeling so low that they do not want to live. I think that we have to see progress from the Welsh Government. I welcome the progress up to now, but more can be done.

Unwaith eto, dyna pam yr wyf wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau mwy o gefnogaeth i bobl ifanc mewn ysgolion trwy gyfrwng gwersi hunan-barch. Rydym yn gwybod, os ydym yn siarad â phobl ifanc yn gynharach, fel y dywedodd Mick Antoniw yn gynharach, a lladd y broblem yn gynnar pan fo pobl yn ifanc, ni fyddwn yn cael y problemau yr ydym yn eu rhagweld yn awr gyda phobl ifanc yn teimlo mor isel fel nad ydynt eisiau byw. Credaf fod yn rhaid inni weld cynnydd gan Lywodraeth Cymru. Croesawaf y cynnydd hyd yn hyn, ond gellir gwneud mwy.

17:09

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am very pleased that, in opening this debate this afternoon, the Minister spent much of his time focusing on the role of the third sector in delivering a mental health service that we can all be proud of, and one that promotes recovery and seeks to maintain and sustain people's mental wellbeing. He quite rightly identified that the third sector can work in communities simply in a way that is not possible for the statutory sectors to do. Of course, to do that they need to be treated as serious partners by commissioners. I would like to highlight the plight of the Mind groups in my constituency, which provide highly regarded services and support. They are very busy with a steady stream of referrals from the community mental health teams, and find themselves often picking up the slack in statutory services that have often been bedecked by problems in Powys. It is perhaps because of those challenges in secondary and tertiary care that Powys Teaching Local Health Board has been trying to change. Perhaps it is that that has led to the situation that has currently arisen within the county.

Mind groups in Brecon and Radnorshire run a wide variety of services, from informal drop-ins to one-to-one counselling and support, group therapy activities such as art classes, healthy cooking and eating sessions, and befriending services, as well as social activities. Having geared up for, and then been stepped down from, an aborted tendering process by Powys Teaching Local Health Board last year, some groups were informed that they could expect funding cuts. A couple of months later, those cuts were then put on hold last year. There was no further dialogue. Then, out of the blue, earlier this year, Brecon Mind received an invoice from Powys Teaching Local Health Board demanding back over £17,000 in payments. There was no explanation; no covering letter. Some months later, its monthly payment for its services was stopped by Powys Teaching Local Health Board. It protested and the payments started up again, only to be stopped a month later. They are still on stop. I am very grateful that the chief executive of Powys Teaching Local Health Board has responded quickly and positively to my interventions on this matter, and I am hopeful and confident that we can sort things out. Local groups understand that resources are tight, that historic relationships need to be reviewed, and that we need to respond to the new challenges that are facing our communities. They are up for that challenge, and they want to work hand in hand with the statutory sector, but they can only do so if they are treated as professional organisations in their own right, and if those dialogues are open, honest, transparent and ongoing.

Rwy'n falch iawn, wrth agor y ddaid hon y prynhawn yma, bod y Gweinidog wedi treulio llawer o'i amser yn canolbwyntio ar swyddogaeth y trydydd sector o ran darparu gwasanaeth iechyd meddwl y gallwn i gyd fod yn falch ohono, ac un sy'n hyrwyddo adferiad ac sy'n ceisio cadw a chynnal lles meddyliol pobl. Nododd yn gwbl briodol y gall y trydydd sector weithio mewn cymunedau mewn ffordd nad yw'n bosib i'r sectorau statudol ei wneud. Wrth gwrs, er mwyn gwneud hynny mae angen iddynt gael eu trin fel partneriaid gwirioneddol gan gomisiynwyr. Hoffwn dynnu sylw at drafferthion grwpiau Mind yn fy etholaeth i, sy'n darparu gwasanaethau a chymorth uchel ei barch. Maent yn brysur iawn gyda llif cyson o atgyfeiriadau gan y timau iechyd meddwl cymunedol, ac maent yn canfod eu hunain yn aml yn ysgwyddo'r baich oherwydd diffyg y gwasanaethau statudol sydd yn aml wedi cael eu llethu gan broblemau ym Mhowys. Oherwydd yr heriau hynny efallai mewn gofal eilaidd a thrydyddol y mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi bod yn ceisio newid. Efallai mai hynny sydd wedi arwain at y sefyllfa sydd wedi codi ar hyn o bryd o fewn y sir.

Mae grwpiau Mind yn sir Frycheiniog a Maesyfed yn cynnal amrywiaeth eang o wasanaethau, o rai anffurfiol galw heibio i gwnsela a chymorth un-i-un, gweithgareddau therapi grŵp fel dosbarthiadau celf, sesiynau coginio a bwyta'n iach, a gwasanaethau cyfeillio, yn ogystal â gweithgareddau cymdeithasol. Ar ôl paratoi ar gyfer proses dendro, ac yna cael eu hatal ohoni, ar ôl ei therfynu gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys y llynedd, hysbyswyd rhai grwpiau y gallent ddisgwyl toriadau cyllid. Ychydig o fisoedd yn ddiweddarach, cafodd y toriadau hynny wedyn eu gohirio y llynedd. Ni chafwyd unrhyw ddeialog pellach. Yna, yn ddirybudd, yn gynharach eleni, derbyniodd Mind Aberhonddu anfoneb gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn mynnu dros £17,000 yn ôl mewn taliadau. Nid oedd unrhyw esboniad; dim llythyr eglurhaol. Rai misoedd yn ddiweddarach, cafodd ei daliad misol ar gyfer ei wasanaethau ei atal gan Fwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys. Protestiodd, ac fe ddechreuodd y taliadau eto, dim ond i gael eu hatal fis yn ddiweddarach. Maent yn dal i fod wedi'u hatal. Rwy'n ddiolchgar iawn bod prif weithredwr Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys wedi ymateb yn gyflym ac yn gadarnhaol i fy ymyriadau ar y mater hwn, ac rwy'n obeithiol ac yn hyderus y gallwn ddatrys pethau. Mae grwpiau lleol yn deall bod adnoddau'n dynn, bod angen adolygu perthnasoedd hanesyddol, a bod angen ymateb i'r heriau newydd sy'n wynebu ein cymunedau. Maent yn barod ar gyfer yr her honno, ac maent yn awyddus i weithio law yn llaw â'r sector statudol, ond dim ond os ydynt yn cael eu trin fel sefydliadau proffesiynol yn eu hawl eu hunain y gellir gwneud hynny, ac os yw'r deialogau hynny'n agored, yn onest, yn dryloyw ac yn barhaus.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Powys mental health services have not always been happy and successful. Following the suicide of a patient in our in-patient facility in the county a number of years ago, there were big changes with regard to how mental health services were commissioned in Powys. However, the process of commissioning those services from Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board, Aneurin Bevan Local Health Board and Betsi Cadwaladr University Local Health Board has not worked. It has not worked for GPs; it has not worked for psychiatrists in the county; and it certainly has not worked for patients. Powys Teaching Local Health Board acknowledges this, and it has been working really hard to understand the nature of its services. It knows that they are not as robust and safe as it wants them to be. It wants to do better.

I believe that the only option available to us in Powys is to go back to a system where we commission and provide our own services. To do so successfully, we will need adequate levels of support from Welsh Government. I would like to use this opportunity, Minister, to ask you to use your offices to support the work of Powys Teaching Local Health Board in what it is trying to do to make its secondary services more robust and safer than they currently are.

17:14

Janet Finch-Saunders [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I welcome the opportunity to contribute in this debate. I certainly have no hesitation whatsoever in supporting all nine amendments to this motion today. Today's debate on mental health looks at an issue that can affect any member of our society, from the very wealthy to those living in poverty, male or female, young or old. Our mental health is not static and it certainly does not discriminate. Those who have been well all of their lives can suddenly find that a turn of events or a change in circumstances can affect their own mental health wellbeing. It can show itself in a variety of manners, from depression or mild anxiety to post-traumatic stress disorder and/or severe psychotic problems. Minister, I have to say that probably one of the hardest jobs for me as an Assembly Member has been when someone has presented and I find them, quite literally, crying out for help, for support, and yet feeling, you know, that nothing can be done.

The results from the 2013 Welsh health survey highlight how mental health problems are increasing. In 2013, although 12% of adults who reported were treated for a mental illness—which is up from 9% in 2003-04—for every patient diagnosed, there will be many more who remain undetected. The overall cost of mental health issues in Wales is an estimated £7.2 billion a year. Therefore, the scale of the issue cannot be ignored, yet many of those suffering do feel that they are being ignored. I ask the Minister this question, which has been asked of me by someone who works in the mental health profession: why do they feel that mental health services are outside of, and not included in, waiting time targets?

Nid yw gwasanaethau iechyd meddwl Powys wedi bod yn hapus ac yn llwyddiannus bob amser. Yn dilyn hunanladdiad claf yn ein cyfleuster cleifion mewnl yn y sir nifer o flynyddoedd yn ôl, bu newidiadau mawr o ran sut mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu comisiynu ym Mhowys. Fodd bynnag, nid yw'r broses o gomisiynu'r gwasanaethau hynny gan Fwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi gweithio. Nid yw wedi gweithio ar gyfer meddygon teulu; nid yw wedi gweithio ar gyfer seiciatryddion yn y sir; ac yn sicr nid yw wedi gweithio ar gyfer cleifion. Mae Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn cydnabod hyn, ac mae wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ddeall natur ei wasanaethau. Mae'n gwybod nad ydynt mor gadarn a diogel ag y mae'n dymuno iddynt fod. Mae eisiau gwneud yn well.

Rwy'n credu mai'r unig ddewis sydd ar gael i ni ym Mhowys yw mynd yn ôl at system lle'r ydym yn comisiynu ac yn darparu ein gwasanaethau ein hunain. I wneud hynny'n llwyddiannus, bydd angen lefelau digonol o gefnogaeth arnom gan Lywodraeth Cymru. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn, Weinidog, i ofyn i chi ddefnyddio eich cymwynasgarwch i gefnogi gwaith Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys yn yr hyn y mae'n ceisio ei wneud i sicrhau bod ei wasanaethau eilaidd yn fwy cadarn ac yn fwy diogel nag y maent ar hyn o bryd.

Rwy'n croesawu'r cyfle i gyfrannu yn y ddatl hon. Yn sicr nid wyf yn petruso o gwbl o ran cefnogi pob un o'r naw gwelliant i'r cynnig hwn heddiw. Mae'r ddatl heddiw ar iechyd meddwl yn edrych ar fater a all effeithio ar unrhyw aelod o'n cymdeithas, o'r cyfoethog iawn i'r rhai sy'n byw mewn tlodi, gwryw neu fenyw, hen neu ifanc. Nid yw ein hiechyd meddwl yn sefydlog ac yn sicr nid yw'n gwahaniaethu. Gall y rhai sydd wedi bod yn iach ar hyd eu bywydau yn sydyn weld y gall digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau effeithio ar eu lles iechyd meddwl eu hunain. Gall ddangos ei hun mewn amrywiaeth o ffyrdd, o iselder neu bryder ysgafn i anhwylder straen wedi trawma a / neu broblemau seicotig difrifol. Weinidog, mae'n rhaid i mi ddweud mae'n debyg mai un o'r swyddogaethau anoddaf i mi fel Aelod o'r Cynulliad oedd pan fyddai rhywun wedi dod ataf a minnau, yn llythrennol, yn eu canfod yn erfyn am gymorth, am gefnogaeth, ac eto'n teimlo, wyddoch chi, nad oes dim y gellir ei wneud.

Mae canlyniadau arolwg iechyd Cymru 2013 yn tynnu sylw at sut y mae problemau iechyd meddwl yn cynyddu. Yn 2013, er bod 12% o oedolion a ddaeth i'r amlwg wedi cael eu trin ar gyfer salwch meddwl—sydd wedi codi o 9% yn 2003-04—am bob claf a gafodd ddiagnosis, bydd llawer mwy sy'n aros heb eu canfod. Amcangyfrifir bod cost gyffredinol problemau iechyd meddwl yng Nghymru yn £7.2 biliwn y flwyddyn. Felly, ni ellir anwybyddu maint y broblem, ac eto mae llawer o'r rhai sy'n dioddef yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu. Gofynnaf i'r Gweinidog y cwestiwn hwn, sydd wedi ei ofyn i mi gan rywun sy'n gweithio yn y proffesiwn iechyd meddwl: pam y maent yn teimlo bod y gwasanaethau iechyd meddwl y tu allan i dargedau amseroedd aros, a heb eu cynnwys ynddynt?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Moving on, a report from Gofal highlights some worrying facts about mental health services in Wales. It found that 34.7% of patients had to wait longer than two months to access support services, with over 23% waiting more than four months. I actually know, again, of instances where the norm has not been 26 weeks, but longer, at 18 months—with mental health practitioners having people waiting 18 months. The same report found that some GPs were hesitant to refer patients because of the associated waiting times. This is affecting people's health. Gofal found that those waiting more than four weeks were less likely to feel that their mental health was improving after accessing services. Given the importance of quick treatment, it is extremely concerning that the number of children waiting more than 14 weeks has soared by more than 300% in the 12 months up to January this year from the previous period. Gofal also found that, overall, over 50% of respondents did not feel that they had accessed the services they needed, and that this figure for treatment had declined from 2012. Much more certainly needs to be done, and it is only the Welsh Government that has the overall responsibility to ensure that this happens.

Our older population is often overlooked. Just last week, we witnessed the events marking the anniversary of the D-Day landings, highlighting the value of older members of our society and the role that they have played in creating and securing our society. As our society ages, we face an ever-increasing problem with dementia. In Wales, in 2013, it was estimated that over 45,000 people suffered from dementia, yet only 38.8% of them were diagnosed. This compares to a diagnosis rate of 48% in England and 63% in Northern Ireland. How are we getting it so wrong compared to other parts of the UK?

It is not just dementia that is affecting our elderly population, with Age Cymru reporting that 75% of people over the age of 65 in Wales describe themselves as nearly or always lonely. This can have serious implications for a person's mental health. Our older generation deserves better: better diagnosis, better care, and better support.

In finishing, I would like to reiterate just how anyone can be affected by a mental health condition at any time. I wonder how many people in Wales today are silently suffering as we participate in this debate. Mental health conditions can affect, and be affected by, a whole range of other factors, as the figures highlight that this is a growing problem that needs constant vigilance and targeted and structured support. Minister, I urge you to do this.

Gan symud ymlaen, mae adroddiad gan Gofal yn tynnu sylw at rai ffeithiau sy'n peri pryder am wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Canfu y bu raid i 34.7% o gleifion aros yn hwy na dau fis i gael gafael ar wasanaethau cymorth, gyda dros 23% yn aros mwy na phedwar mis. Rwyf yn gwybod, unwaith eto, am achosion lle nad yw'r norm wedi bod yn 26 wythnos, ond yn hwy, ar 18 mis—gydag ymarferwyr iechyd meddwl yn cael pobl i aros 18 mis. Canfu'r un adroddiad fod rhai meddygon teulu yn betrusgar i atgyfeirio cleifion oherwydd yr amseroedd aros cysylltiedig. Mae hyn yn effeithio ar iechyd pobl. Canfu Gofal bod y rhai sy'n aros mwy na phedair wythnos yn llai tebygol o deimlo bod eu hiechyd meddwl yn gwella ar ôl cael gafael ar wasanaethau. O ystyried pwysigrwydd triniaeth gyflym, mae'n destun pryder mawr bod nifer y plant sy'n aros mwy na 14 wythnos wedi cynyddu'n gyflym gan fwy na 300% yn y 12 mis hyd at fis Ionawr eleni o'r cyfnod blaenorol. Canfu Gofal hefyd, yn gyffredinol, fod dros 50% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oeddent wedi cael mynediad at y gwasanaethau yr oeddent eu hangen, a bod y ffigur hwn ar gyfer triniaeth wedi gostwng o 2012. Yn sicr mae angen gwneud llawer mwy, a dim ond Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol i sicrhau bod hyn yn digwydd.

Mae ein poblogaeth hŷn yn cael ei hanwybyddu'n aml. Dim ond yr wythnos diwethaf, roeddem yn dyst i'r digwyddiadau i nodi pen-blwydd y glaniadau D-Day, yn tynnu sylw at werth aelodau hŷn ein cymdeithas a'r rhan y maent wedi'i chwarae wrth greu a diogelu ein cymdeithas. Wrth i'n cymdeithas heneiddio, rydym yn wynebu problem gynyddol gyda dementia. Yng Nghymru, yn 2013, amcangyfrifwyd bod dros 45,000 o bobl yn dioddef o d dementia, ac eto dim ond 38.8% ohonynt gafodd ddiagnosis. Mae hyn yn cymharu â chyfradd diagnosis o 48% yn Lloegr a 63% yng Ngogledd Iwerddon. Sut yr ydym yn cael pethau mor anghywir o'i gymharu â rhannau eraill o'r DU?

Nid dim ond dementia sy'n effeithio ar ein poblogaeth oedranus, gydag Age Cymru yn adrodd bod 75% o bobl dros 65 oed yng Nghymru yn disgrifio eu hunain fel bod yn unig bron bob amser neu bob amser. Gall hyn gael goblygiadau difrifol i iechyd meddwl unigolyn. Mae ein cenhedlaeth hŷn yn haeddu gwell: gwell diagnosis, gwell gofal, a gwell cymorth.

Wrth ddirwyn i ben, hoffwn ailadrodd y gall unrhyw un gael ei effeithio gan gyflwr iechyd meddwl ar unrhyw adeg. Tybed faint o bobl yng Nghymru heddiw sy'n dioddef yn dawl wrth i ni gymryd rhan yn y ddadl hon. Gall cyflyrau iechyd meddwl effeithio ar, a chael eu heffeithio gan, ystod eang o ffactorau eraill, gan fod y ffigurau yn dangos bod hon yn broblem gynyddol sydd angen gwyliadwriaeth a tharged cyson a chymorth strwythuredig. Weinidog, yr wyf yn eich cymell i wneud hyn.

17:19

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services

Thanks to all Members who have taken part in what I think has been a rich and detailed debate. In the four minutes that I have to reply, I hope that Members will understand that I am not going to be able to attend to all the many points that have been raised. I am happy to take other points up outside the debate, where that would be helpful.

I want to concentrate on five quick, key issues that I think have been raised a number of times in the debate. On CAMHS services, I look forward to giving evidence to the Children, Young People and Education Committee, where we can look at some of the details that we have heard today. The truth is that, with the CAMHS service, it is a problem of demand, and not just supply. When referrals go up by 100% over a four-year period, no matter how hard you run, you are going to struggle to keep up.

On beds, we have heard people asking about the acute sector. There was, indeed, a Royal College of Psychiatrists survey that reported recently, which included 576 trainee doctors, but only 13 of those were based in Wales, and only one of those 13 reported ever having contemplated using the mental health Act to secure a bed for a patient. Occupancy levels in the mental health part of the Welsh NHS stand at 90% for mental illness, 70% for CAMHS and 85% for older adult services. There is no crisis in bed provision in Welsh NHS mental health services.

Some important points were made in the debate about talking therapies. I hope to be able to announce some further investment in that area of our activity before too long. We cannot afford to create a whole new cadre of people to provide talking therapies. What we have to do is to find ways of adding to the skills of those many people who already work in our services, so that they are able to respond through the very important help that talking therapies can provide to a wider range of people who come forward for help.

Darren Millar asked about re-referrals under the Mental Health (Wales) Measure 2010. I am very pleased to say that 1,100 people in the first year of the Measure used the new powers that they have to self-refer themselves back into secondary mental health services. I have no doubt that that number will rise as that new right becomes better known and better understood.

There is a specific amendment on the mental health ring fence and I will just reassure Members that we are to have a review of the ring fence and that we have brought it forward from 2015 to 2014. It will look at the £1 million that we provide to the third sector in Wales to support mental health activity, as well as everything else that goes on inside it.

Diolch i bob Aelod sydd wedi cymryd rhan yn yr hyn y credaf sydd wedi bod yn ddadl gyfoethog a manwl. Yn y pedwar munud sydd gennyf i ymateb, rwy'n gobeithio y bydd yr Aelodau'n deall nad wyf yn mynd i fod yn gallu rhoi sylw i bob un o'r nifer o bwyntiau a godwyd. Rwy'n fodlon i ymdrin â phwyntiau eraill y tu allan i'r ddadl, pryd y byddai hynny o gymorth.

Rwyf am ganolbwyntio ar bum mater cyflym, allweddol yr wyf yn credu sydd wedi eu codi nifer o weithiau yn y ddadl. O ran gwasanaethau CAMHS, edrychaf ymlaen at roi tystiolaeth i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, lle y gallwn edrych ar rai o'r manylion yr ydym wedi'u clywed heddiw. Y gwir yw, gyda'r gwasanaeth CAMHS, y galw yw'r broblem, ac nid dim ond cyflenwad. Pan fydd atgyfeiriadau'n cynyddu gan 100% dros gyfnod o bedair blynedd, ni waeth pa mor galed yr ydych yn rhedeg, rydych yn mynd i gael anhawster i gadw i fyny.

O ran gwelyau, rydym wedi clywed pobl yn gofyn am y sector aciwt. Yr oedd, yn wir, arolwg Coleg Brenhinol y Seiciatryddion a adroddodd yn ddiweddar, a oedd yn cynnwys 576 o feddygon dan hyfforddiant, ond dim ond 13 o'r rheini oedd wedi'u lleoli yng Nghymru, a dim ond un o'r 13 a adroddodd erioed ei fod wedi ystyried defnyddio'r Ddeddf Iechyd meddwl i sicrhau gwely ar gyfer claf. Mae lefelau defnydd o welyau yn rhan iechyd meddwl y GIG yng Nghymru yn sefyll ar 90% ar gyfer salwch meddwl, 70% ar gyfer CAMHS a 85% ar gyfer gwasanaethau i oedolion hŷn. Nid oes unrhyw argyfwng yn y ddarpariaeth o welyau yng ngwasanaethau iechyd meddwl y GIG yng Nghymru.

Cafodd rhai pwyntiau pwysig eu gwneud yn y ddadl am therapïau siarad. Rwy'n gobeithio gallu cyhoeddi rhywfaint o fuddsoddiad pellach ym maes hwnnw o'n gweithgarwch cyn bo hir. Ni allwn fforddio i greu cnewyllyn newydd cyfan o bobl i ddarparu therapïau siarad. Yr hyn y mae'n rhaid i ni ei wneud yw dod o hyd i ffyrdd o ychwanegu at sgiliau llawer o'r bobl hynny sydd eisoes yn gweithio yn ein gwasanaethau, fel eu bod yn gallu ymateb trwy'r cymorth pwysig iawn y gall therapïau siarad ei ddarparu i ystod ehangach o bobl sy'n dod ymlaen i gael cymorth.

Gofynnodd Darren Millar am ailatgyfeiriadau o dan y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010. Yr wyf yn falch iawn o ddweud bod 1,100 o bobl ym mlwyddyn gyntaf y Mesur wedi defnyddio'r pwerau newydd sydd ganddynt i hunan-atgyfeirio eu hunain yn ôl i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd. Nid oes gennyf unrhyw amheuaeth y bydd y nifer yn codi wrth i'r hawl newydd ddod yn fwy hysbys a chael ei ddeall yn well.

Ceir gwelliant penodol ar yr arian a neilltuwyd i iechyd meddwl ac rwyf am sicrhau'r Aelodau ein bod am gael adolygiad o'r arian a neilltuwyd ac rydym wedi dod ag ef ymlaen o 2015 i 2014. Bydd yn edrych ar yr £1 miliwn yr ydym yn ei ddarparu i'r trydydd sector yng Nghymru i gefnogi gweithgarwch iechyd meddwl, yn ogystal â phopeth arall sy'n mynd ymlaen y tu mewn iddo.

May I close, though, Dirprwy Lywydd, by making two more general points? One of the key things that I think that we have learned about mental health services in Wales, which has been reflected in the debate this afternoon, is that mental health is absolutely everybody's business. It touches all our lives. One in four of us will have an episode of mental ill health ourselves and every one of the rest of us will know somebody in our families, in our street and in our community for whom this is a serious issue. That is why talking about these things and having these debates is so important. Those debates need to be infused by a word that Kirsty Williams used in her contribution—that we believe that in mental health services, we focus on the possibility of recovery. Even at a very difficult time, a chain can be built between a dark day and a better future. The assets that patients possess can be identified, valued and put to work in the spirit of dignity and respect and in a climate of therapeutic optimism. All those are qualities that have characterised the development of mental health policy and legislation in this Chamber. They really matter to staff and patients on whose commitment we rely to drive forward the recovery agenda here in Wales.

A gaf fi orffen, fodd bynnag, Ddirprwy Lywydd, drwy wneud dau bwynt mwy cyffredinol? Un o'r pethau allweddol yr wyf yn meddwl ein bod wedi'i ddysgu am wasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru, sydd wedi'i adlewyrchu yn y ddadl y prynhawn yma, yw bod iechyd meddwl yn fusnes i bawb. Mae'n cyffwrdd bywydau pob un ohonom. Bydd un o bob pedwar ohonom yn cael pwl o salwch meddwl ein hunain, a bydd pob un o'r gweddill ohonom yn adnabod rhywun yn ein teuluoedd, yn ein strydoedd ac yn ein cymuned y mae hwn yn fater difrifol iddynt. Dyna pam y mae siarad am y pethau hyn a chael y trafodaethau hyn mor bwysig. Mae angen llenwi'r dadleuon hynny gyda gair a ddefnyddiodd Kirsty Williams yn ei chyfraniad—ein bod yn credu ein bod yn y gwasanaethau iechyd meddwl, yn canolbwyntio ar y posibilrwydd o adfer. Hyd yn oed ar adeg anodd iawn, gellir adeiladu cadwyn rhwng diwrnod tywyll a dyfodol gwell. Mae modd i'r asedau sydd gan gleifion gael eu nodi, eu gwerthfawrogi a'u rhoi ar waith yn yr ysbryd o urddas a pharch ac mewn hinsawdd o optimistiaeth therapiwtig. Mae'r rhain i gyd yn rhinweddau sydd wedi nodweddu datblygiad polisi a deddfwriaeth iechyd meddwl yn y Siambr hon. Maent yn wir yn bwysig i staff a chleifion yr ydym yn dibynnu ar eu hymrwymiad i frw ymlaen â'r agenda adferiad yma yng Nghymru.

17:23 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 1 is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw cytuno ar welliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly mae gwelliant 2 yn cael ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 3 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:24 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 4 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 4 ei dderbyn.

Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.

17:24	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 5. Does any Member object? There are no objections, therefore amendment 5 is agreed.</p> <p><i>Derbyniwyd gwelliant 5 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.</i></p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 5. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiadau, felly caiff gwelliant 5 ei dderbyn.</p> <p><i>Amendment 5 agreed in accordance with Standing Order 12.36.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:24	<p>Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>The proposal is to agree amendment 6. Does any Member object? There is objection, therefore I will conduct all the remaining votes under this item during voting time. Voting time now follows.</p> <p><i>Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.</i></p>	<p>Y cynnig yw derbyn gwelliant 6. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad, felly byddaf yn cynnal yr holl bleidleisiau sy'n weddill o dan yr eitem hon yn ystod y cyfnod pleidleisio. Mae amser pleidleisio yn dilyn.</p> <p><i>Voting deferred until voting time.</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
17:24	<p>Cyfnod Pleidleisio</p> <p>Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Before I proceed to the rest of the voting, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not, so we will vote on amendment 6.</p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 6 i gynnis NDM5521.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 7 i gynnis NDM5521.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 25, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 8 i gynnis NDM5521.</p> <p><i>Gwrthodwyd y gwelliant: O blaid 26, Yn erbyn 27, Ymatal 0.</i></p> <p>Canlyniad y bleidlais ar welliant 9 i gynnis NDM5521.</p> <p><i>Derbyniwyd y gwelliant: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.</i></p> <p>Cynnig NDM5521 fel y'i diwygiwyd:</p> <p>Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:</p> <ol style="list-style-type: none"> Yn nodi'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a lles yng Nghymru. Yn nodi bod Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed: Adolygiad Dilynol o Faterion Diogelwch 2013, wedi canfod bod 'plant a phobl ifanc yn parhau i wynebu risg oherwydd eu bod yn cael eu derbyn yn amhriodol i wardiau iechyd meddwl oedolion' ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i sefydlu gweithdrefn gadarnach i fyrddau iechyd adrodd ar leoliadau amhriodol ar wardiau iechyd meddwl oedolion. 	<p>Voting Time</p> <p>Cyn i mi fynd ymlaen at weddill y pleidleisio, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes, felly byddwn yn pleidleisio ar welliant 6.</p> <p>Result of the vote on amendment 6 to motion NDM5521.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 7 to motion NDM5521.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 25, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 8 to motion NDM5521.</p> <p><i>Amendment not agreed: For 26, Against 27, Abstain 0.</i></p> <p>Result of the vote on amendment 9 to motion NDM5521.</p> <p><i>Amendment agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.</i></p> <p>Motion NDM5521 as amended:</p> <p>To propose that the National Assembly for Wales:</p> <ol style="list-style-type: none"> Notes Welsh Government action to improve mental health and well-being in Wales. Notes that the Child and Adolescent Mental Health Services: Follow-up Review of Safety Issues 2013, found that 'children and young people continue to be put at risk due to inappropriate admissions to adult mental health wards' and calls on the Welsh Government to establish a firmer procedure for health boards to report on inappropriate placements on adult mental health wards. 	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith cenedlaethol i sicrhau parhad triniaeth yn y cyfnod pontio rhwng Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Oedolion, gan gynnwys system wedi ei symleiddio i rannu gwybodaeth rhwng darparwyr.

4. Yn cydnabod yr angen i wella trefniadau pontio ar gyfer y rheiny sy'n symud o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed i'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion.

5. Yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i neilltuo gwariant ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru ac yn galw am drefniadau monitro gwell gan fyrddau iechyd lleol er mwyn sicrhau y cyflawnir yr ymrwymiad hwn.

6. Yn nodi'r cysylltiadau rhwng iechyd meddwl a lles gwael a ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol anffafriol a ffactorau croes eraill, ac yn galw am gydwethrediad gwell rhwng y GIG ac awdurdodau lleol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

7. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad o'r Fframwaith Anhwylderau Bwyta.

3. Calls on the Welsh Government to introduce a national framework to ensure continuity of treatment in the transition between Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Mental Health Services, including a streamlined information sharing system between providers.

4. Recognises the need to improve transitional arrangements for those moving from Child and Adolescent Mental Health Services to Adult Mental Health services.

5. Notes the Welsh Government's commitment to ring-fencing spending on mental health services in Wales and calls for improved monitoring arrangements by local health boards to ensure that this commitment is met.

6. Notes the links between poor mental health and well-being and adverse economic, social, environmental and other factors, and calls for improved collaboration between the NHS and local authorities to tackle these.

7. Calls on the Welsh Government to carry out a review of the Eating Disorder Framework.

[Canlyniad y bleidlais ar gynnis NDM5521 fel y'i diwygiwyd.](#)

[Result of the vote on motion NDM5521 as amended.](#)

Derbyniwyd y cynnis: O blaid 53, Yn erbyn 0, Ymatal 0.

Motion agreed: For 53, Against 0, Abstain 0.

17:26

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:26.

The meeting ended at 17:26.